# Cofnod y Trafodion
# The Record of Proceedings
# 22/05/2013

Cynnwys Contents


Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid
Questions to the Minister for Finance

Cwestiynau i’r Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth
Questions to the Minister for Local Government and Government Business

Cwestiwn Brys: Rhaglen Ad-drefnu Ysbytai De Cymru
Urgent Question: The South Wales Hospital Reorganisation Programme

Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad
Questions to the Assembly Commission

Dadl ar Araith y Frenhines
Debate on the Queen’s Speech

Adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar Fuddsoddi i Arbed
The Finance Committee's Report on Invest to Save

Dadl Fer: Pa Mor Ddiogel yw Diogel?: Goblygiadau i'r Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 o ystyried Bil Teithio Llesol (Cymru)
Short Debate: How Safe is Safe?: Implications for the Learner Travel (Wales) Measure 2008 in view of the Active Travel (Wales) Bill


*Cyfarfu’r Cynulliad am 1.30 p.m. gyda’r Dirprwy Lywydd (David Melding) yn y Gadair.*

*The Assembly met at 1.30 p.m. with the Deputy Presiding Officer (David Melding) in the Chair.*

13:30

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

The National Assembly is in session.

Y Cynulliad Cenedlaethol yn eistedd.

## Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid

## Questions to the Minister for Finance

### Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol

### National Procurement Service

13:30

## Julie James

Bywgraffiad Biography

*1. A wnaiff y Gweinidog roi’r wybodaeth ddiweddaraf am nifer sefydliadau'r sector cyhoeddus sydd wedi ymrwymo i'r gwasanaeth caffael cenedlaethol? OAQ(4)0259(FIN)*

*1. Will the Minister provide an update on the number of public sector organisations that have signed up for the national procurement service? OAQ(4)0259(FIN)*

13:30

## Jane Hutt

Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Cyllid / The Minister for Finance*

Seventy-six organisations have agreed to join the national procurement service, including all local authorities, local health boards, universities, colleges and now all emergency services authorities.

Mae 76 o sefydliadau wedi cytuno i ymuno â’r gwasanaeth caffael cenedlaethol, gan gynnwys pob awdurdod lleol, bwrdd iechyd lleol, prifysgol, coleg ac yn awr pob awdurdod gwasanaethau brys.

13:30 **Julie James** Bywgraffiad Biography

Thank you for that, Minister; that is very good news indeed. As you know, I very much welcome the development of the national procurement service, and I hope, Minister, that as part of the standardised contractual arrangements that secure the supply chain for small and medium-sized enterprises hopefully here in Wales, we can ensure that businesses are paid in a timely manner, as this can often mean the difference between a small and medium-sized enterprise carrying on or not carrying on. This could be part of the guidelines that we put in place. Could you reassure me that you propose to put a prompt payment service into those arrangements?

Diolch ichi am hynny, Weinidog; mae hynny'n newyddion da iawn yn wir. Fel y gwyddoch, croesawaf yn fawr iawn y gwaith o ddatblygu'r gwasanaeth caffael cenedlaethol, a gobeithiaf, Weinidog, fel rhan o'r trefniadau cytundebol safonol sy'n diogelu'r gadwyn gyflenwi ar gyfer mentrau bach a chanolig yma yng Nghymru gobeithio, y gallwn sicrhau bod busnesau yn cael eu talu mewn modd amserol, gan mai hyn, yn aml, yw'r gwahaniaeth rhwng menter fach a chanolig yn gallu parhau ai peidio. Gallai hyn fod yn rhan o'r canllawiau a roddwyd ar waith gennym. A allech fy sicrhau eich bod yn bwriadu darparu gwasanaeth talu prydlon ar gyfer y trefniadau hynny?

13:31 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

I thank Julie James for that question and assure her that we will ensure that fair payment terms throughout the supply chain enables that vital cash flow to move quickly to support business growth and prosperity. Also, the Welsh Government has, through the construction procurement steering group, issued a fair payment charter for Wales, which will strengthen the approach. The national procurement service will fully adopt the Wales procurement policy statement, and principle 6 covers prompt payment of all correct invoices.

Diolch i Julie James am y cwestiwn hwnnw a gallaf ei sicrhau y byddwn yn gwneud yn siŵr bod telerau talu teg ar draws y gadwyn gyflenwi yn golygu y gall y llif arian hanfodol symud yn gyflym i gefnogi twf busnes a ffyniant. Hefyd, mae Llywodraeth Cymru, drwy'r grŵp llywio caffael adeiladu, wedi cyhoeddi siarter talu teg i Gymru, a fydd yn atgyfnerthu'r dull o weithredu. Bydd y gwasanaeth caffael cenedlaethol yn mabwysiadu datganiad polisi caffael Cymru yn llawn, ac mae egwyddor 6 yn cynnwys talu pob anfoneb gywir yn brydlon.

13:31 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

In terms of procurement and the use of Welsh Government funds, Minister, the return of Wales Rally GB to north Wales has promised to bring much welcomed funds to the region. To accommodate the opening stage, a block booking of a prominent hotel in Llandudno was placed. This booking has subsequently been cancelled to instead book hotels in Chester over the border. Minister, £1.5 million of Welsh Government money has gone into this event. What safeguards are in place to ensure that money spent on events such as this benefits Welsh organisations, and will you also write to Wales Rally GB about how it has been prioritising the use of this £1.5 million?

O ran caffael a defnyddio arian Llywodraeth Cymru, Weinidog, mae'r ffaith bod Rali Cymru Prydain Fawr yn dychwelyd i'r gogledd yn addo dod ag arian sydd ei angen yn fawr i'r rhanbarth. Ar gyfer y cam agoriadol, gwnaed archeb bloc ar gyfer lle mewn gwesty blaenllaw yn Llandudno. Mae'r archeb hon wedi'i chanslo bellach, ac yn lle hynny, archebwyd llefydd mewn gwestai yng Nghaer dros y ffin. Weinidog, mae £1.5 miliwn o arian Llywodraeth Cymru wedi mynd i'r digwyddiad hwn. Pa fesurau diogelu sydd ar waith i sicrhau bod arian a gaiff ei wario ar ddigwyddiadau fel hyn o fudd i sefydliadau yng Nghymru, ac a fyddwch hefyd yn ysgrifennu at Rali Cymru Prydain Fawr am y ffordd y mae wedi bod yn blaenoriaethu'r defnydd o'r £1.5 hwn?

13:32 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

I am sure that Janet Finch-Saunders, like Assembly Members across this Chamber, will very much welcome the exciting news that the event is moving to north Wales. It is exciting news for Wales Rally GB and for the area, and I know that the Minister for Economy, Science and Transport will maximise the economic impact in north Wales. It is one of our flagship events, and, of course, we are committed to working with Wales Rally GB to ensure that it has significant links in terms of tourism and economic impact.

Rwy'n siŵr y bydd Janet Finch-Saunders, fel Aelodau'r Cynulliad ar draws y Siambr hon, yn croesawu'n fawr y newyddion cyffrous bod y digwyddiad yn symud i'r gogledd. Mae'n newyddion cyffrous i Rali Cymru Prydain Fawr ac i'r ardal, a gwn y bydd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn gwneud y gorau o'r effaith economaidd yn y gogledd. Mae'n un o'n prif ddigwyddiadau, ac, wrth gwrs, rydym wedi ymrwymo i weithio gyda Rali Cymru Prydain Fawr i sicrhau bod ganddo gysylltiadau sylweddol o ran yr effaith ar dwristiaeth a'r economi.

13:33 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Rydym yn mawr obeithio y bydd y gwasanaeth caffael cenedlaethol yn dod â budd i gwmnïau o Gymru. Serch hynny, mae nifer o gyrff cyhoeddus sydd eisoes yn llwyddiannus iawn yn gosod eu contractau gyda chwmnïau lleol. A wnewch chi ymuno â mi, Weinidog, i longyfarch Cyngor Gwynedd, sy'n llwyddo i osod 66%—dwy ran o dair—o'i gytundebau gyda chwmnïau o Gymru? Petai pob cyngor sir a phob corff cyhoeddus yn cyrraedd yr un safon, byddai hynny'n gwneud byd o wahaniaeth i gwmnïau ac i weithwyr Cymru.

We very much hope that the national procurement services will bring benefits to companies from Wales. However, there are a number of public bodies that are already successful in laying contracts with local companies. Will you join me, Minister, in congratulating Gwynedd Council, which succeeds in laying 66%—two thirds—of its contracts with companies from Wales? If every county council and every public body were to achieve the same level, that would make a world of difference to Welsh companies and to the Welsh workforce.

13:34 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

I am very pleased to join Alun Ffred Jones in congratulating Gwynedd Council. I know that the Member will welcome the letter that I circulated to Members this week detailing the beneficiaries of the communities benefit measurements tool, which includes a number of local authorities, including Gwynedd Council, particularly in relation to schools buildings and the Welsh housing quality standard repairs programme, levering in those community benefits. Indeed, all local authorities have joined the national procurement service.

Mae'n bleser gennyf ymuno ag Alun Ffred Jones i longyfarch Cyngor Gwynedd. Gwn y bydd yr Aelod yn croesawu'r llythyr a ddosbarthais i'r Aelodau yr wythnos hon yn nodi buddiolwyr yr offeryn mesur buddiannau cymunedol, sy'n cynnwys nifer o awdurdodau lleol, gan gynnwys Cyngor Gwynedd, yn enwedig mewn perthynas ag adeiladau ysgolion a rhaglen atgyweiriadau safon ansawdd tai Cymru, gan fanteisio ar y buddiannau cymunedol hynny. Yn wir, mae pob awdurdod lleol wedi ymuno â'r gwasanaeth caffael cenedlaethol.

## Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd

## European Structural Funds

13:34 **Christine Chapman** Bywgraffiad Biography

*2. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y mae Llywodraeth Cymru'n defnyddio cronfeydd strwythurol Ewropeaidd er budd Cwm Cynon? OAQ(4)0260(FIN)*

*2. Will the Minister make a statement on how the Welsh Government is using European structural funds to benefit the Cynon Valley? OAQ(4)0260(FIN)*

13:34 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Communities across Wales, including the Cynon Valley, are benefiting significantly from European structural funds, creating jobs, supporting businesses, helping people into work and improving their skills.

Mae cymunedau ledled Cymru, gan gynnwys Cwm Cynon, yn cael budd sylweddol o gronfeydd strwythurol Ewropeaidd, gan greu swyddi, cefnogi busnesau, helpu pobl i gael gwaith a gwella eu sgiliau.

13:34 **Christine Chapman** Bywgraffiad Biography

The future model of delivery for structural funds should maximise the benefits for the Welsh economy and really give us a chance again to tackle some deep-rooted problems. How will the Welsh Government work to maximise grass-roots involvement and participation in the Cynon Valley and across Wales in the 2014-20 phase of structural funds, so that we do not miss out on some positive ideas and input?

Dylai'r model darparu ar gyfer cronfeydd strwythurol yn y dyfodol wneud y gorau o'r buddiannau i economi Cymru a rhoi cyfle gwirioneddol inni unwaith eto fynd i'r afael â phroblemau dwfn. Sut y bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio i fanteisio i'r eithaf ar gyfranogiad ar lawr gwlad a chyfranogiad yng Nghwm Cynon ac ar draws Cymru yng ngham 2014-20 y cronfeydd strwythurol, fel na fyddwn yn colli allan ar syniadau a mewnbwn cadarnhaol?

13:35 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

As the Member for Cynon Valley says, grass-roots involvement and community engagement is vital in terms of the impact that we want the next phase of structural funds to have on our communities, individuals, and businesses. Partnership is at the heart of the development of delivery in future European structural funds, and the third sector plays a key role in that. I am pleased, for example, in terms of the Cynon Valley, to see an exciting pupil project, which I will visit shortly and which is led by Cynon Valley Crime Prevention Association. This project is engaging young people who are at risk of social exclusion.

Fel y dywed yr Aelod dros Gwm Cynon, mae cyfranogiad ar lawr gwlad ac ymgysylltu â'r gymuned yn hanfodol o ran yr effaith yr ydym am i'r cam nesaf o gronfeydd strwythurol ei chael ar ein cymunedau, unigolion a busnesau. Mae partneriaeth wrth wraidd y gwaith o ddatblygu'r ddarpariaeth mewn cronfeydd strwythurol Ewropeaidd yn y dyfodol, ac mae'r trydydd sector yn chwarae rôl allweddol yn hynny o beth. Rwy'n falch, er enghraifft, o ran Cwm Cynon, o weld prosiect cyffrous i ddisgyblion, y byddaf yn ymweld ag ef cyn hir, a arweinir gan Gymdeithas Atal Troseddau Cwm Cynon. Mae'r prosiect hwn yn ymgysylltu â phobl ifanc sydd mewn perygl o gael eu hallgáu'n gymdeithasol.

13:36 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition*

Minister, what actions are you taking as a Government to hold a lessons-learned exercise? Previous tranches of European money have failed to deliver on their objectives, and given that we are to expect to have a third tranche now, areas such as the Cynon Valley cannot afford a third round of failure by the Welsh Labour Government. Therefore, what hard-and-fast examples of failure can you point to that you will not be repeating in the third tranche of funding for areas such as the Cynon Valley?

Weinidog, pa gamau rydych yn eu cymryd fel Llywodraeth i gynnal ymarfer gwersi a ddysgwyd? Mae cyfrannau blaenorol o arian Ewropeaidd wedi methu â chyflawni eu hamcanion, ac o gofio ein bod yn disgwyl cael trydedd gyfran yn awr, ni all ardaloedd fel Cwm Cynon fforddio trydydd cylch o fethiant gan Lywodraeth Lafur Cymru. Felly, pa enghreifftiau caled a chyflym o fethiant y gallwch gyfeirio atynt na fyddwch yn eu hailadrodd yn y drydedd gyfran o gyllid ar gyfer ardaloedd megis Cwm Cynon?

13:36 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

I believe that the leader of the opposition was in the Chamber last week—indeed, I hope that he was—to hear my statement in response to Grahame Guilford's important review on how we can take forward the next phase of structural funds. However, I wish to remind the leader of the opposition that EU funds have benefited Rhondda Cynon Taf, which is in his region. In the Cynon Valley, for example, that includes helping over 17,000 people to gain qualifications; helping 4,000 people into further learning; and helping over 17,000 people into work—that is in this phase. EU projects—and it is important for the Member to hear this—have created 320 enterprises, and over 1,200 gross jobs in Rhondda Cynon Taf.

Credaf fod arweinydd yr wrthblaid yn y Siambr yr wythnos diwethaf—yn wir, rwy'n gobeithio ei fod yno—i glywed fy natganiad mewn ymateb i adolygiad pwysig Grahame Guilford ar sut y gallwn fwrw ymlaen â'r cam nesaf o gronfeydd strwythurol. Fodd bynnag, hoffwn atgoffa arweinydd yr wrthblaid bod cronfeydd yr UE wedi bod o fudd i Rondda Cynon Taf, sydd yn ei ranbarth. Yng Nghwm Cynon, er enghraifft, mae hynny'n cynnwys helpu dros 17,000 o bobl i ennill cymwysterau; helpu 4,000 o bobl i mewn i addysg bellach; a helpu dros 17,000 o bobl i mewn i waith—mae hynny yn ystod y cam hwn. Mae prosiectau'r UE—ac mae'n bwysig i'r Aelodau glywed hyn—wedi creu 320 o fentrau, a thros 1,200 o swyddi gros yn Rhondda Cynon Taf.

13:37 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru*

Minister, over the last month, Plaid Cymru has been working in the European Parliament to secure a £5 billion-scheme to tackle high levels of youth unemployment in the EU. This scheme would be of particular benefit to the Cynon Valley, where a staggering 49.7% of 16 to 24-year-olds are without a job. Therefore, the picture is not as rosy as the one that you may be prepared to paint. Do you therefore regret that such schemes are threatened by the political point scoring and posturing of Members of your party—and others—in Westminster and in Europe over the future of the EU budget?

Weinidog, dros y mis diwethaf, mae Plaid Cymru wedi bod yn gweithio yn Senedd Ewrop i sicrhau cynllun gwerth £5 biliwn i fynd i'r afael â lefelau uchel o ddiweithdra ymhlith pobl ifanc yn yr UE. Byddai'r cynllun hwn o fudd arbennig i Gwm Cynon, lle mae 49.7% o bobl ifanc 16 i 24 oed heb swydd, sy'n nifer syfrdanol. Felly, nid yw'r darlun mor gadarnhaol â'r un y byddech chi am ei greu. A ydych, felly, yn gresynu bod cynlluniau o'r fath yn cael eu bygwth gan ddull sgorio pwyntiau gwleidyddol ac ymhonni Aelodau o'ch plaid—ac eraill—yn San Steffan ac yn Ewrop dros ddyfodol cyllideb yr UE?

13:38 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

I am surprised that the leader of Plaid Cymru does not recognise and applaud the success of those EU projects that are delivering benefits in Rhondda Cynon Taf. She should recognise what has been done in terms of skills and training, regenerating our communities, and ensuring that our people have the right skills via employment projects. She should also recognise, in terms of helping young people, another EU project in Christine Chapman's constituency—and indeed throughout Rhondda Cynon Taf—namely Building the Future Together. This projects works to improve the educational outcomes of young people who are at risk of underachieving because of a lack of skills, confidence and engagement. This is about all parties, across the Chamber, recognising the beneficial impact of European structural funds, and standing up for the next phase in terms of ensuring that we get our fair share in the EU budget, which has yet to be agreed by the European Parliament. I know that Labour Member of the European Parliament, Derek Vaughan, is working hard to achieve that.

Synnaf nad yw arweinydd Plaid Cymru yn cydnabod ac yn cymeradwyo llwyddiant prosiectau'r UE sy'n sicrhau buddiannau yn Rhondda Cynon Taf. Dylai gydnabod yr hyn a wnaed o ran sgiliau a hyfforddiant, gan adfywio ein cymunedau, a sicrhau bod gan ein pobl y sgiliau cywir drwy brosiectau cyflogaeth. Dylai hefyd gydnabod, o ran helpu pobl ifanc, brosiect arall gan yr UE yn etholaeth Christine Chapman—ac yn wir ar draws Rhondda Cynon Taf—sef Adeiladu'r Dyfodol Gyda'n Gilydd. Nod y prosiect hwn yw gwella deilliannau addysgol pobl ifanc sydd mewn perygl o dangyflawni oherwydd diffyg sgiliau, hyder ac ymgysylltiad. Mae a wnelo hyn â phob plaid, ar draws y Siambr, yn cydnabod effaith fuddiol cronfeydd strwythurol Ewropeaidd, ac yn sefyll i fyny ar gyfer y cam nesaf o ran sicrhau ein bod yn cael ein cyfran deg yng nghyllideb yr UE, nad yw Senedd Ewrop wedi cytuno arni eto. Gwn fod yr Aelod Llafur o Senedd Ewrop, Derek Vaughan, yn gweithio'n galed i gyflawni hynny.

### Gweinidogion Cyfatebol yn Ewrop

### European Counterparts

13:39 **David Rees** Bywgraffiad Biography

*3. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am nifer y cyfarfodydd y mae wedi eu cynnal gyda gweinidogion cyfatebol yn Ewrop i drafod cronfeydd strwythurol? OAQ(4)0257(FIN)*

*3. Will the Minister make a statement on the number of meetings she has held with European counterparts to discuss structural funds? OAQ(4)0257(FIN)*

13:39 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

I have met with Welsh MEPs and European Commission officials to discuss European structural funds in Wales. I will be meeting with European Commissioners and senior officials in Brussels in June, as well as attending the joint ministerial council for Europe in London.

Cwrddais ag ASEau Cymru a swyddogion y Comisiwn Ewropeaidd i drafod cronfeydd strwythurol Ewropeaidd yng Nghymru. Byddaf yn cyfarfod â Chomisiynwyr Ewropeaidd ac uwch swyddogion ym Mrwsel ym mis Mehefin, yn ogystal â mynychu cydgyngor gweinidogion Ewrop yn Llundain.

13:39 **David Rees** Bywgraffiad Biography

Thank you for that answer, Minister. Following on from your previous points, the Prime Minister failed to protect structural funds when he made the agreement on the proposed EU budget with the European Council of Ministers back in February. There will be an estimated cut to structural funds in Wales of, possibly, £400 million. I am aware of the work that has already been done by the Welsh Government, as well as Derek Vaughan and other MEPs, which may result in that deficit being reduced. What further action will you, along with your UK and European counterparts, to minimise the impact of reduced structural funds on areas such as west Wales and the valleys?

Diolch ichi am yr ateb hwnnw, Weinidog. Yn dilyn ymlaen o'ch pwyntiau blaenorol, methodd y Prif Weinidog â diogelu cronfeydd strwythurol pan wnaeth y cytundeb ar gyllideb arfaethedig yr UE gyda Chyngor Gweinidogion Ewrop yn ôl ym mis Chwefror. Mae'n bosibl y caiff cronfeydd strwythurol yng Nghymru eu cwtogi £400 miliwn. Rwy'n ymwybodol o'r gwaith a wnaed eisoes gan Lywodraeth Cymru, yn ogystal â Derek Vaughan ac ASEau eraill, a all arwain at leihau'r diffyg hwnnw. Pa gamau pellach y byddwch chi, ynghyd â'ch cymheiriaid yn y DU ac yn Ewrop, yn eu cymryd er mwyn lleihau effaith y gostyngiad mewn cronfeydd strwythurol ar ardaloedd fel y gorllewin a'r cymoedd?

13:40 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Thank you, David Rees. I think we must again take the opportunity to say that being part of Europe and the European Union investment funds are vital for growth and jobs in Wales, particularly for vulnerable regions such as west Wales and the valleys. Of course, as David Rees acknowledges, the work of MEPs like Derek Vaughan has been proactive in minimising the impact of a potential reduction of £400 million. We worked with MEPs to ensure that we minimised that impact. I would say that the Prime Minister listened to our arguments here, as he has sought to deliver a fairer and more equitable arrangement than the one originally proposed. Parts of the UK will now take a 5% cut in their structural funds budget settlement. That still represents a reduction of about £60 million for our Welsh budget. I endorse Derek Vaughan's efforts and those of the European Parliament to increase the flexibility cap to 4%, thus making sure that there is more flexibility to redirect resources to the poorest regions. I will be meeting with all MEPs over the next two weeks, so I will be able to engage with them on this important and, I think, united call to get the maximum flexibility in Wales for our funds from Europe.

Diolch ichi, David Rees. Credaf y dylem unwaith eto achub ar y cyfle i ddweud bod bod yn rhan o Ewrop a chronfeydd buddsoddi'r Undeb Ewropeaidd yn hanfodol ar gyfer twf a swyddi yng Nghymru, yn enwedig ar gyfer rhanbarthau sy'n agored i niwed, fel y gorllewin a'r cymoedd. Wrth gwrs, fel y cydnabu David Rees, mae gwaith ASEau fel Derek Vaughan wedi bod yn rhagweithiol wrth leihau effaith gostyngiad posibl o £400 miliwn. Buom yn gweithio gydag ASEau i sicrhau ein bod yn lleihau'r effaith honno i'r eithaf. Byddwn yn dweud bod y Prif Weinidog wedi gwrando ar ein dadleuon yma, gan ei fod wedi ceisio sicrhau trefniant tecach a mwy cyfiawn na'r un a gynigiwyd yn wreiddiol. Bydd gostyngiad o 5% yn setliad cyllideb cronfeydd strwythurol rhannau o'r DU yn awr. Mae hynny'n dal yn golygu gostyngiad o tua £60 miliwn ar gyfer ein cyllideb yng Nghymru. Cymeradwyaf ymdrechion Derek Vaughan a'r rhai yn Senedd Ewrop i gynyddu'r cap hyblygrwydd i 4%, gan sicrhau bod mwy o hyblygrwydd i ailgyfeirio adnoddau i'r rhanbarthau tlotaf. Byddaf yn cyfarfod â'r holl ASEau dros y pythefnos nesaf, felly gallaf ymgysylltu â hwy ar yr alwad bwysig, ac unedig hon yn fy marn i, er mwyn sicrhau'r hyblygrwydd mwyaf yng Nghymru ar gyfer ein cyllid o Ewrop.

13:41 **Byron Davies** Bywgraffiad Biography

Minister, on the issue of structural funds, during your meetings and discussions, did you discuss investing in the M4 in order to ease congestion and to enhance economic development in south Wales?

Weinidog, o ran cronfeydd strwythurol, yn ystod eich cyfarfodydd a'ch trafodaethau, a wnaethoch drafod buddsoddi yn yr M4 er mwyn lleihau tagfeydd a gwella datblygiad economaidd yn y de?

13:42 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Clearly, infrastructure is important in terms of the way forward for financing important transport developments like the M4. We are presently negotiating very constructively with the UK Government about accessing our borrowing powers in order to strengthen and enhance the M4 improvements that all of us in this Chamber wish to take forward.

Yn amlwg, mae seilwaith yn bwysig o ran y ffordd ymlaen ar gyfer ariannu datblygiadau trafnidiaeth pwysig fel yr M4. Ar hyn o bryd, rydym yn cael trafodaethau adeiladol iawn gyda Llywodraeth y DU ynghylch defnyddio ein pwerau benthyca er mwyn atgyfnerthu ac ategu'r gwelliannau i'r M4 y mae pob un ohonom yn y Siambr hon yn dymuno bwrw ymlaen â hwy.

13:42 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Weinidog, rwy'n falch iawn y byddwch yn cwrdd â'r Aelodau Seneddol Ewropeaidd yn ystod yr wythnosau nesaf. Fe wnewch chi ddarganfod bryd hynny, siŵr o fod, fod Derek Vaughan wedi atal ei bleidlais ar y gyllideb o ran y toriadau a fydd yn effeithio'n uniongyrchol ar Gymru, bod Kay Swinburne a John Bufton wedi pleidleisio o blaid y toriadau hynny, ac mae'r unig ASE o Gymru a bleidleisiodd yn erbyn y gyllideb oedd Jill Evans o Blaid Cymru. Rwy'n ddiolchgar ichi am y cyfarfod a gawsom i drafod y posibiliadau o ran gwneud y gorau o'r cyllid strwythurol hwn. Rwy'n siŵr y byddwch yn cytuno bod yr opsiynau a gynigir gan y Banc Buddsoddi Ewrop yn cynnig cyfleoedd gwirioneddol i Gymru i wneud y gorau o'r cronfeydd hyn.

Minister, I am very pleased that you are to meet Members of the European Parliament over the next few weeks. You will discover at that time, I am sure, that Derek Vaughan abstained on the budget in terms of the cuts that would have a direct impact on Wales, that Kay Swinburne and John Bufton voted in favour of the cuts, and that the only Welsh MEP who voted against the budget was Plaid Cymru's Jill Evans. I am grateful to you for the meeting that we had to discuss the possibilities in terms of making the most of these structural funds. I am sure that you would agree that the options made available by the European Investment Bank offer real opportunities for Wales to make the most of the funds.

13:43 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

I thank Rhodri Glyn Thomas for the meeting that we had last week. I was able to learn from his informed opinions that he has put forward as a result of his role in the Committee of the Regions. I very much welcome the opportunities to follow that up in our contacts with the European Investment Bank. I also look forward, as I will with all our MEPs, to meeting Jill Evans in due course.

Diolch i Rhodri Glyn Thomas am y cyfarfod a gawsom yr wythnos diwethaf. Dysgais o'r farn wybodus a gyflwynodd o ganlyniad i'w rôl ym Mhwyllgor y Rhanbarthau. Croesawaf yn fawr y cyfleoedd i ategu hynny yn ein cysylltiadau â Banc Buddsoddi Ewrop. Edrychaf ymlaen hefyd, at gyfarfod â Jill Evans maes o law, fel y byddaf gyda'n holl ASEau.

## Arferion Chwythu'r Chwiban

## Whistleblowing Practice

13:43

### Angela Burns Bywgraffiad Biography

*4. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ba gosbau sydd ar gael iddi wrth ymdrin â sefydliadau y mae ganddi bryderon amdanynt ynghylch eu harferion chwythu'r chwiban? OAQ(4)0263(FIN)*

*4. Will the Minister make a statement on what sanctions are available to her in dealing with organisations which she has concerns with over their whistleblowing practice? OAQ(4)0263(FIN)*

13:44

### Jane Hutt Bywgraffiad Biography

Although employment policy is not devolved, organisations are responsible for establishing and following their own robust whistleblowing policies. The Welsh Government is encouraging the highest standards in public service organisations by leading as an exemplar and by promoting the sharing of best practice.

Er nad yw polisi cyflogaeth wedi'i ddatganoli, mae sefydliadau yn gyfrifol am sefydlu a dilyn eu polisïau chwythu'r chwiban cadarn eu hunain. Mae Llywodraeth Cymru yn annog y safonau uchaf mewn sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus drwy arwain fel esiampl a thrwy hyrwyddo'r broses o rannu arfer gorau.

13:44

### Angela Burns Bywgraffiad Biography

Thank you for that. I appreciate your statement of 17 April on this very topic. I note the Government's intention and desire, that remits have been widened, that you have secondees from the Wales Audit Office involved, that more training is going on, and that you have many undertakings from chief executives of local health boards and NHS trusts. I also accept that it is not your responsibility to be the conduit for all whistleblowing activity in Wales, but I have concerns that there are still some organisations out there—and I will name and shame them. The police are at the top; people are having real issues and they cannot get justice or a fair hearing. I wonder what sanctions you could possibly impose to encourage those organisations—we saw what happened recently at the Mid Staffordshire NHS Foundation Trust—to ensure that they follow the very clear principles that I know that this Government laid out in the statement on 17 April.

Diolch ichi am hynny. Gwerthfawrogaf eich datganiad ar 17 Ebrill ar yr union bwnc hwn. Nodaf fwriad ac awydd y Llywodraeth, bod cylchoedd gwaith wedi eu hehangu, bod rhai ar secondiad o Swyddfa Archwilio Cymru yn cael eu cynnwys, bod mwy o hyfforddiant yn mynd ymlaen, a'ch bod wedi cael llawer o addewidion gan brif weithredwyr byrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG. Derbyniaf hefyd nad eich cyfrifoldeb chi yw bod yn gyfryngwr ar gyfer yr holl weithgarwch chwythu'r chwiban yng Nghymru, ond mae gennyf bryderon bod rhai sefydliadau nad ydynt yn cydweithredu o hyd—a byddaf yn eu henwi ac yn codi cywilydd arnynt. Mae'r heddlu ar y brig; mae pobl yn cael problemau go iawn ac ni allant gael cyfiawnder neu wrandawiad teg. Tybed pa sancsiynau y gallech eu gosod i annog y sefydliadau hynny— gwelsom yr hyn a ddigwyddodd yn ddiweddar yn Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Swydd Stafford—er mwyn sicrhau eu bod yn dilyn yr egwyddorion clir iawn y gwn i'r Llywodraeth hon eu gosod yn y datganiad ar 17 Ebrill.

13:45

### Jane Hutt Bywgraffiad Biography

I thank Angela Burns for that question. The Welsh Government has sought assurances from the chief executives of our local health boards and NHS trust that they have whistleblowing policies in place. Also, I have written to the UK Government's Minister for employment relations to ensure that Wales is consulted as part of its recently announced review of whistleblowing legislation, and asking that it protects those who speak out. Police is a non-devolved matter, but the importance of our leadership on this issue is clear.

Diolch i Angela Burns am y cwestiwn hwnnw. Mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio sicrwydd gan brif weithredwyr ein byrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaeth y GIG bod ganddynt bolisïau chwythu'r chwiban ar waith. Hefyd, rwyf wedi ysgrifennu at Weinidog cysylltiadau cyflogaeth Llywodraeth y DU i sicrhau yr ymgynghorir â Chymru fel rhan o'i hadolygiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar o ddeddfwriaeth chwythu'r chwiban, ac yn gofyn iddo amddiffyn y rhai sy'n lleisio barn. Nid yw'r heddlu wedi'i ddatganoli, ond mae pwysigrwydd ein harweiniad ar y mater hwn yn glir.

13:45

### Lindsay Whittle Bywgraffiad Biography

Minister, we know that there are still incidents in social services in Wales of totally unacceptable and unprofessional treatment of vulnerable people. What measures have you put in place to ensure that all local authorities in Wales are actively encouraging staff to report examples of neglect or ill treatment, and are you monitoring those measures?

Weinidog, gwyddom fod yna achosion yn codi o hyd yn y gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru o bobl sy'n agored i niwed yn cael eu trin mewn modd cwbl annerbyniol ac amhroffesiynol. Pa fesurau rydych wedi'u rhoi ar waith i sicrhau bod pob awdurdod lleol yng Nghymru yn mynd ati i annog staff i roi gwybod am enghreifftiau o esgeulustod neu driniaeth wael, ac a ydych yn monitro'r mesurau hynny?

13:46 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

As I said, the Welsh Government is providing leadership in terms of our powers on whistleblowing in Wales. We are ensuring that we are an exemplar of the whistleblowing process and that the bodies for which we have direct accountability have those proper processes in place. Local government is part of that partnership. Also, we are continuing to work with the Wales Audit Office and others to promote the sharing of good practice, which, as Lindsay Whittle identified, is key to this point.

Fel y dywedais, mae Llywodraeth Cymru yn rhoi arweiniad o ran ein pwerau ar chwythu'r chwiban yng Nghymru. Rydym yn sicrhau ein bod yn enghraifft o'r broses chwythu chwiban a bod gan y cyrff y mae gennym gyfrifoldeb uniongyrchol amdanynt brosesau priodol ar waith. Mae llywodraeth leol yn rhan o'r bartneriaeth honno. Hefyd, rydym yn parhau i weithio gyda Swyddfa Archwilio Cymru ac eraill i hyrwyddo'r broses o rannu arfer da, sydd, fel y nododd Lindsay Whittle, yn allweddol i'r pwynt hwn.

13:46 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Weinidog, mae eich datganiad ar 17 Ebrill yn dweud bod panel wedi'i sefydlu a'ch bod yn ehangu ei aelodaeth. Pa mor aml mae'r panel yn cyfarfod? A yw cofnodion y panel ar gael yn gyhoeddus, o ystyried y pryderon sydd o flaen y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar hyn o bryd ynglŷn â nifer o achosion?

Minister, your statement of 17 April says that a panel has been established and that you are extending its membership. How often does that panel meet? Are the panel's minutes publicly available, given the concerns that are currently before the Public Accounts Committee on a number of cases?

13:47 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

I would be happy to bring back a written statement to update Members on this matter.

Byddwn yn hapus i ddod â datganiad ysgrifenedig yn ôl i ddiweddaru'r Aelodau ar y mater hwn.

## Contractau Caffael Cyhoeddus

## Public Procurement Contracts

13:47 **David Rees** Bywgraffiad Biography

*5. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i sicrhau bod contractau caffael cyhoeddus yn cael eu dyfarnu i gwmnïau a chanddynt safonau moesegol a moesol uchel? OAQ(4)0256(FIN)*

*5. What action is the Welsh Government taking to ensure public procurement contracts are awarded to companies with high ethical and moral standards? OAQ(4)0256(FIN)*

13:47 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Welsh Government is committed to ethical sourcing and expects public bodies to do business with like-minded suppliers. The Wales procurement policy statement supports the delivery of economic, environmental and social benefits.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i gyrchu moesegol ac yn disgwyl i gyrff cyhoeddus wneud busnes gyda chyflenwyr o'r un anian. Mae datganiad polisi caffael Cymru yn cefnogi'r gwaith o sicrhau buddiannau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol.

13:47 **David Rees** Bywgraffiad Biography

Thank you for that answer, Minister. We have heard of the scandal of unacceptable behaviour by some companies through the using of blacklisting practices, which have denied workers the opportunity to gain employment. To date, the Welsh Government has effectively used social clauses in public procurement contracts to create improved employment opportunities for local people while awarding contracts. Will you now consider using a similar clause to ensure that publicly funded contracts are only awarded to companies that undertake best practices in employment and not to those who have applied scandalous practices, such as blacklisting?

Diolch ichi am yr ateb hwnnw, Weinidog. Clywsom am sgandal ymddygiad annerbyniol rhai cwmnïau yn defnyddio arferion cosbrestru, sydd wedi gwadu'r cyfle i weithwyr gael gwaith. Hyd yma, mae Llywodraeth Cymru wedi defnyddio cymalau cymdeithasol yn effeithiol mewn contractau caffael cyhoeddus i greu gwell cyfleoedd cyflogaeth i bobl leol wrth ddyfarnu contractau. A wnewch chi yn awr ystyried defnyddio cymal tebyg i sicrhau bod contractau a ariennir yn gyhoeddus ond yn cael eu dyfarnu i gwmnïau sy'n cynnal arferion gorau ym maes cyflogaeth ac nid i'r rhai sydd wedi cymhwyso arferion gwarthus, fel cosbrestru?

13:48 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

I thank the Member for Aberavon for that question. The use of blacklists is wholly unacceptable. We fully sympathise with the individuals and their families who have suffered terrible injustice. In fact, the existing legislative framework prohibits the use of blacklists. We expect businesses to comply with this law when delivering public contracts in Wales. We are developing a procurement advice note advising how best to address blacklisting for all construction procurement staff across the Welsh public sector.

Diolch i'r Aelod dros Aberafan am y cwestiwn hwnnw. Mae'r defnydd o gosbrestrau yn gwbl annerbyniol. Rydym yn cydymdeimlo'n llwyr â'r unigolion a'u teuluoedd sydd wedi dioddef anghyfiawnder ofnadwy. Yn wir, mae'r fframwaith deddfwriaethol presennol yn gwahardd defnyddio cosbrestrau. Rydym yn disgwyl i fusnesau gydymffurfio â'r gyfraith wrth ddarparu contractau cyhoeddus yng Nghymru. Rydym yn datblygu nodyn cyngor caffael yn nodi'r ffordd orau o fynd i'r afael ag arferion cosbrestru ar gyfer yr holl staff caffael adeiladu ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru.

13:48 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Minister, what work are you doing on public procurement to ensure that the social return on contracts can also be recognised and properly weighted as part of the decision-making process? There are social enterprises in my constituency that are concerned that, if the social return on the contracts that might be placed by local authorities and other public bodies are not properly recognised, there might be opportunities that are overlooked, which will not only have an economic benefit in constituencies such as mine, but also an impact on local communities.

Weinidog, pa waith rydych yn ei wneud ar gaffael cyhoeddus i sicrhau y gall yr elw cymdeithasol ar gontractau hefyd yn cael eu cydnabod a'u pwysoli'n briodol fel rhan o'r broses o wneud penderfyniadau? Mae mentrau cymdeithasol yn fy etholaeth yn pryderu, os na chaiff yr enillion cymdeithasol ar y contractau y gellid eu gosod gan awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill eu cydnabod yn briodol, efallai y caiff cyfleoedd eu hanwybyddu, a fydd, yn ogystal ag arwain at fuddiannau economaidd mewn etholaethau fel fy un i, hefyd yn effeithio ar gymunedau lleol.

13:49 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Darren Millar will be interested and pleased to hear that I met with the third sector on Monday as part of my ministerial meetings, and these issues were discussed. The third sector is fully engaged with us in ensuring that our procurement statement is delivered, to ensure that those organisations that can provide a social return have an opportunity to do so in terms of our public procurement.

Bydd gan Darren Millar ddiddordeb ac yn falch o glywed fy mod wedi cyfarfod â'r trydydd sector ddydd Llun fel rhan o'm cyfarfodydd gweinidogol, a thrafodwyd y materion hyn. Mae'r trydydd sector wedi ymroi yn llwyr â ni i sicrhau y caiff ein datganiad caffael ei gyflwyno, er mwyn sicrhau bod y sefydliadau hynny a all sicrhau elw cymdeithasol yn cael cyfle i wneud hynny o ran ein caffael cyhoeddus.

13:49 **Vaughan Gething** Bywgraffiad Biography

I would like to pick up from where David Rees left off. I thank you, Minister, for meeting with me and the GMB union regarding the issue of blacklisting in the construction industry. In your discussions with the UK Government, have you been able to ascertain whether Vince Cable has changed his position on the need for a public inquiry into the issue of blacklisting in the construction industry, particularly in light of the fact that the Information Commissioner acknowledges that the 3,000-plus names that we know exist on the blacklist only represent around 5% of the organisation's data?

Hoffwn barhau â phwynt David Rees. Diolch ichi, Weinidog, am gyfarfod â mi ac undeb y GMB ynghylch cosbrestru yn y diwydiant adeiladu. Yn eich trafodaethau â Llywodraeth y DU, gwnaethoch ganfod a yw Vince Cable wedi newid ei safbwynt ar yr angen am ymchwiliad cyhoeddus i'r arfer o gosbrestru yn y diwydiant adeiladu, yn enwedig yn wyneb y ffaith bod y Comisiynydd Gwybodaeth yn cydnabod bod y 3,000 a mwy o enwau y gwyddom eu bod yn bodoli ar y gosbrestr ond yn cynrychioli tua 5% o ddata'r sefydliad?

13:50 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

I very much welcomed the opportunity to meet with members of the GMB as a result of approaches from Vaughan Gething, and to discuss those concerns. In fact, you will probably find that the Wales TUC, even today—certainly this week—is discussing a motion calling for action on blacklisting. I have written to Vince Cable. I requested an update following his meeting with the Information Commissioner last month on the points that Vaughan Gething raises.

Roeddwn yn falch iawn o'r cyfle i gwrdd ag aelodau o'r GMB o ganlyniad i geisiadau gan Vaughan Gething, ac i drafod y pryderon hynny. Yn wir, mae'n debyg y byddwch yn gweld bod TUC Cymru, hyd yn oed heddiw—yn sicr yr wythnos hon—yn trafod cynnig yn galw am weithredu ar gosbrestru. Rwyf wedi ysgrifennu at Vince Cable yn gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf yn dilyn ei gyfarfod â'r Comisiynydd Gwybodaeth fis diwethaf ar y pwyntiau a godir gan Vaughan Gething.

13:50 **Llyr Huws Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Pa ystyriaeth mae Llywodraeth Cymru wedi'i rhoi i'w gwneud yn ofynnol i bartïon sy'n ennill contractau caffael cyhoeddus gynnal awdit cymdeithasol o'u gweithgarwch, a fyddai'n dal llawer o'r wybodaeth rydym wedi cyfeirio ati? Yn aml iawn, nid ydym ond yn clywed am yr ardrawiad economaidd, ond roeddech yn dweud yn eich ateb gwreiddiol bod angen cydnabod yr ardrawiad amgylcheddol a chymdeithasol hefyd. Mae'r awdit cymdeithasol yn offeryn sy'n caniatáu ar gyfer dal yr wybodaeth honno.

What consideration has the Welsh Government given to making it a requirement for parties that are awarded public procurement contracts to hold a social audit of their activity, which would capture much of the information that has been mentioned? Very often, we only hear about the economic impact, whereas, in your original response, you said that we also need to recognise the environmental and social impacts. The social audit is an instrument that would allow that information to be captured.

13:51 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

This is reflected in my procurement policy statement. It supports the delivery of economic, environmental and social benefits. In terms of the implementation, it should ensure that we are delivering in terms of the social value. It takes up the point that Darren Millar also made. The proof will be in the delivery, and I know that Members will be interested in the correspondence that I had with them this week in terms of identifying community benefits as a result of the procurement policies that we are now delivering in Wales.

Adlewyrchir hyn yn fy natganiad polisi caffael. Mae'n cefnogi'r broses o ddarparu buddiannau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol. O ran y gweithredu, dylai sicrhau ein bod yn cyflawni o ran y gwerth cymdeithasol. Mae'n parhau â'r pwynt a wnaeth Darren Millar hefyd. Bydd y prawf yn y cyflawni, a gwn y bydd gan Aelodau ddiddordeb yn yr ohebiaeth a gefais â hwy yr wythnos hon o ran nodi buddiannau cymunedol yn sgil y polisïau caffael rydym bellach yn eu cyflawni yng Nghymru.

## Trysorlys y DU

## UK Treasury

13:52 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

*6. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ei thrafodaethau gyda Thrysorlys y DU ynghylch Fformiwla Barnett? OAQ(4)0270(FIN)*

*6. Will the Minister provide an update on her discussions with the UK Treasury about the Barnett Formula? OAQ(4)0270(FIN)*

13:52 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Last October we secured a new mechanism to address the problem of convergence in Welsh relative funding. That mechanism will operate for the first time as part of the UK Government's forthcoming spending round. I remain committed to full reform of Barnett as a longer-term goal.

Fis Hydref diwethaf gwnaethom sicrhau dull newydd o fynd i'r afael â'r broblem cydgyfeirio mewn cyllid cymharol yng Nghymru. Bydd y dull hwnnw'n gweithredu am y tro cyntaf fel rhan o gylch gwariant arfaethedig Llywodraeth y DU. Rwyf yn ymrwymedig o hyd i ddiwygiad llawn o Barnett fel nod tymor hwy.

13:52 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

I thank the Minister for that reply. Does she agree that it is very important that the unfairness and adverse effect on Wales of the present Barnett formula in its entirety is resolved before the recommendations of the Silk commission are implemented? Does she have a timescale on that decision?

Diolch i'r Gweinidog am yr ateb hwnnw. A yw'n cytuno ei bod yn bwysig iawn bod yr annhegwch a'r effaith andwyol ar Gymru a ddaw yn sgil ffformiwla bresennol Barnett yn ei chyfanrwydd yn cael eu datrys cyn i argymhellion comisiwn Silk gael eu gweithredu? A oes ganddi amserlen ar gyfer y penderfyniad hwnnw?

13:52 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

There was an important recommendation—recommendation 18—in the first report of the Silk commission, which states:

'We recommend that the transfer of income tax powers to the Welsh Government should be conditional upon resolving the issue of fair funding in a way that is agreed by both the Welsh and UK Governments.'

Roedd argymhelliad pwysig—argymhelliad 18—yn adroddiad cyntaf comisiwn Silk, sy'n datgan:

'Rydym yn argymell y bydd trosglwyddo pwerau treth incwm i Lywodraeth Cymru yn amodol ar ddatrys mater ariannu teg mewn ffordd y mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn cytuno arni.'

Fair funding is an important element of the financial reform agenda, which is why I was pleased that we agreed that in our inter-governmental talks, and the statement that I made in October, with the UK Government.

Mae ariannu teg yn elfen bwysig o'r agenda diwygio ariannol, a dyna pam rwy'n falch ein bod wedi cytuno ar hynny yn ein trafodaethau rhynglywodraethol, a'r datganiad a wneuthum ym mis Hydref, gyda Llywodraeth y DU.

13:53 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

The Silk commission has suggested that the Assembly could have borrowing powers on the basis of the current Barnett formula without necessarily needing tax receipts. I know that there are different views about this issue, but if that is the case, this would clearly speed up the ability of the Assembly to gain borrowing powers, which I think that we all believe would be a good thing. Have you had any discussions with the UK Treasury about this? Do you think that that is something that it would be open to?

Mae comisiwn Silk wedi awgrymu y gallai'r Cynulliad gael pwerau benthyca ar sail fformiwla bresennol Barnett heb fod angen derbynebau treth o reidrwydd. Gwn fod yna safbwyntiau gwahanol am y mater hwn, ond os yw hynny'n wir, byddai hyn yn amlwg yn golygu y gall y Cynulliad gael pwerau benthyca yn gynt, a chredaf ein bod i gyd o'r farn y byddai hynny'n beth da. A ydych wedi cael unrhyw drafodaethau gyda Thrysorlys y DU ynglŷn â hyn? A ydych yn credu bod hynny'n rhywbeth y byddai'n agored iddo?

13:54 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Extensive discussions have taken place with the UK Government, the Treasury, and the Chief Secretary to the Treasury. Since not only our response to the Silk commission but also our inter-governmental talks, we have been looking at early access to borrowing powers, particularly in relation to the enhancement of the M4. I am looking forward to the UK Government's response to the Silk commission, as well as progress in delivering the agreement that we sought and delivered in October.

Cynhaliwyd trafodaethau helaeth gyda Llywodraeth y DU, y Trysorlys, a Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys. Ers ein hymateb i gomisiwn Silk, ond hefyd ein trafodaethau rhynglywodraethol, rydym wedi bod yn edrych ar fynediad cynnar i bwerau benthyca, yn enwedig mewn perthynas â gwella'r M4. Edrychaf ymlaen at ymateb Llywodraeth y DU i gomisiwn Silk, yn ogystal â chynnydd o ran cyflawni'r cytundeb a geisiwyd gennym ac y gwnaethom ei gyflawni ym mis Hydref.

13:54 **Ieuan Wyn Jones** Bywgraffiad Biography

Dychwelaf at yr union gwestiwn a ofynnodd Julie Morgan, sef beth yn union rydych yn ei olygu wrth ddiwygio Barnett fel sail ar gyfer cael pwerau treth incwm i'r Llywodraeth. A ydych yn dweud bod angen diwygio llawn, fel bod gennym fformiwla sy'n seiliedig ar angen, ynteu a ydych yn dweud y byddai cael llawr i'r fformiwla yn ddigon ar hyn o bryd? Byddai llawr yn rhwystro cydgyfeiriant rhag digwydd ymhellach. A wnewch chi roi ateb clir inni ar y cwestiwn hwnnw, os gwelwch yn dda?

I return to the exact question asked by Julie Morgan, namely what exactly you mean by reforming Barnett as a basis for obtaining income tax powers for the Government. Are you saying that we need full reform, so that we have a needs-based formula, or are you saying that having a floor for the formula would be sufficient at present? A floor would prevent further convergence. Will you give us a clear answer on that question, please?

13:55 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

As Ieuan Wyn Jones and other Members will recall, the first step was for us to agree a process aimed at resolving the problem of convergence in our relative funding over the medium term. That was the aim and objective of our inter-governmental talks, and this was then reflected in the response of the Silk commission. We felt very clearly, as did the Silk commission, that we had to ensure that we addressed the issue of convergence in the medium term, and have a mechanism to do that. The mechanism that we have secured is important in achieving recognition that fair funding is vital before we move forward to any other reforms related to the Silk commission. We have achieved that. I have spoken to the Chief Secretary to the Treasury, and he has agreed that we will instigate that process in advance of the next spending review, and we have talked specifically about that, though in respect of the reducing budgets, we are not going to see convergence in relation to the next spending review.

Fel y bydd Ieuan Wyn Jones ac Aelodau eraill yn cofio, y cam cyntaf oedd inni gytuno ar broses gyda'r nod o ddatrys y broblem gydgyfeirio yn ein cyllid cymharol dros y tymor canolig. Dyna oedd nod ac amcan ein trafodaethau rhynglywodraethol, ac adlewyrchwyd hyn yn ymateb comisiwn Silk. Roeddem yn teimlo'n gryf iawn, fel yr oedd comisiwn Silk, fod yn rhaid inni sicrhau ein bod yn mynd i'r afael â chydgyfeirio yn y tymor canolig, a chael dull o wneud hynny. Mae'r dull rydym wedi'i sicrhau yn bwysig wrth gael cydnabyddiaeth bod cyllid teg yn hanfodol cyn inni symud ymlaen i unrhyw ddiwygiadau eraill sy'n gysylltiedig â chomisiwn Silk. Rydym wedi cyflawni hynny. Rwyf wedi siarad â Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys, ac mae wedi cytuno y byddwn yn cychwyn ar y broses honno cyn yr adolygiad nesaf o wariant, ac rydym wedi siarad yn benodol am hynny, er, mewn perthynas â'r gostyngiad yn y cyllidebau, ni fyddwn yn gweld cydgyfeirio mewn perthynas â'r adolygiad nesaf o wariant.

13:56 **Ieuan Wyn Jones** Bywgraffiad Biography

Credaf fod gennym ychydig mwy o eglurder, felly, mai'r llawr yw'r cam cyntaf, ac y byddai hynny'n ddigon inni allu symud ymlaen ar argymhellion cyntaf adroddiad Silk. Fodd bynnag, hoffwn fynd gam ymhellach. Nid yw gosod llawr, ynddo'i hun, yn ddigon, fel y gwŷr y Gweinidog. Mae'n rhaid inni symud i fformiwla sy'n decach ac sy'n seiliedig ar angen. Os mai'r cam cyntaf yw sicrhau'r llawr, ac os yw hynny'n mynd i ddigwydd yn eithaf buan, byddai'n dda cael gwybod pa fath o amserlen y mae'r Llywodraeth yn ei disgwyl ar gyfer yr ail gam o ddiwygio Barnett. Bydd y cam hwnnw yr un mor bwysig â'r cam cyntaf.

I believe that we have some clarity, therefore, that the floor is the first step, and that that would be enough to enable us to move forward on the first recommendations of the Silk report. However, I would like to go a step further. Setting a floor, in itself, is not enough, as the Minister knows. We must move to a fairer, needs-based formula. If securing the floor is the first step, and if that is going to happen fairly swiftly, it would be good to know what kind of timetable the Government foresees for the second step of Barnett reform. That step will be just as important as the first.

13:57 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

I made clear in my initial answer to the question from Julie Morgan that full reform of the Barnett formula remains the Welsh Government's aim. The formula is well past its sell-by date. That has been demonstrated clearly by the Holtham commission, by us in the Assembly, by the House of Lords and by numerous academic studies. We also recognise that we need a resource allocation mechanism that properly reflects needs. The funding floor is the first step. It must be the minimum first step, and that is what we have secured. However, we recognise that there are major obstacles, in terms of the kind of fundamental reform that we all agree in this Chamber will have to come.

Eglurais yn fy ateb cyntaf i'r cwestiwn gan Julie Morgan mai diwygiad fformiwla Barnett yn llwyr yw nod Llywodraeth Cymru o hyd. Mae'r fformiwla yn hen ffasiwn iawn erbyn hyn. Dangoswyd hynny'n glir gan gomisiwn Holtham, gennym ni yn y Cynulliad, gan Dŷ'r Arglwyddi a chan nifer o astudiaethau academaidd. Rydym hefyd yn cydnabod bod angen dull o ddyrannu adnoddau sy'n adlewyrchu anghenion yn briodol. Yr arian gwaelodol yw'r cam cyntaf. Rhaid cyflawni hyn o leiaf, ac rydym wedi ei sicrhau. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod rhwystrau mawr, o ran y math o ddiwygio sylfaenol sy'n anochel, fel y mae pob un ohonom yn cytuno arno yn y Siambr.

13:58 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

As the Minister said earlier in relation to borrowing powers, we do not need any legislation. We just need the Treasury to change its rules. Have any Treasury Ministers explained why they are not prepared to change their rules in order to allow borrowing powers for Wales?

Fel y dywedodd y Gweinidog yn gynharach mewn perthynas â phwerau benthyca, nid oes angen unrhyw ddeddfwriaeth arnom. Rydym ond angen y Trysorlys i newid ei rheolau. A oes unrhyw un o Weinidogion y Trysorlys wedi esbonio pam nad ydynt yn barod i newid eu rheolau er mwyn caniatáu pwerau benthyca i Gymru?

13:58 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

We are not there yet. We very much look forward to the response from the UK Government to the Silk commission, and we look forward to perhaps hearing some very imminent news as far as that is concerned. We have an agreement on early access to borrowing powers, and that is what is driving our very constructive discussions at the moment.

Nid ydym wedi cyrraedd y pwynt hwnnw eto. Edrychwn ymlaen yn fawr at yr ymateb gan Lywodraeth y DU i gomisiwn Silk, ac edrychwn ymlaen at glywed newyddion maes o law yn hynny o beth. Mae gennym gytundeb ar fynediad cynnar i bwerau benthyca, a dyna beth sy'n gyrru ein trafodaethau adeiladol iawn ar hyn o bryd.

13:58 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Minister, I very much welcome the Barnett floor that you have negotiated with the Treasury. In your talks with the Treasury on Silk and in subsequent talks on the Barnett formula, do you understand that Treasury officials appreciate the significance of reforming the Barnett formula, in association with getting additional borrowing powers, as laid out in the Silk report? Also, has there been any indication that, in the Government's consideration of the stage 1 Silk report, it is looking at that particular aspect as well?

Weinidog, croesawaf yn fawr yr isafswm ar gyfer Barnett a negodwyd gennych gyda'r Trysorlys. Yn eich trafodaethau gyda'r Trysorlys ar Silk ac mewn trafodaethau dilynol ar fformiwla Barnett, a ydych yn deall bod swyddogion y Trysorlys yn gwerthfawrogi arwyddocâd diwygio fformiwla Barnett, mewn perthynas â sicrhau pwerau benthyca ychwanegol, fel y nodir yn adroddiad Silk? Hefyd, a fu unrhyw awgrym, wrth i'r Llywodraeth ystyried adroddiad Silk cam 1, ei fod yn edrych ar yr agwedd benodol honno hefyd?

13:59 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

I have very constructive discussions with the Treasury. This is a report on fiscal powers and fiscal devolution. I am very hopeful, and those issues have certainly been part of our discussions.

Caf drafodaethau adeiladol iawn gyda'r Trysorlys. Adroddiad ar bwerau cyllidol a datganoli cyllidol ydyw. Rwy'n obeithiol iawn, ac mae'r materion hynny yn sicr wedi bod yn rhan o'n trafodaethau.

13:59 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Thank you for that answer, Minister. I now move on to another part of that negotiation, namely the housing revenue account subsidy system. Is that issue being considered as part of these talks, and what progress has been made on it?

Diolch ichi am yr ateb hwnnw, Weinidog. Symudaf ymlaen yn awr i ran arall o'r negodi hwnnw, sef system gymhorthdal y cyfrif refeniw tai. A gaiff hyn ei ystyried yn rhan o'r sgyrsiau hyn, a pha gynnydd a wnaed ar y mater?

13:59 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

That is not part of Silk, of course, but it is very much part of our inter-governmental discussions. I hope that the Minister for Housing and Regeneration and I will be able to come back to this Chamber very shortly with a positive outcome.

Nid yw hynny'n rhan o Silk, wrth gwrs, ond mae'n sicr yn rhan o'n trafodaethau rhynglywodraethol. Gobeithiaf y bydd y Gweinidog Tai ac Adfywio a minnau yn gallu dod yn ôl i'r Siambr hon yn fuan iawn gyda chanlyniad cadarnhaol.

### Buddsoddi Cyfalaf

### Capital Investment

13:59 **Joyce Watson** Bywgraffiad Biography

*7. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am fuddsoddi cyfalaf yn rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru? OAQ(4)0265(FIN)*

*7. Will the Minister provide an update on capital investment in the Mid and West Wales region? OAQ(4)0265(FIN)*

14:00 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

The Welsh Government is committed to using infrastructure investment to stimulate economic growth, create jobs and reduce poverty across Wales. On 7 May, I announced an additional £76.5 million capital investment, including projects in Mid and West Wales.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddefnyddio buddsoddiad mewn seilwaith i ysgogi twf economaidd, creu swyddi a lleihau tlodi ar draws Cymru. Ar 7 Mai, cyhoeddais fuddsoddiad cyfalaf ychwanegol o £76.5 miliwn, gan gynnwys prosiectau yn y canolbarth a'r gorllewin.

14:00 **Joyce Watson** Bywgraffiad Biography

Thank you for that answer, Minister. I particularly welcome the £1 million investment in my region for extra flood defences in Borth. It is especially welcome given the terrible, wet year that we have just had. That, of course, comes on top of the £13 million delivered last year for major construction works on the coast there. Could you tell me, Minister, whether you know how that extra £1 million will be spent and whether it is for further construction work or for domestic barriers?

Diolch ichi am yr ateb hwnnw, Weinidog. Croesawaf yn arbennig y buddsoddiad o £1 filiwn yn fy rhanbarth ar gyfer amddiffynfeydd ychwanegol rhag llifogydd yn Borth. Mae galw mawr amdano o ystyried y flwyddyn wlyb, ofnadwy yr ydym newydd ei chael. Mae hynny, wrth gwrs, yn ogystal â'r £13 miliwn a gyflwynwyd y llynedd ar gyfer gwaith adeiladu mawr ar yr arfordir yno. A allech ddweud wrthyf, Weinidog, a ydych yn gwybod sut y caiff y £1 miliwn ychwanegol hwnnw ei wario ac a yw ar gyfer gwaith adeiladu pellach neu ar gyfer rhwystrau yn y cartref?

14:00 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

I am very happy to respond to Joyce Watson's question. The further allocation of £1 million to Borth will facilitate further works to reduce the risk of coastal erosion and flooding to that coastal community. It will also benefit 330 homes and businesses and the Cambrian Coast railway, and it will protect the internationally important Borth bog environment site.

Rwy'n hapus iawn i ymateb i gwestiwn Joyce Watson. Bydd y dyraniad pellach o £1 miliwn i Borth yn hwyluso gwaith pellach er mwyn lleihau'r risg o erydu arfordirol a llifogydd i'r gymuned arfordirol honno. Bydd hefyd o fudd i 330 o gartrefi a busnesau a rheilffordd Arfordir y Cambrian, a bydd yn diogelu safle amgylchedd corsdir Borth sy'n bwysig yn rhyngwladol.

14:01 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

Minister, I am pleased that the Welsh Government has recognised the strategic importance of my constituency to the UK's energy sector. However, many areas of my constituency are still suffering from a poor transport infrastructure, which can have a detrimental effect on the level of inward investment, with transport being one of the significant decision-making criteria for companies that are looking to locate. Can you therefore tell us, Minister, what additional capital investment will be rolled out to Pembrokeshire to support the new Haven waterway enterprise zone and to support the economic health of Pembrokeshire and west Wales in general?

Weinidog, rwy'n falch bod Llywodraeth Cymru wedi cydnabod pwysigrwydd strategol fy etholaeth i sector ynni'r DU. Fodd bynnag, mae llawer o ardaloedd fy etholaeth yn dal i ddioddef yn sgil seilwaith trafnidiaeth gwael, a all gael effaith andwyol ar lefel y buddsoddiad mewnol, gyda chludiant yn un o'r meini prawf pwysig ar gyfer gwneud penderfyniadau i gwmnïau sy'n awyddus i ymsefydlu. Felly, a allwch ddweud wrthym, Weinidog, pa fuddsoddiad cyfalaf ychwanegol a gaiff ei gyflwyno i Sir Benfro er mwyn cefnogi ardal fenter dyfrffordd newydd y Ddau Gleddau ac i gefnogi iechyd economaidd Sir Benfro a'r gorllewin yn gyffredinol?

14:02 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Clearly, infrastructure is a key priority in our Wales infrastructure investment plan, and of course all future allocations of our capital funding programme will abide by those priorities in terms of bids and proposals from all parts of Wales, including your constituency.

Yn amlwg, mae seilwaith yn flaenoriaeth allweddol yn ein cynllun buddsoddi mewn seilwaith i Gymru, ac wrth gwrs, bydd holl ddyraniadau ein rhaglen ariannu cyfalaf yn y dyfodol yn cadw at y blaenoriaethau hynny o ran ceisiadau a chynigion o bob rhan o Gymru, gan gynnwys eich etholaeth chi.

14:02 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

I am grateful, Minister, for that answer. You will know that the House of Commons Welsh Affairs Select Committee, in its inquiry into inward investment in Wales, has called on the UK Government and the Welsh Government to look creatively to fund infrastructure projects in Wales. Can you therefore tell us what work the Welsh Government is doing in this area, so that investment in capital projects in areas such as Pembrokeshire and across the whole of Wales can go ahead?

Rwy'n ddiolchgar, Weinidog, am yr ateb hwnnw. Byddwch yn gwybod bod Pwyllgor Dethol Tŷ'r Cyffredin ar Faterion Cymreig, yn ei ymchwiliad i fewnfuddsoddi yng Nghymru, wedi galw ar Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i edrych mewn modd creadigol ar y broses o ariannu prosiectau seilwaith yng Nghymru. Felly, a allwch ddweud wrthym pa waith y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud yn y maes hwn, er mwyn sicrhau y gall buddsoddi mewn prosiectau cyfalaf mewn ardaloedd fel Sir Benfro ac ar draws Cymru gyfan fynd rhagddo?

14:02 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Clearly, the Wales infrastructure investment plan, which I published last year, has delivered additional investment of around £1.2 billion and, of course, the impact on economic growth, inward investment and jobs is key. Also, I have announced a recent package of investment of £76.5 million, which demonstrates our commitment to economic growth and creating jobs, and I will indeed be coming back to the Chamber with an update on our infrastructure investment plan next month.

Yn amlwg, mae'r cynllun buddsoddi mewn seilwaith i Gymru, a gyhoeddwyd gennyf y llynedd, wedi darparu buddsoddiad ychwanegol o tua £1.2 biliwn ac, wrth gwrs, mae'r effaith ar dwf economaidd, mewnfuddsoddiad a swyddi yn allweddol. Hefyd, cyhoeddais becyn diweddar o fuddsoddiad o £76.5 miliwn, sy'n dangos ein hymrwymiad i dwf economaidd a chreu swyddi, a byddaf yn dod yn ôl i'r Siambr gyda'r wybodaeth ddiweddaraf am ein cynllun buddsoddi mewn seilwaith fis nesaf.

14:03 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Weinidog, yr wythnos hon, mae'r Aber Cycle Fest yn cael ei dathlu yn Aberystwyth, ac mae seiclo'n dod yn fwyfwy pwysig i Aberystwyth a chanolbarth Cymru fel rhywbeth sy'n datblygu twristiaeth a'r economi yn yr ardal. Mae cynllun cyffrous i gael trac rhedeg a seiclo newydd yn Aberystwyth, gyda chefnogaeth lwyr yr awdurdod lleol, a chefnogaeth Gweinidogion yn y fan hon. A wnewch chi amlinellu sut bydd arian o'r Llywodraeth ganolog—y buddsoddiad cyfalaf canolog—yn gallu cydweithio ag arian yr awdurdod lleol ac arian o'r loteri fel bod cynllun fel hwn, sydd angen ei ariannu o sawl ffynhonnell, yn gallu dod i fwcl?

Minister, this week, Aber Cycle Fest is being celebrated in Aberystwyth, and cycling is becoming more and more important to Aberystwyth and mid Wales as something that develops tourism and the economy of the area. There is an exciting scheme to have a new running and cycling track in Aberystwyth, with the full support of the local authority, and the support of Ministers here. Will you outline how central Government funding—capital investment from central Government—can run hand in hand with funds from the local authority and lottery funding so that a scheme such as this, which needs to be funded from several sources, can be achieved?

14:04 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Of course, this Welsh Labour Government has invested heavily in cycle paths and in promoting cycling, and that very much forms part of the underpinning of the Active Travel (Wales) Bill that is now being taken forward by John Griffiths. However, it is, as you say, an opportunity for innovation in terms of different funding streams, and, certainly, I know that the Minister is looking at these.

Wrth gwrs, mae'r Llywodraeth Lafur hon yng Nghymru wedi buddsoddi'n drwm mewn llwybrau beicio ac mewn hyrwyddo beicio, ac mae hynny'n rhan o sail Bil Teithio Llesol (Cymru) sydd bellach yn cael ei ddatblygu gan John Griffiths. Fodd bynnag, fel y dywedwch, mae'n gyfle i arloesi o ran y gwahanol ffrydiau ariannu, ac, yn sicr, gwn fod y Gweinidog yn edrych ar y rhain.

14:04 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats*

Minister, some capital investment that would be most welcome would be £5 million to modernise Llandrindod Wells hospital, which would allow more patients to be treated locally. It would also help Powys Teaching Local Health Board to save money. Could you outline what discussions you have had with the Minister for health about capital allocations to improve healthcare facilities? Also, would you and the Minister for health care to visit Llandrindod Wells hospital, so that you could see at first hand to what good effect that capital investment could be used?

Weinidog, un buddsoddiad cyfalaf y byddai croeso mawr iddo fyddai £5 miliwn i foderneiddio ysbyty Llandrindod, a fyddai'n galluogi mwy o gleifion i gael eu trin yn lleol. Byddai hefyd yn helpu Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys i arbed arian. A allech amlinellu pa drafodaethau rydych wedi'u cael gyda'r Gweinidog iechyd ynghylch dyraniadau cyfalaf i wella cyfleusterau gofal iechyd? Hefyd, a fyddech chi a'r Gweinidog gofal iechyd yn hoffi ymweld ag ysbyty Llandrindod, er mwyn ichi weld o lygad y ffynnon sut y gellid defnyddio'r buddsoddiad cyfalaf hwnnw?

14:05 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

I have certainly visited Llandrindod Wells hospital when I was the Minister for health. There is a health and social services capital programme and you will see the update that is in the pipeline in the updated Wales infrastructure investment plan. It will be for health boards to put forward their proposals.

Yn sicr, ymwelais ag ysbyty Llandrindod pan oeddwn yn Weinidog iechyd. Ceir rhaglen gyfalaf iechyd a gwasanaethau cymdeithasol a gwelwch y wybodaeth ddiweddaraf sydd ar y gweill yn y cynllun buddsoddi mewn seilwaith i Gymru a ddiweddarwyd. Mater i'r byrddau iechyd fydd cyflwyno eu cynigion.

### Ystadegau ar gyfer Cymru yn unig

### Wales-only Statistics

14:05 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

*8. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw waith y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i ddatblygu ystadegau ar gyfer Cymru yn unig? OAQ(4)0264(FIN)*

*8. Will the Minister provide an update on any work the Welsh Government is doing to develop Wales-only statistics? OAQ(4)0264(FIN)*

14:05 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Welsh Government statisticians publish a wide range of Wales-only statistics. Last year, this included around 500 statistical outputs about Wales, the publication of the first results of the national survey for Wales and a relaunch of the StatsWales website.

Mae ystadegwyr Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi amrediad eang o ystadegau ar gyfer Cymru yn unig. Y llynedd, roedd hyn yn cynnwys tua 500 o allbynnau ystadegol am Gymru, cyhoeddiad canlyniadau cyntaf arolwg cenedlaethol Cymru ac ail-lansio gwefan StatsCymru.

14:05 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Thank you for that answer, Minister. There is a conundrum for people in South Wales West. We recently had a very positive report from Cardiff University that estimated that the Swans have brought a £50 million benefit to Swansea since being promoted to the premiership. However, the latest figures from the Office for National Statistics, for the first year since the coalition Government took office in Westminster, show that for every job shed in the public sector in Swansea, four are being lost in the private sector. Does the Welsh Government find it difficult to react with any kind of confidence to economic conditions when we really do not have the data to show us what is happening in the economy at present?

Diolch ichi am yr ateb hwnnw, Weinidog. Mae penbleth i bobl yng ngorllewin de Cymru. Yn ddiweddar, cawsom adroddiad cadarnhaol iawn gan Brifysgol Caerdydd a amcangyfrifodd fod yr Elyrch wedi dod â budd o £50 miliwn i Abertawe ers iddynt godi i uwch gynghrair Lloegr. Fodd bynnag, dengys y ffigurau diweddaraf gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, am y flwyddyn gyntaf ers i'r Lywodraeth glymblaid ddod i rym yn San Steffan, am bob swydd a gollir yn y sector cyhoeddus yn Abertawe, bod pedair yn cael eu colli yn y sector preifat. A yw Llywodraeth Cymru yn ei chael hi'n anodd ymateb gydag unrhyw fath o hyder i amodau economaidd pan nad oes gennym y data i ddangos inni beth sy'n digwydd yn yr economi ar hyn o bryd?

14:06 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Welsh Government analysts publish Wales-only statistics on almost all of our policy areas. They are fundamental, as Bethan Jenkins indicates, to decision making, resource allocation and planning across Wales. We now need to ensure that the StatsWales service delivers the detailed information that is required.

Mae dadansoddwyr Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ystadegau ar gyfer Cymru yn unig ar bron pob un o'n meysydd polisi. Maent yn hanfodol, fel y noda Bethan Jenkins, i wneud penderfyniadau, dyrannu adnoddau a chynllunio ledled Cymru. Mae angen inni yn awr sicrhau bod gwasanaeth StatsCymru yn darparu'r wybodaeth fanwl sydd ei hangen.

14:06 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Minister, the integrity and independence of statistics is vital if Welsh taxpayers are to have confidence in the figures produced for Wales. Would you agree that setting up a Welsh office for budget responsibility would be an excellent way to improve your Government's accountability to the Welsh public?

Weinidog, mae uniondeb ac annibyniaeth ystadegau yn hanfodol er mwyn rhoi hyder i drethdalwyr yng Nghymru yn y ffigurau a gynhyrchir ar gyfer Cymru. A fyddech yn cytuno y byddai sefydlu swyddfa Gymreig ar gyfer cyfrifoldeb cyllidebol yn ffordd wych o wella atebolrwydd eich Llywodraeth i'r cyhoedd yng Nghymru?

14:07 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Antoinette Sandbach is clearly in favour of devolution, which is very welcome in terms of ensuring that we do have the tools for the job. We have to ensure that we provide the statistics and the information as appropriate and as I have described. We have a code of practice that we are taking forwards in terms of delivering on Welsh statistics.

Mae'n amlwg bod Antoinette Sandbach o blaid datganoli, sy'n rhywbeth a groesewir yn fawr o ran sicrhau bod gennym yr adnoddau i wneud y gwaith. Rhaid inni sicrhau ein bod yn darparu'r ystadegau a'r wybodaeth fel y bo'n briodol ac fel rwyf wedi'i ddisgrifio. Mae gennym god ymarfer yr ydym yn ei ddatblygu o ran cyflawni ar ystadegau Cymru.

## Portffolio Cymunedau a Trechu Tlodi

## Communities and Tackling Poverty Portfolio

14:07 **William Powell** Bywgraffiad Biography

*9. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gyllideb gyffredinol a ddyrennir i'r portffolio Cymunedau a Threchu Tlodi? OAQ(4)0255(FIN)*

*9. Will the Minister make a statement on the overall budget allocated to the Communities and Tackling Poverty portfolio? OAQ(4)0255(FIN)*

14:07 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

I will publish information about restructured budgets in line with new ministerial portfolios in the first supplementary budget.

Byddaf yn cyhoeddi gwybodaeth am gyllidebau wedi'u hailstrwythuro yn unol â'r portffolios gweinidogol newydd yn y gyllideb atodol gyntaf.

14:08 **William Powell** Bywgraffiad Biography

I thank the Minister very much for her response. In response to a written question from me last week, the Minister for Communities and Tackling Poverty outlined his own reliance on the outcome of work that is going on within your own portfolio with regard to the national procurement service, particularly in terms of his ability to address sustainability issues that were flagged up by the Commissioner for Sustainable Futures in his commentary on the 2011-12 sustainable development annual report. To that end, would you please detail any discussions that you have had with your Cabinet colleague and any specific areas of concern that have arisen with regard to that portfolio area?

Diolch yn fawr i'r Gweinidog am ei hymateb. Mewn ymateb i gwestiwn ysgrifenedig gennyf yr wythnos diwethaf, amlinellodd y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi ei ddibyniaeth ei hun ar ganlyniad y gwaith sy'n cael ei wneud o fewn eich portffolio chi o ran y gwasanaeth caffael cenedlaethol, yn enwedig o ran ei allu i fynd i'r afael â materion cynaliadwyedd a amlygwyd gan y Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy yn ei sylwebaeth ar adroddiad blynyddol 2011-12 ar ddatblygu cynaliadwy. I'r perwyl hwnnw, a fyddech cystal â nodi unrhyw drafodaethau a gawsoch gyda'ch cyd-Aelod yn y Cabinet ac unrhyw feysydd penodol o bryder sydd wedi codi o ran y maes portffolio hwnnw?

14:08 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

I have had very close discussions with the Minister. This is an important part of his new portfolio and we need to ensure that the national procurement service delivers on the sustainability issues and the responsibilities in his portfolio.

Rwyf wedi cael trafodaethau agos iawn â'r Gweinidog. Mae hyn yn rhan bwysig o'i bortffolio newydd ac mae angen inni sicrhau bod y gwasanaeth caffael cenedlaethol yn cyflawni o ran y materion cynaliadwyedd a chyfrifoldebau yn ei bortffolio.

14:09 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Housing is key to community regeneration and tackling poverty. Figures by the National House-Building Council for the first quarter of this year show that new-home building in Wales is still lagging behind the rest of the UK. How do you respond to concerns that Welsh Government regulatory proposals go against economic stimulus, being developed in isolation from what the house-building sector needs?

Mae tai yn allweddol i adfywio cymunedau a mynd i'r afael â thlodi. Mae ffigurau gan y Cyngor Cenedlaethol Adeiladu Tai ar gyfer chwarter cyntaf y flwyddyn hon yn dangos bod adeiladu cartrefi newydd yng Nghymru yn dal ar ei hôl hi o gymharu â gweddill y DU. Sut rydych yn ymateb i bryderon bod cynigion rheoleiddio Llywodraeth Cymru yn mynd yn groes i ysgogiad economaidd, a ddatblygir ar wahân i'r hyn sydd ei angen ar y sector adeiladu tai?

14:09 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

I think that Mark Isherwood would welcome the additional £20 million for the social housing grant that I announced as part of the £76.5 million capital round of investments. That is targeting investment at providing housing. I have met with house builders who are pleased that it is a Government that is boosting jobs and growth in the construction industry and that there is £10 million to expand the pilot of the Houses into Homes initiative. Consultation is ongoing with house builders, led by the Minister for Housing and Regeneration, to ensure that they have that opportunity, particularly in relation to procurement.

Credaf y byddai Mark Isherwood yn croesawu'r £20 miliwn ychwanegol ar gyfer y grant tai cymdeithasol a gyhoeddais fel rhan o'r rownd cyfalaf o fuddsoddiadau gwerth £76.5 miliwn. Mae hynny'n targedu buddsoddiad at ddarparu tai. Rwyf wedi cwrdd ag adeiladwyr tai sy'n falch ei bod yn Llywodraeth sy'n hybu swyddi a thwf yn y diwydiant adeiladu a bod £10 miliwn i ehangu cynllun peilot y fenter Troi Tai'n Gartrefi. Cynhelir ymgynghoriad parhaus gydag adeiladwyr tai, dan arweiniad y Gweinidog Tai ac Adfywio, er mwyn sicrhau eu bod yn cael y cyfle hwnnw, yn enwedig mewn perthynas â chaffael.

14:10 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

The Minister for Communities and Tackling Poverty has said that he is exploring ways to make up the loss of the £3 million for free advice services such as those provided by Citizens Advice. What discussions have you had with him on this matter, and how much funding are you prepared to allocate to it?

Dywedodd y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi ei fod yn edrych ar ffyrdd i wneud iawn am y golled o £3 miliwn ar gyfer gwasanaethau cyngor am ddim megis y rhai a ddarperir gan y Ganolfan Cyngor ar Bopeth. Pa drafodaethau a gawsoch gydag ef ar y mater hwn, a faint o arian rydych yn barod i'w ddyrannu iddo?

14:10 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

There is a very useful report that will be on the website—it might already be on the website—in terms of the review of advice services that is being undertaken. The value of the not-for-profit advice sector is key. I have provided additional one-off funding to support front-line advice services, and I will certainly ask the Minister to clarify the status of the report, and indeed the allocation of funding for advice services.

Mae adroddiad defnyddiol iawn a fydd ar y wefan—efallai ei fod eisoes ar y wefan—o ran yr adolygiad o wasanaethau cynghori sy'n mynd rhagddo. Mae gwerth y sector cynghori dielw yn allweddol. Rwyf wedi darparu cyllid untro ychwanegol i gefnogi gwasanaethau cynghori rheng flaen, a byddaf yn sicr yn gofyn i'r Gweinidog egluro statws yr adroddiad, ac yn wir y dyraniad cyllid ar gyfer gwasanaethau cynghori.

### Adnoddau Cyfalaf

### Capital Resources

14:11 **Byron Davies** Bywgraffiad Biography

*10. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr adnoddau cyfalaf ychwanegol a ryddhawyd gan Lywodraeth y DU? OAQ(4)0268(FIN)*

*10. Will the Minister make a statement on the additional capital resources made available from the UK Government? OAQ(4)0268(FIN)*

14:11 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Additional capital made available by the UK Government is allocated in line with Wales infrastructure investment plan priorities.

Dyrennir cyfalaf ychwanegol a ddarparwyd gan Lywodraeth y DU yn unol â blaenoriaethau'r cynllun buddsoddi mewn seilwaith yng Nghymru.

14:11 **Byron Davies** Bywgraffiad Biography

By my reckoning, the UK Government has provided an additional £858 million of capital investment into Wales. What specific discussions have you had with your fellow Ministers to ensure that this money is used for major infrastructure projects, such as the M4 relief road?

Rwy'n amcangyfrif bod Llywodraeth y DU wedi darparu £858 miliwn ychwanegol o fuddsoddiad cyfalaf i Gymru. Pa drafodaethau penodol a gawsoch gyda'ch cyd-Weinidogion i sicrhau bod yr arian hwn yn cael ei ddefnyddio ar gyfer prosiectau seilwaith mawr, megis ffordd liniaru'r M4?

14:11 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

The figure of £858 million that you mentioned in your opposition debate last week is not accurate in terms of the allocations that we have made. We have switched from revenue to capital to boost the resources available for investment, so it is not additional funding. To put the record straight, the actual figure for additional capital provided over the spending review period is £647 million. It is welcome, and it is still more than a 30% real terms cut to our capital budget by 2014-15.

Nid yw'r ffigur o £858 miliwn a grybwyllwyd gennych yn nadl yr wrthblaid yr wythnos diwethaf yn gywir o ran y dyraniadau a wnaed gennym. Rydym wedi newid o refeniw i gyfalaf i roi hwb i'r adnoddau sydd ar gael ar gyfer buddsoddi, felly nid yw'n arian ychwanegol. Er mwyn egluro'r sefyllfa, y ffigur gwirioneddol ar gyfer cyfalaf ychwanegol a ddarparwyd yn ystod cyfnod yr adolygiad o wariant yw £647 miliwn. Mae i'w groesawu, ac mae'n dal i fod yn fwy na 30% o ostyngiad mewn termau real yn ein cyllideb gyfalaf erbyn 2014-15.

### Portffolio Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth

### Economy, Science and Transport Portfolio

14:12 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

*11. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gyllideb gyffredinol a ddyrennir i'r portffolio Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth? OAQ(4)0267(FIN)*

*11. Will the Minister make a statement on the overall budget allocated to the Economy, Science and Transport portfolio? OAQ(4)0267(FIN)*

**Kenneth Skates** Bywgraffiad Biography

*13. A wnaiff y Gweinidog amlinellu pa drafodaethau y mae wedi eu cael o ran y dyraniad cyllideb cyffredinol i'r portffolio Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth? OAQ(4)0253(FIN)*

*13. Will the Minister outline what discussions she has had in regard to the overall budget allocation to the Economy, Science and Transport portfolio? OAQ(4)0253(FIN)*

14:12 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

I understand, Deputy Presiding Officer, that you have given your permission to group questions 11 and 13.

Deallaf, Ddirprwy Lywydd, eich bod wedi rhoi eich caniatâd i gwestiynau grŵp 11 a 13.

14:12 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

I have.

Do.

14:12 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

I will publish information about the restructured budgets in line with the new ministerial portfolios in the first supplementary budget.

Byddaf yn cyhoeddi gwybodaeth am y cyllidebau wedi'u hailstrwythuro yn unol â'r portffolios gweinidogol newydd yn y gyllideb atodol gyntaf.

14:12 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

Weinidog, mae nifer o fusnesau canol tref nad ydynt yn derbyn gostyngiad yn eu ardrethi busnes o dan y gyfundrefn bresennol ac mae hyn yn rhoi pwysau ariannol sylweddol arnynt. Mae Gweinidog yr economi wedi dweud wrthym ei bod yn edrych am gymorth pellach i fusnesau ar gyfer cwrdd â gofynion ardrethi busnes. A wnewch chi weithio gyda Gweinidog yr economi i sicrhau bod cyllideb ddigonol ar gyfer cefnogi'r busnesau a siopau annibynnol hynny yn ein canol trefi?

Minister, a number of town-centre businesses receive no reduction in their business rates under the current regime and this places significant financial burdens on them. The Minister for the economy has told us that she is looking at further support for businesses to meet business rate demands. Will you work with the Minister for the economy to ensure that there are adequate funds available to support these independent businesses and shops in our town centres?

14:13 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

I am certainly working closely on this matter not only with the Minister for Economy, Science and Transport, but also the Minister for Housing and Regeneration.

Rwy'n sicr yn cydweithio'n agos ar y mater hwn, nid yn unig gyda Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, ond hefyd y Gweinidog Tai ac Adfywio.

14:13 **Kenneth Skates** Bywgraffiad Biography

Minister, the Welsh Government and BT are working together in rolling out the commercial business of superfast broadband to around 95% or 96% of homes and businesses across Wales. However, for the remaining 4% to 5% of properties that are hard to reach the only alternative may be satellite broadband systems. What budgetary provision is the Welsh Government making to ensure that those areas not covered by the programme for 2016 roll-out targets will be covered by other means?

Weinidog, mae Llywodraeth Cymru a BT yn cydweithio o ran cyflwyno'r busnes masnachol o fand eang cyflym iawn i tua 95% neu 96% o gartrefi a busnesau ledled Cymru. Fodd bynnag, i'r 4% i 5% sy'n weddill o eiddo sy'n anodd eu cyrraedd, efallai mai'r unig ddewis arall yw systemau band eang lloeren. Pa ddarpariaeth gyllidebol a wneir gan Lywodraeth Cymru i sicrhau y bydd yr ardaloedd hynny nas cwmpesir gan y rhaglen ar gyfer targedau cyflwyno 2016 yn cael eu cwmpasu gan ddulliau eraill?

14:13 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

We are working very closely in partnership with BT on the Superfast Cymru programme, and that is for a nationwide superfast broadband infrastructure. In terms of the 4% of households and businesses that you identify, the Minister has recently extended the broadband support scheme for a further six months to the end of September, and an additional £2 million has been allocated. Therefore, approximately 2,000 individuals or businesses could have access to basic broadband.

Rydym yn gweithio'n agos iawn mewn partneriaeth â BT ar y rhaglen Cyflymu Cymru, ar gyfer seilwaith band eang cyflym iawn ledled y wlad. O ran y 4% o gartrefi a busnesau a nodir gennych, yn ddiweddar, ehangodd y Gweinidog y cynllun cymorth band eang am chwe mis arall hyd at ddiwedd mis Medi, a dyrannwyd £2 filiwn ychwanegol. Felly, gallai tua 2,000 o unigolion neu fusnesau gael mynediad at fand eang sylfaenol.

## Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru

## Wales Infrastructure Investment Plan

14:14 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

*12. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am Gynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru? OAQ(4)0261(FIN)*

*12. Will the Minister give an update on the Wales Infrastructure Investment Plan? OAQ(4)0261(FIN)*

14:14 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

The Wales infrastructure investment plan, which I published in May last year, sets out how we will invest around £15 billion in infrastructure over the next decade to boost growth and jobs and improve public services. I will be publishing an update in June.

Mae'r cynllun buddsoddi mewn seilwaith i Gymru, a gyhoeddais ym mis Mai y llynedd, yn nodi sut y byddwn yn buddsoddi tua £15 biliwn mewn seilwaith dros y degawd nesaf i hybu twf a swyddi a gwella gwasanaethau cyhoeddus. Byddaf yn cyhoeddi diweddariad ym mis Mehefin.

14:14 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Will you join me in welcoming the approach of Carmarthenshire County Council, which, in agreeing a new school in Dinefwr, has also ensured that the site will go on to offer wider community and leisure benefits? Do you join me in recognising the importance of maximising community benefits through capital projects?

A ymunwch â mi i groesawu dull gweithredu Cyngor Sir Caerfyrddin, sydd, wrth gytuno ar ysgol newydd yn Ninefwr, hefyd wedi sicrhau y bydd y safle yn datblygu i gynnig buddiannau i'r gymuned a buddiannau hamdden ehangach? A ymunwch â mi i gydnabod pwysigrwydd sicrhau'r buddiannau cymunedol gorau drwy brosiectau cyfalaf?

14:15 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

I do. I am grateful to Rebecca Evans for that question. In fact, I visited some of the projects in Carmarthenshire, and I draw Members' attention to the letter that I circulated this week, identifying all of the projects where community benefits have delivered local jobs, apprenticeships, co-location and the development of other services alongside the capital projects.

Gwnaf. Rwy'n ddiolchgar i Rebecca Evans am y cwestiwn hwnnw. Yn wir, ymwelais â rhai o'r prosiectau yn Sir Gaerfyrddin, a thynnaf sylw'r Aelodau at y llythyr a ddosbarthais yr wythnos hon, yn nodi'r holl brosiectau lle mae buddiannau cymunedol wedi arwain at swyddi lleol, prentisiaethau, cyd-leoli a datblygu gwasanaethau eraill ochr yn ochr â'r prosiectau cyfalaf.

# Cwestiynau i'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth

# Questions to the Minister for Local Government and Government Business

### Cydweithio

### Collaboration

14:15 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

*1. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ymdrechion i gynyddu cydweithio rhwng awdurdodau lleol? OAQ(4)0276(LG)*

*1. Will the Minister make a statement on efforts to increase collaboration between local authorities? OAQ(4)0276(LG)*

**Kenneth Skates** Bywgraffiad Biography

*9. A wnaiff y Gweinidog amlinellu beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella cydweithio rhwng awdurdodau lleol ledled Cymru? OAQ(4)0270(LG)*

*9. Will the Minister outline what the Welsh Government is doing to improve local authority collaboration across Wales? OAQ(4)0270(LG)*

14:15 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Local Government and Government Business*

Collaboration is a critical part of our reform agenda. The partnership council and my public service leadership group provide national leadership for collaboration, driving the pace of improvement. The regional collaboration fund is aimed at bringing about real and significant change at a regional level.

Mae cydweithredu'n rhan allweddol o'n hagenda diwygio. Mae'r cyngor partneriaeth a grŵp arwain y gwasanaeth cyhoeddus yn darparu arweinyddiaeth genedlaethol o ran cydweithredu, gan lywio gwelliant yn gynt. Nod y gronfa cydweithredu rhanbarthol yw sicrhau newid gwirioneddol a sylweddol yn rhanbarthol.

14:16 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

Minister, I am sure you would agree that local government collaboration is patchy at best and the proposed merger of social services between Caerphilly and Blaenau Gwent now appears to have been abandoned. What discussions have you have about that merger? Why has it failed to materialise?

Weinidog, rwy'n siŵr y byddech yn cytuno bod cydweithredu mewn llywodraeth leol yn dameidiog ar y gorau ac ymddengys nad oes bwriad mwyach i uno gwasanaethau cymdeithasol rhwng Caerffili a Blaenau Gwent. Pa drafodaethau rydych wedi'u cael ynghylch yr uno hwnnw? Pam nad yw wedi dwyn ffrwyth?

14:16 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

I have not had any specific discussions about it. I am aware that this was being considered. It is really important that proper analysis of the business case is done and that there is due diligence. However, it is important that people's expectations are not raised. I know that my officials are discussing with the Deputy Minister for Social Services' officials and the two councils what lessons we can learn.

Nid wyf wedi cael unrhyw drafodaeth benodol ynghylch y mater. Rwy'n ymwybodol bod hyn wedi cael ei ystyried. Mae'n bwysig iawn bod dadansoddiad priodol o'r achos busnes yn cael ei gynnal a bod diwydrwydd dyladwy. Fodd bynnag, mae'n bwysig peidio â chodi disgwyliadau pobl. Gwn fod fy swyddogion yn trafod â swyddogion y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol a'r ddau gyngor ynghylch y gwersi y gallwn eu dysgu.

14:17 **Kenneth Skates** Bywgraffiad Biography

Minister, reports suggest that the UK coalition Government is planning an even bigger cut to public services in next month's spending review, with some reports suggesting that the Welsh Government could have £80 million less to spend on services by 2014-15. Despite the poor budget the Welsh Government has received in recent years, the settlement to councils in Wales has been better than expected, and certainly more generous than that experienced in England. In these challenging times, what work is the Welsh Government doing to ensure that Welsh councils put themselves in the best position to face future challenges by investing in regional collaboration?

Weinidog, awgryma adroddiadau fod Llywodraeth glymblaid y DU yn bwriadu gwneud toriadau hyd yn oed yn fwy i wasanaethau cyhoeddus yn adolygiad o wariant y mis nesaf, gyda rhai adroddiadau'n awgrymu y gallai Llywodraeth Cymru gael £80 miliwn yn llai i'w wario ar wasanaethau erbyn 2014-15. Er gwaethaf y gyllideb wael y mae Llywodraeth Cymru wedi'i chael yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r setliad i gynghorau yng Nghymru wedi bod yn well na'r disgwyl, ac yn sicr yn fwy hael na'r hyn a gafwyd yn Lloegr. Yn y cyfnod heriol hwn, pa waith y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i sicrhau bod cynghorau Cymru yn rhoi eu hunain yn y sefyllfa orau bosibl i wynebu heriau'r dyfodol drwy fuddsoddi mewn cydweithredu rhanbarthol?

14:17 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

The point the Member raised about our budget is very true, and it is an issue that I discuss as I go around Wales meeting chief executives and leaders with regard to the harsh and unprecedented financial times ahead. As part of the wider programme to encourage public sector collaboration reform, I am working with local government so that it can use the regional collaboration fund, which was set up by my predecessor, to secure real change. You are absolutely right that local government in Wales has received better settlements than local government in England over the past few years. I read the other day that one council in England had had its budget cut by 66%. So, I think that there are lessons that Welsh local government can learn from looking at how English councils have dealt with their cuts.

Mae'r pwynt a godwyd gan yr Aelod am ein cyllideb yn wir iawn, ac mae'n fater yr wyf yn ei drafod wrth imi deithio o amgylch Cymru yn cyfarfod â phrif weithredwyr ac arweinwyr o ran y cyfnod ariannol anodd a digynsail sydd o'n blaenau. Fel rhan o'r rhaglen ehangach i annog diwygio cydweithredol yn y sector cyhoeddus, rwy'n gweithio gyda llywodraeth leol fel y gall ddefnyddio'r gronfa cydweithredu rhanbarthol, a sefydlwyd gan fy rhagflaenydd, i sicrhau newid gwirioneddol. Rydych yn llygad eich lle bod llywodraeth leol yng Nghymru wedi cael setliadau gwell na llywodraeth leol yn Lloegr dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Darllenais y diwrnod o'r blaen fod cyllideb un cyngor yn Lloegr wedi'i thorri 66%. Felly, credaf fod gwersi y gall llywodraeth leol yng Nghymru eu dysgu wrth ystyried sut mae cynghorau yn Lloegr wedi delio â'u toriadau.

14:18 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Minister, there is no doubt that collaboration can result in savings for council tax payers, and it is something that my party very much supports. However, do you recognise that there may be opportunities for collaboration between local authorities on either side of the England and Wales border? What work are you doing with your officials to promote good work on collaboration between local authorities in Wales and those in England, where that is appropriate?

Weinidog, nid oes amheuaeth y gall cydweithredu arwain at arbedion i'r rhai sy'n talu'r dreth gyngor, ac mae'n rhywbeth y mae fy mhlaid yn ei gefnogi'n fawr iawn. Fodd bynnag, a ydych yn cydnabod y gall fod cyfleoedd am gydweithredu rhwng awdurdodau lleol ar y naill ochr a'r llall i'r ffin rhwng Cymru a Lloegr? Pa waith rydych yn ei wneud gyda'ch swyddogion i hyrwyddo gwaith da ar gydweithredu rhwng awdurdodau lleol yng Nghymru a'r rhai yn Lloegr, lle y bo hynny'n briodol?

14:19 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

You just heard me mention that I think that there are lessons that we can learn from looking over the border to England, and I expect discussions to go ahead about the services that are being looked at in England. In relation to specific collaboration, I have not had any such discussions, but it is something that I have raised with my officials and something that we can look at.

Rydych newydd fy nghlywed yn sôn fy mod yn credu bod gwersi y gallwn eu dysgu wrth edrych dros y ffin i Loegr, a disgwyliaf weld trafodaethau'n mynd rhagddynt ar y gwasanaethau sy'n cael eu hystyried yn Lloegr. O ran cydweithredu penodol, nid wyf wedi cael unrhyw drafodaethau o'r fath, ond mae'n rhywbeth yr wyf wedi'i godi gyda'm swyddogion ac yn rhywbeth y gallwn ei ystyried.

14:19 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Mewn cyfarfod cyhoeddus yng Nghastell-nedd yn ddiweddar, dywedodd aelod o gyngor Castell-nedd nad oedd digon o gydweithio rhwng y cyngor a gwasanaethau cymdeithasol i ymdopi â'r hyn a fydd yn digwydd yn sgîl cau'r ysbyty. Mae'n bwysig nid yn unig i gynghorau gydweithio ond i gynghorau gydweithio â gwasanaethau elfennol fel gwasanaethau cymdeithasol. Felly, pa waith ydych wedi ei wneud gyda arweinwyr cynghorau lleol i sicrhau bod gorfodaeth arnynt i weithio gyda'r gwasanaeth iechyd a chynghorau eraill i sicrhau bod hyn yn digwydd yn llwyddiannus?

In a public meeting in Neath recently, a member of Neath council said that there was insufficient collaboration between the council and social services to cope with what will happen as a result of the closure of the hospital. It is important not only for councils to collaborate but for councils to collaborate with basic services such as social services. Therefore, what work have you done with the leaders of councils to ensure that they are required to work the health service and other councils to ensure that this happens successfully?

14:20 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

You have raised a very important point. Collaboration is not just about collaboration in local government, it is about collaboration right across public services. As I have been going around Wales for my introductory meetings with chief executives and leaders, one of the main questions that I have been asking is what the authority's relationship and collaboration are like with the health board, for instance. As I said, you have raised a very important point. It is not just about local government collaboration, but about public service.

Rydych wedi codi pwynt pwysig iawn. Nid yw cydweithredu ond yn golygu cydweithredu mewn llywodraeth leol, mae'n ymwneud â chydweithredu ar draws gwasanaethau cyhoeddus. Wrth imi deithio o amgylch Cymru ar gyfer fy nghyfarfodydd rhagarweiniol â phrif weithredwyr ac arweinwyr, un o'r prif gwestiynau yr wyf wedi bod yn ei ofyn yw pa fath o gydberthynas sydd gan yr awdurdod â'r bwrdd iechyd, er enghraifft, a pha fath o drefniadau cydweithredu sydd ar waith. Fel y dywedais, rydych wedi codi pwynt pwysig iawn. Nid yw ond yn golygu cydweithredu mewn llywodraeth leol, ond ar draws gwasanaethau cyhoeddus.

14:20 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Minister, last week, I attended the opening of Monmouthshire County Council's new county hall, just outside Usk in the centre of my constituency. I am sure that you are aware that the building is innovative, and the county council has been able to do this because of innovative ways of working. Jocelyn Davies said that collaboration is patchy, but will you agree to stick to the collaboration agenda? I know that there has been talk on the sidelines about the reorganisation of local government. Would you agree that, if you go down that road at the moment, you are threatening to chuck out the best practice baby with the reorganisation bathwater, and that is not something that we should be doing at this time in local government in Wales?

Weinidog, yr wythnos diwethaf, euthum i agoriad neuadd sir newydd Cyngor Sir Fynwy, ychydig y tu allan i Frynbuga yng nghanol fy etholaeth. Rwy'n siŵr eich bod yn ymwybodol bod yr adeilad yn un arloesol, ac mae'r cyngor sir wedi llwyddo i'w gyflawni drwy ffyrdd arloesol o weithio. Dywedodd Jocelyn Davies fod cydweithredu yn dameidiog, ond a fyddwch yn cytuno i gadw at yr agenda cydweithredu? Gwn fod sôn wedi bod ar yr ymylon am ad-drefnu llywodraeth leol. A fyddech yn cytuno, os byddwch yn dilyn y trywydd hwnnw ar hyn o bryd, eich bod yn wynebu risg o danseilio arfer gorau drwy ad-drefnu, ac nid yw hynny'n rhywbeth y dylem fod yn ei wneud ar hyn o bryd mewn llywodraeth leol yng Nghymru?

14:21 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

I am pleased to take the opportunity to say that I have no plans to reorganise local government. You are right that, as Jocelyn Davies said, collaboration has been patchy, but I have seen some excellent examples of collaboration as I have been going around Wales. You mentioned your own council, Monmouthshire. It is one of the most innovative councils I have met, and it certainly has some good ideas. I want to see best practice rolled out. It might come to a point where it will be a case of 'adopt or justify', because we must ask why these examples of best practice are not being duplicated across Wales.

Rwy'n falch o achub ar y cyfle i ddweud nad oes gennyf unrhyw gynlluniau i ad-drefnu llywodraeth leol. Rydych yn llygad eich lle, fel y dywedodd Jocelyn Davies, fod cydweithredu wedi bod yn dameidiog, ond rwyf wedi gweld rhai enghreifftiau gwych o gydweithredu wrth imi deithio o amgylch Cymru. Soniasoch am eich cyngor eich hun, Sir Fynwy. Mae'n un o'r cynghorau mwyaf arloesol imi ei weld, ac yn sicr mae ganddo rai syniadau da. Rwyf am weld arfer gorau yn cael ei gyflwyno. Mae'n bosibl y byddwn yn cyrraedd pwynt lle y bydd yn rhaid 'mabwysiadu neu gyfiawnhau', oherwydd rhaid inni ofyn pam nad yw'r enghreifftiau hyn o arfer gorau yn cael eu hefelychu ledled Cymru.

### Cronfa Cydweithio Rhanbarthol

### Regional Collaboration Fund

14:21 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

*2. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y Gronfa Cydweithio Rhanbarthol? OAQ(4)0278(LG)*

*2. Will the Minister give an update on the Regional Collaboration Fund? OAQ(4)0278(LG)*

14:22 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

I have allocated £6.37 million of funding to 15 projects under the regional collaboration fund so far. A further tranche of projects has been submitted for consideration. I hope to make a further announcement on successful projects shortly.

Rwyf wedi dyrannu £6.37 miliwn o gyllid i 15 o brosiectau o dan y gronfa cydweithredu rhanbarthol hyd yn hyn. Mae cyfran bellach o brosiectau wedi cael eu cyflwyno i'w hystyried. Gobeithiaf wneud cyhoeddiad pellach ar brosiectau llwyddiannus yn fuan.

14:22 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Thank you for that, Minister. You have announced further funding for additional collaborative working, so how are local authorities and public services responding to the initiative to improve service delivery? Do you have any plans to further extend collaborative working?

Diolch ichi am hynny, Weinidog. Rydych wedi cyhoeddi cyllid pellach ar gyfer cydweithredu ychwanegol, felly sut mae awdurdodau lleol a gwasanaethau cyhoeddus yn ymateb i'r fenter i wella'r gwasanaethau a ddarperir? A oes gennych unrhyw gynlluniau i ehangu trefniadau cydweithredu ymhellach?

14:22 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

I have been encouraged by applications to the regional collaboration fund, particularly where there are collaborative projects across public services, not just within local government. I have seen some very good bids and some bids approved have been to better integrate health and social care, which is an incredibly important area. I see collaboration as vital to providing integrated public services around the people of Wales's needs. I have made it very clear to all chief executives and leaders as I have been going around—I have now visited 18 of the 22 local authorities—that I expect to see further collaboration. It has to be faster and it has to be deeper.

Rwyf wedi cael fy nghalonogi gan geisiadau i'r gronfa cydweithredu rhanbarthol, yn enwedig lle mae prosiectau cydweithredol ar draws gwasanaethau cyhoeddus, ac nid o fewn llywodraeth leol yn unig. Rwyf wedi gweld rhai ceisiadau da iawn ac mae rhai o'r ceisiadau sydd wedi'u cymeradwyo wedi bod yn rhai ar gyfer integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol yn well, sy'n faes hynod bwysig. Yn fy marn i, mae cydweithredu yn allweddol i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus integredig sy'n diwallu anghenion pobl Cymru. Rwyf wedi ei gwneud yn glir iawn i'r holl brif weithredwyr ac arweinwyr rwyf wedi cyfarfod â hwy—rwyf bellach wedi ymweld â 18 o'r 22 o awdurdodau lleol—fy mod yn disgwyl gweld cydweithredu pellach. Rhaid iddo fod yn gynt a rhaid iddo fod yn ddyfnach.

14:23 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Minister, the Finance Committee recommended in its invest-to-save inquiry that the regional collaboration fund must also generate efficiency and savings in order to demonstrate that it is providing value for money. What action have you taken that you can report on this recommendation?

Weinidog, argymhellodd y Pwyllgor Cyllid yn ei ymchwiliad buddsoddi i arbed y dylai'r gronfa cydweithredu rhanbarthol hefyd sicrhau effeithlonrwydd ac arbedion er mwyn dangos ei bod yn darparu gwerth am arian. Pa gamau yr ydych wedi'u cymryd y gallwch adrodd arnynt o ran yr argymhelliad hwn?

14:23 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Invest-to-save and the regional collaboration fund are two very different schemes. I do not expect to see collaboration just for efficiencies; I expect to see collaboration because we want to see public services delivered in a more focused way. So, they are two very different schemes. I am encouraging local government to use the invest-to-save scheme also, because I do not think that local government has made the best of it compared to the health sector, in particular, which has really led the way on that scheme.

Mae buddsoddi i arbed a'r gronfa cydweithredu rhanbarthol yn ddau gynllun gwahanol iawn. Nid wyf yn disgwyl gweld cydweithredu ar gyfer effeithlonrwydd yn unig; rwy'n disgwyl gweld cydweithredu am ein bod am sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu darparu mewn ffordd fwy penodol. Felly, maent yn ddau gynllun gwahanol iawn. Anogaf lywodraeth leol i ddefnyddio'r cynllun buddsoddi i arbed hefyd, oherwydd ni chredaf fod llywodraeth leol wedi gwneud y gorau ohono o gymharu â'r sector iechyd, yn arbennig, sy'n wirioneddol wedi arwain y ffordd o ran y cynllun hwnnw.

14:24 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Weinidog, un o'r cynlluniau cyntaf i gael arian o'r gronfa hon oedd cynllun ar gyfer partneriaeth dysgu rhanbarthol yn fy ranbarth i. A fedrwch esbonio dau beth? Yn gyntaf, pam fod angen arian ymlaen llaw er mwyn hyrwyddo cydweithio fel hyn? Pa fath o bethau y byddai'r cynllun hwnnw wedi eu hariannu? Yn ail—ac mae hwn yn berthasol i'r hyn rydym wedi bod yn ei drafod—ym mha ffordd ydych yn disgwyl i gynllun fel hwn godi safonau? Nid oes diben i fuddsoddi'r arian hwn oni bai bod safonau dysgu yn codi yn fy rhanbarth.

Minister, one of the first schemes to be funded through this fund was a scheme for a regional learning partnership in my region. Could you explain two things? First, why is funding required upfront to promote such collaboration? What sort of things would such a scheme have funded? Secondly—and this is pertinent to what we have been discussing—how do you expect a scheme such as this one to raise standards? There is no purpose in investing this funding unless learning standards are raised in my area.

14:24 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

I disagree with the Member. One of the things that we want to see is that this is not just about efficiencies; this is about being innovative as well. I am very keen on local government being innovative. Do not knock it. Let us see what happens. I will be monitoring the way this regional collaboration fund money has been spent as we go through the second and third years.

Anghytunaf â'r Aelod. Un o'r pethau rydym am ei weld yw ei bod yn ymwneud â mwy nag arbedion effeithlonrwydd; mae hyn yn ymwneud â bod yn arloesol hefyd. Rwy'n awyddus iawn i weld llywodraeth leol yn arloesi. Peidiwch â'i beirniadu. Gadewch inni weld beth sy'n digwydd. Byddaf yn monitro sut y caiff yr arian hwn o'r gronfa cydweithredu rhanbarthol ei wario wrth inni fynd dwy'r ail a'r drydedd flwyddyn.

14:25 **Vaughan Gething** Bywgraffiad Biography

Minister, I welcome the regional collaboration fund and a number of the projects, including ones that affect my constituency in Cardiff and the Vale that have been signed off and agreed. However, I am interested, Minister, in whether, when you review the effectiveness of the collaboration fund, you would be prepared to consider whether the sums of money in there are sufficient or whether further incentives and a larger collaboration fund should be produced to further incentivise local authorities to work together more effectively.

Weinidog, croesawaf y gronfa cydweithredu rhanbarthol a nifer o brosiectau, gan gynnwys rhai sy'n effeithio ar fy etholaeth yng Nghaerdydd a'r Fro sydd wedi'u cadarnhau a'u cymeradwyo. Fodd bynnag, hoffwn wybod, Weinidog, pan fyddwch yn adolygu effeithiolrwydd y gronfa cydweithredu, a fyddech yn barod i ystyried a oes digon o arian ynddi neu a ddylid creu rhagor o gymhellion a chronfa cydweithredu fwy er mwyn rhoi anogaeth bellach i awdurdodau lleol weithio gyda'i gilydd yn fwy effeithiol.

14:25 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Yes, obviously, it is a very new scheme. It is really in its infancy. It is very important that we monitor it very carefully and that we see that collaboration is working and that specific scheme is working before we make any more decisions.

Byddwn, yn amlwg, mae'n gynllun newydd iawn. Megis dechrau y mae mewn gwirionedd. Mae'n bwysig iawn ein bod yn ei fonitro'n ofalus iawn a'n bod yn gweld bod cydweithredu'n gweithio a bod y cynllun penodol hwnnw'n gweithio cyn inni wneud rhagor o benderfyniadau.

14:25 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Weinidog, nid yw pob cynllun yn newydd. Mae £805,000 wedi cael ei wario yn y gogledd dros y tair blynedd diwethaf ar gynllun camerau teledu cylch cyfyng traws-rhanbarth. Mae'n ymddangos bod y trafodaethau hynny wedi methu oherwydd byddai'n rhaid i Gyngor Sir y Fflint dalu mwy na'r hyn mae'n ei dalu ar hyn o bryd. A fydd yr arian hwnnw yn cael ei ad-dalu i Lywodraeth Cymru?

Minister, not every scheme is new. Some £805,000 has been spent in north Wales over the past three years on a cross-region closed circuit television scheme. It appears that those discussions have failed because Flintshire County Council would have to pay more than it pays currently. Will that money be repaid to the Welsh Government?

14:26 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

That is something that my officals and I are working closely on with people in north Wales at the moment. I mentioned in my answer to Jocelyn Davies that it is very important that proper analysis is undertaken, and that there is due diligence and a business case. I know that there have been concerns and we must learn those lessons.

Mae hynny'n rhywbeth y mae fy swyddogion a minnau'n gweithio'n agos â phobl yn y gogledd yn ei gylch ar hyn o bryd. Soniais yn fy ateb i Jocelyn Davies ei bod yn bwysig iawn bod dadansoddiad priodol yn cael ei wneud, a bod diwydrwydd dyladwy ac achos busnes. Gwn fod pryderon wedi'u codi a rhaid inni ddysgu'r gwersi hynny.

### Trais yn erbyn Menywod

### Violence against Women

14:26 **Lynne Neagle** Bywgraffiad Biography

*3. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd deddfwriaeth arfaethedig Llywodraeth Cymru i roi terfyn ar drais yn erbyn menywod a cham-drin domestig yng Nghymru? OAQ(4)0285(LG)*

*3. Will the Minister provide an update on the progress of the Welsh Government's proposed legislation to end violence against women and domestic abuse in Wales? OAQ(4)0285(LG)*

14:26 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

A White Paper consultation setting out the policy and legislative proposals was published on 26 November 2012 and ran until 22 February 2013. The Government is now considering the responses to the consultation and will publish a summary report outlining next steps in due course.

Cyhoeddwyd ymgynghoriad Papur Gwyn sy'n nodi'r cynigion polisi a deddfwriaethol ar 26 Tachwedd 2012 gan bara nes 22 Chwefror 2013. Mae'r Llywodraeth bellach yn ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad a bydd yn cyhoeddi adroddiad cryno yn amlinellu'r camau nesaf maes o law.

14:27 **Lynne Neagle** Bywgraffiad Biography

I applaud the Welsh Government's continuing commitment to this agenda. Although I recognise that men can be victims of domestic violence too, organisations such as Women's Aid are right to argue that men do not experience domestic abuse and sexual violence on any way near the same scale as women, who are far more likely to be murdered as a result of domestic abuse and who are at far greater risk of sexual assault. Would you agree that unless we are clear in the forthcoming Bill about a gender focus on domestic abuse there is a real danger of inappropriate services being offered, which, as well as deterring vulnerable women from seeking support, might actually put them in danger from the very men who they are trying to escape?

Cymeradwyaf ymrwymiad parhaus Llywodraeth Cymru i'r agenda hon. Er fy mod yn cydnabod y gall dynion ddioddef trais domestig hefyd, mae sefydliadau fel Cymorth i Fenywod yn llygad eu lle wrth ddadlau nad yw dynion yn dioddef cam-drin domestig a thrais rhywiol ar yr un raddfa â menywod, sy'n llawer mwy tebygol o gael eu llofruddio o ganlyniad i gam-drin domestig ac sy'n wynebu llawer mwy o risg o ymosodiad rhywiol. A fyddech yn cytuno, oni fyddwn yn glir yn y Bil arfaethedig ynghylch ffocws ar rywedd mewn perthynas â cham-drin domestig, mae perygl gwirioneddol y caiff gwasanaethau amhriodol eu cynnig, a allai, yn ogystal ag atal menywod agored i niwed rhag chwilio am gymorth, mewn gwirionedd eu rhoi mewn perygl gan yr union ddynion y maent yn ceisio dianc oddi wrthynt?

14:27 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Yes, you have raised an important point. The Welsh Government remains committed to supporting all victims of violence against women, both domestic and sexual violence. We in Wales, like the rest of the world, recognise that women and girls are disproportionately affected by all forms of that type of violence. It is important, however, that we recognise that domestic and sexual violence are not experienced by women exclusively and that men in Wales are also affected. Therefore, it is right that we get appropriate and specific services for both genders correct.

Byddwn, rydych wedi codi pwynt pwysig. Erys Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i gefnogi pawb sy'n dioddef trais yn erbyn menywod, boed yn drais domestig neu rywiol. Rydym ni yng Nghymru, fel gweddill y byd, yn cydnabod bod pob ffurf ar drais o'r fath yn effeithio'n anghymesur ar fenywod a merched. Mae'n bwysig, fodd bynnag, ein bod yn cydnabod nad dim ond menywod sy'n profi trais domestig, a'i fod hefyd yn effeithio ar ddynion yng Nghymru. Felly, mae angen inni sicrhau gwasanaethau priodol a phenodol ar gyfer y ddau ryw.

14:28 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

One of the problems in tackling violent domestic abuse in the past has been a reluctance on the part of victims to report incidents to police. Will the Minister confirm that the Bill will include measures to ensure that police and crime commissioners take action to increase awareness of domestic abuse in their areas and to encourage victims to report such incidents?

Un o'r problemau wrth fynd i'r afael â cham-drin domestig treisgar yn y gorffennol fu amharodrwydd ar ran y dioddefwyr i roi gwybod i'r heddlu am ddigwyddiadau. A wnaiff y Gweinidog gadarnhau y bydd y Bil yn cynnwys mesurau i sicrhau bod comisiynwyr heddlu a throseddu yn cymryd camau i godi ymwybyddiaeth o gam-drin domestig yn eu hardaloedd ac i annog dioddefwyr i roi gwybod am ddigwyddiadau o'r fath?

14:28 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

You will have heard me say in answer to Lynne Neagle that we are currently considering responses to the consultation. That is something that we can look at as we bring the legislation forward through the Assembly.

Byddwch wedi fy nghlywed yn dweud wrth ateb Lynne Neagle ein bod wrthi'n ystyried ymatebion i'r ymgynghoriad. Mae hynny'n rhywbeth y gallwn edrych arno wrth inni gyflwyno'r ddeddfwriaeth drwy'r Cynulliad.

14:29 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Minister, the Welsh Government rightly acknowledges that voluntary organisations do most of the work in helping women who are victims of violence. However, those voluntary organisations' funding is usually short term. What steps will you be taking to ensure that organisations such as Welsh Women's Aid and Hafan Cymru will have secure longer term funding to carry out their valuable work? I am looking at three to five-year budgets so that people can be assured that at least their jobs are secure.

Weinidog, mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod yn briodol mai sefydliadau gwirfoddol sy'n gwneud y rhan fwyaf o'r gwaith wrth helpu menywod sy'n dioddef trais. Fodd bynnag, arian tymor byr a gaiff y sefydliadau gwirfoddol hynny fel arfer. Pa gamau y byddwch yn eu cymryd i sicrhau bod sefydliadau fel Cymorth i Fenywod Cymru a Hafan Cymru yn cael arian tymor hwy diogel i gyflawni eu gwaith gwerthfawr? Rwy'n ystyried cyllidebau tair i bum mlynedd er mwyn sicrhau y gall pobl fod yn sicr bod eu swyddi'n ddiogel o leiaf.

14:29 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

The sustainability of their funding is an issue for a lot of voluntary organisations. I have commissioned an independent review of all violence against women, domestic abuse and sexual violence services and this will report to me in the autumn. That can help us to assess the existing evidence base that we have, map the current service provision, estimate the prevalence of different forms of violence and make recommendations. So, not only will it help with the Bill, it will also help as we look, particularly in the very difficult current financial times, at how we give that funding out.

Mae cynaliadwyedd ariannol yn broblem i lawer o sefydliadau gwirfoddol. Rwyf wedi comisiynu adolygiad annibynnol o'r holl wasanaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a disgwyliaf adroddiad arno yn yr hydref. Gall hynny ein helpu i asesu'r sail dystiolaeth bresennol sydd gennym, mapio'r gwasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd, amcangyfrif nifer yr achosion o wahanol fathau o drais a gwneud argymhellion. Felly, nid yn unig y bydd yn helpu o ran y Bil, bydd hefyd yn helpu wrth inni ystyried, yn enwedig yn y cyfnod ariannol anodd iawn hwn, sut rydym yn dyrannu'r arian hwnnw.

## Cydbwyllgor Trafod ar gyfer Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol

## Joint Negotiating Committee for Chief Executives of Local Authorities

14:30 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

*4. A wnaiff y Gweinidog gadarnhau pa rôl, os o gwbl, y mae'r Cydbwyllgor Trafod ar gyfer Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol yn ei chwarae o ran pennu cyflogau prif weithredwyr awdurdodau lleol yng Nghymru? OAQ(4)0277(LG)*

*4. Will the Minister confirm what role, if any, the Joint Negotiating Committee for Chief Executives of Local Authorities plays in setting the pay of chief executives of local authorities in Wales? OAQ(4)0277(LG)*

14:30 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

The joint negotiating committee is the national negotiating body between the local authorities and the trade union on the pay and conditions of chief executives. However, the setting of local authority pay is the responsibility of the leadership of each authority and, as such, they are accountable for their decisions.

Y cyd-bwyllgor negodi yw'r corff negodi cenedlaethol rhwng awdurdodau lleol ac undebau llafur ynghylch cyflog ac amodau prif weithredwyr. Fodd bynnag, cyfrifoldeb tîm arwain pob awdurdod yw pennu cyflogau'r awdurdod lleol ac, fel y cyfryw, mae'n atebol am ei benderfyniadau.

14:30 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

I thank the Minister for that response. Figures for unitary authorities of between 100 and 249,999 people are between £137,000 and £140,000. Will the Minister write to those local authorities who are paying above that to their chief executives asking if they can give a reason?

Diolch i'r Gweinidog am yr ymateb hwnnw. Mae'r ffigurau ar gyfer awdurdodau unedol o rhwng 100 a 249,999 o bobl rhwng £137,000 a £140,000. A fydd y Gweinidog yn ysgrifennu at yr awdurdodau lleol hynny sy'n talu mwy na'r ffigurau hynny i'w prif weithredwyr yn gofyn a allant roi rheswm?

14:31 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

I remain of the view that it is not appropriate for me to intervene in what is a matter for each authority. The most important thing—and this is the message that I have been giving to everyone who listens—is that decisions on pay are fair, transparent and open to public scrutiny, so that the local electorate know exactly how those decisions are being taken. We are in very constrained budget times, as we are all aware, and it is reasonable to expect chief executives and chief officers to be subject to the same limits on pay awards that apply to the vast majority of their staff.

Credaf o hyd nad yw'n briodol imi ymyrryd mewn rhywbeth sy'n fater i bob awdurdod unigol. Y peth pwysicaf—a dyma'r neges rwyf wedi bod yn ei rhoi i bawb sy'n gwrando—yw bod penderfyniadau ynghylch cyflog yn deg, yn dryloyw ac yn agored i graffu cyhoeddus, fel bod yr etholaeth leol yn gwybod yn union sut mae'r penderfyniadau hynny'n cael eu gwneud. Rydym mewn cyfnod pan fo cyllidebau'n dynn iawn, fel y mae pob un ohonom yn ymwybodol, ac mae'n rhesymol disgwyl i brif weithredwyr a phrif swyddogion fod yn ddarostyngedig i'r un cyfyngiadau ar ddyfarniadau cyflog ag sy'n berthnasol i'r mwyafrif helaeth o'u staff.

14:31 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

I am pleased to see that there is a split on this in Welsh Labour because this is growing in momentum in terms of the concerns that are raised. Minister, recent headlines from the 'Western Mail' show that there are some 56 senior officers in Wales taking home salaries of over £100,000. Is your Labour Government's recent talk of fairness and accountability in chief executives' pay not merely lip service?

Rwy'n falch o weld gwahaniaeth barn ar hyn yn Llafur Cymru oherwydd mae momentwm yn cynyddu o ran y pryderon a godir. Weinidog, dengys penawdau diweddar yn y 'Western Mail' fod tua 56 o uwch-swyddogion yng Nghymru sy'n ennill dros £100,000. Ai siarad gwag yw trafodaethau diweddar eich Llywodraeth Lafur ynghylch tegwch ac atebolrwydd cyflogau prif weithredwyr?

14:32 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

I am not sure what you mean by 'your Labour Government'; I have just given you the Welsh Government's view.

Nid wyf yn siŵr beth rydych yn ei olygu wrth 'eich Llywodraeth Lafur'; rwyf newydd roi barn Llywodraeth Cymru ichi.

14:32 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Minister, Members on this side, other parties within this Chamber, and now even some members of your own party, have repeatedly called for establishing protocol so that chief executives' pay and senior officers' pay above a certain figure needs to be justified before either Welsh Ministers or an independent panel. What discussions have you had with local authorities with regard to improving transparency, in the first instance, in the setting of senior officers' pay?

Weinidog, mae Aelodau ar yr ochr hon, pleidiau eraill yn y Siambr hon, a bellach hyd yn oed rai aelodau o'ch plaid eich hun, wedi galw dro ar ôl tro am brotocol fel bod angen i gyflogau prif weithredwyr ac uwch-swyddogion sydd uwchlaw ffigur penodol gael eu cyfiawnhau naill ai gan Weinidogion Cymru neu banel annibynnol. Pa drafodaethau rydych wedi'u cael ag awdurdodau lleol o ran gwella tryloywder, yn y lle cyntaf, mewn perthynas â chyflogau uwch-swyddogion?

14:32 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

I just said that I think it is very important that decisions on pay are fair, transparent and open to public scrutiny and I have repeated that message to everybody I have spoken to on my visits to local government, including the reform delivery group and the political leadership of the Welsh Local Government Association. However, I repeat that I remain of the view that it is not appropriate for me to intervene in what is a matter for each local authority.

Rwyf newydd ddweud fy mod yn credu ei bod yn bwysig iawn bod penderfyniadau ynghylch cyflog yn deg, yn dryloyw ac yn agored i graffu cyhoeddus ac rwyf wedi ailadrodd y neges honno i bawb rwyf wedi siarad â hwy wrth ymweld â llywodraeth leol, gan gynnwys y grŵp cyflawni diwygio ac arweinwyr gwleidyddol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Fodd bynnag, ailadroddaf fy mod o'r farn o hyd nad yw'n briodol imi ymyrryd yn yr hyn sy'n fater i bob awdurdod lleol unigol.

14:33 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Weinidog, rydych yn dweud eich bod o blaid sicrhau tegwch a thryloywder yn y materion hyn, ond nid ydych yn barod i wneud unrhyw beth. Mae cyfle gyda chi yn y Bil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) i sicrhau bod bwrdd taliadau annibynnol yn penderfynu beth yw'r tal y dylai prif weithredwyr a'r prif swyddogion mewn awdurdodau lleol ei dderbyn.

Minister, you say that you are in favour of ensuring equity and transparency in these matters, but you are not willing to do anything. You have an opportunity with the Local Government (Democracy) (Wales) Bill to ensure that an independent remuneration board decides what remuneration chief executives and senior officials in local authorities should receive.

14:33 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

I do not think that the local democracy Bill is the place. You have my views on it in answers to previous Members. Each local authority is required to publish a pay policy statement, setting out its policies on a range of issues relating to the pay of its workforce, particularly its senior staff, for each financial year. It is very important that any decision taken is open and transparent, and is open to public scrutiny so that the local electorate understand how those levels of pay have been reached.

Ni chredaf mai'r Bil democratiaeth leol yw'r lle i wneud hynny. Rydych wedi cael fy marn ar y mater mewn atebion i Aelodau blaenorol. Mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol gyhoeddi datganiad polisi cyflog, yn nodi ei bolisïau ar amrywiaeth o faterion yn ymwneud â chyflog ei weithlu, yn enwedig ei uwch aelodau o staff, ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Mae'n bwysig iawn bod unrhyw benderfyniad a wneir yn agored ac yn dryloyw, ac yn agored i graffu cyhoeddus fel bod yr etholaeth leol yn deall sut y cafodd y lefelau cyflog hynny eu pennu.

14:34 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Weinidog, rydych yn dweud nad ydych yn teimlo mai'r Bil democratiaeth leol yw'r ffordd ymlaen yn hyn o beth. Byddaf yn symud gwelliant yng Nghyfnod 3 ar y mater hwn. Os nad ydych yn credu mai'r Bil democratiaeth leol yw'r ffordd i symud ymlaen ar y mater hwn, sut ydych yn bwriadu gwneud hynny? Nid oes pwynt i chi ddod gerbron y Cynulliad hwn gyda geiriau teg, yn dweud eich bod yn credu mewn tryloywder, tegwch ac yn y blaen, ac wedyn gwneud dim byd. Os nad ydych am dderbyn ein gwelliant ni a gwneud rhywbeth drwy'r Bil hwn, beth ydych yn mynd i'w wneud fel Gweinidog?

Minister, you say that you do not feel that the local democracy Bill is the way forward here. I will be moving an amendment at Stage 3 on this matter. If you do not believe that the local democracy Bill is the way forward on this matter, how do you intend to do so? There is no point in you coming before this Assembly with fine words, saying that you believe in transparency, fairness and so on, and not doing anything. Unless you are going to accept our amendment and do something through this Bill, what are you going to do as Minister?

14:35 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

I have just answered your question—

Rwyf newydd ateb eich cwestiwn-

14:35 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

No, you have not. What are you doing?

Nac ydych. Beth ydych chi'n ei wneud?

14:35 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Each local authority is required to publish a pay policy statement, setting out its policy, so that safeguard is there. Local authorities are aware of my strong views on the need for transparency. However, ultimately, it is a decision for each local authority.

Mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol gyhoeddi datganiad polisi cyflog, yn nodi ei bolisi, felly mae'r mesur diogelwch hwnnw ar waith. Mae awdurdodau lleol yn ymwybodol o'm safbwyntiau cryf ar yr angen am dryloywder. Fodd bynnag, yn y pen draw, penderfyniad pob awdurdod lleol ydyw.

14:35 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Minister, I agree with you that it is not your job to interfere in local government. However, every other employee of local government has a pay structure, which they work within, which provides some level of uniformity across Wales. Why should chief executives be any different?

Weinidog, cytunaf â chi nad eich rôl chi yw ymyrryd mewn llywodraeth leol. Fodd bynnag, mae gan bob cyflogai arall mewn llywodraeth leol strwythur cyflog, y mae'n gweithio'n unol ag ef, sy'n darparu rhywfaint o unffurfiaeth ledled Cymru. Pam y dylai prif weithredwyr fod yn wahanol?

14:35 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Absolutely—it is about different jobs. You know how local government works probably better than any other Assembly Member. I will repeat my answers to previous questions—I believe that it is a decision for each local authority.

Yn union—mae'n ymwneud â swyddi gwahanol. Gwyddoch yn well nag unrhyw Aelod arall o'r Cynulliad mae'n debyg sut mae llywodraeth leol yn gweithio. Ailadroddaf fy atebion i gwestiynau blaenorol—credaf mai penderfyniad pob awdurdod lleol unigol ydyw.

14:35 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Thank you for that answer, Minister, but it does not answer my question. My question was this: why should chief executives and senior officers be any different to other employees? Local councillors have their remuneration determined by an independent board—and I declare an interest as a local councillor. Therefore, why should chief executives and senior officers not be in the same position, so that you do not have to get involved, but so that there is some understanding, transparency and accountability as to how their pay is set?

Diolch ichi am yr ateb hwnnw, Weinidog, ond nid yw'n ateb fy nghwestiwn. Fy nghwestiwn oedd hyn: pam y dylai prif weithredwyr ac uwch-swyddogion fod yn wahanol i gyflogeion eraill? Caiff tâl cynghorwyr lleol ei bennu gan fwrdd annibynnol—a datganaf fuddiant fel cynghorydd lleol. Felly, pam na ddylai prif weithredwyr ac uwch-swyddogion fod yn yr un sefyllfa, fel nad oes rhaid ichi ymwneud â'r mater, ond fel bod rhywfaint o ddealltwriaeth, tryloywder ac atebolrwydd o ran sut y caiff eu cyflog ei bennu?

14:36 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

There are several issues that have to be taken into account when these pay salaries are being set. I appreciate what you say about councillors—they have the panel. Maybe it is something that we can look at, but I cannot intervene, and I believe that it is the right thing for local authorities to make these decisions.

Mae nifer o faterion y mae'n rhaid eu hystyried wrth bennu'r cyflogau hyn. Gwerthfawrogaf yr hyn a ddywedwch am gynghorwyr—mae ganddynt y panel. Efallai ei fod yn rhywbeth y gallwn ei ystyried, ond ni allaf ymyrryd, a chredaf ei bod yn briodol i awdurdodau lleol wneud y penderfyniadau hyn.

### Cam-drin Domestig

### Domestic Abuse

14:36 **Christine Chapman** Bywgraffiad Biography

*5. Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i godi ymwybyddiaeth o gam-drin domestig yng Nghymru? OAQ(4)0273(LG)*

*5. What is the Welsh Government doing to raise awareness of domestic abuse in Wales? OAQ(4)0273(LG)*

14:36 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

We have run publicity campaigns, including a television and social media campaign over Christmas, focusing on how domestic abuse impacts on children and families. We also ran a campaign around the RBS 6 Nations championship, which was aimed at tackling increased levels of domestic abuse at that time. We continually challenge the acceptability of such behaviour, through our website and our use of social media.

Rydym wedi cynnal ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd, yn cynnwys ymgyrch deledu a chyfryngau cymdeithasol dros y Nadolig, gan ganolbwyntio ar sut mae cam-drin domestig yn effeithio ar blant a theuluoedd. Gwnaethom hefyd gynnal ymgyrch adeg pencampwriaeth Chwe Gwlad RBS, a oedd â'r nod o fynd i'r afael â lefelau cynyddol o gam-drin domestig ar y pryd. Rydym yn herio derbynioldeb ymddygiad o'r fath yn barhaus, drwy ein gwefan a'n defnydd o gyfryngau cymdeithasol.

14:37 **Christine Chapman** Bywgraffiad Biography

I welcome any campaign that helps in this regard. However, with figures from the National Society for the Prevention of Cruelty to Children showing that one in three teenage girls have experienced unwanted sexual acts while in a relationship, and one in four have experienced physical violence, I welcome the priority that is given to how domestic abuse affects young people by the Welsh Government. Do you agree that this is not just about alerting young girls to this issue, and discussing it with them, but is also about educating young boys and men to understand the key concepts of a healthy relationship—respect, fairness and consent?

Croesawaf unrhyw ymgyrch sy'n helpu yn hyn o beth. Fodd bynnag, o gofio bod ffigurau gan y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant yn dangos bod un o bob tair merch yn ei harddegau wedi profi gweithredoedd rhywiol digroeso tra eu bod mewn cydberthynas, a bod un o bob pedair wedi profi trais corfforol, croesawaf y flaenoriaeth a roddir gan Lywodraeth Cymru i effaith cam-drin domestig ar bobl ifanc. A gytunwch fod hyn yn golygu mwy na thynnu sylw merched ifanc at y mater hwn, a'i drafod â hwy, ond hefyd am addysgu bechgyn a dynion ifanc i ddeall cysyniadau allweddol cydberthynas iach—parch, tegwch a chydsyniad?

14:37 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Yes, I agree. I met a few weeks ago with a group of high school girls and young women, who stressed the importance of focusing on educating boys and young men about healthy relationships. You will appreciate that the proposals in the White Paper on ending violence against women, domestic abuse and sexual violence are cross-cutting. I am having discussions with the Minister for Health and Social Services, and the Minister for Education and Skills, because, as you may be aware, the White Paper proposes to ensure that education on healthy relationships is delivered in all our schools. That is an important discussion that is taking place at present. It also proposes a regional champion to promote a whole-school approach, which should be identified by each local authority.

Cytunaf. Cyfarfûm ychydig wythnosau yn ôl â grŵp o ferched ysgol uwchradd a menywod ifanc, a bwysleisiodd bwysigrwydd canolbwyntio ar addysgu bechgyn a dynion ifanc am gydberthnasau iach. Byddwch yn gwerthfawrogi bod y cynigion yn y Papur Gwyn ar gyfer rhoi terfyn ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn drawsbynciol. Rwyf wrthi'n cynnal trafodaethau â'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gweinidog Addysg a Sgiliau oherwydd, fel y gwyddoch efallai, mae'r Papur Gwyn yn cynnig sicrhau bod addysg ar gydberthnasau iach yn cael ei chyflwyno ym mhob un o'n hysgolion. Mae honno'n drafodaeth bwysig sy'n mynd rhagddi ar hyn o bryd. Mae hefyd yn cynnig penodi eiriolwr rhanbarthol i hyrwyddo dull ysgol gyfan, y dylai pob awdurdod lleol ei nodi.

14:38 **Angela Burns** Bywgraffiad Biography

Building on Christine Chapman's question, it is more than fair to say that the police have had a torrid time in the last few weeks. First, there was the Thames Valley Police report on the abuse of young women in that cartel, and then there was the report this week into the abuse of Maria Stubbings, who lost her life thanks to the inaction of Essex Police. Minister, what are you and your colleagues around the table doing to ensure that our police forces are really understanding of what domestic abuse and sexual abuse are about, so that they elevate women and children to a place where they can be protected and cherished, and not just dismissed out of hand, as those two police forces in England so patently did?

Gan adeiladu ar gwestiwn Christine Chapman, teg yw dweud bod yr heddlu wedi wynebu cyfnod anodd iawn dros yr ychydig wythnosau diwethaf. Yn gyntaf, cafwyd adroddiad Heddlu Dyffryn Tafwys ar achosion o gam-drin menywod ifanc yn y cartel hwnnw, ac yna cafwyd yr adroddiad yr wythnos hon ar yr achos o gam-drin Maria Stubbings, a fu farw yn sgil diffyg gweithredu gan Heddlu Essex. Weinidog, beth rydych chi a'ch cyd-Aelodau o amgylch y bwrdd yn ei wneud i sicrhau bod ein heddluoedd wirioneddol yn deall cam-drin domestig a cham-drin rhywiol, er mwyn sicrhau eu bod yn symud menywod a phlant i fan lle y gellir eu diogelu a'u gwerthfawrogi, ac nid dim ond eu hanwybyddu'n llwyr, fel y gwnaeth y ddau heddlu hynny yn Lloegr mewn modd mor amlwg?

14:39 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

You raise a very important point, which I will discuss with the chief constables and the police and crime commissioners. They play an important part in ensuring that our Bill, as it goes through the Assembly, is the best legislation that we can have to protect young girls and women.

Rydych yn codi pwynt pwysig iawn, a byddaf yn ei drafod â'r prif gwnstabliaid a'r comisiynwyr heddlu a throseddu. Maent yn chwarae rhan bwysig o ran sicrhau mai ein Bil ni, wrth iddo fynd drwy'r Cynulliad, yw'r ddeddfwriaeth orau bosibl ar gyfer diogelu merched a menywod ifanc.

14:39 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

The Police and Crime Commissioner for Dyfed-Powys has lamented the use of cautions for serious crime, including domestic violence, and claims that this is a result of the target culture. Domestic violence is being trivialised by Dyed-Powys Police. Minister, I know that this is a non-devolved matter, but will you please take this matter up, for the sake of everyone living in the Dyfed-Powys Police area?

Mae Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys wedi gresynu'r defnydd o rybuddion ar gyfer troseddau difrifol, gan gynnwys trais domestig, gan honni bod hyn yn deillio o'r diwylliant sy'n canolbwyntio ar dargedau. Mae trais domestig yn cael ei fychanu gan Heddlu Dyfed-Powys. Weinidog, gwn fod hwn yn fater nad yw wedi ei ddatganoli, ond a wnewch chi godi'r mater hwn, er budd pawb sy'n byw yn ardal Heddlu Dyfed-Powys?

14:40 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

I will certainly raise it with him when I meet all the chief constables and commissioners in due course.

Byddaf yn sicr yn codi'r mater ag ef pan fyddaf yn cwrdd â'r holl brif gwnstabliaid a chomisiynwyr maes o law.

14:40 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Minister, do you share my concern that the single monthly payment of the universal credit to a single family member could have a serious and detrimental effect on victims of domestic violence by giving the abuser financial control, therefore making it even harder for people to leave abusive relationships?

Weinidog, a ydych yn rhannu fy mhryder y gallai un taliad misol o gredyd cynhwysol i un aelod o'r teulu gael effaith ddifrifol ac andwyol ar ddioddefwyr trais domestig drwy roi rheolaeth ariannol i'r sawl sy'n cam-drin, a'i gwneud hyd yn oed yn anoddach i bobl adael cydberthynas lle maent yn cael eu cam-drin?

14:40 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

We continue to be concerned about a number of the design features of the UK Government's welfare reforms. We have consistently raised concerns about the impact of the reforms with the UK Government. You may be aware that we have commissioned a ministerial task and finish group to undertake some research into this issue. Stage 3 of the research, which is currently under way, will include an assessment of the impact of welfare reform in Wales on those with protected characteristics, including gender. A report summarising the findings of this element of the stage 3 research is expected to be published this summer.

Rydym yn bryderus o hyd ynghylch nifer o nodweddion cynllunio diwygiadau lles Llywodraeth y DU. Rydym wedi codi pryderon ynghylch effaith y diwygiadau gyda Llywodraeth y DU yn gyson. Efallai eich bod yn ymwybodol ein bod wedi comisiynu grŵp gorchwyl a gorffen gweinidogol i ymgymryd â rhywfaint o waith ymchwil ar y mater hwn. Bydd Cam 3 o'r ymchwil, sydd ar waith ar hyn o bryd, yn cynnwys asesiad o effaith diwygio lles yng Nghymru ar y rhai â nodweddion gwarchodedig, gan gynnwys rhywedd. Disgwylir i adroddiad yn crynhoi canfyddiadau'r elfen hon o gam 3 yr ymchwil gael ei gyhoeddi yn yr haf.

## Cyflogau Uwch Rheolwyr a Swyddogion

## Senior Management and Officers Pay

14:41 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Minister, I think that I know the answer to this question, as a result of the answer to question 5—

Weinidog, credaf fy mod yn gwybod yr ateb i'r cwestiwn hwn, yn dilyn yr ateb i gwestiwn 5—

14:41 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Just ask it, please.

Gofynnwch y cwestiwn, os gwelwch yn dda.

14:41 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

I was just about to.

Roeddwn ar fin gwneud hynny.

*6. A wnaiff y Gweinidog gadarnhau a oes ganddi unrhyw gynlluniau i gyflwyno deddfwriaeth mewn perthynas â chyflogau uwch reolwyr a swyddogion mewn llywodraeth leol yng Nghymru? OAQ(4)0283(LG)*

*6. Will the Minister confirm if she has any plans to bring forward legislation in relation to senior management and officers pay in local government in Wales? OAQ(4)0283(LG)*

14:41 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

I have no plans to bring forward legislation in relation to senior management or senior officers' pay.

Nid oes gennyf unrhyw gynlluniau i gyflwyno deddfwriaeth mewn perthynas â chyflog uwch reolwyr neu uwch-swyddogion'.

14:41 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Thank you for your answer, Minister. We are aware of the recent example, not just of chief executives but of 21 senior officers in a certain local authority—Caerphilly County Borough Council—who received a substantial increase for several months. Although, due to public outcry, that increase was reduced, it was still an increase while other staff were on a pay freeze. It is not acceptable. When I led Caerphilly, we did not think that it was morally right to do so. In committee, an amendment to the Local Government (Democracy) (Wales) Bill submitted by Rhodri Glyn to legislate to move senior officers' pay to an all-Wales panel was rejected by Labour. If you do not intend to support legislation, what are you going to do about this issue, which is rightly causing such outrage among people all over Wales? If it was not for 700 members of staff walking out in Caerphilly, Caerphilly would have done nothing. Minister, you have to legislate for the good of local government.

Diolch am eich ateb, Weinidog. Rydym yn ymwybodol o'r enghraifft ddiweddar, lle cafodd nid yn unig brif weithredwyr ond 21 o uwch-swyddogion mewn awdurdod lleol penodol—Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili—gynnydd sylweddol am sawl mis. Er i'r cynnydd hwnnw gael ei leihau, oherwydd gwrthwynebiad cyhoeddus, roedd yn gynnydd o hyd tra bod cyflogau aelodau eraill o staff wedi'u rhewi. Nid yw hyn yn dderbyniol. Pan oeddwn yn arwain yng Nghaerffili, nid oeddem yn credu ei bod yn foesol gywir i wneud hynny. Yn y pwyllgor, gwrthododd Llafur welliant i Fil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) a gyflwynwyd gan Rhodri Glyn i ddeddfu i symud cyflogau uwch-swyddogion i banel Cymru gyfan. Os nad ydych yn bwriadu cefnogi deddfwriaeth, beth rydych yn bwriadu ei wneud ynglŷn â'r mater hwn, sy'n achosi cymaint o ddicter ymhlith pobl o bob cwr o Gymru, a hynny'n gywir ddigon? Pe na bai 700 o aelodau o staff wedi cerdded allan yng Nghaerffili, ni fyddai Caerffili wedi gwneud dim. Weinidog, rhaid ichi ddeddfu er budd llywodraeth leol.

14:42 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

There is very little that I can add to what I said in my previous answers. I welcome the decision by Caerphilly councillors to reduce the pay increases previously awarded to senior staff at the council. I reiterate that it is very important that whatever decisions are taken by local authorities—which are the right places to do it—in relation to senior officers' pay, it must be done in an open and transparent way.

Nid oes fawr ddim y gallaf ei ychwanegu at yr hyn a ddywedais yn fy atebion blaenorol. Croesawaf benderfyniad cynghorwyr Caerffili i leihau'r codiadau cyflog a ddyfarnwyd yn flaenorol i uwch aelodau o staff y cyngor. Ailadroddaf ei bod yn bwysig iawn bod pa benderfyniadau bynnag a wneir gan awdurdodau lleol—sef y mannau cywir i'w gwneud—ynghylch cyflogau uwch-swyddogion yn cael eu gwneud mewn modd agored a thryloyw.

14:42 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Minister, transparency and democratic accountability should be the fundamental cornerstones of all public bodies, including each and every one of our 22 local authorities in Wales. Under the Localism Act 2011, as you have just mentioned, local authorities are required to publish senior pay policy statements. Minister, what measures are in place to ensure that local authorities fulfil this commitment? How many of these policy statements have you or your Welsh Government officials seen?

Weinidog, dylai tryloywder ac atebolrwydd democrataidd fod wrth wraidd pob corff cyhoeddus, gan gynnwys pob un o'n 22 awdurdod lleol yng Nghymru. O dan Ddeddf Lleoliaeth 2011, fel yr ydych newydd ei grybwyll, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol gyhoeddi datganiadau polisi cyflog ar gyfer uwch aelodau o staff. Weinidog, pa fesurau sydd ar waith i sicrhau bod awdurdodau lleol yn cyflawni'r ymrwymiad hwn? Sawl un o'r datganiadau polisi hyn rydych chi neu'ch swyddogion yn Llywodraeth Cymru wedi eu gweld?

14:43 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

I cannot give you a specific answer on how many pay policies have been seen by me and my officials. I will write to you with that information.

Ni allaf roi ateb penodol o ran faint o bolisïau cyflog y mae fy swyddogion a minnau wedi eu gweld. Byddaf yn ysgrifennu atoch gyda'r wybodaeth honno.

14:43 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Minister, I am not only concerned about the high levels of pay for council chief executives and senior staff, but also about how they get their jobs in the first place. Do you agree that it is unacceptable that chief executives or senior managers get their job without open, fair and transparent competition, and that no-one should be appointed to a position of that kind without there being a public advertisement for that post, and an open and transparent recruitment policy?

Weinidog, pryderaf nid yn unig am gyflogau uchel prif weithredwyr ac uwch-aelodau o staff cyngor, ond hefyd am y ffordd y maent yn cael eu swyddi yn y lle cyntaf. A ydych gytunwch ei bod yn annerbyniol bod prif weithredwyr neu uwch reolwyr yn cael eu swyddi heb gystadleuaeth agored, teg a thryloyw, ac na ddylai unrhyw un gael ei benodi i swydd o'r fath heb fod hysbyseb gyhoeddus ar gyfer y swydd honno, a polisi recriwtio agored a thryloyw?

14:44

**Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

I certainly would agree with you; I do not think that anyone should be appointed unless they have gone through that very public process that you have just referred to.

Byddwn yn sicr yn cytuno â chi; ni chredaf y dylai unrhyw un gael ei benodi oni bai ei fod wedi mynd drwy'r union broses gyhoeddus honno yr ydych newydd gyfeirio ati.

### Llywodraeth Leol

### Local Government

14:44

**Byron Davies** Bywgraffiad Biography

*7. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr heriau presennol sy'n wynebu llywodraeth leol? OAQ(4)0280(LG)*

*7. Will the Minister make a statement on the current challenges facing local government? OAQ(4)0280(LG)*

14:44

**Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

The next UK spending review will further reduce the Welsh Government's budget. We will not be able to protect local authority budgets as we have done in recent years, so the financial reductions experienced by local government in England signal the future reality for Wales. Local authorities need immediate and radical short-term financial and service planning to align public services to the lower levels of resources that will be available in the future.

Bydd yr adolygiad nesaf o wariant y DU yn lleihau cyllideb Llywodraeth Cymru ymhellach. Ni fyddwn yn gallu diogelu cyllidebau awdurdodau lleol fel yr ydym wedi'i wneud dros y blynyddoedd diwethaf, felly mae'r gostyngiadau ariannol a wynebwyd gan lywodraeth leol yn Lloegr yn dangos y realiti i Gymru yn y dyfodol. Mae angen gwneud gwaith cynllunio ariannol a gwasanaethau byrdymor uniongyrchol a radical mewn awdurdodau lleol er mwyn cysoni gwasanaethau cyhoeddus â'r lefelau is o adnoddau a fydd ar gael yn y dyfodol.

14:44

**Byron Davies** Bywgraffiad Biography

Thank you for that answer, Minister. As I see it, there are several other challenges. Reorganisation is one, economic development is another and the issue of procurement is also a concern. With these in mind, what are you doing to bring forward specific joint ventures between the Welsh Government and local authorities to ease congestion in our towns and cities with infrastructure projects?

Diolch ichi am yr ateb hwnnw, Weinidog. Yn fy marn i, mae nifer o heriau eraill. Mae ad-drefnu yn un ohonynt, datblygu economaidd yn un arall ac mae caffael hefyd yn bryder. O gofio'r materion hyn, beth rydych yn ei wneud i gyflwyno cyd-fentrau penodol rhwng Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol i leihau nifer y tagfeydd yn ein trefi a'n dinasoedd gyda phrosiectau seilwaith?

14:45

**Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

There are challenges other from the one I mentioned, but I think that the financial challenge is the biggest challenge facing not just the Welsh Government, but local government. Certainly, I am having discussions about national projects. You mentioned procurement; I am pleased that local authorities have signed up to this. Economic development is obviously important for the future of everybody in Wales and it is something that officials are discussing with local authorities on a regular basis.

Mae heriau eraill heblaw'r un y soniais amdani, ond credaf mai'r her ariannol yw'r her fwyaf sy'n wynebu nid yn unig Lywodraeth Cymru, ond llywodraeth leol. Yn sicr, rwyf yn cynnal trafodaethau am brosiectau cenedlaethol. Soniasoch am gaffael; rwy'n falch bod awdurdodau lleol wedi ymrwymo i hyn. Mae datblygu economaidd yn amlwg yn bwysig i ddyfodol pawb yng Nghymru, ac mae'n rhywbeth y mae swyddogion yn ei drafod ag awdurdodau lleol yn rheolaidd.

14:45

**Ieuan Wyn Jones** Bywgraffiad Biography

Bydd y Gweinidog yn ymwybodol, rwy'n siŵr, fod Cyngor Sir Ynys Môn wedi wynebu mwy na'i siâr o heriau yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Yfory, bydd y Gweinidog yn mynd i siarad gyda'r cyngor sir. Beth fydd y neges fydd hi'n ei chymryd i'r trefniant newydd a fydd yn rheoli'r cyngor sir yn wleidyddol yn dilyn yr etholiadau lleol? Pa neges y bydd yn ei rhoi iddynt ynglŷn â pharhad neu ymatal gweithgarwch y comisiynwyr a benodwyd gan ei rhagflaenydd? A all y Gweinidog ddweud wrthym ni heddiw ba neges y bydd yn ei rhoi?

As I am sure the Minister is aware, the Isle of Anglesey County Council has faced more than its share of challenges over the past few years. Tomorrow, the Minister will be going to speak the county council. What message will she be taking to the new coalition that will politically control the council following the local elections? What message will she convey to them in terms of the continuation or ceasing of the activity of the commissioners appointed by her predecessor? Can the Minister tell us today what message she will convey?

14:46 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

I cannot say today, but I will be issuing a written statement in the very near future and before I speak in Ynys Môn tomorrow.

Ni allaf ddweud heddiw, ond byddaf yn cyhoeddi datganiad ysgrifenedig yn y dyfodol agos iawn, a chyn imi siarad yn Ynys Môn yfory.

14:46 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Minister, one aspect of local government that has not been aired so far in today's session is the importance of town and community councils across Wales. Indeed, there was consternation in the Republic of Ireland last autumn when your opposite number, Phil Hogan, announced the abolition of town and community councils across the Republic. Will you reassure the more nervous among the town and community councillors in Wales that you have a continued commitment to that important tier of local government? Also, will you outline your vision for the future of town and community councils in Wales?

Weinidog, un agwedd ar lywodraeth leol nad yw wedi'i gwyntyllu hyd yma yn y sesiwn heddiw yw pwysigrwydd cynghorau tref a chymuned ledled Cymru. Yn wir, roedd pryder yng Ngweriniaeth Iwerddon yr hydref diwethaf pan gyhoeddodd y gweinidog sy'n cyfateb ichi, Phil Hogan, y bwriad i ddiddymu cynghorau tref a chymuned ym mhob rhan o'r Weriniaeth. A wnewch chi roi sicrwydd i'r rhai mwy nerfus ymhlith cynghorwyr tref a chymuned Cymru fod gennych ymrwymiad parhaus i'r haen bwysig honno o lywodraeth leol? Hefyd, a wnewch chi amlinellu eich gweledigaeth ar gyfer dyfodol cynghorau tref a chymuned yng Nghymru?

14:47 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

I have no plans to abolish town and community councils. I have not done much work around that area this early in my portfolio, but it is something to look at. I was at Ceredigion County Council last week and I was surprised to hear that there are 80 town and community councils in that one local authority area. So, it is something that I need to look at. I also hope that the Commission on Public Service Governance and Delivery will look at their role, because I think that they play a vital role at a local level.

Nid oes gennyf unrhyw gynlluniau i ddiddymu cynghorau tref a chymuned. Nid wyf wedi gwneud llawer o waith ar y maes hwnnw mor gynnar â hyn yn fy mhortffolio, ond mae'n rhywbeth i'w ystyried. Roeddwn yng Nghyngor Sir Ceredigion yr wythnos diwethaf, a synnais i glywed bod 80 o gynghorau tref a chymuned yn yr un ardal awdurdod lleol honno. Felly, mae'n rhywbeth y mae angen imi ei ystyried. Gobeithiaf hefyd y bydd y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus yn ystyried ei rôl, oherwydd credaf ei fod yn chwarae rôl hanfodol yn lleol.

### Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol

### The Local Government Boundary Commission

14:47 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

*8. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyfodol y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol? OAQ(4)0287(LG)W*

*8. Will the Minister make a statement on the future of the Local Government Boundary Commission? OAQ(4)0287(LG)W*

14:47 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

The Local Government (Democracy) (Wales) Bill sets out my vision for the future structure and functions of the Local Government Boundary Commission.

Mae Bil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) yn amlinellu fy ngweledigaeth ar gyfer strwythur a swyddogaethau Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol yn y dyfodol.

14:48 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Pam nad yw Llywodraeth Cymru yn fodlon sicrhau, drwy'r Bil democratiaeth, fod o leiaf un aelod o'r comisiwn ffiniau yn medru'r Gymraeg, er bod Comisiynydd y Gymraeg, y comisiwn ei hun a'r Gymdeithas Diwygio Etholiadol o blaid hynny?

Why is the Welsh Government not willing to ensure, through the democracy Bill, that at lease one member of the boundary commission is a Welsh speaker, even though the Welsh Language Commissioner, the commission itself and the Electoral Reform Society are in favour of that?

14:48 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

This was a piece that I looked at very closely in the legislation. The appointment, as you know, will be subject to the public appointments scheme, which is covered in the Welsh Government's Welsh language scheme. I think that it is difficult to defend a reserved place for a Welsh speaker when there is no similar provision for any other characteristic, such as gender or ethnicity. The ability to speak Welsh can still be made a desirable quality in the recruitment process. As the numbers are so small—there are only three commissioners—that was my view.

Roedd hwn yn ddarn a ystyriwyd gennyf yn ofalus iawn yn y ddeddfwriaeth. Mae'r penodiad, fel y gwyddoch, yn ddarostyngedig i'r cynllun penodiadau cyhoeddus, a gwmpesir yng Nghynllun Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru. Credaf ei bod yn anodd amddiffyn lle a gadwyd i siaradwr Cymraeg pan nad oes darpariaeth debyg ar gyfer unrhyw nodwedd arall, fel rhyw neu ethnigrwydd. Gellir gwneud y gallu i siarad Cymraeg yn briodwedd ddymunol yn y broses recriwtio o hyd. Gan fod y niferoedd mor fach — dim ond tri chomisiynydd—dyna oedd fy marn.

14:48 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Minister, when the Bill was introduced, it indicated that the Welsh Ministers would direct the commission to review the membership of certain public bodies, the number of members and the required attributes and skills. Have you published that list of bodies? If not, will you do so?

Weinidog, pan gyflwynwyd y Mesur, nododd y byddai Gweinidogion Cymru yn cyfarwyddo'r comisiwn i adolygu aelodaeth o gyrff cyhoeddus penodol, nifer yr aelodau a'r nodweddion a'r sgiliau angenrheidiol. A ydych wedi cyhoeddi'r rhestr honno o gyrff? Os nad ydych, a fyddwch yn gwneud hynny?

14:49 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

If I have not, I certainly will.

Os nad wyf wedi gwneud hynny, byddaf yn sicr yn ei wneud.

## Cydweithio rhwng Llywodraeth y DU ac Awdurdodau Lleol Cymru

## Collaboration between the UK Government and Welsh Local Authorities

14:49 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

*10. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gydweithio rhwng Llywodraeth y DU ac awdurdodau lleol Cymru? OAQ(4)0284(LG)*

*10. Will the Minister make a statement on collaboration between the UK Government and Welsh local authorities? OAQ(4)0284(LG)*

14:49 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

This is a matter for the UK Government. It is for it to take the lead on non-devolved issues.

Mater i Lywodraeth y DU yw hwn. Ei gwaith hi yw arwain ar faterion nad ydynt wedi'u datganoli.

14:49 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

I thank the Minister for that reply. Bearing in mind that, since 2010, in Llanishen in my constituency of Cardiff North, the Driver and Vehicle Licensing Agency has closed its customer service office, and while the future of Llanishen police station and Her Majesty's Revenue and Customs tax enquiry office in Llanishen are both uncertain, does the Minister agree that the coalition Government must do more to ensure that the UK Government departments talk to each other, with the Welsh Government and with local authorities, before cutting local services, so that options such as co-location and collaboration can be considered before withdrawing local face-to-face, publicly funded services?

Diolch i'r Gweinidog am yr ateb hwnnw. O gofio, ers 2010, yn Llanisien yn fy etholaeth i, sef Gogledd Caerdydd, fod yr Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau wedi cau ei swyddfa gwasanaeth cwsmeriaid, a bod dyfodol gorsaf yr heddlu Llanisien a swyddfa ymholiadau treth Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn Llanisien yn ansicr, a yw'r Gweinidog yn cytuno bod yn rhaid i'r Llywodraeth glymblaid wneud mwy i sicrhau bod adrannau Llywodraeth y DU yn siarad â'i gilydd, gyda Llywodraeth Cymru a chydag awdurdodau lleol, cyn diddymu gwasanaethau lleol, fel y gellir ystyried opsiynau megis cyd-leoli a chydweithredu cyn diddymu gwasanaethau lleol wyneb-yn-wyneb, a ariennir yn gyhoeddus?

14:50 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Yes. It is regrettable that the UK Government cuts imposed on Wales are threatening local jobs and services. UK Government departments should be open and transparent in keeping all stakeholders informed of any planned changes to locally based services. I will raise this point with my counterparts in the UK Government, wherever possible. I also work closely with the WLGA to ensure that local authorities in Wales engage strongly with UK Government departments over any future decisions about locally based public services in Wales.

Ydw. Mae'n drueni bod y toriadau a bennwyd gan Lywodraeth y DU i Gymru yn bygwth swyddi a gwasanaethau lleol. Dylai adrannau Llywodraeth y DU fod yn agored ac yn dryloyw wrth roi'r wybodaeth ddiweddaraf i bob rhanddeiliad am unrhyw newidiadau arfaethedig i wasanaethau lleol. Byddaf yn codi'r pwynt hwn gyda'm cyd-Aelodau yn Llywodraeth y DU, lle bynnag y bo'n bosibl. Rwyf wedi gweithio'n agos gyda CLlLC er mwyn sicrhau bod awdurdodau lleol yng Nghymru yn ymgysylltu'n gadarn ag adrannau Llywodraeth y DU ynghylch unrhyw benderfyniadau yn y dyfodol am wasanaethau cyhoeddus lleol yng Nghymru.

14:50 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Given that good-practice guidance on discretionary housing payments was issued to local authorities in March 2011 and that further guidance was issued in July last year that detailed exemptions and priority groups for greater assistance, will you establish why many local authorities in Wales failed to take action and identify those groups until the changes were almost upon us and, therefore, no doubt, affecting many people who might have otherwise been protected?

O gofio bod canllawiau arfer da ar daliadau tai yn ôl disgresiwn wedi'u cyhoeddi i awdurdodau lleol ym mis Mawrth 2011 a bod canllawiau pellach wedi'u cyhoeddi ym mis Gorffennaf y llynedd a oedd yn nodi eithriadau a grwpiau â blaenoriaeth ar gyfer mwy o gymorth, a fyddwch yn canfod pam bod llawer o awdurdodau lleol yng Nghymru wedi methu â chymryd camau i nodi'r grwpiau hynny nes bod y newidiadau bron â chael eu cyflwyno, gan felly, heb amheuaeth, yn effeithio ar nifer o bobl a allai fod wedi cael eu gwarchod fel arall?

14:51 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

I will look into that and write to the Member more fully.

Byddaf yn ymchwilio i hynny ac yn ysgrifennu at yr Aelod yn fanylach.

14:51 **Llyr Huws Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Roedd y Gweinidog yn iawn i ddweud yn ei hateb mai mater i Lywodraeth San Steffan yw unrhyw faterion sydd heb eu datganoli, ond y realiti yw y bydd effaith y penderfyniadau hynny yn un sylweddol ar awdurdodau lleol Cymru, er enghraifft. Pa asesiad mae Llywodraeth Cymru wedi ei wneud o impact rhai o'r penderfyniadau hyn o gwmpas diwygio'r gwasanaeth lles a'u heffaith ar awdurdodau lleol yng Nghymru?

The Minister was right to say in her response that any non-devolved issues are a matter for the Westminster Government, but the reality is that the impact of those decisions will be significant for Welsh local authorities, for example. What assessment has the Welsh Government carried out of the impact of some of those decisions around the reform of the welfare system and their effect on local authorities in Wales?

14:51 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

It is something that we are looking at across Government; many Ministers will be affected by this. It is clearly an important piece of work that we are currently looking at.

Mae'n rhywbeth rydym yn ei ystyried ar draws Llywodraeth; bydd hyn yn effeithio ar lawer o Weinidogion. Mae'n amlwg ein bod yn ystyried darn pwysig o waith ar hyn o bryd.

**Perfformiad ac Atebolrwydd**

**Performance and Accountability**

14:52 **Russell George** Bywgraffiad Biography

*11. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am berfformiad ac atebolrwydd awdurdodau lleol yng Nghymru? OAQ(4)0275(LG)*

*11. Will the Minister make a statement on the performance and accountability of local authorities in Wales? OAQ(4)0275(LG)*

14:52 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Local authorities are responsible for the performance of the front-line services that people rely on every day. They are accountable for these services to their elected members, citizens and stakeholders.

Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am berfformiad y gwasanaethau rheng flaen y mae pobl yn dibynnu arnynt bob dydd. Maent yn atebol am y gwasanaethau hyn i'w haelodau etholedig, dinasyddion a rhanddeiliaid.

14:52 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Thank you for your answer, Minister. I am dealing with a number of cases in my constituency where the performance of the local authority is falling well short of what the public could rightfully expect. These cases include a failure to adhere to stated guidance and procedure; inconsistent approaches taken by authority officers, particularly planning officers, in implementing policies; and failures by senior managers to address underperformance. I am sure that these issues are problems not just in my local authority, but will be present in other local authorities across Wales. What steps are you taking, alongside the WLGA, to drive up performance standards so that accountability is enhanced and that governance standards are improved?

Diolch am eich ateb, Weinidog. Rwy'n delio â nifer o achosion yn fy etholaeth lle nad yw perfformiad yr awdurdod lleol yn bodloni disgwyliadau cwbl gyfiawn y cyhoedd o bell ffordd. Mae'r achosion hyn yn cynnwys methiant i gadw at ganllawiau a gweithdrefnau a nodwyd; ymagweddau anghyson gan swyddogion yr awdurdod, yn enwedig swyddogion cynllunio, wrth weithredu polisïau; a methiannau gan uwch reolwyr i fynd i'r afael â thanberfformiad. Rwy'n siŵr bod y materion hyn yn broblemau nid yn unig yn fy awdurdod lleol i, ond y byddant yn bresennol mewn awdurdodau lleol eraill ledled Cymru. Pa gamau rydych yn eu cymryd, ochr yn ochr â CLlLC, i wella safonau perfformiad er mwyn sicrhau y caiff atebolrwydd a safonau llywodraethu eu gwella?

14:53 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

You raise an important point. Local authorities have a great deal of performance data collected and published annually. I also publish a report each year on local authority service performance, so that can assist the accountability and scrutiny of services. Scrutiny is an area where we can do better. We had quite a large intake of new councillors last year across Wales, and it is important that they are well supported. The Welsh Government is investing £660,000 over three years via the scrutiny development fund and the Centre for Public Scrutiny. If local authorities can then strengthen their scrutiny, that will only help performance.

Rydych yn codi pwynt pwysig. Mae gan awdurdodau lleol gryn dipyn o ddata perfformiad a gesglir ac a gyhoeddir bob blwyddyn. Cyhoeddaf hefyd adroddiad bob blwyddyn ar berfformiad gwasanaethau awdurdodau lleol, er mwyn cynorthwyo atebolrwydd a threfniadau craffu ar wasanaethau. Mae craffu'n faes y gallwn ei wella. Cawsom gryn dipyn o gynghorwyr newydd y llynedd ledled Cymru, ac mae'n bwysig eu bod yn cael eu cefnogi'n dda. Mae Llywodraeth Cymru yn buddsoddi £660,000 dros dair blynedd drwy'r gronfa datblygu craffu a'r Ganolfan Craffu Cyhoeddus. Os gall yr awdurdodau lleol gryfhau eu trefniadau craffu, bydd hynny ond yn gwella perfformiad.

14:53 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Minister, you will be aware that Cardiff Council, over the last two weeks, has been plunged into a leadership crisis, with rebel backbenchers challenging for leader, deputy leader and chief whip positions, and of the sad news that the chief executive will leave the authority. Do you agree that it is important, particularly in cabinet-based local authorities, that cabinet positions are allocated on a fair, transparent and democratic basis that is open and accountable to the public?

Weinidog, byddwch yn ymwybodol bod Cyngor Caerdydd, dros y pythefnos diwethaf, wedi wynebu argyfwng arweinyddiaeth, gydag aelodau meinciau cefn gwrthryfelgar yn herio ei gilydd am swyddi'r arweinydd, dirprwy arweinydd a phrif chwip, ac am y newyddion trist y bydd y prif weithredwr yn gadael yr awdurdod. A gytunwch ei bod yn bwysig, yn enwedig mewn awdurdodau lleol sy'n seiliedig ar gabinet, fod swyddi cabinet yn cael eu dyrannu mewn modd teg, tryloyw a democrataidd sy'n agored ac yn atebol i'r cyhoedd?

14:54 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Yes, and I think that that is what happens now. It is up to the leader of the local authority to appoint his cabinet, and I would want to see an open and transparent competition to replace the chief executive at Cardiff Council.

Ydw, a chredaf mai dyna beth sy'n digwydd nawr. Mater i arweinydd yr awdurdod lleol yw penodi ei gabinet, a byddwn am weld cystadleuaeth agored a thryloyw i benodi rhywun yn lle'r prif weithredwr yng Nghyngor Caerdydd.

### Amddiffyn Meysydd Chwarae

### Safeguarding Playing Fields

14:54 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

*12. A wnaiff y Weinidog amlinellu sut y mae Llywodraeth Cymru yn amddiffyn meysydd chwarae yng Nghymru? OAQ(4)0288(LG)*

*12. Will the Minister outline how the Welsh Government is safeguarding playing fields in Wales? OAQ(4)0288(LG)*

14:54 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

There is a robust legislative and policy framework in place to protect existing recreational open space, including playing fields, and to promote new open space as an integral part of new development.

Mae fframwaith deddfwriaethol a pholisi cadarn ar waith i ddiogelu mannau hamdden agored sy'n bodoli eisoes, gan gynnwys meysydd chwarae, ac i hyrwyddo mannau agored newydd fel rhan annatod o waith datblygu newydd.

14:55 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Some guidance has been the subject of discussion within the Welsh Government for some time now. Are you able to give any indication as to when that guidance will be available for local authorities?

Mae rhywfaint o ganllawiau wedi bod yn destun trafod o fewn Llywodraeth Cymru ers peth amser bellach. A allwch roi unrhyw syniad inni pryd y bydd y canllawiau hynny ar gael i awdurdodau lleol?

14:55 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

As far as I am aware, the planning policy and technical advice is up to date and reflects our commitment to improving opportunities. However, I will look into it and, if it is any different, I will write to the Member.

Hyd y gwn, mae'r polisi cynllunio a chyngor technegol yn gyfredol ac yn adlewyrchu ein hymrwymiad i wella cyfleoedd. Fodd bynnag, byddaf yn ymchwilio i'r mater ac, os yw'n wahanol mewn unrhyw ffordd, byddaf yn ysgrifennu at yr Aelod.

14:55 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

Between 1999 and 2009, the UK Labour Government sold off more than 200 playing fields in England and Wales. Do you agree with the coalition Government that the sale of school playing fields should only take place if the sports and curriculum needs of schools can continue to be met and that the sale proceeds are used to improve sports or education facilities?

Rhwng 1999 a 2009, gwerthodd Llywodraeth Lafur y DU fwy na 200 o feysydd chwarae yng Nghymru a Lloegr. A ydych yn cytuno â'r Llywodraeth glymblaid mai dim ond os gellir parhau i ddiwallu anghenion chwaraeon a chwricwlwm ysgolion ac y caiff elw'r gwerthiant ei ddefnyddio i wella cyfleusterau chwaraeon neu addysg y dylid gwerthu meysydd chwarae ysgolion?

14:55 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

I am not here to defend any decisions taken by the UK Government. However, I believe that any discussions regarding the provision of facilities and/or investment in relation to playing fields are a matter for individual local authorities.

Nid wyf yma i amddiffyn unrhyw benderfyniadau a wnaed gan Lywodraeth y DU. Fodd bynnag, credaf mai mater i awdurdodau lleol unigol yw unrhyw drafodaethau ynghylch darparu cyfleusterau a/neu fuddsoddiad mewn perthynas â meysydd chwarae.

**Pensiynwyr**

**Pensioners**

14:56 **David Rees** Bywgraffiad Biography

*13. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gefnogi pensiynwyr i dalu'r dreth gyngor? OAQ(4)0282(LG)*

*13. What action is the Welsh Government taking to support pensioners in paying council tax? OAQ(4)0282(LG)*

14:56 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Around 140,000 pensioner households receive support through our main council tax reduction scheme. In addition, we provide a £4 million grant, which gives extra support to pensioners who are only eligible to receive a partial reduction in their council tax liability under the main scheme.

Mae tua 140,000 o gartrefi pensiynwyr yn cael cymorth drwy ein prif gynllun gostyngiadau'r dreth gyngor. Yn ogystal, rydym yn darparu grant gwerth £4 miliwn, sy'n rhoi cymorth ychwanegol i bensiynwyr sydd ond yn gymwys i gael gostyngiad rhannol yn eu rhwymedigaeth treth gyngor o dan y prif gynllun.

14:56 **David Rees** Bywgraffiad Biography

Thank you for that answer, Minister. I want to talk about the second part of your answer. The funding that you provide to support pensioners to pay their council tax comes from that £4 million. In previous years, it has been given to local authorities, which have established their own criteria for allocating that money and, therefore, the criteria may be different across different authorities. Will the Welsh Government provide a pan-Wales set of criteria for the allocation of funding so that pensioners across one authority are treated equally fairly as the pensioners in a neighbouring authority?

Diolch ichi am yr ateb hwnnw, Weinidog. Hoffwn drafod ail ran eich ateb. Daw'r arian rydych yn ei ddarparu i helpu pensiynwyr i dalu eu treth gyngor o'r £4 miliwn hwnnw. Mewn blynyddoedd blaenorol, fe'i rhoddwyd i awdurdodau lleol, sydd wedi sefydlu eu meini prawf eu hunain ar gyfer dyrannu'r arian hwnnw ac, felly, efallai bod y meini prawf yn wahanol ar draws awdurdodau gwahanol. A fydd Llywodraeth Cymru yn darparu cyfres Cymru-gyfan o feini prawf ar gyfer dyrannu arian er mwyn sicrhau bod pensiynwyr mewn un awdurdod yn cael eu trin yr un mor deg â'r pensiynwyr mewn awdurdod cyfagos?

14:57 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

In line with our national approach to council tax reduction schemes, the pensioner grant scheme for 2013-14 was reviewed in collaboration with local government to develop a national set of terms and conditions. This will replace the individual arrangements that local authorities operated in 2012-13, and will ensure that we have that consistent level of support across Wales. This was supported by a number of representative groups for older people. I have just approved the terms and conditions for the grant, so local authorities will shortly be notifying eligible pensioners.

Yn unol â'n hymagwedd genedlaethol at gynlluniau gostyngiadau'r dreth gyngor, adolygwyd y cynllun grant pensiynwr ar gyfer 2013-14 ar y cyd â llywodraeth leol er mwyn datblygu cyfres genedlaethol o delerau ac amodau. Bydd y gyfres hon yn disodli'r trefniadau unigol a weithredwyd gan awdurdodau lleol yn 2012-13, a bydd yn sicrhau bod gennym y lefel gyson o gymorth ledled Cymru. Cefnogwyd hyn gan nifer o grwpiau cynrychiadol ar gyfer pobl hŷn. Rwyf newydd gymeradwyo telerau ac amodau'r grant, felly bydd awdurdodau lleol yn hysbysu pensiynwyr cymwys yn fuan.

14:57 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

For the last three years, Minister, consequentials have been given to the Welsh Government because of the council tax freeze in England. Are you likely to make representations to the Minister for Finance to make sure that, if there are Barnett consequentials this year, those moneys can be used to alleviate the record-breaking council tax increases that many Labour councils are inflicting on ratepayers across the whole of Wales? Surely, a council tax freeze would be the best way to alleviate council tax payers' suffering.

Dros y tair blynedd diwethaf, Weinidog, rhoddwyd arian canlyniadol i Lywodraeth Cymru yn sgil rhewi'r dreth gyngor yn Lloegr. A ydych yn debygol o wneud sylwadau i'r Gweinidog Cyllid er mwyn sicrhau, os bydd arian canlyniadol Barnett eleni, y gellir defnyddio'r arian hwnnw i liniaru'r cynnydd mwyaf erioed yn y dreth gyngor y mae llawer o gynghorau Llafur yn ei gyflwyno i drethdalwyr ledled Cymru gyfan? Onid rhewi'r dreth gyngor fyddai'r ffordd orau o leddfu dioddefaint y rhai sy'n talu'r dreth gyngor?

14:58 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

I do not recognise these record-breaking council tax increases that you have just referred to. I have many discussions with the Minister for Finance. We have many discussions across the whole of the Government because the record-breaking reduction in our budget from the UK Government obviously has a significant impact on the way that we protect the most vulnerable in our society.

Nid wyf yn cydnabod y cynnydd mwyaf erioed hwn yn y dreth gyngor rydych newydd gyfeirio ato. Câf lawer o drafodaethau â'r Gweinidog Cyllid. Cawn lawer o drafodaethau ar draws y Llywodraeth gyfan, oherwydd mae'r gostyngiad mwyaf erioed yn ein cyllideb gan Lywodraeth y DU yn amlwg yn cael effaith sylweddol ar y ffordd rydym yn amddiffyn y rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas.

**Gwasanethau Cyhoeddus**

**Public Services**

14:58 **Russell George** Bywgraffiad Biography

*14. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am wella cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru? OAQ(4)0274(LG)*

*14. Will the Minister make a statement on improving the delivery of public services in Wales? OAQ(4)0274(LG)*

14:58 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Our programme for government sets out our approach to supporting the delivery of efficient and effective services that meet the needs of the people of Wales. This means strong local democracy and accountability, services that we are always seeking to improve, using funding effectively, and public services that work effectively together.

Mae ein rhaglen lywodraethu'n nodi'r ffordd rydym yn helpu i ddarparu gwasanaethau effeithlon ac effeithiol sy'n diwallu anghenion pobl Cymru. Mae hyn yn golygu democratiaeth ac atebolrwydd lleol cryf, gwasanaethau rydym bob amser yn ceisio eu gwella, gan ddefnyddio arian yn effeithiol, a gwasanaethau cyhoeddus sy'n cydweithio'n effeithiol.

14:58 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Thank you for your answer. I believe that the strive to achieve greater financial efficiencies in delivering public services in Wales particularly comes within Welsh local government, and should be a priority in terms of changing the hearts, minds and culture of current public service provision. With this opportunity to do things differently and to develop relationships with other partners and other sectors, to ultimately improve public services, what support can you give to local authorities that are seeking to find innovative solutions to this financial challenge?

Diolch am eich ateb, Weinidog. Credaf fod yr ymdrech i gyflawni mwy o arbedion ariannol wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn rhan benodol o lywodraeth leol yng Nghymru, a dylai fod yn flaenoriaeth o ran newid calonnau, meddyliau a diwylliant y gwasanaethau cyhoeddus a ddarperir ar hyn o bryd. Gyda'r cyfle hwn i wneud pethau'n wahanol ac i feithrin cydberthnasau â phartneriaid eraill a sectorau eraill, er mwyn gwella gwasanaethau cyhoeddus yn y pen draw, pa gymorth y gallwch ei roi i awdurdodau lleol sy'n ceisio dod o hyd i atebion arloesol i'r her ariannol hon?

14:59 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

You will have heard me mention in previous answers that I think that it is right that we support local authorities that want to be innovative. I do not think that it is about doing things differently; I think that it is about doing different things, which is what I am encouraging. As I mentioned before, I want to see best practice rolled out, and I want to know why it is not being shared if it is not being shared. I am happy to support local authorities to develop innovative ideas.

Byddwch wedi fy nghlywed yn sôn mewn atebion blaenorol fy mod yn credu ei bod yn briodol inni gefnogi awdurdodau lleol sydd am arloesi. Ni chredaf ei bod yn golygu gwneud pethau'n wahanol, credaf ei bod yn golygu gwneud pethau gwahanol, sef yr hyn rwyf yn ei annog. Fel y soniais yn flaenorol, rwyf am weld arfer gorau yn cael ei gyflwyno, ac os nad yw'n cael ei rannu, rwyf am wybod pam. Rwy'n barod i gefnogi awdurdodau lleol i ddatblygu syniadau arloesol.

### Tryloywder ac Atebolrwydd

### Transparency and Accountability

14:59 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

*15. Sut y mae Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo tryloywder ac atebolrwydd mewn llywodraeth leol? OAQ(4)0279(LG)*

*15. How is the Welsh Government promoting transparency and accountability in local government? OAQ(4)0279(LG)*

15:00 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

The Welsh Government is promoting transparency and accountability in local government, both as values and through practical actions, such as providing funding for the broadcasting of council meetings and our support for improving scrutiny.

Mae Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo tryloywder ac atebolrwydd mewn llywodraeth leol, fel gwerthoedd yn ogystal â thrwy gamau ymarferol, megis darparu arian ar gyfer darlledu cyfarfodydd y cyngor a'n cymorth ar gyfer gwella trefniadau craffu.

15:00 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Thanks for that answer. Although the Welsh Government's access to information procedure rules say that, if a local government officer thinks fit, the council may exclude access by the public to reports, Welsh Government guidance in 2006 on openness and access to information set out a presumption of openness that councils should take account of when applying the rules on access to information. How will you, therefore, address concern about this and ensure that that presumption takes priority in circumstances such as the current investigation by auditors in Flintshire into the council's AD Waste? It has been reported in the media that officers have been suspended, following a pattern established in the middle of the last decade, when several senior and middle-ranking officers were removed after an independent inquiry and an inquiry by PricewaterhouseCoopers, and the vindication of the council's auditor over a decade ago.

Diolch am yr ateb hwnnw. Er bod rheolau gweithdrefn Llywodraeth Cymru ar fynediad at wybodaeth yn nodi, os gwêl swyddog llywodraeth leol yn dda, y gall y cyngor atal y cyhoedd rhag cael gafael ar adroddiadau, nododd canllawiau Llywodraeth Cymru yn 2006 ynghylch bod yn agored a mynediad at wybodaeth ragdybiaeth o blaid bod yn agored y dylai cynghorau ei hystyried wrth gymhwyso'r rheolau o ran mynediad at wybodaeth. Sut y byddwch chi, felly, yn mynd i'r afael â'r pryder ynghylch y mater hwn ac yn sicrhau y caiff y rhagdybiaeth honno flaenoriaeth mewn amgylchiadau megis yr ymchwiliad presennol gan archwilwyr yn Sir y Fflint i Wastraff Treulio Anaerobig y cyngor? Adroddwyd yn y cyfryngau fod swyddogion wedi'u gwahardd, yn dilyn patrwm a sefydlwyd yng nghanol y degawd diwethaf, pan waharddwyd nifer o uwch-swyddogion a swyddogion canol yn dilyn ymchwiliad annibynnol ac ymchwiliad gan PricewaterhouseCoopers, a chyfiawnhau archwilydd y cyngor dros ddegawd yn ôl.

15:01 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

I do not want to comment on something as specific as the issue raised by Mark Isherwood. I want to promote openness and transparency. I mentioned the funding given by my predecessor—£1.25 million—to county and county borough councils, so that they can take the broadcasting of council meetings forward. Carmarthenshire County Council is the latest council to start broadcasting meetings. It did this for the first time last week, and it had 500 hits. That is to be welcomed.

Nid wyf am wneud sylw ynghylch rhywbeth mor benodol â'r mater a godwyd gan Mark Isherwood. Hoffwn hyrwyddo bod yn agored ac yn dryloyw. Soniais am y cyllid a roddwyd gan fy rhagflaenydd—£1.25 miliwn—i gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol, er mwyn mynd ati i ddarlledu cyfarfodydd y cyngor. Cyngor Sir Caerfyrddin yw'r cyngor diweddaraf i ddechrau darlledu cyfarfodydd. Gwnaeth hyn am y tro cyntaf yr wythnos diwethaf, gan ddenu 500 o wylwyr. Mae hynny'n rhywbeth i'w groesawu.

15:01 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Thank you, Minister.

Diolch, Weinidog.

15:01

## Cwestiwn Brys: Rhaglen Ad-drefnu Ysbytai De Cymru

## Urgent Question: The South Wales Hospital Reorganisation Programme

Y

**Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

I have accepted an urgent question under Standing Order No. 12.66. I call on Leanne Wood to ask the urgent question.

Rwyf wedi derbyn cwestiwn brys o dan Reol Sefydlog Rhif 12.66. Galwaf ar Leanne Wood i ofyn y cwestiwn brys.

15:01 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

*A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am raglen ad-drefnu ysbytai de Cymru? EAQ(4)0285(HSS)*

*Will the Minister make a statement on the south Wales hospital reorganisation programme? EAQ(4)0285(HSS)*

15:01 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services*

The south Wales programme will formally launch its public consultation tomorrow. Assembly Members were invited to a briefing that took place in the Senedd earlier today. As Members know, I am unable to comment on the plans, as I may have a role in determining referrals from community health councils later in the process.

Bydd rhaglen y de yn lansio ei hymgynghoriad cyhoeddus yn ffurfiol yfory. Gwahoddwyd Aelodau'r Cynulliad i sesiwn friffio a gynhaliwyd yn y Senedd yn gynharach heddiw. Fel y gŵyr Aelodau, ni allaf roi sylwadau ar y cynlluniau, gan ei bod yn bosibl y bydd gennyf ran yn y gwaith o benderfynu ar atgyfeiriadau gan y cynghorau iechyd cymuned yn ddiweddarach yn y broses.

15:02 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Minister, Plaid Cymru wants to see NHS services delivered by well-trained and well-qualified clinicians at locations close to people's homes. Health boards in south Wales have today announced that, due to an inability to recruit sufficient staff, they cannot continue to do this. However, Plaid Cymru has found that only three of the seven health boards in Wales have attempted to address these recruitment problems from within the European Union. Minister, could you tell us who takes responsibility for these recruitment failures in Wales? Is it the health boards or the various Labour Ministers for health who have been in post over the last 14 years?

Weinidog, mae Plaid Cymru am weld gwasanaethau'r GIG yn cael eu darparu gan glinigwyr hyfforddedig a chymwys mewn lleoliadau sy'n agos at gartrefi pobl. Mae byrddau iechyd yn y de wedi cyhoeddi heddiw, oherwydd anallu i recriwtio digon o staff, na allant barhau i wneud hyn. Fodd bynnag, canfu Plaid Cymru mai dim ond tri o'r saith bwrdd iechyd yng Nghymru sydd wedi ceisio mynd i'r afael â'r problemau recriwtio hyn o fewn yr Undeb Ewropeaidd. Weinidog, a allech ddweud wrthym pwy sy'n gyfrifol am y methiannau recriwtio hyn yng Nghymru? Ai'r byrddau iechyd sy'n gyfrifol neu'r Gweinidogion iechyd Llafur amrywiol sydd wedi bod yn eu swydd dros y 14 mlynedd diwethaf?

15:03 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

I thank the leader of Plaid Cymru for sharing her views on Plaid Cymru policy with us this afternoon. The matters that she raises will be addressed within the plan, and they are the responsibility of those putting the plan forward.

Diolchaf i arweinydd Plaid Cymru am rannu ei barn ar bolisi Plaid Cymru â ni y prynhawn yma. Ymdrinnir â'r materion y mae'n eu codi yn y cynllun, a chyfrifoldeb y rhai sy'n cyflwyno'r cynllun ydynt.

15:03 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Minister, we were also very concerned to see the plans to downgrade some hospitals in south Wales, especially given the previous commitments that you and all other Labour Assembly Members made in your manifesto for the last election that no hospitals would be downgraded. I am very concerned, Minister, that there are no references to the ambulance service, to primary care services—in any detail—or to public transport services in this rather flimsy document that will be sent out to households in south Wales. What discussions will you have to ensure that those are issues that are fully considered as part of the decision-making process? The programme board, as you will understand, is heavily reliant on the delivery of a specialist critical care unit near Cwmbran. We understand that the cost of this will be around £300 million. What assurances can you give to the programme board that that critical part of its critical care plan in south Wales will be delivered? Do you accept the evidence that is out there in the public domain around the higher risks and worse outcomes that are associated with people having to travel further to receive accident and emergency services? Finally, will you condemn fellow Labour politicians who are shroud-waving about the closure of accident and emergency services at the Royal Glamorgan Hospital, including a fellow member of the Cabinet? What will you do to address that misinformation—

Weinidog, rydym hefyd yn bryderus iawn o weld y cynlluniau i israddio rhai ysbytai yn y de, yn enwedig o ystyried yr ymrwymiadau blaenorol a wnaethoch chi a phob Aelod Cynulliad Llafur arall yn eich maniffesto ar gyfer yr etholiad diwethaf na fyddai unrhyw ysbytai yn cael eu hisraddio. Rwy'n bryderus iawn, Weinidog, nad oes unrhyw gyfeiriadau at y gwasanaeth ambiwlans, at wasanaethau gofal sylfaenol—mewn unrhyw fanylder—nac at wasanaethau cludiant cyhoeddus yn y ddogfen simsan hon braidd a gaiff ei hanfon i bob cartref yn y de. Pa drafodaethau a gewch er mwyn sicrhau yr ystyrir y materion hynny yn llawn fel rhan o'r broses o wneud penderfyniadau? Mae bwrdd y rhaglen, fel y byddwch yn deall, yn dibynnu llawer ar ddarparu uned gofal critigol arbenigol ger Cwmbrân. Deallwn y bydd hyn yn costio tua £300 miliwn. Pa sicrwydd y gallwch ei roi i fwrdd y rhaglen y bydd y rhan hanfodol honno o'i gynllun gofal critigol yn y de yn cael ei darparu? A dderbyniwch y dystiolaeth sydd ar gael yn gyhoeddus ynglŷn â'r risgiau uwch a'r canlyniadau gwaeth sy'n gysylltiedig â phobl yn gorfod teithio ymhellach i gael gwasanaethau damweiniau ac achosion brys? Yn olaf, a wnewch chi gondemnio eich cyd-wleidyddion Llafur sy'n codi bwganod ynghylch cau gwasanaethau damweiniau ac achosion brys yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg, gan gynnwys cyd-Weinidog yn y Cabinet? Beth a wnewch i fynd i'r afael â'r wybodaeth anghywir honno—

15:04 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Order. Thank you. [Interruption.] Order. When I tell a Member to stop speaking, they are to stop speaking.

Trefn. Diolch yn fawr. [Torri ar draws.] Trefn. Pan ddywedaf wrth Aelod i roi'r gorau i siarad, mae disgwyl iddo roi'r gorau i siarad.

15:05 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

No doubt, the Member will wish to take up the concerns that he has outlined with those who are responsible for the consultation. Indeed, I encourage anyone who has views to get involved in this important consultation to ensure that we have services that are organised on the best of clinical evidence, to ensure that patients receive safe and sustainable care.

Heb os, bydd yr Aelod yn dymuno ymdrin â'r pryderon a gododd gyda'r rhai sy'n gyfrifol am yr ymgynghoriad. Yn wir, anogaf unrhyw un sydd â safbwyntiau i ymwneud â'r ymgynghoriad pwysig hwn er mwyn sicrhau ein bod yn cael gwasanaethau sy'n seiliedig ar y dystiolaeth glinigol orau, er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael gofal diogel a chynaliadwy.

In relation to the specialist and critical care centre, the position was set out in a letter from the chief executive of the NHS to the chief executive of Aneurin Bevan Local Health Board recently, and I made reference to it in answering a question from his colleague William Graham only last week.

O ran y ganolfan gofal arbenigol a chritigol, nodwyd y sefyllfa mewn llythyr gan brif weithredwr y GIG at brif weithredwr Bwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan yn ddiweddar, a chyfeiriais ato wrth ateb cwestiwn gan ei gyd-Aelod William Graham dim ond yr wythnos diwethaf.

15:05 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

I welcome the question and the renewed interest of Plaid Cymru in the reconfiguration of health in south Wales. I was not sure whether the concern was mainly to do with the Rhondda area or with the broader south Wales area, but we will no doubt be told in due course.

Rwy'n croesawu'r cwestiwn a diddordeb newydd Plaid Cymru yn y gwaith o ad-drefnu iechyd yn y de. Nid oeddwn yn siŵr a oedd y pryder yn ymwneud yn bennaf ag ardal Rhondda neu ag ardal ehangach y de, ond cawn wybod maes o law mae'n siŵr.

Minister—[Interruption.]

Weinidog—[Torri ar draws.]

15:06 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Order. This is an important—[Interruption.]

Trefn. Mae hyn yn bwysig—[Torri ar draws.]

Order. I am speaking to the Assembly and trying to calm people down. We have allowed this urgent question because it is such an important subject. I want to hear the question and then the answer.

Trefn. Rwy’n siarad â’r Cynulliad ac yn ceisio tawelu pobl. Rydym wedi caniatáu’r cwestiwn brys hwn gan ei fod yn bwnc mor bwysig. Rwyf am glywed y cwestiwn ac yna yr ateb.

15:06

## Mick Antoniw Bywgraffiad Biography

Minister, I appreciate the limitations on what you can say, but one thing that was mentioned concerned the speed of implementation post-consultation and the importance of strengthening the ambulance service. Is there anything that you can tell us about that particular aspect during the coming months?

Weinidog, gwerthfawrogaf y cyfyngiadau ar yr hyn y gallwch ei ddweud, ond roedd un peth y soniwyd amdano yn ymwneud â chyflymder y gweithredu ôl-ymgynghori a phwysigrwydd atgyfnerthu’r gwasanaeth ambiwlans. A oes unrhyw beth y gallwch ei ddweud wrthym am yr agwedd benodol honno yn ystod y misoedd nesaf?

15:06

## Mark Drakeford Bywgraffiad Biography

Thank you for that question. I made it clear in the Assembly very recently that ambulance services are integral to the reconfiguration plans across Wales, and I expect them to be fully integrated into the south Wales plan. I simply say to the Member what I have said whenever I have answered questions in relation to reconfiguration matters: if issues in relation to the south Wales plan end up on my desk for determination, I will consider them carefully and thoroughly, but I will not unduly delay making necessary decisions.

Diolch am y cwestiwn hwnnw. Eglurais yn y Cynulliad yn ddiweddar bod gwasanaethau ambiwlans yn rhan annatod o’r cynlluniau ad-drefnu ledled Cymru, a disgwyliaf iddynt gael eu hintegreiddio’n llawn yng nghynllun y de. Dywedaf yn syml wrth yr Aelod yr hyn yr wyf wedi’i ddweud pryd bynnag yr wyf wedi ateb cwestiynau mewn perthynas â materion ad-drefnu: os bydd materion mewn perthynas â’r de yn glanio ar fy nesg ac mae angen gwneud penderfyniad yn eu cylch, byddaf yn eu hystyried yn ofalus ac yn drylwyr, ond ni fyddaf yn oedi’n ddiangen cyn gwneud penderfyniadau angenrheidiol.

15:07

## Kirsty Williams Bywgraffiad Biography

Minister, what confidence can Assembly Members and the public have that hospitals—which will undoubtedly receive more patients to their A&E departments if these plans go ahead—will have the capacity to respond? Can you clearly state today that the hospital on which these plans are based, and which is yet to be built, will indeed be built, and can you outline more clearly what your role in this process will be? What you are saying to Assembly Members this afternoon about your role is in stark contrast to what was said by the previous Minister for health while dealing with the Betsi Cadwaladr and Hywel Dda local health board plans.

Weinidog, pa mor hyderus y gall Aelodau’r Cynulliad a’r cyhoedd fod y bydd gan ysbytai—a fydd yn ddiau yn derbyn mwy o gleifion i’w hadrannau damweiniau ac achosion brys os bydd y cynlluniau hyn yn mynd yn eu blaenau—y gallu i ymateb? A allwch nodi’n glir heddiw y caiff yr ysbyty y seilir y cynlluniau hyn arno, ac sydd eto i’w adeiladu, ei adeiladu mewn gwirionedd, ac a allwch nodi’n fwy clir beth fydd eich rôl yn y broses hon? Mae’r hyn a ddywedwch wrth Aelodau’r Cynulliad y prynhawn yma mewn cyferbyniad llwyr â’r hyn a ddywedwyd gan y Gweinidog iechyd blaenorol wrth ddelio â chynlluniau byrddau iechyd lleol Betsi Cadwaladr a Hywel Dda..

15:08

## Mark Drakeford Bywgraffiad Biography

My role in the process is, I think, very clear. This is a pan-south-Wales plan, drawn up by local health boards and now out for consultation with their local populations. When those plans are concluded in the consultation phase, it will be for community health councils, with local health boards, to see how much of these proposals can be agreed locally. The more that is agreed locally, I think, the better it will be. If community health councils are not able to agree to service changes, they are able to refer matters for determination to the Minister. That is quite a way down this process, which is yet to be formally launched for consultation—that will take place tomorrow.

Mae fy rôl yn y broses, fe gredaf, yn glir iawn. Mae hwn yn gynllun ar gyfer y de i gyd, a luniwyd gan y byrddau iechyd lleol ac sydd bellach yn destun ymgynghoriad yn eu poblogaethau lleol. Pan fydd y cynlluniau hynny wedi’u cwblhau ar y cam ymgynghori, cyfrifoldeb cynghorau iechyd cymuned, gyda byrddau iechyd lleol, fydd gweld faint o’r cynigion hynny y gellir cytuno arnynt yn lleol. Po fwyaf y cytunir arno yn lleol, gorau oll. Os na all cynghorau iechyd cymuned gytuno ar newidiadau i wasanaethau, gallant gyfeirio materion at y Gweinidog iddo wneud penderfyniad yn eu cylch. Mae hynny’n ffordd bell ar hyd y broses hon, sydd eto i’w lansio’n ffurfiol ar gyfer ymgynghoriad—bydd hynny’n digwydd yfory.

15:09

## Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography

Minister, can you understand the genuine concern in communities, when they see failing ambulance response times and a lack of community-based services, that your Government, in collaboration with the local health boards, is seeking to bring this programme forward? From our benches, we believe that if the health budget had been protected, many of these cuts would not be happening today. However, can you commit today that, unless you have the community services and the ambulance service working to a level that is acceptable to communities, none of these cutbacks will be allowed in our district general hospitals?

Weinidog, a allwch ddeall y pryder gwirioneddol mewn cymunedau, pan welant amseroedd ymateb ambiwlansys yn methu a diffyg gwasanaethau yn y gymuned, fod eich Llywodraeth, mewn cydweithrediad â'r byrddau iechyd lleol, yn ceisio rhoi'r rhaglen hon ar waith yn awr? O'n meinciau ni, credwn, pe bai'r gyllideb iechyd wedi ei diogelu, na fyddai llawer o'r toriadau hyn yn digwydd heddiw. Fodd bynnag, a allwch addo heddiw, oni fydd y gwasanaethau cymunedol a'r gwasanaeth ambiwlans yn gweithio i lefel sy'n dderbyniol i gymunedau, na chaiff unrhyw un o'r toriadau hyn eu caniatáu yn ein hysbytai cyffredinol dosbarth?

15:09

## Mark Drakeford Bywgraffiad Biography

Of course I recognise the anxiety that change creates whenever change is brought about in local health services, because those health services are so warmly regarded by their local populations. Underpinning any plans that are laid for reconfiguration has to be the best clinical organisation of services, and that is what I expect in the south Wales plan, as in any other.

Wrth gwrs fy mod yn cydnabod y pryder y mae newid yn ei greu pryd bynnag y bydd unrhyw newid yn digwydd mewn gwasanaethau iechyd lleol, gan fod y gwasanaethau iechyd hynny mor bwysig i'w poblogaethau lleol. Rhaid i'r drefn glinigol orau o wasanaethau fod yn sail i unrhyw gynlluniau a wneir ar gyfer ad-drefnu, a dyna'r hyn a ddisgwyliaf yng nghynllun y de, fel mewn unrhyw gynllun arall.

15:10

## Vaughan Gething Bywgraffiad Biography

It is a shame that two of the parties in the Chamber were committed to opposing the south Wales plan before it was published and before the options were made available. [Interruption.] At the briefing this morning, Members had an opportunity to ask a series of questions but they did not take all the opportunities available. However, there was a very clear message that no change means a very real risk that services will collapse, as we have already seen across parts of south Wales, and that we will see change on the basis of crisis management. Minister, can you confirm that, if any decision comes to you for determination, you will take account of the sustainability of the service and have in your mind as a foremost consideration that any decision must be built on clinical evidence of best practice and the very best outcomes possible for patients—our constituents?

Mae'n drueni bod dwy o'r pleidiau yn y Siambr wedi ymrwymo i wrthwynebu cynllun y de cyn iddo gael ei gyhoeddi a chyn i'r opsiynau fod ar gael. [Torri ar draws.] Yn y cyfarfod y bore yma, cafodd yr Aelodau gyfle i ofyn cyfres o gwestiynau, ond ni fanteisiwyd ar bob cyfle a oedd ar gael. Fodd bynnag, roedd neges glir iawn, sef y bydd risg wirioneddol iawn y bydd gwasanaethau'n methu, os na fydd unrhyw newid, fel y gwelsom eisoes mewn rhannau o'r de, ac y gwelwn newid ar sail rheoli argyfwng. Weinidog, a allwch gadarnhau, os bydd yn rhaid i chi ddod i benderfyniad ynghylch unrhyw beth, y byddwch yn ystyried cynaliadwyedd y gwasanaeth ac yn cofio mai un o'r ystyriaethau pennaf yw fod yn rhaid i unrhyw benderfyniad fod yn seiliedig ar dystiolaeth glinigol o arfer gorau a'r canlyniadau gorau posibl i gleifion—ein hetholwyr?

15:11

## Mark Drakeford Bywgraffiad Biography

I am very happy to confirm the points made by the Member. Let me be clear, as I have tried to be clear in the past in this Chamber: as far as the future of health services in Wales is concerned, there is no choice but change. Change is coming in the NHS in Wales, as it is in every other part of the United Kingdom. The choice that we face is this: we either have unplanned change that responds sporadically to events, in which patients will not know how services are to be sustained for the future, or we attempt to develop a plan that is clinically determined and clinically led, which allows us to be in charge of change, rather than simply on the receiving end of it. Within that, the specifics of change must always be—as the Member said—determined by the best clinical outcomes for patients.

Rwy'n hapus iawn i gadarnhau'r pwyntiau a wnaed gan yr Aelod. Gadewch imi fod yn glir, fel yr wyf wedi ceisio bod yn glir yn y gorffennol yn y Siambr hon: o ran dyfodol gwasanaethau iechyd yng Nghymru, nid oes unrhyw ddewis ond newid. Mae newid ar droed yn y GIG yng Nghymru, fel ym mhob rhan arall o'r Deyrnas Unedig. Y dewis sydd gennym yw hyn: mae gennym naill ai newid nas cynlluniwyd sy'n ymateb bob hyn a hyn i ddigwyddiadau, lle na fydd cleifion yn gwybod sut y caiff gwasanaethau eu cynnal ar gyfer y dyfodol, neu rydym yn ceisio datblygu cynllun a bennir yn glinigol ac a arweinir yn glinigol, sy'n caniatáu inni reoli newid yn hytrach na'i dderbyn yn unig. O fewn hynny, rhaid i fanylion y newid bob amser—fel y dywedodd yr Aelod—gael eu pennu yn ôl y canlyniadau clinigol gorau i gleifion.

15:12 **Eluned Parrott** [Bywgraffiad] [Biography]

Minister, you will be well aware that ambulance waiting times in Rhondda Cynon Taf are consistently among the worst in Wales. Two out of the three hospital A&E departments in Wales with the longest waiting times are in the reconfiguration zone and may have to take even more patients. What kind of modelling will you expect the local health boards to do to demonstrate that the changes that they propose in the best-fit plan will not have a detrimental impact on those two critical issues for patients' experience and safety?

Weinidog, byddwch yn ymwybodol iawn bod amseroedd aros ambiwlansys yn Rhondda Cynon Taf ymhlith y rhai gwaethaf yng Nghymru yn gyson. Mae dwy allan o'r tair adran damweiniau ac achosion brys mewn ysbytai yng Nghymru sydd â'r amseroedd aros hiraf yn y parth ad-drefnu ac efallai y bydd yn rhaid iddynt dderbyn hyd yn oed fwy o gleifion. Pa fath o fodelu y byddwch yn disgwyl i'r byrddau iechyd lleol ei wneud i ddangos na fydd y newidiadau a gynigiant yn y cynllun mwyaf addas yn cael effaith andwyol ar y ddau fater hollbwysig hynny o ran profiad a diogelwch cleifion?

15:12 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad] [Biography]

The Member is quite right to point to the fact that it is for local health boards within the south Wales programme to demonstrate that they have modelled the impact of any proposals on ambulances, and that ambulance services are an integral part of their plan. That modelling can be tested as part of the consultation process. Once again, I urge anybody in the Chamber who has a serious interest in these substantial matters to engage in the consultation process, to ask proper question and to test the plan where it needs to be tested, so that the consultation process can do its job.

Mae'r Aelod yn llygad ei lle i dynnu sylw at y ffaith mai cyfrifoldeb y byrddau iechyd lleol o fewn rhaglen y de yw dangos eu bod wedi modelu effaith unrhyw gynigion ar ambiwlansys, a bod gwasanaethau ambiwlans yn rhan annatod o'u cynllun. Gellir profi'r modelu hwnnw fel rhan o'r broses ymgynghori. Unwaith eto, anogaf unrhyw un yn y Siambr sydd â diddordeb difrifol yn y materion sylweddol hyn i gyfrannu at y broses ymgynghori, gofyn cwestiynau priodol a phrofi'r cynllun lle mae angen ei brofi, fel y gall y broses ymgynghori wneud ei gwaith.

15:13 **Jenny Rathbone** [Bywgraffiad] [Biography]

Would the Minister agree that these plans have already received the rigorous scrutiny of nearly 300 clinicians? What they have come up with is their best option, based on the needs of the community, including the areas of deprivation. Therefore, we should listen very carefully to the plans that have been proposed. As you have already acknowledged, Minister, no change is not an option.

A fyddai'r Gweinidog yn cytuno bod bron 300 o glinigwyr eisoes wedi derbyn y cynlluniau hyn? Yr hyn a luniwyd ganddynt yw eu hopsiwn gorau, yn seiliedig ar anghenion y gymuned, gan gynnwys yr ardaloedd amddifadedd. Felly, dylem wrando'n ofalus iawn ar y cynlluniau a gynigiwyd. Fel y cydnabuwyd gennych eisoes, Weinidog, nid yw dim newid yn opsiwn.

15:13 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad] [Biography]

I believe that the preparation of the plan has engaged the local clinical community to an unprecedented extent and that its involvement will be reflected in the plan on which consultation will take place.

Credaf fod y gwaith o baratoi'r cynllun wedi cynnwys y gymuned glinigol leol i raddau nas gwelwyd eu tebyg o'r blaen ac yr adlewyrchir ei chyfraniad yn y cynllun y cynhelir yr ymgynghoriad arno.

15:14 **William Graham** [Bywgraffiad] [Biography]

Minister, can you give us a guarantee on implementation? It seems to me that, having regard to other consultations for other health boards, it is a little like rapid assessment in A&E: it is not rapid and the assessment rarely takes place. You will know that this booklet says that, if you need to go further for treatment, you will be taken home or to your local hospital. In my region, ambulance response times are consistently almost totally unreliable. What guarantees can you give us?

Weinidog, a allwch warantu y caiff ei roi ar waith? Ymddengys i mi, o ystyried ymgynghoriadau eraill ar gyfer byrddau iechyd eraill, ei fod ychydig fel asesiad cyflym mewn adran damweiniau ac achosion brys: nid yw'n gyflym ac anaml y gwneir asesiad. Fe wyddoch fod y llyfryn hwn yn dweud, os oes angen ichi fynd ymhellach am driniaeth, yr eir â chi adref neu i'ch ysbyty lleol. Yn fy rhanbarth i, mae amseroedd ymateb ambiwlansys bron yn gwbl annibynadwy. Pa sicrwydd y gallwch ei roi i ni?

15:14 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad] [Biography]

I have acknowledged on a series of occasions this afternoon the importance of ambulance services in delivering the plan. I do not think that there is anything further that I need to add to what I have already said on that point.

Rwyf wedi cydnabod sawl gwaith y prynhawn yma bwysigrwydd gwasanaethau ambiwlans wrth gyflwyno'r cynllun. Ni chredaf fod unrhyw beth pellach y mae angen i mi ei ychwanegu at yr hyn yr wyf eisoes wedi ei ddweud.

## Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad

## Questions to the Assembly Commission

### Symudedd Cyfyngedig

### Limited Mobility

15:14

**Ann Jones** Bywgraffiad Biography

*1. A wnaiff y Comisiynydd ddatganiad am fynediad i bobl â symudedd cyfyngedig ar ystâd y Cynulliad? OAQ(4)0072(AC)*

*1. Will the Commissioner make a statement on access for people with limited mobility on the Assembly estate? OAQ(4)0072(AC)*

15:15

**Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

*Comisiynydd y Cynulliad / Assembly Commissioner*

I assure the Member for the Vale of Clwyd that the estate is consistently subject to specialist external auditors who conduct periodic access audits. One has just been completed. An audit of the public spaces on the whole Assembly estate has been looked at, and officials are reviewing the audit findings to ensure that any findings found are used to further enhance the accessibility of our estate.

Gallaf sicrhau'r Aelod dros Ddyffryn Clwyd bod archwilwyr allanol arbenigol yn cynnal archwiliadau mynediad rheolaidd o'r ystâd. Mae un newydd gael ei gwblhau. Edrychwyd ar archwiliad o'r mannau cyhoeddus ar ystâd gyfan y Cynulliad, ac mae swyddogion wrthi'n adolygu canfyddiadau'r archwiliad er mwyn sicrhau y caiff unrhyw ganfyddiadau a ddaw i'r amlwg eu defnyddio i wella hygyrchedd ein hystâd ymhellach.

15:15

**Ann Jones** Bywgraffiad Biography

Recently I hosted the Royal British Legion's Not Just November reception here in the Senedd, at which a stage or platform was used for speakers. This stage had no ramp or handrail to the step to access the stage, making access difficult. I actually conducted my part of the proceedings from the floor. However, an elderly veteran who clearly had mobility problems found it extremely difficult to get on to the platform to share with us his valuable experiences. He had to be helped on and off the stage by a number of Members.

Yn ddiweddar, cynhaliais dderbyniad Not Just November y Lleng Brydeinig Frenhinol yma yn y Senedd, lle y defnyddiwyd llwyfan neu blatfform ar gyfer siaradwyr. Nid oedd gan y llwyfan unrhyw ramp na chanllaw i'r gris i gyrraedd y llwyfan, gan olygu ei bod yn anodd mynd arno. Yn wir, cyflwynais fy rhan i o'r digwyddiad o'r llawr. Fodd bynnag, cafodd cyn-filwr oedrannus a oedd â phroblemau symudedd yn amlwg anawsterau sylweddol wrth gyrraedd y platfform i rannu ei brofiadau gwerthfawr â ni. Bu'n rhaid i nifer o Aelodau roi cymorth iddo gyrraedd y llwyfan a dod oddi arno.

I hope that Members across the Chamber will agree that it is vital that anyone, with any disability, feels that they are able to fully participate in Assembly events, including those sponsored by Members. Would you look into the accessibility of platforms and/or stages that we use for events on our estate? Will you give serious consideration to procuring handrails for both sides of the steps and a ramp to allow those in wheelchairs to use the stage, or stop the use of platforms and stages altogether?

Gobeithio y bydd Aelodau ymhob rhan o'r Siambr yn cytuno ei bod yn hanfodol bod unrhyw un, sydd ag unrhyw anabledd, yn teimlo y gall gymryd rhan lawn yn nigwyddiadau'r Cynulliad, gan gynnwys y rhai a noddir gan Aelodau. A ymchwiliwch i hygyrchedd platfformau a/neu lwyfannau a ddefnyddir gennym ar gyfer digwyddiadau ar ein hystâd? A ystyriwch o ddifrif pa un a ellid caffael canllawiau i'w rhoi ar bob ochr i'r grisiau a ramp er mwyn i'r rheini mewn cadeiriau olwyn allu defnyddio'r llwyfan, neu roi'r gorau i ddefnyddio platfformau a llwyfannau yn gyfan gwbl?

15:16

**Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Thank you for that. I am very sorry to hear about that, and I am sure that all commissioners will be. I thank you for bringing this matter to our attention. We will certainly act on that feedback and make modifications to the staging and take steps to improve access for those with limited mobility. The audit that I just told you about actually threw up a difficulty regarding the Tŷ Hywel ramp and steps, which you may have noticed yourself. That is something that will be looked at as a result of that audit, as well as other problems that came to light.

Diolch am hynny. Mae'n ddrwg iawn gennyf glywed am hynny, ac rwy'n siŵr y bydd yn ddrwg iawn gan bob comisiynydd hefyd. Diolch ichi am dynnu ein sylw at y mater hwn. Yn sicr, gweithredwn ar yr adborth hwnnw gan wneud addasiadau i'r llwyfan a chymryd camau i wella mynediad i'r rheini â symudedd cyfyngedig. Tynnodd yr archwiliad rwyf newydd sôn amdano sylw at anhawster o ran ramp a grisiau Tŷ Hywel, y byddwch o bosibl wedi sylwi arno eich hun. Mae hynny'n rhywbeth a gaiff ei ystyried o ganlyniad i'r archwiliad hwnnw, yn ogystal â phroblemau eraill a ddaeth i'r amlwg.

15:17 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

I am really pleased that Ann Jones has raised this issue, and I know that most Assembly Members will at some point, when we have visitors to the estate, benefit from being able to book visitors into the car park at the back of Ty Hywel. That is clearly particularly important for disabled users, if they can use it. Can you tell me, Commissioner, what is being done to improve access in the car park for blue badge holders? I am thinking particularly of severely disabled people who really do need extra special assistance.

Rwy'n falch iawn bod Ann Jones wedi codi'r mater hwn, a gwn y bydd y gallu i drefnu lle parcio i ymwelwyr yn y maes parcio y tu ôl i Dŷ Hywel o fudd i'r rhan fwyaf o Aelodau'r Cynulliad ar ryw adeg, pan fydd ymwelwyr yn dod i'r ystâd. Mae hynny'n amlwg yn bwysig iawn i ddefnyddwyr anabl, os gallant ei ddefnyddio. A allwch ddweud wrthyf, Gomisiynydd, beth sy'n cael ei wneud i wella mynediad yn y maes parcio i ddeiliaid bathodynau glas? Rwy'n cyfeirio'n benodol at bobl ag anableddau difrifol y mae gwir angen cymorth arbennig ychwanegol arnynt.

15:17 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Physical access is always considered, and where we find problems we try to improve them. Disabled service users were also consulted to ensure that the buildings were accessible, and are contacted prior to specific events to ensure that requirements are met. For Senedd access, we have 12 disabled parking spaces next to the Senedd and, on top of that, we have other facilities that make it easier for people with disabilities to get in. The Pierhead building has had a full refurbishment that involved disabled users and, again, the best facilities possible at this time have been looked at. If you have specific questions, I would ask you to submit them to me, or to any member of the Commission, and we can look at them to see, first, whether that issue came up in the recent audit, or whether it is something that should be looked at now as a matter of urgency.

Ystyrir mynediad corfforol bob amser, a lle y ceir problemau, ceisiwn eu gwella. Ymgynghorwyd â defnyddwyr gwasanaethau anabl hefyd er mwyn sicrhau bod yr adeiladau yn hygyrch, a chysylltir â hwy cyn digwyddiadau penodol er mwyn sicrhau bod gofynion yn cael eu bodloni. O ran mynediad i'r Senedd, mae gennym 12 man parcio i bobl anabl ger y Senedd ac, yn ogystal, mae gennym gyfleusterau eraill sy'n ei gwneud hi'n haws i bobl ag anableddau ddod i mewn i'r adeilad. Adnewyddwyd adeilad Pierhead yn llwyr, gan gynnwys defnyddwyr anabl yn y broses, ac, unwaith eto, ystyriwyd y cyfleusterau gorau a oedd yn bosibl ar y pryd. Os oes gennych gwestiynau penodol, mae croeso ichi eu cyflwyno i mi, neu i unrhyw aelod o'r Comisiwn, a gallwn eu hystyried er mwyn gweld, yn gyntaf, a dynnodd yr archwiliad diweddar sylw at y mater hwnnw, neu a yw'n rhywbeth y dylid ei ystyried yn awr ar fyrder.

## Draig Ffynci

## Funky Dragon

15:18 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

*2. Pa gyswllt diweddar y mae Comisiwn y Cynulliad wedi ei gael â'r Ddraig Ffynci? OAQ(4)0073(AC)*

*2. What recent contact has the Assembly Commission had with Funky Dragon? OAQ(4)0073(AC)*

15:18 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Thank you for that. The Presiding Officer met with the chief executive of Funky Dragon in May 2012, and officials have remained in contact with representatives from Funky Dragon since then. Members of the Assembly's education service also have occasional contact with Funky Dragon.

Diolch am hynny. Cyfarfu'r Llywydd â phrif weithredwr y Ddraig Ffynci ym mis Mai 2012, ac mae swyddogion wedi cadw mewn cysylltiad â chynrychiolwyr o'r Ddraig Ffynci ers hynny. Daw aelodau gwasanaeth addysg y Cynulliad hefyd i gysylltiad â'r Ddraig Ffynci o bryd i'w gilydd.

15:19 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

Thank you for that response. What is the Commission doing to further engage young people in Wales via Funky Dragon?

Diolch am yr ymateb hwnnw. Beth mae'r Comisiwn yn ei wneud i ymgysylltu ymhellach â phobl ifanc yng Nghymru drwy'r Ddraig Ffynci?

15:19 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

The Member will be aware that Funky Dragon is funded by the Welsh Government, and is not an Assembly Commission initiative. However, this month the Assembly Commission met to discuss our future strategy for youth engagement and we agreed that our priority should be to build on our education programme, which I think that all Members will agree is very well developed and is welcomed by everyone who attends it.

Bydd yr Aelod yn ymwybodol y caiff y Ddraig Ffynci ei hariannu gan Lywodraeth Cymru, ac nad un o fentrau Comisiwn y Cynulliad mohoni. Fodd bynnag, y mis hwn cyfarfu Comisiwn y Cynulliad i drafod ein strategaeth ar gyfer ymgysylltu â phobl ifanc yn y dyfodol a chytunwyd gennym y dylid rhoi blaenoriaeth i ehangu ein rhaglen addysg, sydd wedi'i datblygu'n dda, fel y bydd pob Aelod yn cytuno, credaf, ac a groesewir gan bawb sy'n ymgymryd â hi.

We already engage thousands of young people from across Wales in the work of the legislature, and that is highly regarded. We want the service to evolve so that we get more young people from throughout Wales to participate in Assembly business. As one part of this, we will explore options for a youth parliament with some very exciting possibilities. There is one that I am sure that you would be interested in, which is virtual participation. We will be keeping Members updated, and we want to make wider use of the educational material that we use by making it openly available to teachers and schools.

Rydym eisoes yn ymgysylltu â miloedd o bobl ifanc o bob cwr o Gymru fel rhan o waith y ddeddfwrfa, ac mae parch mawr at y gwaith hwnnw. Rydym am i'r gwasanaeth esblygu er mwyn annog mwy o bobl ifanc ledled Cymru i gymryd rhan ym musnes y Cynulliad. Fel un rhan o hyn, byddwn yn ystyried opsiynau ar gyfer senedd ieuenctid sy'n cynnwys rhai posibiliadau cyffrous iawn. Mae un peth a fydd o ddiddordeb ichi, rwy'n siŵr, sef cyfranogiad rhithwir. Byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau, ac rydym am wneud defnydd ehangach o'r deunydd addysgol a ddefnyddiwn drwy sicrhau ei fod ar gael yn gyffredinol i athrawon ac ysgolion.

15:20 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

I understand that the Commission is considering the establishment of a youth Senedd here in the bay, and, of course, I welcome ideas that help young people to understand and to participate in the democratic process, but are you able to say how the idea might be measurably different from the similar offer in Funky Dragon's programme?

Deallaf fod y Comisiwn yn ystyried sefydlu Senedd ieuenctid yma yn y bae, ac, wrth gwrs, croesawaf syniadau sy'n helpu pobl ifanc i ddeall y broses ddemocrataidd a chymryd rhan ynddi, ond a allwch ddweud sut y gallai'r syniad fod yn sylweddol wahanol i'r cynnig tebyg sy'n rhan o raglen y Ddraig Ffynci?

15:20 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

You will have heard the observations that I just made about Funky Dragon being a Government initiative and not a Commission initiative. We will be looking to make sure that any new initiative taken forward by the Commission will complement and not compete with activities that might be undertaken by other organisations. We will be consulting widely with young people to ensure that they have a say in the development of anything that goes forward. I am sure that Assembly Members will hear about the proposals, and other organisations will be widely consulted to see how this can best be taken forward by the Commission.

Byddwch wedi clywed y sylwadau rwyf newydd eu gwneud am y ffaith mai menter gan y Llywodraeth yw'r Ddraig Ffynci ac nid un o fentrau'r Comisiwn. Byddwn yn anelu at sicrhau y bydd unrhyw fenter a ddatblygir gan y Comisiwn yn ategu gweithgareddau y gallai sefydliadau eraill fod yn ymgymryd â hwy yn hytrach na chystadlu â hwy. Byddwn yn ymgynghori'n eang â phobl ifanc er mwyn sicrhau y cânt eu cynnwys wrth ddatblygu unrhyw beth newydd. Rwy'n siŵr y bydd Aelodau'r Cynulliad yn clywed am y cynigion, ac ymgynghorir yn helaeth â sefydliadau eraill er mwyn penderfynu ar y ffordd orau i'r Comisiwn fwrw ati â'r gwaith hwn.

15:21 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

One of Funky Dragon's successes is that it reaches out to a wide range of children and young people of all abilities. I wonder if the Commissioner could tell us what efforts are made in the Commission to reach out in particular to young people who may have less ability. We need to reach out to them. Could you tell us about anything that the Commission is doing in that respect?

Un o lwyddiannau'r Ddraig Ffynci yw ei bod yn estyn allan i ystod eang o blant a phobl ifanc o bob gallu. Tybed a allai'r Comisiynydd ddweud wrthym pa ymdrechion a wneir o fewn y Comisiwn i estyn allan yn arbennig i bobl ifanc y gallai fod ganddynt lefelau gallu is. Mae angen inni estyn allan iddynt. A allech ddweud wrthym am unrhyw beth y mae'r Comisiwn yn ei wneud yn hynny o beth?

15:21 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

You probably know about the educational outreach service where we have members of staff who go into schools, and I understand that there are materials available to be accessed by young people with disabilities. As I just said, for the future, we are looking at the education materials that we have already to see how they can be extended, updated and made available, so that they are not only available here or to members of staff, but are available to teachers and other staff in schools.

Rydych fwy na thebyg yn ymwybodol o'r gwasanaeth allgymorth addysgol lle mae aelodau o staff yn mynd i mewn i ysgolion, a deallaf fod deunyddiau ar gael i bobl ifanc ag anableddau eu defnyddio. Fel rwyf newydd ei ddweud, o ran y dyfodol, rydym yn edrych ar y deunyddiau addysg sydd gennym eisoes er mwyn gweld sut y gellir eu hehangu, eu diweddaru a'u cyflwyno, er mwyn sicrhau eu bod, nid yn unig ar gael yma neu i aelodau o staff, ond eu bod ar gael i athrawon ac aelodau eraill o staff mewn ysgolion.

15:22 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

I am pleased to hear that the Commission has taken up a campaign idea that I initiated years ago for a youth parliament. In fact, I made sure that it was in the Plaid Cymru manifesto and it was the topic of one of the first meetings I had with the Commission when I was elected in 2007 to make sure that this actually happened. I want to understand how you will engage with young people who are not only in school, but who are in work and further education colleges. Those are the people who are not currently being engaged, in my view, by organisations such as Funky Dragon. I believe that we need a youth parliament for Wales that is not connected to the Welsh Government and that is entirely separate, which we can include in the debates that we have here in the National Assembly for Wales—much like what is happening in Scotland. I urge you to take forward this work with haste.

Rwy'n falch clywed bod y Comisiwn wedi derbyn syniad am ymgyrch a ddechreuwyd gennyf flynyddoedd yn ôl am senedd ieuenctid. Yn wir, gwneuthum yn siŵr ei fod yn rhan o faniffesto Plaid Cymru ac roedd yn destun trafod yn un o'r cyfarfodydd cyntaf a gefais gyda'r Comisiwn pan gefais fy ethol yn 2007 er mwyn gwneud yn siŵr y câi ei roi ar waith. Hoffwn ddeall, yn ogystal â phobl ifanc sydd yn yr ysgol, sut y byddwch yn ymgysylltu â phobl ifanc sydd mewn gwaith a cholegau addysg bellach. Dyna'r bobl nad ymgysylltir â hwy ar hyn o bryd, yn fy marn i, gan sefydliadau fel y Ddraig Ffynci. Credaf fod angen senedd ieuenctid i Gymru nad yw'n gysylltiedig â Llywodraeth Cymru ac sy'n gwbl annibynnol, y gallwn ei chynnwys yn y dadleuon a gawn yma yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru—yn debyg i'r sefyllfa yn yr Alban. Fe'ch anogaf i fwrw ati ar fyrder i ddatblygu'r gwaith hwn.

15:23 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

I thank Bethan Jenkins for her comments. I do not think that we are very far apart in what we are talking about. The Commission has only just started this development and, at the meeting that we had this month, all these ideas were put forward. Certainly, I think that it was the Commissioner from your party who may have made the suggestion that we need to take into account older people as well as people in school. This has got quite a way to travel. We have all suggested organisations and individuals with whom the Commission could consult, and I am sure that the Commission would welcome any suggestions that Members might make. However, you can be assured that this will be taken forward carefully and we will look at all the options, because we are very keen to ensure that young people, however old they are and whatever their level is, are involved fully in what we do here in their National Assembly.

Diolch i Bethan Jenkins am ei sylwadau. Ni chredaf fod gwahaniaeth mawr o ran yr hyn rydym yn ei drafod. Megis dechrau'r datblygiad hwn y mae'r Comisiwn ac, yn y cyfarfod a gawsom y mis hwn, cyflwynwyd yr holl syniadau hyn. Yn sicr, credaf o bosibl mai'r Comisiynydd o'ch plaid chi a wnaeth yr awgrym bod angen inni ystyried pobl hŷn yn ogystal â phobl yn yr ysgol. Mae cryn dipyn o waith i'w wneud o hyd. Mae pob un ohonom wedi awgrymu sefydliadau ac unigolion y gallai'r Comisiwn ymgynghori â hwy, ac rwy'n siŵr y byddai'r Comisiwn yn croesawu unrhyw awgrymiadau a allai fod gan yr Aelodau. Fodd bynnag, gallaf eich sicrhau y byddwn yn bwrw ati'n ofalus ac y byddwn yn ystyried yr holl opsiynau, gan ein bod yn awyddus iawn i sicrhau y caiff pobl ifanc, ni waeth pa mor hen ydynt na'u lefel, eu cynnwys yn llawn yn yr hyn a wnawn yma yn eu Cynulliad Cenedlaethol.

15:24

## Dadl ar Araith y Frenhines

## Debate on the Queen's Speech Y

**Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

I call on a Member of the Business Committee to move the motion.

Galwaf ar Aelod o'r Pwyllgor Busnes i gynnig y cynnig.

*Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliant 1 yn enw Elin Jones, gwelliannau 2, 3, 4, 5, 6 a 7 yn enw Aled Roberts, a gwelliannau 8, 9 a 10 yn enw William Graham.*

*The following amendments have been selected: amendment 1 in the name of Elin Jones, amendments 2, 3, 4, 5, 6 and 7 in the name of Aled Roberts, and amendments 8, 9 and 10 in the name of William Graham.*

Cynnig NDM5245 Rosemary Butler

Cynnig NDM5245 Rosemary Butler

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

The National Assembly for Wales:

Yn nodi cynnwys rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU 2013/2014.

Notes the content of the UK Government's legislative programme 2013/2014.

15:24 **William Graham** Bywgraffiad Biography

I move the motion.

Cynigiaf y cynnig.

15:24 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

It is my pleasure to welcome the Secretary of State for Wales to the Assembly, and I now invite him to speak.

Mae'n bleser gennyf groesawu Ysgrifennydd Gwladol Cymru i'r Cynulliad, ac rwyf yn awr yn ei wahodd i'ch annerch.

15:24 **David Jones**

*Ysgrifennydd Gwladol Cymru / The Secretary of State for Wales*

Hoffwn ddechrau drwy ddweud cymaint o bleser yw hi i fod yma heddiw i drafod trydedd sesiwn y Llywodraeth yn ystod y tro cyntaf i mi fod yn y Cynulliad fel Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Mae'n bleser arbennig i mi gan i mi fod unwaith yn Aelod o'r Cynulliad hwn, ac mae'r profiad wedi bod yn bwysig iawn i mi yn fy ngwaith fel Ysgrifennydd Gwladol.

I would wish to begin by saying how great a pleasure it is for me to be here today to discuss the third Government session at my first appearance in the Assembly as Secretary of State for Wales. It is a particular pleasure for me because I was once a Member of this Assembly, and that experience has been exceptionally important to me in my work as Secretary of State.

Deputy Presiding Officer, thank you for your introduction. I would like to begin by saying what a pleasure it is to be here today to discuss the Government's third legislative programme at my first appearance in the Assembly as Secretary of State for Wales. Indeed, it is a particular pleasure for me, given that I was once myself a member of this Assembly. I believe that the insight I gained from that experience has stood me in good stead in my work as Secretary of State.

Ddirprwy Lywydd, diolch ichi am eich cyflwyniad. Hoffwn ddechrau drwy ddweud cymaint o bleser yw hi i fod yma heddiw i drafod trydedd raglen ddeddfwriaethol y Llywodraeth yn fy ymddangosiad cyntaf yn y Cynulliad fel Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Yn wir, mae'n bleser arbennig imi, o ystyried imi fod yn aelod o'r Cynulliad hwn fy hun unwaith. Credaf fod y ddealltwriaeth a gefais o'r profiad hwnnw wedi bod o fudd imi yn fy ngwaith fel Ysgrifennydd Gwladol.

I made it clear on my appointment, and I wish to restate it, that I am committed to working closely with the Welsh Government, with this Assembly and with businesses across Wales to deliver the infrastructure investment, the jobs and the growth that we need to get the Welsh economy back on track. Wales is in a global race for economic success and it is a race in which we cannot afford to be mere spectators. I believe that that co-operation is already beginning to bear fruit. I worked with a number of prospective bidders for the Horizon nuclear project and Hitachi's purchase of Horizon—something that I was committed to securing from day one—will help to secure the future for new nuclear on Anglesey. I was delighted by the support that I received, and continue to receive, from Edwina Hart. Wylfa is crucial to the future of not just Ynys Môn, but all north Wales and we must continue to work together to ensure its success.

Eglurais ar adeg fy mhenodiad, a hoffwn ailddatgan hynny, fy mod yn ymrwymedig i weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, y Cynulliad hwn a busnesau ledled Cymru i sicrhau'r buddsoddiad mewn seilwaith, y swyddi a'r twf sydd eu hangen arnom i adfer economi Cymru. Mae Cymru mewn ras fyd-eang am lwyddiant economaidd ac mae'n ras lle na allwn fforddio cael ein gadael ar y cyrion. Credaf fod cydweithio o'r fath eisoes yn dechrau dwyn ffrwyth. Bûm yn gweithio gyda nifer o ddarpar ymgeiswyr ar gyfer prosiect niwclear Horizon a bydd penderfyniad Hitachi i brynu Horizon—rhywbeth yr oeddwn wedi ymrwymo i'w sicrhau o'r diwrnod cyntaf—yn helpu i sicrhau dyfodol niwclear newydd ar Ynys Môn. Roeddwn yn falch iawn o'r gefnogaeth a gefais, ac yn parhau i'w chael gan Edwina Hart. Mae'r Wylfa yn hanfodol, nid yn unig i ddyfodol Ynys Môn, ond i bob rhan o'r gogledd a rhaid inni barhau i weithio gyda'n gilydd i sicrhau ei llwyddiant.

My predecessor, Cheryl Gillan, and I worked hard across Government to secure the commitment to electrify the Great Western main line to Swansea, and, of course, the Cardiff Valleys lines. We were grateful for the invaluable support that we received from the Welsh Government.

Gweithiodd fy rhagflaenydd, Cheryl Gillan, a minnau yn galed ar draws y Llywodraeth i sicrhau ymrwymiad i drydaneiddio prif linell reilffordd y Great Western i Abertawe, ac, wrth gwrs, y rheilffyrdd rhwng Caerdydd a'r Cymoedd. Roeddem yn ddiolchgar am y cymorth amhrisiadwy a gawsom gan Lywodraeth Cymru.

The joint statement on funding reform that was made by Danny Alexander, Jane Hutt and me, here in Cardiff in October, delivered a new agreement between the United Kingdom and Welsh Governments to review the issue of potential funding convergence and our agreement in principle to the Welsh Government having access to borrowing powers, subject to an independent revenue stream being in place. The Silk commission has published its recommendations on fiscal devolution, which we are now carefully considering, and upon which an announcement will shortly be made. The commission is now getting on with the job of reviewing the devolution boundary. I know that I can rely upon the Welsh Government and this Assembly to engage positively in the Silk process.

Arweiniodd y datganiad ar y cyd am ddiwygio cyllid a wnaed gan Danny Alexander, Jane Hutt a minnau, yma yng Nghaerdydd ym mis Hydref, at gytundeb newydd rhwng Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru i adolygu mater cydgyfeiriant ariannu posibl a'n cytundeb mewn egwyddor i Llwodraeth Cymru gael pwerau benthyca, ar yr amod bod ffrwd refeniw annibynnol yn cael ei rhoi ar waith. Mae comisiwn Silk wedi cyhoeddi ei argymhellion ynglŷn â datganoli ariannol, yr ydym wrthi'n eu hystyried yn ofalus yn awr, ac ar y byddwn yn gwneud cyhoeddiad yn eu cylch yn fuan. Mae'r comisiwn yn bwrw ymlaen â'r gwaith o adolygu ffin datganoli. Gwn fy mod yn gallu dibynnu ar Lywodraeth Cymru a'r Cynulliad hwn i gymryd rhan gadarnhaol ym mhroses Silk.

Mr Deputy Presiding Officer, the Conservative-Liberal Democrat coalition was formed three years ago to govern in the national interest, not just to tackle the enormous deficit that we inherited, but also to bring back competitiveness to Britain's economy, to fire up our private sector and create the jobs that people need, and to reform our tax and benefits system properly in order to reward hard work. We are delivering on that promise: cutting the deficit by a third; cutting income tax for 24 million people across the United Kingdom, 1.1 million of them here in Wales; and taking 2 million out of tax altogether, 130,000 of them in Wales. We are making long-overdue changes to the welfare system to help many to escape a life on benefits, while ensuring that support is there for those who need it. Our zeal for reform is undiminished. We are committed to making Britain a better place, to building a free, fair and responsible society for every part of our country, including Wales.

Ddirprwy Lywydd, ffurfiwyd clymblaid y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol dair blynedd yn ôl er mwyn llywodraethu er budd y wlad, nid yn unig i fynd i'r afael â'r diffyg enfawr a etifeddwyd gennym, ond hefyd i adfer cystadleurwydd economi Prydain, tanio ein sector preifat a chreu'r swyddi sydd eu hangen ar bobl, a diwygio ein system treth a budd-daliadau yn briodol er mwyn gwobrwyo gwaith caled. Rydym yn cyflawni'r addewid honno: drwy dorri'r diffyg o draean; torri treth incwm i 24 miliwn o bobl ledled y Deyrnas Unedig, 1.1 miliwn ohonynt yma yng Nghymru; dileu treth i 2 filiwn yn gyfan gwbl, 130,000 ohonynt yng Nghymru. Rydym yn gwneud newidiadau hir-ddisgwyliedig i'r system les er mwyn helpu llawer i ddianc rhag bywyd ar fudd-daliadau, tra'n sicrhau bod cymorth ar gael i'r bobl hynny sydd ei angen. Nid yw ein hawydd i ddiwygio wedi pylu. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod Prydain yn lle gwell, gan greu cymdeithas rydd, deg a chyfrifol i bob rhan o'n gwlad, gan gynnwys Cymru.

We based our programme for government on these key principles and our third legislative programme has been developed with them at its very heart. The programme outlined in the Gracious Speech is all about supporting people who work hard and who want to get on in life, creating the economic conditions to back them every step of the way. Our resolve to turn our country around is stronger than ever.

Seiliwyd ein rhaglen lywodraethu ar yr egwyddorion allweddol hyn ac mae ein trydedd raglen ddeddfwriaethol wedi cael ei datblygu'n seiliedig arnynt. Mae'r rhaglen a amlinellwyd yn yr Araith Rasol yn ymwneud â chefnogi pobl sy'n gweithio'n galed ac sydd am ddod ymlaen mewn bywyd, gan greu'r amodau economaidd i'w cefnogi bob cam o'r ffordd. Mae ein penderfyniad i adfywio ein gwlad mor gryf ag erioed.

The Bills that her Majesty announced as part of the programme will make a positive difference to people's lives, the length and breadth of the UK, including Wales. They will do that in three main ways. Firstly, and crucially, the legislative programme continues to deliver on our commitment to reduce the deficit left to us by the last Labour Government and to rejuvenate the economy through sustainable private sector growth. We want to fire up our private sector and build on the 35,000 private sector jobs that have already been created in Wales since the start of 2010. We will continue to reduce the regulatory burden on businesses and individuals through the deregulation Bill. The reforms that we have already made to business regulation are saving the private sector across the UK over £211 million per annum, but we are determined to do more. We also want to reduce costs to businesses even further, particularly the cost of employing staff. The national insurance contributions Bill will entitle every business and charity to a £2,000 employment allowance, reducing their national insurance costs each year from next April. Many small and medium sized enterprises in Wales, Mr Deputy Presiding Officer, will be relieved entirely of employers' national insurance contributions as a consequence of this measure.

Bydd y Biliau a gyhoeddwyd gan ei Mawrhydi fel rhan o'r rhaglen yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau pobl, ar hyd a lled y DU, gan gynnwys Cymru. Gwnânt hynny mewn tair prif ffordd. Yn gyntaf, ac yn anad dim, bydd y rhaglen ddeddfwriaethol yn parhau i gyflawni ein hymrwymiad i leihau'r diffyg a adawyd inni gan y Llywodraeth Lafur ddiwethaf ac i adnewyddu'r economi drwy dwf cynaliadwy yn y sector preifat. Rydym yn awyddus i danio ein sector preifat ac adeiladu ar y 35,000 o swyddi yn y sector preifat sydd eisoes wedi cael eu creu yng Nghymru ers dechrau 2010. Byddwn yn parhau i leihau'r baich rheoleiddio ar fusnesau ac unigolion drwy'r Bil dadreoleiddio. Mae'r diwygiadau yr ydym eisoes wedi'u gwneud i reoleiddio busnes yn arbed y sector preifat ledled y DU dros £211 miliwn y flwyddyn, ond rydym yn benderfynol o wneud rhagor. Rydym hefyd yn awyddus i leihau costau i fusnesau hyd yn oed ymhellach, yn enwedig costau cyflogi staff. Bydd y Bil cyfraniadau yswiriant gwladol yn rhoi hawl i bob busnes ac elusen gael lwfans cyflogaeth o £2,000, gan leihau eu costau yswiriant gwladol bob blwyddyn o fis Ebrill nesaf. Bydd llawer o fusnesau bach a chanolig yng Nghymru, Ddirprwy Lywydd, yn cael eu rhyddhau'n gyfan gwbl rhag gwneud cyfraniadau yswiriant gwladol cyflogwyr o ganlyniad i'r mesur hwn.

The Intellectual Property Bill will strengthen design protection for our hugely important design sector, something that will benefit innovators across the UK, including the many cutting-edge design businesses located here in Wales. We will also take forward enabling legislation for the high-speed rail network—one of the most ambitious rail infrastructure projects ever planned—which will create thousands of jobs across the country. Secondly, we will bring forward legislation to take forward key social reforms. The Pensions Bill will modernise the pensions system, implementing a simple flat-rate pension from 2016, providing a firmer foundation for saving and rewarding people in retirement for the contributions that they have made throughout their working lives.

Bydd y Bil Eiddo Deallusol yn cryfhau mesurau i amddiffyn dyluniadau ar gyfer ein sector dylunio hynod bwysig, rhywbeth a fydd o fudd i arloeswyr ledled y DU, gan gynnwys y busnesau dylunio arloesol niferus a leolir yma yng Nghymru. Byddwn hefyd yn cyflwyno deddfwriaeth alluogi ar gyfer y rhwydwaith rheilffyrdd cyflym mawr—un o'r prosiectau seilwaith rheilffyrdd mwyaf uchelgeisiol a gynlluniwyd erioed—a fydd yn creu miloedd o swyddi ledled y wlad. Yn ail, byddwn yn cyflwyno deddfwriaeth i roi diwygiadau cymdeithasol allweddol ar waith. Bydd y Bil Pensiynau yn moderneiddio'r system bensiynau, gan weithredu pensiwn cyfradd unffurf syml o 2016, a rhoi sylfaen gadarnach ar gyfer cynilo a gwobrwyo pobl sydd wedi ymddeol am y cyfraniadau y maent wedi'u gwneud drwy gydol eu bywydau gwaith.

The immigration Bill will further reform Britain's immigration system, strengthening enforcement powers and taking action to protect our public services from abuse. We will also do more to keep our neighbourhoods safe and secure through measures in the Anti-social Behaviour, Crime and Policing Bill. In addition, the Offender Rehabilitation Bill will transform the way in which we deal with offenders when they leave prison in order to tackle persistent reoffending.

Bydd y Bil mewnfudo yn diwygio system fewnfudo Prydain ymhellach, yn cryfhau pwerau gorfodi ac yn cymryd camau i amddiffyn ein gwasanaethau cyhoeddus rhag cael eu camddefnyddio. Byddwn hefyd yn gwneud rhagor i gadw ein cymdogaethau yn ddiogel drwy fesurau yn y Bil Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona. At hynny, bydd y Bil Adsefydlu Troseddwyr yn trawsnewid y ffordd yr ydym yn delio â throseddwyr pan fyddant yn gadael y carchar er mwyn mynd i'r afael ag aildroseddu mynych.

Thirdly, in line with the principles of freedom and responsibility that underpin our programme for government, we are legislating to improve the rights of the hardworking people of this country. The draft consumer rights Bill will give consumers clearer rights in law and make sure that these rights keep pace with technological advances. We are reforming the water industry. The water Bill will implement reforms to increase choice for business customers and make the water sector more resilient in the face of natural hazards such as droughts and floods. We are also ensuring that sufferers of mesothelioma receive payments even when no liable employer or insurer can be traced.

Yn drydydd, yn unol ag egwyddorion rhyddid a chyfrifoldeb sy'n ategu ein rhaglen lywodraethu, byddwn yn deddfu i wella hawliau pobl sy'n gweithio'n galed yn y wlad hon. Bydd y Bil hawliau defnyddwyr drafft yn rhoi hawliau cliriach o dan y gyfraith i ddefnyddwyr ac yn sicrhau bod yr hawliau hyn yn gyfredol â datblygiadau technolegol. Rydym yn diwygio'r diwydiant dŵr. Bydd y Bil dŵr yn gweithredu diwygiadau er mwyn cynyddu dewis i gwsmeriaid busnes a gwneud y sector dŵr yn fwy cydnerth yn wyneb peryglon naturiol megis cyfnodau sych a llifogydd. Rydym hefyd yn sicrhau bod dioddefwyr mesothelioma yn cael taliadau hyd yn oed os na ellir dod o hyd i gyflogwr atebol nac yswiriwr.

Mr Deputy Presiding Officer, this legislative programme delivers real and direct benefits to the people of Wales. The new flat-rate pension that I have referred to, set above the basic means test to replace the current two-tier system, is excellent news for pensioners in Wales. Wales has proportionally more pensioners than the UK as a whole, and, by 2035, there will be around 140,000 more. That is why we are acting now to put in place a more generous pension system that will be sustainable for the longer term. Businesses in Wales will benefit from less regulation as we cut the red tape that can be such a barrier to business expansion and growth. Our red tape challenge has already considered around 3,500 regulations, earmarking about half of them for abolition or reform. I would encourage the Welsh Government similarly to take a good look at the devolved regulatory regime, and cut a swathe through those regulations that are holding business back.

Ddirprwy Lywydd, mae'r rhaglen ddeddfwriaethol hon yn cynnig manteision gwirioneddol ac uniongyrchol i bobl Cymru. Mae'r pensiwn cyfradd unffurf newydd yr wyf wedi cyfeirio ato, wedi'i osod uwchlaw'r prawf modd sylfaenol er mwyn disodli'r system dwy haen bresennol, yn newyddion ardderchog i bensiynwyr yng Nghymru. Fel canran mae gan Gymru fwy o bensiynwyr na'r DU yn ei chyfanrwydd, ac, erbyn 2035, bydd tua 140,000 yn fwy. Dyna pam rydym yn gweithredu yn awr i sefydlu system bensiwn fwy hael a fydd yn gynaliadwy yn y tymor hwy. Bydd busnesau yng Nghymru yn elwa o lai o reoleiddio wrth inni ddileu'r fiwrocratiaeth a all fod yn gymaint o rwystr i ehangu busnes a thwf. Mae ein her biwrocratiaeth eisoes wedi ystyried tua 3,500 o reoliadau, gan glustnodi tua eu hanner i'w diddymu neu eu diwygio. Byddwn yn annog Llywodraeth Cymru i ystyried y gyfundrefn reoleiddio ddatganoledig yn fanwl yn yr un modd, a chwynnu'r rheoliadau hynny sy'n llesteirio busnesau.

All four Welsh police forces, led by the new democratically-elected police and crime commissioners, are delivering falling crime rates, but we want to give them the right tools to do even more. The wide-ranging crime and policing reforms that will replace the existing system of anti-social behaviour orders, introduce new measures for the control of dogs, and bring in new measures to tackle forced marriage, will make communities across Wales safer. The programme also includes a draft Wales Bill, implementing measures relating to the election of this Assembly on which the Government consulted last year. The Bill will make important changes, moving the Assembly permanently to five-year terms, removing the ban on dual candidacy and preventing Assembly Members from also sitting as Members of Parliament and vice versa. While the focus of the draft Bill is on this Assembly's electoral arrangements, it could also include provision arising from the Government's response to part 1 of the Silk commission, if we decide to legislate in this Parliament on any recommendations that we do accept.

Mae pob un o'r pedwar heddlu yng Nghymru, o dan arweiniad comisiynwyr heddlu a throseddu newydd a etholwyd yn ddemocrataidd, yn sicrhau cyfraddau troseddu is, ond rydym am roi'r adnoddau cywir iddynt wneud hyd yn oed mwy. Bydd y diwygiadau eang eu cwmpas ym maes troseddu a phlismona a fydd yn disodli'r system bresennol o orchmynion ymddygiad gwrthgymdeithasol ac yn cyflwyno mesurau newydd i reoli cŵn ac i fynd i'r afael â phriodasau dan orfod, yn gwneud cymunedau ledled Cymru yn fwy diogel. Mae'r rhaglen hefyd yn cynnwys Bil drafft i Gymru, gam weithredu mesurau sy'n ymwneud ag ethol y Cynulliad hwn yr ymgynghorodd y Llywodraeth yn eu cylch y llynedd. Bydd y Bil yn gwneud newidiadau pwysig, gan gyflwyno tymhorau pum mlynedd yn barhaol i'r Cynulliad, dileu'r gwaharddiad ar ymgeisyddiaeth ddeuol ac atal Aelodau'r Cynulliad rhag bod yn Aelodau Seneddol hefyd ac i'r gwrthwyneb. Er bod y Bil drafft yn canolbwyntio ar drefniadau etholiadol y Cynulliad hwn, gallai hefyd gynnwys darpariaeth sy'n deillio o ymateb y Llywodraeth i ran 1 o gomisiwn Silk, os penderfynwn ddeddfu yn ystod y tymor Seneddol hwn ar unrhyw argymhellion a dderbyniwn.

Mr Deputy Presiding Officer, the Prime Minister set out his commitment to respecting devolution when he came to this Assembly three years ago, and our commitment remains firm. I want the United Kingdom Government to continue to work closely with the Welsh Government on aspects of the legislative programme that touch on devolved matters. We have made a good start to implementing the programme, having introduced 10 Bills so far, and discussions are already well under way on many important issues.

Ddirprwy Lywydd, amlinellodd Prif Weinidog y DU ei ymrwymiad i barchu datganoli pan ddaeth i'r Cynulliad hwn dair blynedd yn ôl, ac erys ein hymrwymiad yn gadarn. Rwyf am i Lywodraeth y Deyrnas Unedig barhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru ar agweddau ar y rhaglen ddeddfwriaethol sy'n cyffwrdd â materion datganoledig. Rydym wedi gwneud dechrau da i weithredu'r rhaglen, ar ôl cyflwyno 10 Bil hyd yn hyn, ac mae trafodaethau eisoes ar y gweill ar nifer o faterion pwysig.

On the Anti-social Behaviour, Crime and Policing Bill, I am pleased by the Welsh Government's recent commitment to work with us to take forward provisions on the control of dogs on an England-and-Wales basis. We are working to ensure that those provisions meet the policy objectives of both the United Kingdom and the Welsh Government. We are also working with the Welsh Government on the Care Bill to ensure effective, reciprocal cross-border arrangements in relation to care homes, and to ensure that arrangements are in place to ensure that the new health research authority, which will be established by the Bill, works effectively with the devolved institutions in Wales.

O ran y Bil Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona, rwy'n falch o nodi ymrwymiad diweddar Llywodraeth Cymru i weithio gyda ni i gyflwyno darpariaethau ynglŷn â rheoli cŵn ar sail Cymru a Lloegr. Rydym yn gweithio i sicrhau bod y darpariaethau hynny yn cyflawni amcanion polisi Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru. Rydym hefyd yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar y Bil Gofal er mwyn sicrhau trefniadau trawsffiniol dwyochrog effeithiol, mewn perthynas â chartrefi gofal, a sicrhau bod trefniadau ar waith i sicrhau bod yr awdurdod ymchwil iechyd newydd, a fydd yn cael ei sefydlu gan y Bil, yn gweithio'n effeithiol gyda'r sefydliadau datganoledig yng Nghymru.

The important provisions of the water Bill are particularly complex in regard to the devolution settlement. Both Governments are in detailed discussions to ensure that the Bill's provisions work effectively to reform the water industry on both sides of the border.

Mae darpariaethau pwysig y Bil dŵr yn arbennig o gymhleth o ran y setliad datganoli. Mae'r ddwy Lywodraeth yn cynnal trafodaethau manwl i sicrhau bod darpariaethau'r Bil yn gweithio'n effeithiol i ddiwygio'r diwydiant dŵr ar y ddwy ochr i'r ffin.

Finally, the consumer rights Bill will affect the work of trading standards officers in Wales, and will, among other things, consolidate powers to investigate breaches in consumer law.

Yn olaf, bydd y Bil hawliau defnyddwyr yn effeithio ar waith swyddogion safonau masnach yng Nghymru, a fydd, ymhlith pethau eraill, yn atgyfnerthu pwerau i ymchwilio i achosion o dorri cyfraith defnyddwyr.

There will be a need to seek the Assembly's approval for certain provisions in the programme through legislative consent motions, and we will work closely with the Welsh Government to secure its support.

Bydd angen ceisio cymeradwyaeth y Cynulliad ar gyfer rhai darpariaethau penodol yn y rhaglen drwy gynigion cydsyniad deddfwriaethol, a byddwn yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau ei chefnogaeth.

To conclude, I believe strongly in the union of the United Kingdom. This programme clearly demonstrates the benefits to Wales of being part of a strong United Kingdom. From the time that I took office, I have said that getting the Welsh economy back on its feet is my No. 1 priority. The mutual dependence of the four nations of the union provides a firm foundation for growth, jobs, and prosperity. Our legislative programme continues our focus on strengthening the economy so that the UK can compete and succeed in the global race. I am proud that Wales makes such an important contribution to the UK. Our programme, I believe, demonstrates how Wales benefits from being part of the UK. This legislative programme delivers for Wales, and it delivers for the United Kingdom as a whole. I commend it to the Assembly.

I gloi, credaf yn gryf yn undeb y Deyrnas Unedig. Mae'r rhaglen hon yn dangos yn glir bod manteision i Gymru o fod yn rhan o Deyrnas Unedig gref. O'r adeg yr ymgymerais â'm swydd, rwyf wedi dweud mai adfer economi Cymru yw fy mhrif flaenoriaeth. Mae cyd-ddibyniaeth pedair gwlad yr undeb yn cynnig sylfaen gadarn dros dwf, swyddi, a ffyniant. Mae ein rhaglen ddeddfwriaethol yn parhau â'n ffocws ar gryfhau'r economi fel y gall y DU gystadlu a llwyddo yn y ras fyd-eang. Rwy'n falch bod Cymru yn gwneud cyfraniad mor bwysig i'r DU. Mae ein rhaglen, fe gredaf, yn dangos sut y mae Cymru yn elwa ar fod yn rhan o'r DU. Mae'r rhaglen ddeddfwriaethol hon yn cyflawni dros Gymru ac mae'n cyflawni dros y Deyrnas Unedig yn ei chyfanrwydd. Fe'i cymeradwyaf i'r Cynulliad.

15:37

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Thank you, Secretary of State. I call the Minister for Local Government and Government Business, Lesley Griffiths.

Diolch ichi, Ysgrifennydd Gwladol. Galwaf ar Weinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth, Lesley Griffiths.

15:37

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Local Government and Government Business*

Thank you, Deputy Presiding Officer. On behalf of the Welsh Government, I welcome the Secretary of State for Wales to the Assembly today, and thank him for his opening speech, setting out the UK Government's legislative programme for the third session of Parliament.

Diolch ichi, Ddirprwy Lywydd. Ar ran Llywodraeth Cymru, croesawaf Ysgrifennydd Gwladol Cymru i'r Cynulliad heddiw, a hoffwn ddiolch iddo am ei araith agoriadol, yn amlinellu rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU ar gyfer y drydedd sesiwn Seneddol.

For us as the Welsh Government, our main focus has to be our own legislative priorities. On 12 July 2011, the First Minister announced our legislative programme for the next five years, a programme that was endorsed by the people of Wales two months previously. It set out our plans to address issues that the people of Wales care about—building a strong economy, improving our public services, tackling under-performing schools, reforming social services, action to address homelessness, and improving food safety. Today, I believe that we should celebrate the Acts that have already been passed here.

I ni fel Llywodraeth Cymru, rhaid i'n prif ffocws fod ar ein blaenoriaethau deddfwriaethol ein hunain. Ar 12 Gorffennaf, 2011, cyhoeddodd y Prif Weinidog ein rhaglen ddeddfwriaethol ar gyfer y pum mlynedd nesaf, rhaglen a gymeradwywyd gan bobl Cymru ddeufis ynghynt. Nododd ein cynlluniau i fynd i'r afael â materion sy'n bwysig i bobl Cymru—creu economi gref, gwella ein gwasanaethau cyhoeddus, mynd i'r afael ag ysgolion sy'n tangyflawni, diwygio gwasanaethau cymdeithasol, gweithredu i fynd i'r afael â digartrefedd, a gwella diogelwch bwyd. Heddiw, credaf y dylem ddathlu'r Deddfau sydd eisoes wedi cael eu pasio yma.

With our own programme under way, Members will appreciate that the Queen's Speech is of less significance to us, given that we now have primary legislative powers in Wales. However, the UK Government's programme includes important provisions that will affect Wales. Therefore, it is appropriate for the Assembly to make its views known to the UK Government through the Secretary of State. As Members will have seen, I have written to the Presiding Officer to give our initial assessment of the likely need for legislative consent motions as a consequence of the Bills that have been announced by the UK Government. Therefore, I will not repeat that assessment today.

A'n rhaglen ein hunain yn mynd rhagddi, bydd yr Aelodau'n gwerthfawrogi bod Araith y Frenhines yn llai pwysig inni, gan fod gennym bellach bwerau deddfu sylfaenol yng Nghymru. Fodd bynnag, mae rhaglen Llywodraeth y DU yn cynnwys darpariaethau pwysig a fydd yn effeithio ar Gymru. Felly, mae'n briodol bod y Cynulliad yn cyfleu ei farn i Lywodraeth y DU drwy'r Ysgrifennydd Gwladol. Fel y bydd Aelodau wedi gweld, ysgrifennais at y Llywydd i roi ein hasesiad cychwynnol o'r angen tebygol am gynigion cydsyniad deddfwriaethol o ganlyniad i'r Biliau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU. Felly, nid wyf am ailadrodd yr asesiad hwnnw heddiw.

I turn to the amendments to the motion. I will address each one, making clear the Welsh Government's view. Ten amendments have been tabled to the motion. Amendments 1, 2 and 9 all refer to the draft Wales Bill. We support amendment 1, as we have called for legislation in the lifetime of the current UK Parliament to give effect to the Silk commission's proposals on financial reform. The Welsh Government has accepted the Silk commission's recommendations, and they also have cross-party support in the Assembly. We believe that they should now be implemented without delay.

Trof at y gwelliannau i'r cynnig. Ymdriniaf â phob un, gan egluro safbwynt Llywodraeth Cymru. Cyflwynwyd deg gwelliant i'r cynnig. Mae gwelliannau 1, 2 a 9 i gyd yn cyfeirio at y Bil drafft i Gymru. Rydym yn cefnogi gwelliant 1, gan ein bod wedi galw am ddeddfwriaeth yn ystod y tymor Seneddol presennol i weithredu cynigion comisiwn Silk ynglŷn â diwygio ariannol. Mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn argymhellion comisiwn Silk, ac maent hefyd yn cael cefnogaeth drawsbleidiol yn y Cynulliad. Credwn yn awr y dylent gael eu gweithredu yn ddi-oed.

We oppose amendment 2, because we do not agree with all the electoral provisions that are proposed to be included in the draft Bill. We support amendment 9, which does not refer specifically to the content of the draft Bill, as we are, of course, in favour of the principle of a draft Bill for Wales. The issue for us is the provisions that draft Bill should contain.

Gwrthwynebwn welliant 2, gan nad ydym yn cytuno â'r holl ddarpariaethau etholiadol y bwriedir eu cynnwys yn y Bil drafft. Rydym yn cefnogi gwelliant 9, nad yw'n cyfeirio'n benodol at gynnwys y Bil drafft, gan ein bod, wrth gwrs, o blaid egwyddor Bil drafft i Gymru. Y broblem i ni yw'r darpariaethau y dylai'r Bil drafft hwnnw eu cynnwys.

Amendments 3, 4, 5 and 6 refer to four Bills that were announced in the Queen's Speech, namely the national insurance contributions Bill, the Pensions Bill, the deregulation Bill, and the draft consumer rights Bill. We oppose these amendments. Three of these Bills have not yet been published, and the Pensions Bill was only recently introduced to Parliament. Therefore, we are not in a position to assess the implications of any of these Bills in full, so it would be unreasonable to expect us to offer support today for these amendments without knowing the implications of what is being proposed.

Mae gwelliannau 3, 4, 5 a 6 yn cyfeirio at bedwar Bil a gyhoeddwyd yn Araith y Frenhines, sef y Bil cyfraniadau yswiriant gwladol, y Bil Pensiynau, y Bil dadreoleiddio, a'r Bil hawliau defnyddwyr drafft. Rydym yn gwrthwynebu'r gwelliannau hyn. Nid yw tri o'r Biliau hyn wedi'u cyhoeddi eto, a dim ond yn ddiweddar y cyflwynwyd y Bil Pensiynau i'r Senedd. Felly, nid ydym mewn sefyllfa i asesu goblygiadau unrhyw un o'r Biliau hyn yn llawn, felly byddai'n afresymol disgwyl inni gefnogi'r gwelliannau hyn heddiw heb wybod beth fydd goblygiadau'r hyn a gynigir.

We oppose amendments 7 and 10, both of which refer to the Care Bill. The Deputy Minister for Social Services issued a written statement on 22 April to update Members on our position on the reform of paying for social care. She expressed reservations about whether she would want to introduce the type of reforms planned for England from 2016 and said that she would want to be clear about the costs, benefits and implications for consequential funding for Wales. However, the good news, as far as the people of Wales are concerned, is that our own Social Services and Well-being (Wales) Bill contains provisions to allow us flexibility to introduce whichever model of reformed charging arrangements we consider appropriate when we have developed our own proposals.

Gwrthwynebwn welliannau 7 a 10, y mae'r naill a'r llall yn cyfeirio at y Bil Gofal. Cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol ddatganiad ysgrifenedig ar 22 Ebrill i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am ein barn ar y cynigion i ddiwygio talu am ofal cymdeithasol. Mynegodd amheuon ynghylch a fyddai am gyflwyno'r math o ddiwygiadau a gynigiwyd ar gyfer Lloegr o 2016 a dywedodd y byddai am fod yn glir ynghylch y costau, y manteision a'r goblygiadau o ran cyllid canlyniadol i Gymru. Fodd bynnag, y newyddion da, o ran pobl Cymru, yw bod ein Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn cynnwys darpariaethau sy'n caniatáu'r hyblygrwydd inni gyflwyno pa fodel bynnag o drefniadau codi tâl diwygiedig y credwn sy'n briodol pan fyddwn wedi datblygu ein cynigion ein hunain.

Finally, we oppose amendment 8 as, in our view, the UK Government's legislative programme does not do enough to reward those who need it and it does not fully consider the needs of those who require support.

Yn olaf, gwrthwynebwn welliant 8 oherwydd, yn ein barn ni, nid yw rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU yn gwneud digon i wobrwyo'r rhai sydd ei angen ac nid yw'n ystyried yn llawn anghenion y rhai hynny sydd angen cymorth.

15:41

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

I have selected the 10 amendments to the motion and I call on Leanne Wood to move amendment 1 tabled in the name of Elin Jones.

Rwyf wedi dethol y 10 gwelliant i'r cynnig a galwaf ar Leanne Wood i gynnig gwelliant 1 a gyflwynwyd yn enw Elin Jones.

*Gwelliant 1—Elin Jones*

*Amendment 1—Elin Jones*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn gresynu na chafodd Bil Llywodraeth Cymru, sy'n gweithredu argymhellion y Comisiwn Silk ar Ddatganoli yng Nghymru, ei gynnwys yn y rhaglen ddeddfwriaethol.*

*Regrets that a Government of Wales Bill implementing the recommendations of the Silk Commission on Devolution in Wales was not included in the legislative programme.*

15:41 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

I move amendment 1 in the name of Elin Jones.

Cynigiaf welliant 1 yn enw Elin Jones.

Before I address the substantive points in the UK Government's legislative programme, I would like to start by making a constitutional point, one that has been touched upon by the Minister for Local Government and Government Business. While it is, of course, essential that we take time in the Senedd to consider the full implications of the UK Government's legislative programme, I am unable to understand why this has to be done in the way that we do it. It may have been desirable previously to have the Secretary of State present, but that was before the Assembly was granted full law-making powers following the referendum in 2011. However, now that we have those powers, do we really need the Secretary of State's involvement? There is no equivalent procedure in Scotland, possibly because it has always had a law-making parliament. Now that we have those full powers, albeit limited to just 20 fields, perhaps we should question whether or not we should revise our Standing Orders so that we can have this debate in our own right. Perhaps, Dirprwy Lywydd, party leaders here should consider this before next year's debate.

Cyn imi ymdrin â'r pwyntiau o sylwedd yn rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU, hoffwn ddechrau drwy wneud pwynt cyfansoddiadol, un y mae Gweinidog Lywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth wedi cyffwrdd ag ef. Er ei bod yn hanfodol, wrth reswm, ein bod yn treulio amser yn y Senedd i ystyried goblygiadau llawn rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU, ni allaf ddeall pam bod yn rhaid i hyn gael ei wneud yn y ffordd yr ydym yn ei wneud. Mae'n bosibl ei bod wedi bod yn ddymunol yn y gorffennol i'r Ysgrifennydd Gwladol fod yn bresennol, ond roedd hynny cyn i'r Cynulliad gael ei bwerau deddfu llawn yn dilyn y refferendwm yn 2011. Fodd bynnag, a ninnau wedi cael y pwerau hynny, a oes gwir angen ymwneud yr Ysgrifennydd Gwladol? Nid oes gweithdrefn gyfatebol yn yr Alban, efallai am fod iddi gael deddfwrfa o'r dechrau. Gan fod gennym y pwerau llawn hynny erbyn hyn, er eu bod yn gyfyngedig i 20 maes yn unig, efallai y dylem ofyn a ddylem adolygu ein Rheolau Sefydlog fel y gallwn gynnal y ddadl hon yn ein rhinwedd ein hunain. Ddirprwy Lywydd, efallai y dylai arweinwyr y pleidiau yma ystyried hyn cyn y ddadl y flwyddyn nesaf.

I will now address the substantive legislative programme. Plaid Cymru's top priority is the Welsh economy—both now and in the future. Last week, I announced our Plan C —'C' for Cymru—to tackle some of the problems that the economy is facing right now. There are measures that we could introduce now, but, if we are to improve the Welsh economy, it is pretty obvious that we must have additional powers in order to do so. Part 1 of the Silk commission recommends the sharing of income tax powers between the National Assembly and Westminster, as well as the transfer of lesser taxation powers. The purpose of sharing income tax powers is not about the rates themselves, but about the responsibility for raising money spent by the Government. With these powers, the Welsh Government could grow the Welsh tax base by getting more people into work and increasing the value of jobs here.

Byddaf yn awr yn rhoi sylw i'r rhaglen ddeddfwriaethol ei hun. Blaenoriaeth bennaf Plaid Cymru yw economi Cymru —yn awr ac yn y dyfodol. Yr wythnos diwethaf, cyhoeddais ein Cynllun C— lle mae 'C' yn golygu Cymru—i fynd i'r afael â rhai o'r problemau y mae'r economi yn eu hwynebu ar hyn o bryd. Ceir mesurau y gallem eu cyflwyno yn awr, ond, os ydym am wella economi Cymru, mae'n eithaf amlwg bod yn rhaid inni gael pwerau ychwanegol er mwyn gwneud hynny. Mae Rhan 1 o gomisiwn Silk yn argymell rhannu pwerau treth incwm rhwng y Cynulliad Cenedlaethol a San Steffan, yn ogystal â throsglwyddo pwerau trethi llai. Nid oes a wnelo rhannu pwerau treth incwm â'r cyfraddau eu hunain, ond mae a wnelo â'r cyfrifoldeb am godi arian a gaiff ei wario gan y Llywodraeth. Gyda'r pwerau hyn, gallai Llywodraeth Cymru dyfu sylfaen dreth Cymru drwy gael mwy o bobl i mewn i waith a chynyddu gwerth y swyddi yma.

The Silk commission has set out a timetable for how this should be achieved. Plaid Cymru was deeply disappointed that no Bill to transfer these powers was included in the legislative programme. That is why Plaid Cymru, here and in Westminster, has tabled amendments to the legislative programme to include a commitment to implement the recommendations of the Silk commission in full. In Westminster, Plaid Cymru received the support of the Labour Party. I hope that our amendment today will receive cross-party support to reflect the commitment of the whole Assembly to making the Silk process work.

Mae comisiwn Silk wedi pennu amserlen yn nodi'r ffordd y dylid cyflawni hyn. Roedd Plaid Cymru yn siomedig iawn na chafodd Bil i drosglwyddo'r pwerau hyn ei gynnwys yn y rhaglen ddeddfwriaethol. Dyna pam y mae Plaid Cymru, yma ac yn San Steffan, wedi cyflwyno gwelliannau i'r rhaglen ddeddfwriaethol i gynnwys ymrwymiad i weithredu argymhellion comisiwn Silk yn llawn. Yn San Steffan, cafodd Plaid Cymru gefnogaeth y Blaid Lafur. Gobeithiaf y bydd ein gwelliant heddiw yn cael cefnogaeth drawsbleidiol er mwyn adlewyrchu ymrwymiad y Cynulliad cyfan i sicrhau bod proses Silk yn gweithio.

It is true that we are to have a draft Wales Bill in order to deal with some of the constitutional issues, but is this not a missed opportunity? What we need is a new government of Wales Act to sort out these overhanging constitutional anomalies, as well as dealing with the implementation of the Silk commission's recommendations. That said, Plaid Cymru believes that the power to change the National Assembly's constitutional arrangements should be located here and not in Westminster. That is why we seek to make amendments to the Bill to transfer those powers to the National Assembly. Depending on progress made with both parts of Silk, we will also use this constitutional Bill as a further opportunity to raise the reserved powers model for this Assembly. We hope that that will be recommended in the second Silk report.

Mae'n wir y bydd Bil drafft i Gymru yn cael ei gyflwyno er mwyn ymdrin â rhai o'r materion cyfansoddiadol, ond onid cyfle coll ydyw? Yr hyn sydd ei angen arnom yw Deddf Llywodraeth Cymru newydd er mwyn datrys yr anghysondebau cyfansoddiadol hyn nad wedi'u hunioni eto, yn ogystal ag ymdrin â'r broses o weithredu argymhellion comisiwn Silk. Wedi dweud hynny, cred Plaid Cymru mai yma ac nid yn San Steffan y dylai'r pŵer i newid trefniadau cyfansoddiadol y Cynulliad Cenedlaethol fodoli. Dyna pam rydym yn ceisio gwneud gwelliannau i'r Bil er mwyn trosglwyddo'r pwerau hynny i'r Cynulliad Cenedlaethol. Yn dibynnu ar y cynnydd a wneir o ran dwy ran Silk, byddwn hefyd yn defnyddio'r Bil cyfansoddiadol hwn fel cyfle pellach i godi'r model pwerau a gadwyd yn ôl i'r Cynulliad hwn. Gobeithiwn y bydd yn cael ei argymell yn ail adroddiad Silk.

In our submission to the second part of Silk, we have argued that all aspects of the criminal justice system should be transferred to Wales. In our alternative legislative programme at Westminster, we included a justice and policing Bill. In recent years, we have seen closures of local magistrates' courts and major cuts to policing budgets. We still do not have a prison in north Wales, or a women's prison, and there are not enough places for young people, many of whom are sent far away from their families, which, of course, hinders the rehabilitation process. Legal aid changes are doing great damage. Plans to privatise the probation service will further undermine the criminal justice system. The National Assembly for Wales is the only devolved legislature in the UK that has no control over the justice system operating within its territory. This is clearly wrong. The recent example of transferring powers to the north of Ireland shows that there is no good practical reason why we cannot have these powers in Wales, too.

Yn ein cyflwyniad i ail ran Silk, rydym wedi dadlau y dylai pob agwedd ar y system cyfiawnder troseddol gael ei throsglwyddo i Gymru. Yn ein rhaglen ddeddfwriaethol amgen yn San Steffan, cynhwyswyd Bil cyfiawnder a phlismona. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi gweld llysoedd ynadon lleol yn cau a thoriadau mawr i gyllidebau plismona. Nid oes carchar yn y gogledd o hyd, na charchar i ferched, ac nid oes digon o leoedd ar gyfer pobl ifanc, y caiff llawer ohonynt eu hanfon ymhell oddi wrth eu teuluoedd, sydd, wrth gwrs, yn rhwystro'r broses adsefydlu. Mae'r newidiadau i gymorth cyfreithiol yn gwneud niwed mawr. Bydd cynlluniau i breifateiddio'r gwasanaeth prawf yn tanseilio'r system cyfiawnder troseddol ymhellach. Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r unig ddeddfwrfa ddatganoledig yn y DU nad oes ganddi reolaeth dros y system cyfiawnder sy'n gweithredu o fewn ei thiriogaeth. Yn amlwg, nid yw hynny'n iawn. Dengys yr enghraifft ddiweddar o drosglwyddo pwerau i ogledd Iwerddon nad oes unrhyw reswm ymarferol da pam na allwn ninnau hefyd yng Nghymru gael y pwerau hyn.

Earlier, I referred to the need for a reserved powers model for this National Assembly. Why? The reason for that is because it remains unclear, even to experts, where powers lie, which legislation impacts upon Wales and which does not.

Yn gynharach, cyfeiriais at yr angen am fodel pwerau a gadwyd yn ôl i'r Cynulliad Cenedlaethol hwn. Pam? Y rheswm am hynny yw ei bod yn dal yn aneglur, hyd yn oed i arbenigwyr, pwy sydd â'r pwerau, a pha ddeddfwriaeth sy'n effeithio ar Gymru a pha ddeddfwriaeth nad yw'n effeithio ar Gymru.

15:46

## Nick Ramsay Bywgraffiad Biography

I am grateful to you for giving way, Leanne. I appreciate that Plaid Cymru has a certain agenda with regard to independence and that you have to focus on constitutional issues. However, do you not think that, at this juncture, we should be focusing on the serious economic issues affecting Wales and putting right the situation that we are in at the moment and not focusing on the blue-sky thinking about some rosy future?

Rwy'n ddiolchgar ichi am ildio, Leanne. Sylweddolaf fod gan Blaid Cymru agenda benodol mewn perthynas ag annibyniaeth a bod yn rhaid ichi ganolbwyntio ar faterion cyfansoddiadol. Fodd bynnag, oni chredwch, ar hyn o bryd, y dylem fod yn canolbwyntio ar y problemau economaidd difrifol sy'n effeithio ar Gymru ac unioni'r sefyllfa sydd ohoni yn hytrach na chanolbwyntio ar feddwl yn baradwysaidd am ryw ddyfodol perffaith?

15:47

## Leanne Wood Bywgraffiad Biography

If you had been listening to what I said earlier and what I have said over the last year, you would have heard that the economy is Plaid Cymru's No. 1 priority. This is the legislative programme of the UK Government and there are few measures in it that will help the Welsh economy.

Pe baech wedi bod yn gwrando ar yr hyn a ddywedais yn gynharach a'r hyn yr wyf wedi bod yn ei ddweud yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, byddech wedi clywed mai'r economi yw blaenoriaeth bennaf Plaid Cymru. Rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU sydd dan sylw, ac nid oes fawr ddim mesurau ynddo a fydd yn helpu economi Cymru.

It is not just about whether legislation operates in one country here; the other issue is about funding and how the funding formula is used. There are substantial questions over the financial impact of the Care Bill for Wales, for example. The high speed 2 hybrid Bill provides for large amounts of funding in England, with peripheral impacts on Wales. Whether Wales should receive a Barnett formula allocation from the high speed 2 expenditure has not yet been decided. However, if Crossrail delivered a Barnett allocation to Wales, the same should apply to HS2. The recent investment in Welsh railways is welcomed, but we are still playing catch-up on electrification. A metro system should be created in the south-east of this country, linking up the Valleys with the cities. A comprehensive turn-up-and-go public rail system, linking 1.4 million people, would provide a major and much-needed economic boost. Of course, we also want to see further electrification west of Swansea and across the north Wales line. Plaid Cymru does not think that it is too much to expect for a Welsh public transport system that is fit for the twenty-first century.

Nid oes a wnelo hyn yn unig â'r cwestiwn a yw deddfwriaeth yn gweithredu mewn un wlad; y mater arall yw cyllid a'r ffordd y mae'r fformiwla ariannu yn cael ei defnyddio. Cyfyd cwestiynau sylweddol ynglŷn ag effaith ariannol y Bil Gofal i Gymru, er enghraifft. Mae'r Bil hybrid gwasanaeth cyflym iawn 2 yn darparu symiau mawr o arian yn Lloegr, gydag effeithiau ymylol ar Gymru. Ni phenderfynwyd eto a ddylai Cymru dderbyn dyraniad o dan fformiwla Barnett o'r gwariant ar wasanaeth cyflym iawn 2. Fodd bynnag, os arweiniodd Crossrail at ddyraniad o dan Barnett i Gymru, dylai'r un peth ddigwydd yn achos HS2. Mae'r buddsoddiad diweddar yn rheilffyrdd Cymru i'w groesawu, ond rydym yn dal ar ôl hôl hi o ran trydaneiddio. Dylai system fetro gael ei chreu yn y de-ddwyrain, sy'n cysylltu'r Cymoedd â'r dinasoedd. Byddai system reilffordd gyhoeddus 'cyrraedd a mynd' gynhwysfawr, sy'n cysylltu 1.4 miliwn o bobl, yn hwb economaidd mawr a mawr ei angen. Wrth gwrs, rydym hefyd am weld trydaneiddio ymhellach i'r gorllewin o Abertawe ac ar hyd llinell gogledd Cymru. Ym marn Plaid Cymru, nid yw hynny'n ormod i'w ddisgwyl mewn system drafnidiaeth gyhoeddus i Gymru sy'n addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain.

I will now briefly address the amendments tabled. The majority of amendments in front of us today from the Conservatives and Liberal Democrats are the usual self-congratulatory statements. Both want to claim the credit for any crumbs thrown to Wales from Westminster. Did anyone spot that they are interested in welcoming specific Bills but not the legislative programme as a whole. Does that mean that the Conservatives and Liberal Democrats in the Assembly are not supportive of the immigration Bill? Do they not support the Anti-social Behaviour, Crime and Policing Bill? In many of these Bills, we still await answers to questions of detail. The draft consumer rights Bill is surely well-meaning, but how will that fit with cuts to legal aid? What will the deregulation Bill involve? Is that going to cut back on health and safety in the workplace? The Pensions Bill has been published and includes bringing forward the pension age to 67 by eight years. It includes a single-tier pension that we think is a positive step, but Plaid Cymru's living pension was to start with those over 80 years of age and those most likely to be in pensioner poverty.

Soniaf ychydig yn awr am y gwelliannau a gyflwynwyd. Mae'r rhan fwyaf o'r gwelliannau ger ein bron heddiw gan y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn cynnig y datganiadau hunanglodforus arferol. Mae'r ddwy blaid am hawlio'r clod am unrhyw friwsion y mae San Steffan yn eu taflu at Gymru. A sylwodd unrhyw un eu bod yn awyddus i groesawu Biliau penodol ond nid y rhaglen ddeddfwriaethol yn ei chyfanrwydd. A yw hynny'n golygu nad yw'r Ceidwadwyr na'r Democratiaid Rhyddfrydol yn y Cynulliad yn cefnogi'r Bil mewnfudo? Onid ydynt yn cefnogi'r Bil Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona? Mewn llawer o'r Biliau hyn, rydym yn dal i aros am atebion i gwestiynau ynglŷn â'r manylion. Onid yw'r Bil hawliau defnyddwyr drafft yn llawn bwriadau da, ond sut y bydd hynny'n cydweddu â thoriadau i gymorth cyfreithiol? Beth fydd y Bil dadreoleiddio yn ei olygu? A fydd yn cwtogi ar iechyd a diogelwch yn y gweithle? Cyhoeddwyd y Bil Pensiynau ac mae'n cynnwys cyflwyno oedran pensiwn o 67 oed wyth mlynedd yn gynt. Mae'n cynnwys pensiwn un haen sy'n gam cadarnhaol, yn ein barn ni, ond roedd pensiwn byw Plaid Cymru yn mynd i ddechrau gyda'r rhai dros 80 oed a'r rhai sydd fwyaf tebygol o fod mewn tlodi pensiynwyr.

My colleagues will discuss the Care Bill and the national insurance contributions Bill in greater detail later on.

Bydd fy nghyd-Aelodau yn trafod y Bil Gofal a'r Bil cyfraniadau yswiriant gwladol yn fanylach yn nes ymlaen.

Plaid Cymru notes this legislative speech, but like our colleagues in Westminster, we very much regret that it does not include a specific government of Wales Bill to implement the recommendations of the Silk commission. The majority of Welsh MPs supported an amendment along those lines in Westminster, and I sincerely hope that all National Assembly Members support this here this afternoon.

Mae Plaid Cymru yn nodi'r araith ddeddfwriaethol hon, ond fel ein cyd-Aelodau yn San Steffan, rydym yn gresynu'n fawr iawn nad yw'n cynnwys Bil llywodraeth Cymru penodol i weithredu argymhellion comisiwn Silk. Cefnogodd y rhan fwyaf o Aelodau Seneddol Cymru welliant ar hyd y llinellau hynny yn San Steffan, a mawr obeithiaf y bydd holl Aelodau'r Cynulliad Cenedlaethol yn cefnogi hyn yma y prynhawn yma.

15:50

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

I politely remind Members that this debate is required under the Government of Wales Act 2006.

A gaf atgoffa'r Aelodau'n gwrtais ei bod yn ofynnol cynnal y ddadl hon o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

*Gwelliant 2—Aled Roberts*

*Amendment 2—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn croesawu'r Bil Cymru drafft, a fydd yn diwygio etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol ac a allai roi llwyfan i Lywodraeth y DU i roi unrhyw welliannau gan Gomisiwn Silk (Rhan I) ar waith.*

*Welcomes the Draft Wales Bill, which will reform elections to the National Assembly and could provide a platform for the UK Government to implement any recommendations of the Silk Commission (Part I).*

*Gwelliant 3—Aled Roberts*

*Amendment 3—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn croesawu'r Bil Cyfraniadau Yswiriant Gwladol, sy'n golygu y bydd hawl gan bob elusen a busnes o fis Ebrill 2014 hawl i Lwfans Cyflogaeth gwerth £2,000, a fydd yn help i dros 35,000 o fusnesau yng Nghymru gyflogi eu gweithiwr cyflogedig cyntaf neu ehangu ar eu gweithlu.*

*Welcomes the National Insurance Contributions Bill, which will mean that from April 2014 every charity and business will be entitled to a £2,000 Employment Allowance, helping over 35,000 businesses in Wales to hire their first employee or expand their workforce.*

*Gwelliant 4—Aled Roberts*

*Amendment 4—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn croesawu'r Bil Pensiynau, a fydd yn cyflwyno pensiwn y wladwriaeth un haen, a fydd yn golygu newid sylweddol ac angenrheidiol a fydd yn gymorth i bobl gynilo ar gyfer eu hymddeoliad.*

*Welcomes the Pensions Bill, which will introduce a single tier state pension, bringing significant and much needed reform that will support people to save for retirement.*

*Gwelliant 5—Aled Roberts*

*Amendment 5—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn croesawu'r Bil Dadreoleiddio, a fydd yn help i leihau'r baich rheoleiddio diangen a gormodol ar fusnesau, sefydliadau ac unigolion, i helpu twf ac arbed arian ar gyfer y trethdalwr.*

*Welcomes the Deregulation Bill, which will help reduce the burden of excessive and unnecessary regulation on businesses, organisations and individuals, to help growth and save money for the taxpayer.*

*Gwelliant 6—Aled Roberts*

*Amendment 6—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn croesawu'r Bil Hawliau Defnyddiwr drafft, a fydd yn symleiddio ac yn atgyfnerthu hawliau craidd y defnyddiwr, ac yn sicrhau bod gan ddefnyddwyr hawliau cliriach yn ôl y gyfraith a bod busnesau yn trin eu cwsmeriaid yn deg.*

*Welcomes the Draft Consumer Rights Bill, which will simplify and consolidate core consumer rights, ensuring that consumers have clearer rights in law and businesses treat their customers fairly.*

*Gwelliant 7—Aled Roberts*

*Amendment 7—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn croesawu'r Bil Gofal, a fydd yn diwygio cyllid gofal a chymorth yn Lloegr a fydd yn sicrhau bod pobl yn cael eu diogelu rhag costau uchel eu gofal cymdeithasol, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i amlinellu'r prif egwyddorion a fydd yn sail i system ariannu gofal newydd yng Nghymru.*

*Welcomes the Care Bill, which will reform care and support funding in England ensuring that people are protected from the high costs of their social care, and calls on the Welsh Government to outline the key principles that will underpin a new care funding system in Wales.*

15:50

## Kirsty Williams Bywgraffiad Biography

I move amendments 2, 3, 4, 5, 6 and 7 in the name of Aled Roberts on behalf of the Welsh Liberal Democrat group.

Cynigiaf welliannau 2, 3, 4, 5, 6 a 7 yn enw Aled Roberts ar ran grŵp Democratiaid Rhyddfrydol Cymru.

I join the Minister in welcoming the Secretary of State to the Chamber today. The Queen's Speech includes many of the long-term reforms that my party has campaigned for. Obviously, it is not a Liberal Democrat Queen's Speech, and there are many more Bills that I would have liked to have seen in it. However, if the Conservatives had formed a minority Government back in 2010, we would not be here today talking about Silk, with its possibilities of devolving taxation powers and borrowing powers to the National Assembly for Wales—powers that I believe will create a stronger Welsh economy and more accountability in the Welsh Government. If the Conservatives had won a majority in Government in 2010, I very much doubt that the policies outlined in this year's Queen Speech that will make our society a fairer place would have been high on their agenda. We only need to look at the Marriage (Same Sex Couples) Bill this week in the House of Commons to prove the point.

Ymunaf â'r Gweinidog i groesawu'r Ysgrifennydd Gwladol i'r Siambr heddiw. Mae Araith y Frenhines yn cynnwys llawer o'r diwygiadau hirdymor y mae fy mhlaid wedi ymgyrchu drostynt. Yn amlwg, nid Araith y Frenhines gan y Democratiaid Rhyddfrydol ydyw, ac mae llawer mwy o Filiau yr hoffwn fod wedi gweld ynddi. Fodd bynnag, pe bai'r Ceidwadwyr wedi ffurfio Llywodraeth leiafrifol yn ôl yn 2010, ni fyddem yma heddiw yn trafod Silk, gyda'i bosibiliadau o ddatganoli pwerau trethu a phwerau benthyca i Gynulliad Cenedlaethol Cymru—pwerau a fydd yn creu economi gryfach yng Nghymru a mwy o atebolrwydd yn Llywodraeth Cymru, yn fy marn i. Pe bai'r Ceidwadwyr wedi ennill mwyafrif yn 2010, rwy'n amau'n fawr a fyddai'r polisïau a amlinellwyd yn Araith y Frenhines eleni a fydd yn gwneud ein cymdeithas yn lle tecach wedi bod yn uchel ar eu hagenda. Dim ond edrych ar y Bil Priodas (Cyplau o'r un Rhyw) yr wythnos hon yn Nhŷ'r Cyffredin sydd angen inni ei wneud er mwyn profi'r pwynt.

Moving specifically to the contents of this year's Queen Speech, I welcome the introduction of a draft Wales Bill, which I believe is a significant step forward for this Assembly, and which will bring a number of changes to the way in which the Chamber is elected. It will move the Assembly from four to five-year fixed terms, ending the likelihood of an Assembly election coinciding with a parliamentary election, something that I am sure that we can all agree is a positive move. It will also ensure that Assembly Members cannot also be Members of the House of Commons at the same time, so that they can devote their time to a single legislature. I am also pleased that the draft Bill will end what I regard as the unfair ban on dual candidacy.

Gan symud yn benodol at gynnwys Araith y Frenhines eleni, croesawaf Fil drafft i Gymru, sy'n gam pwysig ymlaen i'r Cynulliad hwn, yn fy marn i, ac a fydd yn arwain at nifer o newidiadau i'r ffordd yr etholir y Siambr. Bydd y Cynulliad yn symud o dymhorau sefydlog o bedair mlynedd i rai pum mlynedd o ganlyniad iddo, fydd yn ei gwneud yn llai tebygol y bydd un o etholiadau'r Cynulliad yn cyd-daro ag etholiad seneddol, rhywbeth y gallwn i gyd gytuno ei fod yn gam cadarnhaol, mae'n siŵr gennyf. Bydd hefyd yn sicrhau na all Aelodau'r Cynulliad fod yn Aelodau o Dŷ'r Cyffredin ar yr un pryd, fel y gallant ymroi i un ddeddfwrfa yn unig. Rwyf hefyd yn falch o nodi y bydd y Bil drafft yn codi'r gwaharddiad annheg, yn fy marn i, ar ymgeisyddiaeth ddeuol.

However, perhaps even more importantly, the draft Wales Bill can also act as a platform for the Treasury to implement any recommendations of the Silk commission, once the UK Government has considered its response to those recommendations. Danny Alexander, my colleague in the Treasury is working tirelessly with Jane Hutt, the Minister for Finance here, on giving Wales tax and borrowing powers. Just last month here in Cardiff, he said that because of the consensus over Silk and borrowing powers that had been formed among the political parties of the Chamber, it would now be his job to ensure that that happens in the UK Government. The Deputy Prime Minister is also very keen to see Silk move forward. I only hope that there will not be much resistance in the UK Cabinet to undermine the work of that cross-party commission and the settled will of the Chamber.

Fodd bynnag, efallai hyd yn oed yn bwysicach na hynny, gall y Bil Cymru drafft hefyd fod yn llwyfan i'r Trysorlys weithredu ar unrhyw argymhellion gan gomisiwn Silk, unwaith y bydd Llywodraeth y DU wedi ystyried ei hymateb i'r argymhellion hynny. Mae Danny Alexander, fy nghyd-Aelod yn y Trysorlys yn gweithio'n ddiflino gyda Jane Hutt, y Gweinidog Cyllid yma, ar roi pwerau trethu a benthyca i Gymru. Ddim ond y mis diwethaf yma yng Nghaerdydd, dywedodd, yn sgil y consensws ynglŷn â Silk a phwerau benthyca a welwyd ymhlith y pleidiau gwleidyddol yn y Siambr, mai ei gyfrifoldeb bellach oedd sicrhau bod hynny'n digwydd yn Llywodraeth y DU. Mae'r Dirprwy Brif Weinidog hefyd yn awyddus iawn i weld Silk yn symud yn ei flaen. Gobeithio'n wir na fydd llawer o wrthwynebiad yng Nghabinet y DU i danseilio gwaith y comisiwn trawsbleidiol hwnnw ac ewyllys ddatganedig y Siambr.

The Welsh Liberal Democrats' vision for devolution has always included ensuring that the National Assembly has the best range of powers available to improve the lives of the people of Wales. The idea that the National Assembly can make laws and spend money but cannot control aspects of taxation and borrowing money is an anomaly. We need those powers, not just for power's sake, but for what they can allow us to do on behalf of the people of Wales. We can use those borrowing powers to invest in vital infrastructure to make Wales a stronger economy. We can use those tax-raising powers to ensure that we have policy initiatives that make a real difference to the lives of our constituents and inject more accountability to the Welsh Government. Ultimately, we need a fair funding settlement to ensure that we have a funding regime that reflects the needs of our nation.

Mae gweledigaeth Democratiaid Rhyddfrydol Cymru ar gyfer datganoli bob amser wedi cynnwys sicrhau bod gan y Cynulliad Cenedlaethol yr ystod orau o bwerau sydd ar gael i wella bywydau pobl Cymru. Mae'r syniad y gall y Cynulliad Cenedlaethol ddeddfu a gwario arian, ond na all reoli agweddau ar drethu a benthyca arian yn anghyson. Mae angen y pwerau hynny arnom, nid dim ond er mwyn cael y pŵer, ond oherwydd yr hyn y byddant yn ein galluogi i'w wneud ar ran pobl Cymru. Gallwn ddefnyddio'r pwerau benthyca hynny i fuddsoddi mewn seilwaith hanfodol er mwyn gwneud Cymru yn economi gryfach. Gallwn ddefnyddio'r pwerau codi trethi hynny er mwyn sicrhau bod gennym fentrau polisi sy'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau ein hetholwyr ac yn sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn fwy atebol. Yn y pen draw, mae angen setliad ariannu teg arnom er mwyn sicrhau bod gennym drefn ariannu sy'n adlewyrchu anghenion ein gwlad.

I am very pleased that the Queen's Speech contains a number of other provisions that I believe will make a difference to the lives of our constituents in Wales, helping to create a fairer society. The draft consumer rights Bill will ensure that businesses treat their customers fairly. The Anti-social Behaviour, Crime and Policing Bill will introduce wide-ranging reforms, replacing the existing system of anti-social behaviour orders and an Offender Rehabilitation Bill will help tackle persistent reoffending and break the cycle of crime.

Rwy'n falch iawn bod Araith y Frenhines yn cynnwys nifer o ddarpariaethau eraill a fydd yn gwneud gwahaniaeth, yn fy marn i, i fywydau ein hetholwyr yng Nghymru, gan helpu i greu cymdeithas decach. Bydd y Bil hawliau defnyddwyr drafft yn sicrhau bod busnesau yn trin eu cwsmeriaid yn deg. Bydd y Bil Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona yn cyflwyno diwygiadau eang eu cwmpas, gan ddisodli'r system bresennol o orchmynion ymddygiad gwrthgymdeithasol a bydd Bil Adsefydlu Troseddwyr yn helpu i fynd i'r afael ag aildroseddu mynych a thorri'r cylch o droseddu.

Another way in which I believe the Queen's Speech will deliver a fairer society is by the introduction of a Pensions Bill, which will see the delivery of a single-tier pension in 2016, ending the confusing system that we have and building upon the triple-lock guarantee already implemented by the coalition Government.

Ffordd arall y bydd Araith y Frenhines yn sicrhau cymdeithas decach, fe gredaf, yw drwy gyflwyno Bil Pensiynau, a fydd yn cyflwyno pensiwn un haen yn 2016, gan roi terfyn ar y system ddryslyd sydd gennym ac adeiladu ar y warant driphlyg a weithredwyd gan y Llywodraeth glymblaid eisoes.

Another important and fair Queen's Speech Bill, spearheaded by my colleagues in the Liberal Democrats, is the Care Bill, which will bring historic reform that gives people in England certainty and peace of mind over the cost of old age and will end the unfairness and fear caused by unlimited care costs. For 13 years, Labour in Westminster kicked that can down the road, but never achieved any meaningful progress. The Liberal Democrats have fought hard to ensure that this does not get kicked into the long grass once again. Just three years after the coalition entered office, we have commissioned the Dilnot report, accepted its principles and outlined how these will be implemented and paid for. This is about fairness. None of us knows whether we will be the one person in 10 who is hit with catastrophic costs of long-term care. The cap will protect everyone against that risk. What we need now is the fairness for people in Wales. As Graeme Francis of Age Cymru recently said:

Bill pwysig a theg arall sydd yn Araith y Frenhines, a hyrwyddwyd gan fy nghyd-Aelodau yn y Democratiaid Rhyddfrydol, yw'r Bil Gofal, a fydd yn cyflwyno diwygiadau hanesyddol sy'n rhoi sicrwydd a thawelwch meddwl i bobl yn Lloegr ynghylch cost henaint ac a fydd yn rhoi terfyn ar yr annhegwch a'r ofn a achosir gan gostau gofal diderfyn. Am 13 mlynedd, gwnaeth Llafur yn San Steffan ymrafael â hyn, ond ni lwyddodd fyth i wneud unrhyw gynnydd ystyrlon. Mae'r Democratiaid Rhyddfrydol wedi brwydro'n galed i sicrhau nad oes oedi unwaith eto cyn gweithredu ar hyn. Dim ond tair blynedd ar ôl i'r glymblaid ddod i rym, rydym wedi comisiynu adroddiad Dilnot, wedi derbyn ei egwyddorion ac wedi amlinellu sut y bydd y rhain yn cael eu gweithredu a sut y bwriedir talu amdanynt. Mae a wnelo hyn â thegwch. Nid oes yr un ohonom yn gwybod a fyddwn ymhlith yr un person o bob 10 sy'n wynebu costau enfawr gofal hirdymor. Bydd y cap yn diogelu pawb rhag y risg honno. Yr hyn sydd ei angen arnom yn awr yw tegwch i bobl yng Nghymru. Fel y dywedodd Graeme Francis o Age Cymru yn ddiweddar:

'The legislation announced today in the Queen's Speech—if mirrored in Wales, has the potential to transform our crumbling, unfair social care system for current and future generations of older people.'

Gall y ddeddfwriaeth a gyhoeddwyd heddiw yn Araith y Frenhines—os caiff ei hefelychu yng Nghymru, drawsnewid ein system gofal cymdeithasol fregus ac annheg ar gyfer cenedlaethau o bobl hŷn yn awr ac yn y dyfodol.

Instead, we have a social services Bill with no idea to whom it will apply or how much it will cost, and a social care funding system that will still see older people having to sell their homes to pay for care. We need clarity from the Deputy Minister here in Wales on the key principles that will underpin a new care funding system in Wales. I urge the Deputy Minister to look over the border at the action being taken by the Westminster coalition to modernise more than 60 years of fragmented care and support law.

Yn lle hynny, mae gennym Fil gwasanaethau cymdeithasol heb unrhyw syniad ynghylch i bwy y bydd yn gymwys na faint y bydd yn ei gostio, a system ariannu gofal cymdeithasol a fydd yn dal i olygu y bydd yn rhaid i bobl hŷn werthu eu cartrefi i dalu am ofal. Mae angen inni gael eglurder gan y Dirprwy Weinidog yma yng Nghymru ynglŷn â'r egwyddorion allweddol a fydd yn sail i system ariannu gofal newydd yng Nghymru. Anogaf y Dirprwy Weinidog i edrych dros y ffin ar y camau sy'n cael eu cymryd gan y glymblaid yn San Steffan i foderneiddio mwy na 60 mlynedd o gyfraith gofal a chymorth dameidiog.

As well as creating a fairer society, the Bills included in the Queen's Speech will help to create a stronger economy. On top of the electrification of the Great Western main line and other capital infrastrucutre projects that the UK Governemnt has already comitted to Wales, I am pleased that the Queen's Speech will introduce a national insurance contributions Bill, which will support over 35,000 business in Wales to hire their first employees or to expand their workforce. In these difficult times, it is vital that we help small business to hire more people and get the economy moving. In Wales, small businesses represent a higher proportion of private sector employment than in any other part of the UK, so the impact of that Bill on those businesses is particularly important in Wales. Giving our small businesses more help with national insurance contributions will cut just one of the barriers that prevent them from taking on new staff, creating jobs for people across our country. I look forward to working with these businesses to ensure that they can get the most out of this excellent announcement. One of the many complaints that I and my colleagues hear from small and medium-sized enterprises is that red tape and bureaucracy is stifling their attempts to grow their business. That is why I am pleased that the UK coalition is determined to reduce the burden of red tape facing businesses through its deregulation Bill.

Yn ogystal â chreu cymdeithas decach, bydd y Biliau a gynhwysir yn Araith y Frenhines yn helpu i greu economi gryfach. Yn ogystal â thrydaneiddio prif linell y Great Western a phrosiectau seilwaith cyfalaf eraill y mae Llywodraeth y DU eisoes wedi ymrwymo iddynt yng Nghymru, rwy'n falch y bydd Araith y Frenhines yn cyflwyno Bil cyfraniadau yswiriant gwladol, a fydd yn helpu dros 35,000 o fusnesau yng Nghymru i gyflogi eu gweithwyr cyntaf neu i ehangu eu gweithlu. Yn y cyfnod anodd hwn, mae'n hanfodol ein bod yn helpu busnesau bach i gyflogi mwy o bobl a rhoi hwb i'r economi. Yng Nghymru, mae busnesau bach yn cyfrif am gyfran uwch o'r gyflogaeth yn y sector preifat nag mewn unrhyw ran arall o'r DU, felly mae effaith y Bil hwnnw ar y busnesau hynny yn arbennig o bwysig yng Nghymru. Bydd mwy o gymorth i'n busnesau bach gyda chyfraniadau yswiriant gwladol yn dileu un o'r rhwystrau sy'n eu hatal rhag cyflogi staff newydd, gan greu swyddi i bobl ledled ein gwlad. Edrychaf ymlaen at weithio gyda'r busnesau hyn er mwyn sicrhau y gallant fanteisio i'r eithaf ar y cyhoeddiad rhagorol hwn. Un o'r cwynion lu yr wyf fi a'm cyd-Aelodau yn eu clywed gan fusnesau bach a chanolig yw bod biwrocratiaeth yn llesteirio eu hymdrechion i dyfu eu busnes. Dyna pam fy mod yn falch bod clymblaid y DU yn benderfynol o leihau'r baich o fiwrocratiaeth sy'n wynebu busnesau drwy ei Bil ar ddadreoleiddio.

The key themes of this Queen's Speech, I believe, are growth, deficit reduction, social reform and fairness. I am proud that my colleagues in the Liberal Democrats in Westminster are playing their part in delivering it.

Themâu allweddol Araith y Frenhines eleni, yn fy marn i, yw twf, lleihau'r diffyg, diwygio cymdeithasol a thegwch. Rwy'n falch bod fy nghyd-Aelodau yn y Democratiaid Rhyddfrydol yn San Steffan yn chwarae eu rhan i gyflwyno hynny.

*Gwelliant 8—William Graham*

*Amendment 3—William Graham*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn croesawu ymrwymiad parhaus Llywodraeth y DU, fel y'i hamlinellwyd yn ei rhaglen ddeddfwriaethol, i adeiladu economi lle y bydd pobl sy'n gweithio'n galed yn cael eu gwobrwyo'n briodol.*

*Welcomes the UK Government's continued commitment, as outlined in the UK Government's legislative programme, to building an economy where people who work hard are properly rewarded.*

*Gwelliant 9—William Graham*

*Amendment 9—William Graham*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth y DU i'r Bil Cymru drafft.*

*Welcomes the UK Government commitment to the Draft Wales Bill.*

*Gwelliant 10—William Graham*

*Amendment 10—William Graham*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn cydnabod ymrwymiad Llywodraeth y DU i Fil Gofal ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno cynigion tebyg er mwyn mynd i'r afael â chostau gofal yng Nghymru.*

*Acknowledges the UK Government commitment to a Care Bill and calls on the Welsh Government to bring forward similar proposals to ensure the cost of care in Wales is addressed.*

15:59

## Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography

I move amendments 8, 9 and 10 in the name of William Graham.

Cynigiaf welliannau 8, 9 a 10 yn enw William Graham.

I also extend a very warm welcome to the Secretary of State on his first visit to the Assembly—the first of many visits, I hope. I, unlike the leader of the separatist party, do not believe that the Secretary of State has no role in Wales. I believe that it is an important link between Westminster and strengthening the union that so benefits Wales. As can be seen by this Queen's Speech and previous Queen's Speeches, the benefit of that union is to strengthen the economy and services in Wales in the devolved era that we live in today. The measures that the UK Government has taken since 2010 to strengthen that devolved settlement are to its credit, with the establishment of the Silk commission and the investment in electrification, which is the biggest inward investment that has been made by any Government for over 100 years. I will gladly take the intervention.

Hoffwn innau hefyd estyn croeso cynnes iawn i'r Ysgrifennydd Gwladol ar ei ymweliad cyntaf â'r Cynulliad—y cyntaf o sawl ymweliad, gobeithio. Yn wahanol i arweinydd y blaid ymwahanol, credaf fod gan yr Ysgrifennydd Gwladol rôl yng Nghymru. Credaf ei bod yn ddolen gyswllt bwysig rhwng San Steffan a chryfhau'r undeb sy'n rhoi cymaint i Gymru. Fel y gellir gweld yn Araith y Frenhines eleni a'r Areithiau blaenorol y budd a gynigir gan yr undeb hwnnw yw cryfhau economi a gwasanaethau yng Nghymru yn yr oes ddatganoledig sydd ohoni heddiw. Dylid canmol Llywodraeth y DU am y camau y mae wedi'u cymryd ers 2010 i gryfhau'r setliad datganoledig, drwy sefydlu comisiwn Silk a buddsoddi mewn trydaneiddio, sef y mewnfuddsoddiad mwyaf a wnaed gan unrhyw Lywodraeth ers dros 100 mlynedd. Byddaf yn falch o dderbyn yr ymyriad.

16:00

## Simon Thomas Bywgraffiad Biography

I am grateful to the leader of the Conservatives for taking an intervention. If he is so keen to not dance to the tune of the separatists, as the Secretary of State put it, why is his party so busy dancing to the tune of the English UKIP separatists at the moment?

Rwy'n ddiolchgar i arweinydd y Ceidwadwyr am dderbyn ymyriad. Os yw mor awyddus i beidio â gwrando ar yr ymwahanwyr, fel y dywedodd yr Ysgrifennydd Gwladol, pam bod ei blaid mor awyddus i wrando ar ymwahanwyr Seisnig UKIP ar hyn o bryd?

16:00

## Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography

That is probably one of the worst questions that will be asked today—[Interruption.] Ultimately, what the coalition Government is delivering in Westminster is growth, stability and, above all, security for the people of this country. If we look at what has been achieved since 2010, we see that 24 million people across the UK have enjoyed a tax cut, 1.1 million of those people are here in Wales and 130,000 of them have been taken out of paying tax altogether. Across the United Kingdom, 1.2 million new jobs have been created, 35,000 of which are in Wales. We have also had a third of the deficit reduced, we have enjoyed record rates of low interest rates, because the markets have confidence in the financial capability of the coalition Government, and, above all, we are making benefits sustainable and work pay. That is something that has been neglected by successive Governments for generation after generation.

Dyna un o'r cwestiynau gwaethaf a fydd yn cael eu gofyn heddiw, fwy na thebyg—[Torri ar draws.] Yn y pen draw, yr hyn y mae'r Llywodraeth glymblaid yn ei gyflawni yn San Steffan yw twf, sefydlogrwydd ac, yn anad dim, sicrwydd i bobl y wlad hon. Os edrychwn ar yr hyn sydd wedi'i gyflawni ers 2010, gwelwn fod 24 miliwn o bobl ledled y DU wedi cael gostyngiad treth, gydag 1.1 miliwn o'r bobl hynny yma yng Nghymru ac ni fydd 130,000 ohonynt yn gorfod talu unrhyw dreth mwyach. Ledled y Deyrnas Unedig, mae 1.2 miliwn o swyddi newydd wedi cael eu creu, 35,000 ohonynt yng Nghymru. Mae'r diffyg hefyd wedi cael ei leihau o draean, rydym wedi gweld y cyfraddau llog isaf erioed, am fod y marchnadoedd yn ffyddiog yng ngallu ariannol y Llywodraeth glymblaid, ac, yn anad dim, rydym yn sicrhau bod budd-daliadau yn gynaliadwy a bod gwaith yn talu ei ffordd. Mae hynny'n rhywbeth sydd wedi cael ei esgeuluso gan Lywodraethau olynol am genhedlaeth ar ôl cenhedlaeth.

One of the Bills that I am pleased to see in this speech is the Pensions Bill, because this coalition Government in Westminster has a positive record when it comes to pensions, with the record increases that it has delivered year on year, as compared with the awful record of the previous Labour Government. Many of us can remember the 75p a week increase that Gordon Brown delivered to pensioners across the country.

Un o'r Biliau yr wyf yn falch o'i weld yn yr araith hon yw'r Bil Pensiynau, am fod gan y Llywodraeth glymblaid hon yn San Steffan record gadarnhaol o ran pensiynau, gyda'r codiadau mwyaf erioed y mae wedi'u rhoi flwyddyn ar ôl blwyddyn, o gymharu â record ofnadwy'r Llywodraeth Lafur flaenorol. Gall llawer ohonom gofio'r cynnydd o 75c yr wythnos a roddwyd gan Gordon Brown i bensiynwyr ledled y wlad.

We must also remember that there has been a 10% reduction in crime across the United Kingdom, despite the rhetoric from the Government benches here. I will take the intervention from the Member.

Rhaid inni gofio hefyd am y gostyngiad o 10% mewn troseddau ledled y Deyrnas Unedig, er gwaethaf y rhethreg gan feinciau'r Llywodraeth yma. Derbyniaf yr ymyriad gan yr Aelod.

16:02

## Joyce Watson [Bywgraffiad] [Biography]

I would like you to answer whether you are proud of the fact that the first cut that your Government made was to the winter fuel allowance for the over-80s.

Hoffwn ichi ateb a ydych yn falch o'r ffaith mai'r toriad cyntaf a wnaeth eich Llywodraeth oedd torri'r lwfans tanwydd gaeaf i bobl dros 80 oed.

16:02

## Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad] [Biography]

What I am proud of is that our Government has delivered financial capabilities for this country, whereas if it had taken the road that Gordon Brown had left behind, it would have dramatically devastated the welfare state, devastated the economy and increased the deficit that this country would have had. Interest rates would have rocketed and house repossessions would have gone through the roof. That is the recipe that we would have had if Gordon Brown had won the general election in 2010.

Yr hyn yr wyf yn falch ohono yw bod ein Llywodraeth wedi sicrhau galluoedd ariannol i'r wlad hon, ond pe bai wedi dilyn y llwybr yr oedd Gordon Brown wedi'i adael ar ei ôl, byddai wedi difetha'r wladwriaeth les, wedi difetha'r economi ac wedi cynyddu'r diffyg a fyddai wedi bod gan y wlad hon. Byddai cyfraddau llog wedi cynyddu'n aruthrol a byddai nifer y tai a ailfeddiannwyd wedi cynyddu'n ddirfawr. Dyna'r hyn y byddem wedi ei weld pe bai Gordon Brown wedi ennill yr etholiad cyffredinol yn 2010.

Another Bill that shows the critical difference between the coalition Government in Westminster and the recipe of the Labour Party in 2010 is the national insurance contributions Bill. Many of us will remember the increases that the Labour Party wanted to drive through in national insurance. This Bill will deliver a cut in national insurance contributions. It will take at least 30% of businesses out of the position of having to worry about national insurance and, ultimately, it will deliver an environment that will create and sustain jobs. Surely anyone who has the economy at heart will welcome the introduction of such a Bill in this Queen's Speech.

Bil arall sy'n dangos y gwahaniaeth hollbwysig rhwng y Llywodraeth glymblaid yn San Steffan a'r Blaid Lafur yn 2010 yw'r Bil cyfraniadau yswiriant gwladol. Bydd llawer ohonom yn cofio'r cynnydd yr oedd y Blaid Lafur yn awyddus i'w gyflwyno mewn yswiriant gwladol. Bydd y Bil hwn yn sicrhau toriad mewn cyfraniadau yswiriant gwladol. Bydd yn golygu na fydd o leiaf 30% o fusnesau yn gorfod poeni am yswiriant gwladol mwyach ac, yn y pen draw, bydd yn arwain at amgylchedd a fydd yn creu ac yn cynnal swyddi. Oni fyddai unrhyw un sy'n poeni am les yr economi yn croesawu cyflwyno Bil o'r fath yn Araith y Frenhines?

It is important to recognise that the coalition Government since 2010 has had a full legislative programme. What was set out in the first Queen's Speech in 2010 lasted some two years, the previous Queen's Speech in 2012 had 20 Bills, and this Queen's Speech presents 19 Bills for consideration by Parliament. Many of the Bills have cross-border significance. Other speakers have touched today on the Care Bill, which will come before the Westminster Parliament. I implore the Welsh Government to bring forward its own proposals on this challenging issue. I believe or I hope that there can be cross-party consensus on this. There has been an inability in Westminster, on some issues, to reach cross-party consensus, but we have all had examples in our postbags of the challenges that people face of house repossessions and the huge increase that care costs place on families. With an ageing population and, in particular, with today's medical interventions, people can live more able and fulfilling lives despite many constraining health issues that they might be presented with.

Mae'n bwysig cydnabod bod y Llywodraeth glymblaid ers 2010 wedi cyflwyno rhaglen ddeddfwriaethol lawn. Gwnaeth yr hyn a amlinellwyd yn Araith gyntaf y Frenhines yn 2010 bara tua dwy flynedd, roedd Araith y Frenhines y llynedd yn 2012 yn cynnwys 20 o Filiau, ac mae Araith y Frenhines eleni yn cyflwyno 19 o Filiau i'w hystyried gan y Senedd. Mae i lawer o'r Biliau arwyddocâd trawsffiniol. Mae siaradwyr eraill wedi cyfeirio heddiw at y Bil Gofal, a ddaw gerbron Senedd San Steffan. Erfyniaf ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno ei chynigion ei hun ar y mater heriol hwn. Credaf, neu gobeithiaf y gellir cael consensws trawsbleidiol ar hyn. Bu anallu yn San Steffan, ar rai materion, i gael consensws trawsbleidiol, ond rydym oll wedi cael enghreifftiau yn ein bagiau post o'r heriau a wynebir gan bobl oherwydd adfeddiannu tai a'r baich cynyddol enfawr y mae costau gofal yn ei roi ar deuluoedd. Gyda phoblogaeth sy'n heneiddio ac, yn arbennig, gydag ymyriadau meddygol heddiw, mae pobl yn gallu byw bywydau mwy egnïol a bodlon er gwaethaf y llu o broblemau iechyd cyfyngol sydd ganddynt o bosibl.

I also welcome the Local Audit and Accountability Bill that will be presented because this, in England, will show an example of what happens when serious increases in local precepts are put forward that would be made the subject of referenda. When I think of how the new police and crime commissioner for south Wales, for example, rammed through a 7% increase in the police precept, I believe that we can learn a lot from that ability to allow local people to have a say on such massive increases in their local taxation levels.

Croesawaf innau hefyd y Bil Archwilio ac Atebolrwydd Lleol a fydd yn cael ei gyflwyno oherwydd bydd hwn, yn Lloegr, yn enghraifft o'r hyn a fydd yn digwydd pan gynigir cynnydd mawr mewn praeseptau lleol a fyddai'n destun refferenda. Pan feddyliaf am y ffordd y mynnodd y comisiynydd heddlu a throseddu newydd dros Dde Cymru, er enghraifft, gael cynnydd o 7% ym mhraesept yr heddlu, credaf y gallwn ddysgu llawer oddi wrth y gallu hwnnw i roi cyfle i bobl leol leisio barn ar gynnydd enfawr o'r fath yn eu lefelau trethi lleol.

*Daeth Rhodri Glyn Thomas i'r Gadair am 4.05 p.m.*

*Rhodri Glyn Thomas took the Chair at 4.05 p.m.*

## Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I also welcome the water Bill that will be brought forward, and I hope that the Welsh Government will engage fully with the UK Government on that particular issue, as it is important that we have cross-border consensus in the progression of that Bill.

Croesawaf hefyd y Bil dŵr a fydd yn cael ei gyflwyno, a gobeithiaf y bydd Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu'n llawn â Llywodraeth y DU ar y mater penodol hwnnw, gan ei bod yn bwysig bod gennym gonsensws trawsffiniol yn ystod hynt y Bil hwnnw.

The other Bill that is worthy of serious consideration, and one that I commend to the Assembly today, is the immigration Bill, which has wide-ranging issues that can attach significant importance to new regulations that will welcome people who can contribute to our economy and make a real difference to the British way of life, but ultimately not have the porous borders that were seen under the previous Labour Government. That must be welcomed.

Bil arall sy'n deilwng o ystyriaeth ddifrifol, ac un a gymeradwyaf i'r Cynulliad heddiw, yw'r Bil mewnfudo, sy'n cynnwys materion eang eu cwmpas a all roi pwys sylweddol ar reoliadau newydd a fydd yn croesawu pobl a all gyfrannu i'n heconomi a gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'r ffordd Brydeinig o fyw, ond na fyddant yn y pen draw yn arwain at y ffiniau bylchog a welwyd o dan y Llywodraeth Lafur flaenorol. Rhaid i hynny gael ei groesawu.

I have touched on the Pensions Bill. The Offender Rehabilitation Bill is another Bill that has to be welcomed on the basis that this will try to tackle one of the perennial issues that the criminal justice system has faced time and again, which is the horrendously high reoffending rates that have occurred in many instances where people find themselves on the merry-go-round of the criminal justice system. That is turning your back on people and not offering solutions. I believe that that Bill will offer real solutions to the perennial problem of reoffending rates.

Rwyf wedi crybwyll y Bil Pensiynau. Mae'r Bil Adsefydlu Troseddwyr yn Fil arall y mae'n rhaid ei groesawu ar y sail y bydd yn ceisio mynd i'r afael ag un o'r materion sydd wedi codi dro ar ôl tro yn y system cyfiawnder troseddol, sef y cyfraddau aildroseddu ofnadwy o uchel sydd wedi digwydd mewn llawer o achosion lle na all pobl ddianc o'r system cyfiawnder troseddol. Mae hynny'n gyfystyr â throi eich cefn ar bobl a pheidio â chynnig atebion. Credaf y bydd y Bil yn cynnig atebion gwirioneddol i'r broblem barhaol o gyfraddau aildroseddu.

The deregulation Bill has to be welcomed on the basis that, time and again, business talks about the burden of red tape and bureaucracy. Ultimately, anything that will bring forward a Bill that can lighten the load on business, job creation and wealth creation has to be welcomed. It is worth noting that over £200 million-worth of bureaucracy has already been taken out of the system by the coalition Government since its formation in 2010.

Rhaid croesawu'r Bil dadreoleiddio ar y sail bod byd busnes dro ar ôl tro, yn sôn am faich biwrocratiaeth. Yn y pen draw, rhaid croesawu unrhyw beth a fydd yn cyflwyno Bil a all ysgafnhau'r baich ar fusnesau, creu swyddi a chreu cyfoeth. Mae'n werth nodi bod y Llywodraeth glymblaid eisoes wedi tynnu gwerth dros £200 miliwn o fiwrocratiaeth o'r system ers ei ffurfio yn 2010.

All of these measures in the Queen's Speech offer wide-ranging solutions to the real challenges that this country faces, on a UK level and particularly on a Wales level. Where consensus can be found, I hope that the Welsh Government and the UK Government will work constructively so that people on both sides of Offa's Dyke can benefit from these Bills being introduced. Ultimately, we can build on the strong financial footings that have been put down by the coalition Government that has reduced the deficit by a third, created 1.2 million jobs, and is ultimately developing a welfare system that will achieve a sustainable model of welfare while offering a genuine route back into work. I commend this Queen's Speech to the Chamber this afternoon.

Mae pob un o'r biliau hyn yn Araith y Frenhines yn cynnig atebion eang i'r heriau gwirioneddol a wyneba'r wlad hon, ar lefel y DU ac yn enwedig ar lefel Cymru. Lle gellir cael consensws, gobeithiaf y bydd Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn gweithio'n adeiladol fel y gall pobl ar y ddwy ochr i Glawdd Offa gael budd o'r Biliau hyn a gyflwynir. Yn y pen draw, gallwn adeiladu ar y sylfeini ariannol cadarn sydd wedi cael eu sefydlu gan y Llywodraeth glymblaid sydd wedi gostwng y diffyg o draean, wedi creu 1.2 miliwn o swyddi, ac a fydd yn y pen draw yn datblygu system les a fydd yn cyflawni model cynaliadwy o les tra'n cynnig llwybr gwirioneddol yn ôl i'r gwaith. Cymeradwyaf Araith y Frenhines i'r Siambr y prynhawn yma.

16:08

## Julie Morgan [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

This is a very thin speech marked by its omissions, particularly the plain packaging of cigarettes and minimum alcohol pricing. We know how important those public health measures would be for the people of Wales, and I think that it is a huge failure that these are not in this programme, particularly when you remember how the Prime Minister heralded the fact that he was going to attack the minimum pricing of alcohol.

Mae hon yn araith denau iawn a nodweddir gan yr hyn nas cynhwyswyd, yn enwedig y deunydd pecynnu plaen ar gyfer sigaréts a'r isafswm pris alcohol. Gwyddom pa mor bwysig fyddai'r mesurau hynny ym maes iechyd y cyhoedd i bobl Cymru, a chredaf ei fod yn fethiant enfawr nad yw'r rhain yn y rhaglen hon, yn enwedig o gofio'r ffordd y cyhoeddodd Prif Weinidog y DU ei fod yn bwriadu brwydro yn erbyn prisiau isaf alcohol.

It is marked by omissions, as it is marked by discord in the Conservative party over the omission of a Bill with a commitment to a referendum on Europe. We now have the amazing situation of a private Member's Bill drafted by the Government, which is being supported by the Conservatives as part of the Queen's Speech. It has been followed up by further discord since the Queen's Speech over equal marriage.

Fe'i nodweddir gan yr hyn nas cynhwyswyd, a chan yr anghytgord yn y blaid Geidwadol yn sgil hepgor Bil sy'n cynnwys ymrwymiad i gynnal refferendwm ar Ewrop. Rydym bellach yn wynebu sefyllfa anhygoel lle mae Bil Aelod preifat yn cael ei ddrafftio gan y Llywodraeth, a'i gefnogi gan y Ceidwadwyr fel rhan o Araith y Frenhines. Bu anghytgord pellach ers Araith y Frenhines ynglŷn â phriodas gyfartal.

The Secretary of State said that he wanted to help those who want to work and strive to get on. I cannot remember his exact words, but I think that those were the sentiments that he was trying to convey. I think that we would all agree with that. We all want to help those who work and strive to get on, because we all want to do the same, but what about those who cannot work and those who are struggling to get on in life? When the Secretary of State made his speech, did he consider the effect of his welfare reforms on those people? This Queen's Speech is taking place against a background of despair for many people in Wales. We all know from what we are seeing in our surgeries about the people who are in utter despair. There has been no reference by the Secretary of State to this background, against which he is giving the Queen's Speech.

Dywedodd yr Ysgrifennydd Gwladol ei fod am helpu'r rhai sy'n awyddus i weithio ac ymdrechu. Ni allaf gofio ei union eiriau, ond dyna'r hyn yr oedd yn ceisio ei gyfleu, fe gredaf. Credaf y byddem oll yn cytuno â hynny. Rydym oll yn awyddus i helpu'r rhai sy'n gweithio ac sy'n ymdrechu, oherwydd rydym oll am wneud yr un peth, ond beth am y rhai na allant weithio a'r rhai sy'n cael trafferth i ddod ymlaen mewn bywyd? Pan wnaeth yr Ysgrifennydd Gwladol ei araith, a ystyriodd effaith ei ddiwygiadau lles ar y bobl hynny? Cyflwynir Araith y Frenhines eleni yn erbyn cefndir o anobaith i lawer o bobl yng Nghymru. Gwyddom oll hynny o'r hyn yr ydym yn ei weld yn ein cymorthfeydd ynghylch y bobl sydd mewn anobaith llwyr. Ni fu unrhyw gyfeiriad gan yr Ysgrifennydd Gwladol i'r cefndir hwn, y mae'n rhoi Araith y Frenhines yn ei erbyn.

16:10 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Julie, could you please move your lectern back a bit? You are hitting your microphone with the lectern as you are making what I am sure are very important points.

Julie, a fyddech cystal â symud eich darllenfa yn ôl ychydig? Rydych yn taro'ch meicroffon â'r ddarllenfa wrthi ichi wneud yr hyn sy'n bwyntiau pwysig iawn, mae'n siŵr gennyf.

16:10 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

Is that better? I see that it is.

A yw hynny'n well? Gwelaf ei fod.

We are all having people coming through our surgeries who are having letters through their doors that bring them bad news all of the time, about having to move from places where they have lived for many years. Independent assessments, particularly by the Institute of Fiscal Studies, have said that the welfare reforms that this Government has brought in have hit women, children and families hardest. This is the background to the Queen's Speech, and I cannot see anything in the Queen's Speech that is going to help those people in despair whom we see daily.

Rydym oll yn gweld pobl yn dod i'n cymorthfeydd sy'n cael llythyrau drwy eu drysau sy'n rhoi newyddion drwg iddynt drwy'r amser, am orfod symud o gartrefi lle maent wedi byw am flynyddoedd lawer. Mae asesiadau annibynnol, yn enwedig gan y Sefydliad Astudiaethau Cyllid, wedi dweud mai ar fenywod, plant a theuluoedd y mae'r diwygiadau lles a gyflwynwyd gan y Llywodraeth hon wedi effeithio fwyaf. Dyna gefndir Araith y Frenhines, ac ni allaf weld dim yn Araith y Frenhines a fydd yn helpu'r bobl hynny mewn anobaith a welwn bob dydd.

I wanted to speak quickly about one of the Bills announced in the Queen's Speech, and that is the Anti-social Behaviour, Crime and Policing Bill. My interest in this arose from the fact that it is the vehicle through which the coalition Government has chosen to respond to demands for the reform of the law relating to dangerous and menacing dogs. I have been involved in this issue ever since the son of a constituent, Dilwar Ali, was attacked by a neighbour's dog. It was a terribly traumatic incident, and, since then, I have campaigned with him for a Welsh dogs law. I am aware that the Home Office claims primacy on all aspects of anti-social behaviour, even though animal health and welfare and the prevention of injury are devolved areas. I am also disappointed that, at this stage, there is no Welsh dogs Bill. However, I hope that it will be possible to work with Westminster to see what can be moved forward. I hope that the Westminster Government will devolve, via an enabling clause, the ability for Wales to have its own dogs Bill. I have no ideological objection to the Bill being done in Westminster, providing that it delivers exactly what we want in Wales. There was a very strong campaign in Wales to have a specific dogs Bill, which had the support of all of the animal welfare organisations in Wales, many people who were victims of dog attacks, the police and nearly all of the politicians in the Assembly. This is an opportunity where we can work with the Westminster Government to ensure that Wales eventually has the sort of Bill that we have campaigned for and that we want.

Hoffwn sôn ychydig am un o'r Biliau a gyhoeddwyd yn Araith y Frenhines, sef y Bil Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona. Rwy'n ymddiddori yn hwn gan mai drwy'r Bil hwn y mae'r Llywodraeth glymblaid wedi dewis ymateb i'r galwadau am ddiwygio'r gyfraith sy'n ymwneud â chŵn peryglus a bygythiol. Rwyf wedi bod yn ymwneud â'r mater hwn ers i gi cymydog ymosod ar fab i etholwr, Dilwar Ali. Roedd yn ddigwyddiad trawmatig ofnadwy, ac, ers hynny, rwyf wedi ymgyrchu gydag ef dros gyfraith cŵn i Gymru. Rwy'n ymwybodol bod y Swyddfa Gartref yn hawlio blaenoriaeth ar bob agwedd ar ymddygiad gwrthgymdeithasol, er bod iechyd a lles anifeiliaid ac atal anafiadau yn feysydd datganoledig. Rwyf hefyd yn siomedig nad oes Bil cŵn i Gymru ar hyn o bryd. Fodd bynnag, gobeithiaf y bydd modd gweithio gyda San Steffan i weld beth y gellir ei gyflwyno. Gobeithiaf y bydd Llywodraeth San Steffan yn datganoli, drwy gymal galluogi, y gallu i Gymru lunio ei Fil cŵn ei hun. Nid oes gennyf unrhyw wrthwynebiad ideolegol i'r penderfyniad i lunio'r Bil yn San Steffan, ar yr amod ei fod yn cyflawni yn union yr hyn yr ydym yn dymuno ei gyflwyno yng Nghymru. Bu ymgyrch gref iawn yng Nghymru i gyflwyno Bil cŵn penodol, sy'n cael cefnogaeth holl sefydliadau lles anifeiliaid yng Nghymru, llawer o bobl yr ymosowyd arnynt gan gŵn, yr heddlu a bron bob un o'r gwleidyddion yn y Cynulliad. Mae hwn yn gyfle lle y gallwn weithio gyda Llywodraeth San Steffan i sicrhau bod Cymru yn y pen draw yn cael y math o Fil yr ydym wedi ymgyrchu drosto ac yr ydym yn dymuno ei gael.

I know that the anti-social behaviour Bill also deals with many other issues that are devolved to Wales. I know that there is an issue relating to housing. Yesterday, the Welsh Government published very ambitious proposals for the reform of the law on renting homes in the White Paper 'Renting Homes—a better way for Wales'. These are excellent proposals, and I wonder how they will fit in with some of the proposals in the anti-social behaviour Bill. I would be interested in the Secretary of State's comments on that.

Gwn fod y Bil ymddygiad gwrthgymdeithasol hefyd yn ymdrin â llawer o faterion eraill sydd wedi'u datganoli i Gymru. Gwn fod mater yn codi o ran tai. Ddoe, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gynigion uchelgeisiol iawn ar gyfer diwygio'r gyfraith ar rentu cartrefi yn y Papur Gwyn 'Rhentu Cartrefi—ffordd well i Gymru'. Mae'r rhain yn gynigion ardderchog, ac roeddwn yn meddwl tybed sut y byddant yn cyd-fynd â rhai o'r cynigion yn y Bil ymddygiad gwrthgymdeithasol. Hoffwn glywed sylwadau'r Ysgrifennydd Gwladol am hynny.

16:13 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

This Queen's Speech reveals the ambition of the UK coalition Government to support hardworking people and to fix the appalling legacy and financial deficit that Labour left behind. Two parties came together in the national interest—a coalition of national interest—to fix the appalling legacy left by Labour. It is great to see the national insurance contributions Bill, which will be such a huge boost to the Welsh economy. It will introduce a new employment allowance from April 2014 that will be worth up to £2,000. Some 35,000 Welsh businesses will benefit from it by a total of £50 million—that is £50 million coming back to the Welsh economy, delivered by the coalition Government. Furthermore, 20,000 Welsh businesses will be taken out of the national insurance tax altogether. Welsh businesses with fewer than 10 employees will see their employer national insurance bill cut by 80%. It will mean that small businesses—which are what we mainly have in Wales—can hire one person for £22,000, or up to four people on the minimum wage, without paying any jobs tax. It is a huge opportunity for growth, to boost employment in Wales.

Mae Araith y Frenhines eleni yn dangos uchelgais Llywodraeth glymblaid y DU i gefnogi pobl sy'n gweithio'n galed ac i unioni'r sefyllfa ofnadwy a'r diffyg ariannol a adawyd gan Lafur. Daeth dwy blaid at ei gilydd er budd y wlad er mwyn unioni'r sefyllfa ofnadwy a adawyd gan Lafur. Mae'n braf gweld y Bil cyfraniadau yswiriant gwladol, a fydd yn hwb enfawr i economi Cymru. Bydd yn cyflwyno lwfans cyflogaeth newydd o fis Ebrill 2014 a fydd yn werth hyd at £2,000. Bydd tua 35,000 o fusnesau yng Nghymru yn cael budd gwerth cyfanswm o £50 miliwn ohono—sef £50 miliwn a fydd yn dod yn ôl i economi Cymru, a sicrheir gan y Llywodraeth glymblaid. At hynny, ni fydd 20,000 o fusnesau yng Nghymru yn gorfod talu unrhyw dreth yswiriant gwladol mwyach. Bydd busnesau yng Nghymru sydd â llai na 10 gweithiwr yn gweld bil yswiriant gwladol y cyflogwr yn gostwng 80%. Bydd yn golygu y gall busnesau bach—sef y prif fath o fusnes sydd gennym yng Nghymru—gyflogi person am £22,000 neu hyd at bedwar o bobl ar yr isafswm cyflog, heb dalu unrhyw dreth swyddi. Mae'n gyfle enfawr ar gyfer twf, er mwyn hybu cyflogaeth yng Nghymru.

16:15 **Joyce Watson** Bywgraffiad Biography

Thank you, Antoinette, for taking an intervention. Would you agree that another way of growing the small businesses that you have just outlined need help would be a reduction in the rate of VAT for repairs and maintenance down to 5%?

Diolch ichi, Antoinette, am dderbyn ymyriad. A fyddech yn cytuno mai ffordd arall o dyfu'r busnesau bach yr ydych newydd nodi bod angen cymorth arnynt fyddai gostwng y gyfradd TAW am waith atgyweirio a chynnal a chadw i 5%?

16:15 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

No, I do not.

Na fyddwn.

16:15 **Joyce Watson** Bywgraffiad Biography

Good; I have that on record.

O'r gorau; mae hynny wedi'i gofnodi gennyf.

16:15 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

We know that that would cost the UK economy a huge amount of money. I appreciate that Labour wanted a tax on jobs by increasing the cost of national insurance, and I also appreciate that Labour wants to borrow more in Westminster, but I think that, here in Wales, where we mainly have small businesses that need to grow, this sends out a massive signal that they can employ people, and do so confident in the fact that it will not cost them more in national insurance contributions. I think that that will be a huge boost to the economy of Wales. It demonstrates the commitment of the UK Government to growing the economy and to giving the private sector the freedom to create more jobs.

Gwyddom y byddai hynny'n costio llawer iawn o arian i economi'r DU. Sylweddolaf fod Llafur am roi treth ar swyddi drwy gynyddu cost yswiriant gwladol, a sylweddolaf hefyd fod Llafur am fenthyca mwy yn San Steffan, ond credaf, yma yng Nghymru, lle ceir busnesau bach yn bennaf, y mae angen iddynt dyfu, fod hyn yn anfon neges bwysig iawn y gallant gyflogi pobl, gan wybod na fydd yn rhaid iddynt dalu mwy mewn cyfraniadau yswiriant gwladol. Credaf y bydd hynny'n hwb mawr i economi Cymru. Mae'n dangos ymrwymiad Llywodraeth y DU i dyfu'r economi ac i roi rhyddid i'r sector preifat greu mwy o swyddi.

I would also like to comment on the Pensions Bill, which, as we have heard, will introduce the single-tier pension. That benefits most working people, and it puts the state pension on a sustainable, long-term footing for the future. However, in particular, it will benefit women. Having been self-employed in the past—

Hoffwn hefyd wneud sylwadau ar y Bil Pensiynau, sydd, fel y clywsom, yn cyflwyno'r pensiwn un haen. Mae hynny o fudd i'r rhan fwyaf o bobl sy'n gweithio, ac mae'n gosod pensiwn y wladwriaeth ar sail gynaliadwy, hirdymor ar gyfer y dyfodol. Fodd bynnag, yn benodol, bydd o fudd i fenywod. A minnau wedi bod yn hunangyflogedig yn y gorffennol—

16:17 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

16:17 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

I will just finish this point. It means a better state pension for the self-employed. As someone who paid national insurance contributions for many years as a self-employed worker, I am delighted to see that women who have been self-employed will now have measures in this Bill that will recognise the contribution that they have made.

Hoffwn orffen y pwynt hwn yn gyntaf. Mae'n golygu gwell pensiwn y wladwriaeth i'r hunangyflogedig. Fel rhywun a dalodd gyfraniadau yswiriant gwladol am nifer o flynyddoedd fel gweithwraig hunangyflogedig, rwyf wrth fy modd o weld y bydd y Bil hwn bellach yn cynnwys mesurau ar gyfer menywod sydd wedi bod yn hunangyflogedig a fydd yn cydnabod y cyfraniad a wnaed ganddynt.

16:17 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Thank you for allowing me to make an intervention. I have heard you and Andrew R.T. Davies talk about pensions, but do you realise that, potentially, the Bill could create the deregulation of pensions, so that businesses will not have to put in so much for their pensions, which would create another scenario like the one that Visteon pensioners are facing at the moment? Do you agree with that?

Diolch ichi am ganiatáu imi ymyrryd. Rwyf wedi eich clywed chi ac Andrew R.T. Davies yn sôn am bensiynau, ond a ydych yn sylweddoli y gallai'r Bil, o bosibl, arwain at ddadreoleiddio pensiynau, fel na fydd yn rhaid i fusnesau gyfrannu cymaint am eu pensiynau, a fyddai'n creu senario arall fel yr un y mae pensiynwyr Visteon yn eu hwynebu ar hyn o bryd? A ydych yn cytuno â hynny?

16:17 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

I do not agree with that. I know that there are plenty of opportunities to look at the provisions. I think that the ambition in the Bill is one that should be welcomed. It will mean more of a state pension for carers who have been low earners or who have had gaps in their employment, and it will mean more of a state pension for women. It is clear that the majority of people currently in the Welsh workforce will benefit under the single-tier reforms. I particularly want to emphasise the benefits for Welsh women who will have taken time out of work to raise a family or who are self-employed. This UK Government is addressing the inequality that women face under the current system of state pensions.

Ni chytunaf â hynny. Gwn fod digon o gyfleoedd i edrych ar y darpariaethau. Credaf fod yr uchelgais sydd yn y Bil yn un y dylid ei groesawu. Bydd yn golygu mwy o bensiwn gan y wladwriaeth i ofalwyr sydd wedi bod yn ennill cyflog isel neu sydd â bylchau yn eu cyflogaeth, a fydd yn golygu mwy o bensiwn gan y wladwriaeth i fenywod. Mae'n amlwg y bydd y rhan fwyaf o bobl sydd ar hyn o bryd yn y gweithlu yng Nghymru yn elwa o dan y diwygiadau un haen. Hoffwn bwysleisio'n arbennig y manteision i fenywod yng Nghymru a fydd wedi cymryd amser i ffwrdd o'r gwaith i fagu teulu neu sy'n hunangyflogedig. Mae Llywodraeth bresennol y DU yn mynd i'r afael â'r anghydraddoldeb a wyneba menywod o dan system bresennol pensiynau'r wladwriaeth.

The final thing is the Offender Rehabilitation Bill. The north Wales probation service has been piloting some of the schemes in this Bill, and I would like to pay tribute to the work that those people have done in contributing to the success and in highlighting the need for change. Reoffending rates have barely changed in a decade, and reoffending rates undermine public confidence in the criminal justice system. By extending supervision to at least 12 months, probation providers will have the ability to deal with the root causes of reoffending. Also, for sentences served in the community, there will be a greater freedom for probation providers to work in the most effective and innovative ways that are paid for by results. I think that all sections of Welsh communities stand to benefit from this Queen's Speech and I, too, commend it to the Assembly.

Y peth olaf yw'r Bil Ailsefydlu Troseddwyr. Mae'r gwasanaeth prawf yn y gogledd wedi bod yn treialu rhai o'r cynlluniau yn y Bil hwn, a hoffwn dalu teyrnged i'r gwaith a wnaed gan y bobl hynny wrth gyfrannu at y llwyddiant a thynnu sylw at yr angen am newid. Prin fod cyfraddau aildroseddu wedi newid mewn degawd, ac mae cyfraddau aildroseddu yn tanseilio hyder y cyhoedd yn y system cyfiawnder troseddol. Drwy ymestyn goruchwyliaeth am o leiaf 12 mis, bydd darparwyr prawf yn gallu ymdrin ag achosion sylfaenol aildroseddu. Hefyd, o ran dedfrydau yn y gymuned, bydd rhoi mwy o ryddid i ddarparwyr gwasanaeth prawf weithio yn y ffyrdd mwyaf effeithiol ac arloesol y telir amdanynt yn ôl canlyniadau. Credaf y bydd pob rhan o gymdeithas Cymru yn elwa ar Araith y Frenhines elen ac rwyf innau hefyd yn ei chymeradwyo i'r Cynulliad.

16:19 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Un sylw sydd gennyf ynglŷn â phresenoldeb yr Ysgrifennydd Gwladol yma heddiw. Yn y gorffennol, mae pob Ysgrifennydd Gwladol wedi cael gwrandawiad cwrtais gan y lle hwn. Beth bynnag fo'n barn ni ar Araith y Frenhines neu unrhyw Ysgrifennydd Gwladol, credaf y dylem gadw at yr arfer hwnnw, neu, wrth gwrs, ei ddileu yn gyfan gwbl.

I have one comment on the attendance of the Secretary of State here today. In the past, every Secretary of State has been given a courteous hearing by this place. Whatever our opinion about the Queen's Speech or any particular Secretary of State, I think that we should maintain that practice or cease holding this session at all.

Gan droi at yr araith, nid wyf ond am wneud dau sylw ynglŷn â dau o'r Biliau—un a oedd yn Araith y Frenhines ac un a ddylai fod ynddi ac a gynigiwyd gan Aelodau Seneddol Plaid Cymru. Yn gyntaf, trof at yr un nad oedd yn Araith y Frenhines, sef Bil tegwch economaidd a gynigiwyd fel gwelliant gan Aelodau Seneddol Plaid Cymru.

Turning to the speech, I want to comment on just two of the Bills—one that was contained within the Queen's Speech and one that should have been contained within it and that was proposed by Plaid Cymru Members of Parliament. First, I turn to the one that was not included in the Queen's Speech, namely an economic fairness Bill that was proposed as an amendment by Plaid Cymru Members of Parliament.

Mae'r Deyrnas Gyfunol, pa beth bynnag arall rydych yn meddwl amdani, yn wladwriaeth gwbl anghyfartal, gydag eithafion o dlodi a chyfoeth sydd gyda'r gwaethaf yng ngwledydd y gorllewin. Mae wedi datblygu felly ers diwedd y 1970au, o dan Lywodraethau y Torïaid a Llafur. Mae'n warth o beth bod GVA neu GDP mewn ardaloedd o Lundain a de-ddwyrain Lloegr 10 gwaith lefelau GDP rhai o gymoedd de Cymru. Mae'n werth edrych ar fap treth incwm y Deyrnas Unedig a gyhoeddwyd gan yr ONS yn ddiweddar i weld y sefyllfa drychinebus sydd ohoni. Pan rydych yn sôn am 'prosperity', fel y clywais yn araith arweinydd y Torïaid yma, nid yw wedi cyrraedd Cymru, neu rannau helaeth ohoni. Mewn gwirionedd, mae dyletswydd ar y wladwriaeth Brydeinig i sicrhau bod y ffyniant hwnnw yn cyrraedd pob rhan o'r wlad, fel sy'n digwydd mewn llawer iawn o wledydd llwyddiannus iawn, fel yr Almaen—er gwaethaf y problemau a oedd yn wynebu'r wladwriaeth honno wrth uno'r gorllewin a'r dwyrain—ac fel gwledydd Sgandinafia. Maent yn wledydd lwyddiannus ond nid oes ganddynt yr eithafion hyn o gyfoeth a thlodi fel sydd yma ym Mhrydain.

The UK, whatever else you think about it, is a totally inequitable state, with extremes of poverty and wealth among the worst in western nations. It has developed that way since the end of the 1970s, under both Labour and Conservative Governments. It is disgraceful that GVA or GDP in areas of London and the south-east are 10 times the level of GDP in some of the south Wales Valleys. It is worth while looking at the income tax map of the UK that was published by the ONS recently to see the truly disastrous state of affairs. When you talk about 'prosperity', as I heard mentioned in the speech given by the leader of the Conservatives here, that prosperity certainly has not reached Wales, or certainly large parts of Wales. There is a duty therefore on the British state to ensure that that prosperity reaches all parts, as is happening in many of the successful companies, such as Germany—despite the problems that were facing that state in reuniting east and west—and the Scandinavian nations. They are successful countries, but they do not have these extremes of wealth and poverty as you have here in Britain.

16:21

## Antoinette Sandbach Bywgraffiad Biography

I am grateful to the Member for taking an intervention. The difference is that Germany and the Scandinavian countries did what the UK did not do: they put aside money in good times to save for bad times. That is the difference. We had reckless spending, instead of saving up in the good times ready for the bad times.

Rwy'n ddiolchgar i'r Aelod am dderbyn ymyriad. Y gwahaniaeth yw i'r Almaen a gwledydd Sgandinafia wneud yr hyn na wnaeth DU: rhoesant arian o'r neilltu yn ystod yr amseroedd da ar gyfer yr amseroedd llwm. Dyna'r gwahaniaeth. Cawsom wariant di-hid, yn hytrach na chynilo yn ystod yr amseroedd da yn barod ar gyfer yr amseroedd llwm.

16:22

## Alun Ffred Jones Bywgraffiad Biography

Mae'n wir bod Norwy wedi rhoi arian olew o'r neilltu ond nid yw hynny'n wir am yr Almaen. Yr hyn y mae'r Almaen a gwledydd Sgandinafia wedi ei wneud yw cadw gweithgynhyrchu a chadw economi amrywiol nad oedd yn or-ddibynnol, fel un Prydain, ar y sector ariannol. Mae hynny wedi gwneud lles mawr i rai pobl yn Llundain a de-ddwyrain Lloegr ond nid yw'n gwneud llawer o ddim i rannau eraill o Brydain. Beth bynnag, dylai gwladwriaeth Prydain sicrhau bod cronfa fuddsoddi i gefnogi gwaith cronfeydd yr Undeb Ewropeaidd a dylai hefyd flaenoriaethu cynlluniau isadeiledd i'r ardaloedd tlotaf—nid Cymru yn unig, ond ardaloedd o Loegr hefyd.

It is true that Norway set aside some of its oil revenue, but that is not true of Germany. Germany and the Scandinavian countries have retained their manufacturing sectors and diverse economies that are not overly dependent, as is the British economy, on the financial sector. That has been of great benefit to some people in London and the south-east of England, but it does very little for other parts of Britain. The British state should therefore ensure that there is an investment fund to support the work of European Union funds and it should also prioritise infrastructure schemes for the poorest areas—not only in Wales, but areas of England too.

16:23

## Nick Ramsay Bywgraffiad Biography

Thanks for giving way. As you are well aware, Ffred, Wales receives more money from the south-east of England than it would make here if it was independent, so the financial sector in the south-east of England and London is pretty important to us in this place.

Diolch am ildio. Fel y gwyddoch yn iawn, Ffred, mae Cymru yn cael mwy o arian o dde-ddwyrain Lloegr nag y byddai'n ei wneud yma pe bai'n annibynnol, felly mae'r sector ariannol yn ne-ddwyrain Lloegr a Llundain yn eithaf pwysig inni yn y lle hwn.

16:23

## Alun Ffred Jones Bywgraffiad Biography

Mae ffigurau'r Trysorlys yn dangos mai'r ardal sy'n derbyn y mwyaf o fudd o arian cyhoeddus yw Llundain, fel y profwyd ar 'Newsnight' yn y cyfweliad enwog hwnnw rhwng Paxman ac Eurfyl ap Gwilym. Beth bynnag, yr hyn rydym yn ei ddweud yw y dylid cael Bil i sicrhau dosbarthiad cyfoeth teg o gwmpas gwladwriaeth Prydain, tra bod honno'n dal i fodoli.

Treasury figures demonstrate that the area that benefits most from public expenditure is London, as was proven on 'Newsnight' in that now infamous interview by Paxman of Eurfyl ap Gwilym. What we are saying is that there should be a Bill to ensure the equitable distribution of wealth around the British state, while it still exists.

Y Bil sydd yn yr araith yw'r Bil cyfraniadau yswiriant gwladol. Rydym ni, ym Mhlaid Cymru, yn ei groesawu. Hwn yw'r Bil sy'n rhoi gwyliau o dalu yswiriant gwladol i gwmnïau. Mae Bil tebyg wedi bod mewn bodolaeth ers 2010. Mae'r ffigurau diweddaraf yn awgrymu nad yw'r system mor llwyddiannus ag y dylai fod. O ran ffigurau Cymru ers 2010, os wyf yn eu deall yn iawn, dywedodd y Trysorlys y byddai'r Bil yn dod â budd i dros 27,000 o fusnesau, ond y ffigur a gafwyd yn gynharach oedd 35,000 o fusnesau. Mewn gwirionedd, dim ond 1,300 o fusnesau yng Nghymru sydd wedi elwa ar y cynllun hyd yma yn ystod y tair blynedd diwethaf. Felly, mae gan y Llywodraeth waith mawr i'w wneud i sicrhau bod llawer iawn yn fwy o fusnesau yng Nghymru yn elwa ar y Bil hwn, sydd â'r potensial i fod yn llesol iawn. Dyna pam rydym ni ym Mhlaid Cymru wedi galw am ehangu'r cynllun goddefiad ardrethi busnes hyd at werth trethiannol o £15,000. Byddai hynny'n sicrhau budd uniongyrchol i fusnesau ar lawr gwlad Cymru.

The Bill that is contained within the speech is the national insurance contributions Bill. We, in Plaid Cymru, welcome it. That Bill provides a holiday from national insurance contributions for companies. A similar Bill has been in existence since 2010. The most recent figures suggest that the system has not been as successful as it should have been. On the figures for Wales since 2010, if my understanding is correct, the Treasury said that the Bill would bring benefits to over 27,000 businesses, but the figure that was heard earlier was 35,000 businesses. In reality, only 1,300 businesses in Wales have actually benefited from the proposals to date over the past three years. So, there is huge work to be done by the Government to ensure that far more businesses in Wales benefit from this proposal, which certainly does have potential to be very beneficial. That is why we in Plaid Cymru have called for the rolling out of the business rate relief scheme up to a rateable value of £15,000. That would ensure direct benefits to businesses at grass roots in Wales.

16:25

## Peter Black Bywgraffiad Biography

As other speakers have done, I welcome in particular the Pensions Bill, which will benefit thousands of Welsh pensioners by introducing the single flat-rate pension. That will bring an end to the confusing and complex state pension system that we have inherited after 70 years of tinkering by successive Conservative and Labour Governments. The current two-tier system promotes inequality. The amount of state pension paid out to pensioners can differ by more than £200 a week, or £10,000 a year. The average woman retiring over the next decade will receive £40 less per week in basic state pension than a man, so this reform is particularly important.

Fel y gwnaeth siaradwyr eraill, croesawaf yn arbennig y Bil Pensiynau, a fydd o fudd i filoedd o bensiynwyr Cymru drwy gyflwyno un pensiwn cyfradd unffurf. Bydd hynny yn rhoi terfyn ar system pensiwn y wladwriaeth sy'n ddryslyd ac yn gymhleth a etifeddwyd gennym ar ôl 70 mlynedd o dincera gan Lywodraethau Ceidwadol a Llafur olynol. Mae'r system dwy haen bresennol yn hyrwyddo anghydraddoldeb. Gall faint o bensiwn y wladwriaeth a delir i bensiynwyr amrywio o fwy na £200 yr wythnos, neu £10,000 y flwyddyn. Bydd y ferch gyffredin sy'n ymddeol dros y degawd nesaf yn cael £40 yn llai yr wythnos mewn pensiwn sylfaenol y wladwriaeth na dyn, felly mae'r diwygiad hwn yn arbennig o bwysig.

In 2011, the relevant Minister, Steve Webb, said:

Yn 2011, dywedodd y Gweinidog perthnasol, Steve Webb:

'It's clear that the pensions system has become so complicated, that even a financial adviser would struggle to calculate what they will expect in retirement. In future we want to be in a position where we can send people information that is clear about a state pension that they understand'.

Mae'n amlwg bod y system bensiynau wedi mynd mor gymhleth fel y byddai hyd yn oed ymgynghorydd ariannol yn ei chael hi'n anodd i gyfrifo'r hyn y bydd yn ei ddisgwyl ar ôl ymddeol. Yn y dyfodol, rydym am fod mewn sefyllfa lle y gallwn anfon gwybodaeth at bobl sy'n glir ynghylch pensiwn y wladwriaeth ac y maent yn ei ddeall.

In Government, that is what Liberal Democrats are delivering: a single-tier pension that will provide a modern pension system fit for the twenty-first century, reflecting the lives and contributions of today's workers, and enabling everyone to work towards a decent income in retirement.

Dyna'r hyn y mae'r Democratiaid Rhyddfrydol mewn grym yn ei gyflwyno: pensiwn un haen a fydd yn darparu system bensiynau fodern sy'n addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain, gan adlewyrchu bywydau a chyfraniadau gweithwyr heddiw, a galluogi pawb i weithio tuag at incwm gweddus ar ôl ymddeol.

I will take your intervention, Angela.

Derbyniaf eich ymyriad, Angela.

16:26

## Angela Burns Bywgraffiad Biography

I thank Peter Black for giving way. I agree that the coalition Government has delivered something here that is fundamentally important, for other reasons: we are now valuing stay-at-home parents and carers who serve society. We are saying that we value their contribution, and that they are no longer second-class citizens.

Diolch i Peter Black am ildio. Cytunaf fod y Llywodraeth glymblaid wedi cyflawni rhywbeth hanfodol bwysig yn hyn o beth, am resymau eraill: rydym bellach yn gwerthfawrogi rhieni sy'n aros gartref a gofalwyr sy'n gwasanaethu cymdeithas. Rydym yn dweud ein bod yn gwerthfawrogi eu cyfraniad, ac nad ydynt yn ddinasyddion ail ddosbarth mwyach.

16:26 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

I will just scrap the next bit of my speech; that was exactly the point that I was going to make. [Interruption.] The single-tier pension will be worth the equivalent of £144 in 2013 prices, or £155 when it is introduced in 2017. As you say, Angela, it will particularly help those who want to take a break from employment—for example, women who have brought up children, those who are low earners, and the self-employed. It will also help the 30% of people who qualify for pension credit but do not claim it. It will value unpaid caring work just as much as a high-flying City job, and, for the first time, we will bring the self-employed fully into the state pension system. Under the new system, loads of people will be better off in their retirement, and that is something that my party has been campaigning to deliver for decades. I am pleased that the coalition is able to deliver those radical plans today, so that workers can retire on a single, simple, decent pension.

Hepgoraf y rhan fach nesaf o'm haraith, dyna'r union bwynt yr oeddwn yn bwriadu ei wneud. [Torri ar draws.] Bydd y pensiwn un haen yn werth yr hyn sy'n cyfateb i £144 yn ôl prisiau 2013, neu £155 pan gaiff ei gyflwyno yn 2017. Fel y dywedwch, Angela, bydd o gymorth arbennig i'r rhai sydd am roi'r gorau i fod mewn cyflogaeth am ychydig—er enghraifft, menywod sydd wedi magu plant, y rhai sy'n ennill cyflog isel, a phobl hunangyflogedig. Bydd hefyd yn helpu'r 30% o bobl sy'n gymwys i gael credyd pensiwn, ond nad ydynt yn ei hawlio. Bydd yn rhoi gwerth ar waith gofalu di-dâl lawn cymaint â swydd grand yn ninas Llundain, ac, am y tro cyntaf, byddwn yn symud yr hunangyflogedig yn gyfan gwbl i mewn i system pensiwn y wladwriaeth. O dan y system newydd, bydd llu o bobl yn well eu byd ar ôl ymddeol, ac mae hynny'n rhywbeth y mae fy mhlaid wedi bod yn ymgyrchu i'w gyflawni ers degawdau. Rwy'n falch bod y glymblaid yn gallu rhoi'r cynlluniau radical hynny ar waith heddiw, fel y gall gweithwyr ymddeol ar un pensiwn syml a gweddus.

This reform comes in addition to the triple lock that we brought in when we came into Government in 2010. That has ensured a record rise in the state pension of £12.50 a week since 2010. Due to that policy and the policy on a single tier, pensioners will receive an estimated £12,000 more over the course of their retirement than they would have done under Labour. The basic state pension will represent a higher share of average earnings than at any time since 1992. In 2012, pensioners benefitted from the biggest ever cash increase in the basic state pension, as it went up £5.30 a week. We have already had reference to the 75p rise in the state pension under Gordon Brown. That pension reform is one of the most important things that this coalition has done in terms of introducing fairness into our society.

Cyflwynir y diwygiad hwn yn ychwanegol at y clo triphlyg a gyflwynwyd gennym pan ddaethom i rym yn 2010. Mae hynny wedi sicrhau'r lefel uchaf erioed o gynnydd ym mhensiwn y wladwriaeth, sef £12.50 yr wythnos ers 2010. Oherwydd y polisi hwnnw a'r polisi un haen, bydd pensiynwyr yn cael £12,000 yn fwy yn ôl amcangyfrif ar ôl ymddeol nag y byddent wedi'i gael o dan Lafur. Bydd pensiwn sylfaenol y wladwriaeth yn gyfran uwch o enillion cyfartalog nag ar unrhyw adeg ers 1992. Yn 2012, cafodd pensiynwyr y cynnydd ariannol mwyaf erioed ym mhensiwn sylfaenol y wladwriaeth, gan iddo gynyddu £5.30 yr wythnos. Soniwyd eisoes am y cynnydd o 75c ym mhensiwn y wladwriaeth o dan Gordon Brown. Mae'r diwygiad hwnnw i bensiynau yn un o'r pethau pwysicaf y mae'r glymblaid hon wedi ei wneud o ran cyflwyno tegwch yn ein cymdeithas.

As I come to the end of my speech, I will turn to the amendments. The Welsh Liberal Democrats will support the Conservative amendments, which reiterate the UK Government's commitment to delivering a stronger economy in a fairer society. We will not be supporting the Plaid Cymru amendment that fails to recognise the progress that has been made since the Silk commission was established in 2011. [Interruption.] Simon, do you want to come in? I see not.

Wrth imi ddod at ddiwedd fy araith, trof at y gwelliannau. Bydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn cefnogi gwelliannau'r Ceidwadwyr, sy'n ailadrodd ymrwymiad Llywodraeth y DU i sicrhau economi gryfach mewn cymdeithas decach. Ni fyddwn yn cefnogi gwelliant Plaid Cymru sy'n methu â chydnabod y cynnydd a wnaed ers i gomisiwn Silk gael ei sefydlu yn 2011. [Torri ar draws.] Simon, a ydych am ddweud rhywbeth? Gwelaf nad ydych.

The Liberal Democrats have long supported the devolution of further powers for Wales, and that is why the commission was established—so that we can have a proper debate on a new vision for Welsh devolution. The UK Government needs to carefully consider its response to the commission's recommendations, and clearly cannot confirm whether it will legislate until that response is published. In a sense, the Plaid Cymru amendment is putting the cart before the horse.

Mae'r Democratiaid Rhyddfrydol wedi bod o blaid datganoli rhagor o bwerau i Gymru ers amser, a dyna pam i'r comisiwn gael ei sefydlu—fel y gallwn gael dadl iawn ar weledigaeth newydd ar gyfer datganoli yng Nghymru. Mae angen i Lywodraeth y DU ystyried ei hymateb i argymhellion y comisiwn yn ofalus ac, yn amlwg, ni all gadarnhau a fydd yn deddfu nes bod yr ymateb hwnnw wedi ei gyhoeddi. Mewn ffordd, mae gwelliant Plaid Cymru yn rhoi'r cart o flaen y ceffyl.

16:29 **Kenneth Skates** Bywgraffiad Biography

I thank the Member for giving way. Can he guarantee that the deregulation Bill, which he embraces wholeheartedly, will not impede or impair the rights of workers in Wales and the UK?

Diolch i'r Aelod am ildio. A all warantu na fydd y Bil dadreoleiddio, y mae'n ei groesawu'n gynnes, yn llesteirio nac yn amharu ar hawliau gweithwyr yng Nghymru ac yn y DU?

16:29 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

That is a question that Ken Skates needs to direct to the Secretary of State for Wales. I have not actually seen that Bill. I would certainly hope that it does not. [Interruption.] I can assure him, from the Welsh Liberal Democrat perspective that, if that is indicated, we will try to respond to that. Deregulation is crucial in terms of removing red tape and helping businesses.

Mae hwnnw'n gwestiwn y mae angen i Ken Skates ei gyfeirio at Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Nid wyf wedi gweld y Bil hwnnw a dweud y gwir. Byddwn yn sicr yn gobeithio nad yw'n gwneud hynny. [Torri ar draws.] Gallaf ei sicrhau, o safbwynt Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, os bydd awgrym o hynny, y byddwn yn ceisio ymateb i hynny. Mae dadreoleiddio yn allweddol o ran cael gwared ar fiwrocratiaeth a helpu busnesau.

I will conclude with the amendment. The draft Wales Bill, announced in the Queen's Speech, focuses on the electoral arrangements for the National Assembly for Wales and could act as a platform for any provision arising from the Government's response to Silk part 1, if it decides to legislate in this parliament. For that reason, I think that the Plaid Cymru amendment is premature, and I hope that we are able to do something as part of that draft Wales Bill.

Gorffennaf drwy sôn am y gwelliant. Mae'r Bil Cymru drafft, a gyhoeddwyd yn Araith y Frenhines, yn canolbwyntio ar drefniadau etholiadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru a allai fod yn llwyfan ar gyfer unrhyw ddarpariaeth sy'n deillio o ymateb y Llywodraeth i ran 1 Silk, os bydd yn penderfynu deddfu yn ystod y tymor seneddol hwn. Am y rheswm hwnnw, credaf fod gwelliant Plaid Cymru yn gynamserol, a gobeithio y byddwn yn gallu gwneud rhywbeth fel rhan o'r Bil Cymru drafft hwnnw.

16:30 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

To say that we are disappointed at the lack of content, imagination and ambition in the Queen's Speech is an understatement. For Wales, the incomprehensible decision to propose a Wales Bill with virtually no content is unforgivable. The we-will-fill-this-space-later approach to legislation is an insult to the people of Wales. [Interruption.]

Mae'r diffyg cynnwys, dychymyg ac uchelgais yn Araith y Frenhines yn destun siom, a dweud y lleiaf. O ran Cymru, mae'r penderfyniad annealladwy i gynnig Bil i Gymru heb fawr ddim cynnwys yn anfaddeuol. Mae mynd ati i ddeddfu drwy dweud 'Byddwn yn llenwi'r gofod hwn yn nes ymlaen', yn sarhad ar bobl Cymru. [Torri ar draws.]

I am not taking interventions because I only have a limited amount of time and there is a lot that I want to say.

Nid wyf am dderbyn ymyriadau am mai dim ond ychydig o amser sydd gennyf ac mae llawer yr wyf am ei ddweud.

This year, housing completions are currently at the lowest level in the UK since the 1920s, and 89,000 construction workers have lost their jobs. The Wales Office's sole function appears to be to attack the Welsh Government for introducing important legislation, such as the sprinkler legislation, which will save people's lives. I would like to remind the Secretary of State for Wales that the last second-quarter growth statistics showed that UK production has dropped by 1%, and yet, in Wales, production grew by 2.7%. Also, in the third quarter, construction in the UK fell by 2.6% and, in Wales, construction increased by 8.9%.

Eleni, mae nifer y tai a gwblheir ar hyn o bryd ar ei lefel isaf yn y DU ers y 1920au, ac mae 89,000 o weithwyr adeiladu wedi colli eu swyddi. Ymddengys mai unig swyddogaeth Swyddfa Cymru yw lladd ar Lywodraeth Cymru am gyflwyno deddfwriaeth bwysig, megis y ddeddfwriaeth ynglŷn â systemau chwistrellu, a fydd yn achub bywydau pobl. Hoffwn atgoffa Ysgrifennydd Gwladol Cymru fod yr ystadegau diwethaf ar gyfer twf yn yr ail chwarter yn dangos bod cynhyrchu yn y DU wedi gostwng 1%, ac eto, yng Nghymru, a'i fod wedi cynyddu 2.7% Hefyd, yn y trydydd chwarter, bu gostyngiad o 2.6% yn y sector adeiladu yn y DU, ac, yng Nghymru cynyddodd y sector adeiladu 8.9%.

Turning now to the issue of borrowing powers: these could enable us to significantly increase house building and to develop major infrastructure projects. Over 28,000 people in Wales are being hit by the ludicrous bedroom tax, supported by the Lib Dems. In my constituency of Pontypridd, 929 people will be, on average, £624 a year worse off, unless they move to smaller houses that do not exist and that we cannot build because we do not have borrowing powers. If that was not enough, the welfare reforms, supported by the Lib Dems, are taking an estimated £1 billion out of the Welsh economy, and benefit and tax-credit cuts will hit Wales even harder than the UK because of our higher levels of welfare dependency.

Gan droi yn awr at fater pwerau benthyca: gallai'r rhain ein galluogi i gynyddu nifer y tai a adeiledir yn sylweddol a datblygu prosiectau seilwaith mawr. Effeithir ar fwy nag 28,000 o bobl yng Nghymru gan y dreth ystafell wely hurt, a gefnogir gan y Democratiaid Rhyddfrydol. Yn fy etholaeth i, sef Pontypridd, bydd 929 o bobl, ar gyfartaledd, £624 y flwyddyn yn waeth eu byd, oni bai eu bod yn symud i dai llai nad ydynt yn bodoli ac na allwn eu hadeiladu am nad oes gennym bwerau benthyca. Os nad oedd hynny'n ddigon gwael, mae'r diwygiadau lles, gyda chefnogaeth y Democratiaid Rhyddfrydol, yn tynnu tua £1 biliwn o economi Cymru, a bydd y toriadau mewn budd-daliadau a chredyd treth yn effeithio ar Gymru hyd yn oed yn fwy nag yn y DU oherwydd ein lefelau uwch o ddibyniaeth ar les.

What is the big, brave, imaginative idea that the coalition comes up with? It comes up with water supply competition: a drains, pipes and sewers competition Bill that actually makes no commercial sense whatsoever, and we all know that half the Tories over there do not agree with it, but they will not say so because they are scared.

Beth yw'r syniad gwych mawr y mae'r glymblaid yn ei gynnig? Mae'n cynnig cystadleuaeth wrth gyflenwi dŵr: Bil cystadleuaeth ar gyfer draeniau, pibellau a charthffosydd nad yw mewn gwirionedd yn gwneud unrhyw synnwyr masnachol o gwbl, a gwyddom oll nad yw hanner y Torïaid draw acw yn cytuno ag ef, ond ni fyddant yn dweud hynny oherwydd bod ofn arnynt.

If not content with attacking the most vulnerable people in Wales, the coalition Government now intends to attack workers through deregulation.

A hithau eisoes mor barod i ymosod ar y bobl fwyaf agored i niwed yng Nghymru, mae'r Llywodraeth glymblaid bellach yn bwriadu ymosod ar weithwyr drwy ddadreoleiddio.

16:33 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Thank you for taking a Conservative intervention. [Interruption.]

Diolch ichi am dderbyn ymyriad Ceidwadol. [Torri ar draws.]

16:33 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

I prefer sensible questions.

Mae'n well gennyf gwestiynau synhwyrol.

16:33 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

I want to put on record, Mick, that I am not scared, and I agree with it.

Hoffwn gofnodi'r ffaith nad oes ofn arnaf, Mick, ac y cytunaf ag ef.

16:33 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

Thank you for that, Nick; I will not refer to earlier conversations.

Diolch ichi am hynny, Nick; ni chyfeiriaf at sgyrsiau cynharach.

The Secretary of State for Wales, which I can now see is supported by Lib Dems, claimed that the deregulation Bill will cut red tape to help Welsh businesses grow. The deregulation Bill, supported strongly by the Lib Dems, is about one thing: it is about an attack on workers' rights. It is exactly the same as the coalition obsession with Europe, which is about the social chapter. If you want an example of what they are up to, look at this: sections 61 and 62 of the Enterprise and Regulatory Reform Act 2013 mean that employers who commit criminal offences by breaching health and safety laws are now given civil immunity for those criminal offences. That is yet another attack on working people in favour of unscrupulous businesses and the insurance industry.

Haerodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru, a gallaf weld bellach iddo gael ei gefnogi gan y Democratiaid Rhyddfrydol, y bydd y Bil dadreoleiddio yn dileu biwrocratiaeth er mwyn helpu busnesau Cymru i dyfu. Mae a wnelo'r Bil dadreoleiddio, a gefnogir yn frwd gan y Democratiaid Rhyddfrydol, ag un peth: mae'n ymwneud ag ymosod ar hawliau gweithwyr. Mae'n union yr un fath ag obsesiwn y glymblaid ag Ewrop, sy'n ymwneud â'r bennod gymdeithasol. Os ydych am weld enghraifft o'r hyn y maent yn ei wneud, edrychwch ar hyn: mae adrannau 61 a 62 o Ddeddf Menter a Diwygio Rheoleiddiol 2013 yn golygu bod cyflogwyr sy'n cyflawni troseddau drwy dorri cyfreithiau iechyd a diogelwch bellach yn cael imiwnedd sifil am y troseddau hynny. Mae hynny'n ymosodiad arall eto ar bobl sy'n gweithio o blaid busnesau diegwyddor a'r diwydiant yswiriant.

We need a Secretary of State who will stand up for Wales. Instead, what we get is the invisible man. The Queen's Speech has no Bill for jobs and no proposals for growth and the creation of real jobs. Instead, we have a coalition Government that, through its deregulatory policies, is creating a minimum wage, no terms, no conditions and no rights workforce. Zero-hour contracts have doubled since 2008.

Mae angen Ysgrifennydd Gwladol a fydd yn sefyll yn gadarn dros Gymru. Yn lle hynny, yr hyn a gawn yw'r dyn anweledig. Nid yw Araith y Frenhines yn cynnwys unrhyw Fil ar gyfer swyddi nac unrhyw gynigion ar gyfer twf a chreu swyddi go iawn. Yn hytrach, cawn Lywodraeth glymblaid sydd, drwy ei pholisïau dadreoleiddio, yn creu gweithlu isafswm cyflog, dim telerau, dim amodau a dim hawliau. Mae nifer y contractau dim oriau wedi dyblu ers 2008.

In the last 12 years of European membership, we have had £3.9 billion of investment in Wales, yet the sole activity of the Tory Government seems to be to try to pull us out of Europe. The European referendum debacle is damaging for jobs growth and future investment in Wales. The Queen's Speech brings back the focus on a Government that is riven with division, back biting and a lack of ideas, and which is more concerned with rigging our electoral system through the lucky loser Bills than it is with regenerating the economy, bolstered only by the collaboration and collusion of the Liberal Democrats. Secretary of State, I do support a referendum, but the only referendum that I want is one of the people and that is a general election that will throw your party out of Government.

Yn ystod y 12 mlynedd diwethaf o aelodaeth Ewropeaidd, rydym wedi gweld buddsoddiad gwerth £3.9 biliwn yng Nghymru, ac eto ymddengys mai unig weithgaredd y Llywodraeth Doriaidd yw ceisio ein tynnu allan o Ewrop. Mae llanast y refferendwm Ewropeaidd yn niweidiol o ran twf swyddi a buddsoddiad yng Nghymru yn y dyfodol. Mae Araith y Frenhines yn gosod y ffocws unwaith eto ar Lywodraeth gwbl ranedig, sy'n ymgecru ac sy'n brin o syniadau, ac sy'n poeni mwy am rigio ein system etholiadol drwy'r Bil collwyr lwcus nag adfywio'r economi, a hynny gyda chydweithrediad a chydgynllwynio'r Democratiaid Rhyddfrydol. Ysgrifennydd Gwladol, cefnogaf refferendwm, ond yr unig refferendwm yr wyf am ei gael yw un i'r bobl, sef etholiad cyffredinol a fydd yn cael gwared ar eich Llywodraeth.

16:35

## Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography

I call Nick Ramsay.

Galwaf ar Nick Ramsay.

16:35

## Nick Ramsay Bywgraffiad Biography

Thank you for calling me to speak in this debate. It is always a great pleasure to follow on from one of Mick Antoniw's streams of consciousness. You were even starting to make Lynne Neagle look pro-Tory the way that you were going on, Mick, and that is not easy. [Laughter.]

Diolch ichi am alw arnaf i siarad yn y ddadl hon. Mae bob amser yn bleser mawr dilyn llif ymwybod gan Mick Antoniw. Roeddech hyd yn oed yn dechrau gwneud i Lynne Neagle ymddangos yn gefnogol i'r Toriaid yn y ffordd yr ydych yn siarad, Mick, ac nid yw hynny'n hawdd. [Chwerthin.]

I will focus on some of the economic issues that have been raised and that feature in the Queen's Speech. As the Secretary of State said in his opening remarks, key to the future of Wales in economic development terms is infrastructure. That is why we welcome the electrification of the Great Western railway line to Swansea and the spur to Heathrow. Let us not forget that not a single inch of that line was electrified under the previous UK Government. That was a bit of an oversight, was it not? The coalition Government has also committed to spending on increasing broadband speeds. Once again, this is vital for the future of the Welsh economy—a modern, sustainable, progressive economy. There are currently too many notspots, and these have to be dealt with if we are going to move the Welsh economy on.

Canolbwyntiaf ar rai o'r materion economaidd a godwyd ac sy'n rhan o Araith y Frenhines. Fel y dywedodd yr Ysgrifennydd Gwladol yn ei sylwadau agoriadol, yr allwedd i ddyfodol Cymru o ran datblygu economaidd yw seilwaith. Dyna pam rydym yn croesawu'r penderfyniad i drydaneiddio llinell reilffordd y Great Western i Abertawe a'r gainc i Heathrow. Gadewch inni beidio ag anghofio na chafodd yr un fodfedd o linell ei thrydaneiddio o dan Lywodraeth flaenorol y DU. Roedd hynny yn dipyn o amryfusedd, onid oedd? Mae'r Llywodraeth glymblaid hefyd wedi ymrwymo i wario ar gynyddu band eang. Unwaith eto, mae hyn yn hanfodol i ddyfodol economi Cymru—economi flaengar, modern a chynaliadwy. Mae gormod o fannau gwan ar hyn o bryd, a rhaid ymdrin â'r rhain os ydym am symud economi Cymru yn ei blaen.

In terms of the Queen's Speech and the commitment to a national insurance contributions Bill, this is certainly to be welcomed by everyone in the Chamber, even if some Members on the Government benches will not admit it publicly. As Antoinette Sandbach said very eloquently in her contribution, the national insurance changes will have a huge impact on businesses in Wales, taking up to 20,000 businesses out of the rates that they have been paying to date and allowing them to employ more people. What an enormous advantage for the Welsh economy. Is it not strange that we hear so much from the Welsh Government benches when cuts are being made—sad but necessary cuts from the UK Government in all sorts of areas—but when it comes to something like this, which will support Welsh businesses and UK businesses, the mothership megaphone goes strangely silent, does it not? We have just had that long—I was going to say eloquent, but perhaps not—diatribe from Mick, which I did enjoy Mick, so I do not mean to be too mean to you there, and yet there was not a single word—I wonder why—about the positive things that are being done that will benefit Wales.

O ran Araith y Frenhines a'r ymrwymiad i Fil cyfraniadau yswiriant gwladol, mae hyn yn sicr i'w groesawu gan bawb yn y Siambr, hyd yn oed os na fydd rhai Aelodau ar feinciau'r Llywodraeth yn cyfaddef hynny'n gyhoeddus. Fel y dywedodd Antoinette Sandbach yn huawdl iawn yn ei chyfraniad, bydd y newidiadau i yswiriant gwladol yn cael effaith enfawr ar fusnesau yng Nghymru, gan olygu na fydd angen mwyach i hyd at 20,000 o fusnesau dalu'r cyfraniadau y maent wedi bod yn eu talu hyd yn hyn ac yn eu galluogi i gyflogi mwy o bobl. Am fantais enfawr i economi Cymru. Onid yw'n rhyfedd ein bod yn clywed cymaint gan feinciau Llywodraeth Cymru pan fydd toriadau yn cael eu gwneud—toriadau anffodus ond angenrheidiol gan Lywodraeth y DU ym mhob math o feysydd—ond o ran rhywbeth fel hyn, a fydd yn cefnogi busnesau Cymru a'r DU, mae'r lleisiau croch yn mynd yn fud, yn rhyfedd iawn, onid yw? Rydym newydd glywed yr araith—roeddwn yn mynd i ddweud huawdl, ond efallai ddim—hallt gan Mick, a fwynheais Mick, felly nid yw'n golygu bod yn gas wrthych, ac eto nid oedd yr un gair—tybed pam—am y pethau cadarnhaol sy'n cael eu gwneud a fydd o fudd i Gymru.

With regard to the deregulation Bill, I cannot believe that you do not believe that businesses are suffering due to red tape at the moment. It is within the gift of the UK Government to try to release the hands, which have been tied, of businesses in the UK and Wales. That must surely be welcomed. Of course, we need to keep an eye on it and ensure that there are not issues relating to workers' rights, but none of us will say that we should not be supporting business at this very difficult time economically.

O ran y Bil dadreoleiddio, ni allaf gredu nad ydych yn credu bod busnesau'n dioddef oherwydd biwrocratiaeth ar hyn o bryd. Gall Llywodraeth y DU geisio rhyddhau dwylo busnesau yn y DU a Chymru, sydd wedi cael eu clymu. Oni ddylid croesawu hynny? Wrth gwrs, mae angen inni fod yn wyliadwrus a sicrhau nad oes problemau yn codi o ran hawliau gweithwyr, ond ni fydd yr un ohonom yn dweud na ddylem fod yn cefnogi busnesau yn y cyfnod anodd iawn hwn yn economaidd.

I will turn briefly to fiscal matters and the Silk commission, which a number of Members have mentioned. This was a commission brought forward by a Conservative Secretary of State in a Conservative-Lib Dem coalition. That did not happen before, did it? I agree with previous speakers who have said that it is anomalous that this place does not have borrowing powers. That is tying the hands of the Minister for Finance here unnecessarily. Local authorities have borrowing powers, as obviously does the UK Government and other institutions. It is a strange situation that led to us not having them. Therefore, we speak with one voice there. When you look at other aspects of the Silk commission, you see that this is clearly one of the least controversial elements. Some people have raised concerns with me about borrowing, but as long as that borrowing is for investment, infrastructure and means to improve the future of the Welsh economy, then that is certainly something on which we will support the Welsh Government in working with the UK Government to bring forward.

Soniaf ychydig am faterion ariannol a chomisiwn Silk, y mae nifer o Aelodau wedi'i grybwyll. Roedd hwn yn gomisiwn a sefydlwyd gan Ysgrifennydd Gwladol Ceidwadol mewn clymblaid rhwng y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol. Ni ddigwyddodd hynny o'r blaen, naddo? Cytunaf â siaradwyr blaenorol a ddywedod ei bod yn anghyson nad oes gan y lle hwn bwerau benthyca. Mae hynny'n clymu dwylo'r Gweinidog Cyllid yma yn ddiangen. Mae gan awdurdodau lleol bwerau benthyca, fel sydd gan Lywodraeth y DU, yn amlwg, a sefydliadau eraill. Mae'n sefyllfa ryfedd a arweiniodd at ddiffyg pwerau o'r fath. Felly, rydym yn siarad yn unfrydol o ran hynny. Pan edrychwch ar agweddau eraill ar gomisiwn Silk, fe welwch fod hyn yn amlwg yn un o'r elfennau lleiaf dadleuol. Mae rhai pobl wedi codi pryderon gyda mi ynglŷn â benthyca, ond ar yr amod y caiff arian ei fenthyca ar gyfer buddsoddi, seilwaith a ffyrdd o wella dyfodol economi Cymru, yna mae hynny'n sicr yn rhywbeth y byddwn yn cefnogi Llywodraeth Cymru yn ei gylch wrth iddi weithio gyda Llywodraeth y DU i'w gyflwyno.

As the Secretary of State is very fond of saying, Wales has two Governments. I have nicked that line from you, if you do not mind, Secretary of State; I like it, so I use it as much as I can as well. The only real future, Plaid Cymru, lies in co-operation. We in Wales are not going to swim off to some little corner of the UK. You can turn your back on it, but it will still be there.

Fel y mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn hoff iawn o'i ddweud, mae gan Gymru ddwy Lywodraeth. Rwyf wedi dwyn yr ymadrodd hwnnw gennych, os nad oes gwahaniaeth gennych, Ysgrifennydd Gwladol; rwy'n ei hoffi, felly rwy'n ei ddefnyddio cymaint ag y gallaf hefyd. Yr unig ddyfodol mewn gwirioneddol, Blaid Cymru, yw cydweithrediad. Ni fyddwn ni yng Nghymru yn nofio i ryw gornel fach o'r DU. Gallwch droi eich cefn arni, ond bydd yno o hyd.

16:39

## Leanne Wood Bywgraffiad Biography

How do you feel about co-operating with the rest of Europe, then?

Sut rydych yn teimlo am gydweithio â gweddill Ewrop, te?

16:39

## Nick Ramsay Bywgraffiad Biography

I feel fine about it, but co-operation starts at home, Leanne. It starts here. It is all very well for Members here to talk about the need for local authorities to collaborate and to fully support the Minister for local government in trying to support that—and I had a very reasonable answer to my question on that earlier—but for goodness' sake, let us also make sure that we are co-operating here with the UK Government. In certain ways, that is happening, and I am pleased that the Minister for Finance is having regular meetings, but too often in here I think that we resort to childish ranting that does not move Wales forward. If you really think that you are resonating with people out there by saying that we do not need to work as part of the UK, you are in cloud-cuckoo-land. I commend this Queen's Speech to the Assembly Chamber, and this side of the house fully appreciates the efforts that the UK coalition Government and this Secretary of State are making to try to make the lives of people in Wales a little bit better.

Teimlaf yn iawn am y peth, ond mae cydweithredu yn dechrau gartref, Leanne. Mae'n dechrau yma. Mae'n ddigon hawdd i Aelodau yma sôn am yr angen i awdurdodau lleol gydweithio ac i gefnogi'r Gweinidog llywodraeth leol yn llawn wrth geisio cefnogi hynny—a chefais ateb rhesymol iawn i'm cwestiwn ynglŷn â hynny'n gynharach—ond mawredd annwyl, gadewch inni hefyd wneud yn siŵr ein bod yn cydweithredu yma â Llywodraeth y DU. Mewn sawl ffordd, mae hynny'n digwydd, ac rwy'n falch bod y Gweinidog Cyllid yn cael cyfarfodydd rheolaidd, ond yn rhy aml yma, yn fy marn i, rydym yn dechrau rafio a morio fel plant ac nid yw hynny'n symud Cymru ymlaen. Os ydych yn wir yn meddwl eich bod yn taro tant gyda'r cyhoedd drwy ddweud nad oes angen inni weithio fel rhan o'r DU, mae'ch pen yn y cymylau. Cymeradwyaf Araith y Frenhines i Siambr y Cynulliad, ac mae'r ochr hon yn llwyr werthfawrogi ymdrechion Llywodraeth glymblaid y DU a'r Ysgrifennydd Gwladol hwn i geisio gwneud bywydau pobl yng Nghymru ychydig yn well.

16:40 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

I really do not like to break with tradition, but I do not understand why we call it the Queen's Speech, because, of course, it is the Government of the day's speech in reality. I have to preface my remarks by stating how sorry I am that, following so much democratic devolution in Wales, we are still tied to an overrated and expensive exhibition of pomp and ceremony called the 'Queen's Speech', particularly during these austere times when in centres throughout Wales today they are making up food parcels.

Nid wyf yn hoffi mynd yn groes i draddodiad, ond ni ddeallaf pam rydym yn ei galw'n Araith y Frenhines, oherwydd, wrth gwrs, araith y Llywodraeth sydd mewn grym ydyw mewn gwirionedd. Rhaid imi ddechrau fy sylwadau drwy ddweud pa mor flin yr wyf, yn dilyn cymaint o ddatganoli democrataidd yng Nghymru, ein bod yn dal wedi ein clymu ag arddangosiad drud o rwysg a seremoni a elwir yn 'Araith y Frenhines', yn enwedig yn ystod y cyfnod llwm hwn pan fydd pobl mewn canolfannau ledled Cymru heddiw yn paratoi parseli bwyd.

I am going to focus on that part of the speech that deals with the proposed Care Bill since, of course, this Welsh Government is in the process of finalising the contents of the Social Services and Well-being (Wales) Bill and there is little in the Queen's Speech that has any bearing on what will be happening in Wales on this issue. The English Bill covers extending the means test threshold for financial assistance, enshrines the rights of carers to support, and refers to the portability of care and support and to the entitlement to direct payments. These are all very familiar discussions in Wales about the Welsh Government's Bill. Therefore, so much for the irrelevance of Her Majesty's speech in Wales, which I thought she read beautifully, by the way. I really feel sorry for the Queen, having to go to Parliament every session to read someone else's speech. This gives me, at least, an opportunity to put forward Plaid Cymru's vision— you always ask us, 'What would you do?'—as to how we would manage and deliver social care in Wales when we form the next Government here in Wales.

Hoffwn ganolbwyntio ar y rhan honno o'r araith sy'n ymwneud â'r Bil Gofal arfaethedig oherwydd, wrth gwrs, mae Llywodraeth Cymru wrthi'n cwblhau cynnwys y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn derfynol ac nid oes fawr ddim yn Araith y Frenhines sy'n cael unrhyw effaith ar yr hyn a fydd yn digwydd yng Nghymru ar y mater hwn. Mae Bil Lloegr yn cynnwys ymestyn y trothwy prawf modd ar gyfer cymorth ariannol, yn ymgorffori hawliau gofalwyr i gael cymorth, ac yn cyfeirio at hygludedd gofal a chefnogaeth ac i'r hawl i daliadau uniongyrchol. Mae'r rhain oll yn drafodaethau cyfarwydd iawn yng Nghymru ynglŷn â Bil Llywodraeth Cymru. Felly, wfft i amherthnasedd Araith Ei Mawrhydi yng Nghymru, a'i darllenodd yn hyfryd yn fy marn i, gyda llaw. Rwyf yn wir yn teimlo trueni dros y Frenhines, yn gorfod mynd i'r Senedd bob sesiwn i ddarllen araith rhywun arall. Mae hyn, o leiaf, yn rhoi cyfle imi gyflwyno gweledigaeth Plaid Cymru—rydych bob amser yn gofyn inni, 'Beth fyddech chi'n ei wneud?'—o ran sut y byddem yn rheoli ac yn darparu gofal cymdeithasol yng Nghymru pan fyddwn yn ffurfio'r Llywodraeth nesaf yma yng Nghymru.

On Monday of this week, my colleague Elin Jones expressed her concern that this Government has failed to bring forward a plan for integrated care. Only a few weeks ago, a member of the public told me of how health and social services in Cardiff and Caerphilly were arguing about who should be providing care for his very elderly 92-year-old mother who had been in hospital for 16 weeks and who could not leave because she did not have the right level of care due to arguments. That cannot be right. We in Plaid Cymru, as you know, want social care to be free at the point of delivery. We need pooled budgets. What we need in Wales is a national health and social care service. Health and wellbeing are part of a continuum and for that reason health and social services should be free at the point of delivery. We can make Wales a beacon in the United Kingdom for health and social care. We want a strong advocacy service for all vulnerable people. We want to eliminate delayed transfers of care. We would introduce a set of national terms and conditions for social workers and develop consultant social worker grades. We want to establish the post, as I have said in this Chamber many times, of a disability commissioner.

Ddydd Llun yr wythnos hon, mynegodd fy nghyd-Aelod Elin Jones ei phryder bod y Llywodraeth hon wedi methu â chyflwyno cynllun ar gyfer gofal integredig. Dim ond ychydig wythnosau yn ôl, dywedodd aelod o'r cyhoedd wrthyf sut mae iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yng Nghaerdydd a Chaerffili yn dadlau ynghylch pwy ddylai fod yn darparu gofal ar gyfer ei fam oedrannus iawn, 92 oed, a oedd wedi bod yn yr ysbyty am 16 wythnos ac na allai adael am nad oedd ganddi'r lefel gywir o ofal oherwydd y dadleuon. Ni all hynny fod yn iawn. Rydym ni ym Mhlaid Cymru, fel y gwyddoch, am i ofal cymdeithasol fod yn rhad ac am ddim wrth ei ddarparu. Mae angen cyllidebau cyfun arnom. Yr hyn sydd ei angen yng Nghymru yw gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol gwladol. Mae iechyd a lles yn rhan o gontinwwm ac am y rheswm hwnnw dylai iechyd a gwasanaethau cymdeithasol fod ar gael am ddim wrth eu darparu. Gallwn sicrhau bod Cymru yn arwain yn y Deyrnas Unedig o ran iechyd a gofal cymdeithasol. Rydym am gael gwasanaeth eiriolaeth gref i'r holl bobl sy'n agored i niwed. Rydym am gael gwared ar oedi wrth drosglwyddo gofal. Byddem yn cyflwyno telerau ac amodau cenedlaethol ar gyfer gweithwyr cymdeithasol ac yn datblygu graddau gweithiwr cymdeithasol ymgynghorol. Rydym yn awyddus i sefydlu swydd comisiynydd anabledd, fel yr wyf wedi dweud yn y Siambr hon sawl gwaith o'r blaen.

In short, we in Plaid Cymru do not need to look over the border for advice or inspiration from a tired, old Parliament that is past its sell-by date and is becoming increasingly irrelevant. If I had my way, it would be totally irrelevant. That is why we will abstain on voting on amendment 7. I will give way as long as the comment is constructive.

Yn gryno, nid oes angen i ni ym Mhlaid Cymru edrych dros y ffin i gael cyngor nac ysbrydoliaeth gan hen Senedd hesb sydd wedi cyrraedd diwedd ei hoes ac sy'n dod yn fwyfwy amherthnasol. Pe bawn i'n cael fy ffordd, byddai'n gwbl amherthnasol. Dyna pam y byddwn yn ymatal ar y bleidlais ar welliant 7. Ildiaf yr amod bod y sylwadau yn adeiladol.

16:44

## Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography

I am grateful to you for taking the intervention. Can you tell me how many people support your view of an independent Wales?

Rwy'n ddiolchgar ichi am dderbyn yr ymyriad. A allwch ddweud wrthyf faint o bobl sy'n cefnogi eich barn am Gymru annibynnol?

16:44

## Lindsay Whittle Bywgraffiad Biography

I can tell you that it is a growing number.

Gallaf ddweud wrthych fod nifer gynyddol.

16:44

## Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography

It is 12%, is it not?

12% ydyw, onid yw?

16:44

## Nick Ramsay Bywgraffiad Biography

It is shrinking.

Mae'n crebachu.

16:44

## Lindsay Whittle Bywgraffiad Biography

No, it is not; trust me, it is not. Time will tell whether we will be proved right. I was just explaining why we will be abstaining from voting. I thought that you were going to make a constructive point. I was explaining why we will be abstaining from voting on amendment 7 in the name of Aled Roberts and voting against amendment 10 in the name of William Graham, because English Bills are for English Members of Parliament to decide upon, not the Welsh Assembly. We should not be welcoming, adding to or acknowledging what the English Parliament is deciding—it is for it to decide.

Nac ydyw; credwch fi, nid yw'n crebachu. Amser a ddengys a fyddwn yn cael ein profi'n iawn. Roeddwn wrthi'n egluro pam y byddwn yn ymatal rhag pleidleisio. Roeddwn yn meddwl eich bod yn bwriadu gwneud pwynt adeiladol. Roeddwn yn egluro pam y byddwn yn ymatal rhag pleidleisio ar welliant 7 yn enw Aled Roberts ac yn pleidleisio yn erbyn gwelliant 10 yn enw William Graham, oherwydd Aelodau Seneddol Lloegr ddylai benderfynu ar Filiau i Loegr, nid Cynulliad Cymru. Ni ddylem fod yn croesawu nac yn cydnabod yr hyn y mae Senedd Lloegr yn ei benderfynu, nac yn ychwanegu ato—y Senedd biau'r penderfyniad.

The Social Services and Well-being (Wales) Bill is not perfect, and we on this side will be tabling some amendments to it. However, I will tell you something for nothing: it is our Bill—it is the Social Services and Well-being (Wales) Bill, and that is what we will decide upon. It will be decided in this Chamber by these democratically-elected AMs, not in London. We have no need, therefore, to tug our forelock to the Tory-Lib Dem coalition, or even to the Queen's Speech, with respect. I put on record that I feel desperately sorry for that lady who has to go to the House of Commons every single time to deliver a speech that should be delivered by the Prime Minister of the day.

Nid yw'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn berffaith, a byddwn ni ar yr ochr hon yn cyflwyno rhai newidiadau iddo. Fodd bynnag, dywedaf un peth: ein Bil ni ydyw—Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) ydyw, a dyna'r hyn y byddwn yn penderfynu arno. Bydd yn cael ei benderfynu yn y Siambr hon gan y ACau hynny a etholwyd yn ddemocrataidd, nid yn Llundain. Felly, nid oes angen inni foesymgrymu i glymblaid y Torïaid a'r Democratiaid Rhyddfrydol, na hyd yn oed i Araith y Frenhines, gyda pharch. Hoffwn gofnodi fy mod yn teimlo'n ofnadwy o flin am y wraig honno sy'n gorfod mynd i Dy'r Cyffredin bob tro er mwyn cyflwyno araith a ddylai gael ei chyflwyno gan y Prif Weinidog.

16:46

## Lynne Neagle Bywgraffiad Biography

Despite the supine amendments tabled by Welsh Tories and Lib Dems today, this legislative programme will be remembered for all the wrong reasons. It provides no answers to the economic woes facing this country, and no answers to the Tory backbenchers and activists who are increasingly baying for the blood of the Prime Minister.

Er gwaethaf y gwelliannau llipa a gyflwynwyd gan y Torïaid a'r Democratiaid Rhyddfrydol Cymreig heddiw, bydd y rhaglen ddeddfwriaethol hon yn cael ei chofio am y rhesymau anghywir. Nid yw'n rhoi unrhyw atebion i'r trafferthion economaidd sy'n wynebu'r wlad hon, nac unrhyw atebion i aelodau meinciau cefn ac ymgyrchwyr lleol Torïaidd sy'n ysu'n fwyfwy am waed y Prif Weinidog.

Far from presenting a coherent vision of where they want to take the country, of a Government with bold ambitions to build a better Britain, instead they present us with a paltry hotch-potch of Bills, bereft of anything ground-breaking or truly radical. Make no mistake about it, this was a speech with two main aims: to satisfy the right-wing press and to court those disillusioned Tory voters who are increasingly turning to UKIP in their droves.

Ymhell o gyflwyno gweledigaeth gydlynol o'r cyfeiriad y maent am dywys y wlad iddo, o Lywodraeth ag uchelgeisiau mawr i adeiladu gwell Prydain, maent, yn hytrach, yn cyflwyno rhyw gymysgedd pitw o Filiau, nad ydynt yn cynnwys yr un peth arloesol na gwirioneddol radical. Peidied neb â chamgymryd, roedd hon yn araith ac iddi ddau brif nod: rhyngu bodd y wasg adain dde a cheisio cymeradwyaeth y pleidleiswyr Torïaidd hynny sydd wedi'u dadrithio ac sy'n troi at UKIP yn eu miloedd.

There was a smattering of measures to be welcomed, such as some of the proposals in the draft consumer rights Bill, some of the criminal justice reforms and, of course, the Marriage (Same Sex Couples) Bill, which just this week Labour MPs rescued from the jaws of defeat.

Roedd rhyw ychydig o fesurau i'w croesawu, megis rhai o'r cynigion yn y Bil hawliau defnyddwyr drafft, rhai o'r diwygiadau ym maes cyfiawnder troseddol ac, wrth gwrs, y Bil Priodas (Cyplau o'r Un Rhyw), a achubwyd gan ASau Llafur rhag cael ei wrthod yr wythnos hon.

However, it seems to be the modus operandi of this coalition that, when it gives with one hand, it always takes away far more with the other. So, however laudable its efforts to clarify consumer rights may be, they come on the back of its clumsy decision to abolish Consumer Focus at a time when trading standards teams across the country are being stretched to breaking point because of cuts imposed by Westminster, and when it has singularly failed to tackle rip-off rail fares and sky-rocketing energy prices. So, too, with its initiatives to tackle crime and anti-social behaviour: those efforts will be hampered by the draconian cuts that it has imposed on police forces across the country.

Fodd bynnag, ymddengys mai dull gweithredu'r glymblaid hon yw, pan fydd yn rhoi gydag un llaw, ei bod bob amser yn cymryd llawer mwy â'r llall. Felly, pa mor glodwiw bynnag fo'i hymdrechion i gael eglurder ynglŷn â hawliau defnyddwyr, maent yn dilyn ei phenderfyniad trwsgl i ddiddymu Llais Defnyddwyr ar adeg pan fo timau safonau masnach ledled y wlad o dan bwysau eithafol oherwydd toriadau gan San Steffan, a pan fo wedi methu'n lân â mynd i'r afael â thocynnau trên rhy ddrud a phrisiau ynni bythol gynyddol. Felly, hefyd, gyda'i mentrau i fynd i'r afael â throseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol: bydd yr ymdrechion hynny yn cael eu rhwystro gan y toriadau llym y mae wedi'u gwneud i heddluoedd ledled y wlad.

Even more worryingly, despite the Institute for Fiscal Studies' recent report that gravely predicted that more than 1 million children will be pushed into poverty by 2020 as a direct result of the coalition's policies, there was absolutely nothing in this Queen's Speech that sought to tackle that scourge, which is a sure sign that this UK Government has abandoned the pledge to abolish child poverty by 2020. There were no answers on child poverty and no answers for Wales, whatever the Secretary of State may say.

Yr hyn sy'n peri hyd yn oed mwy o bryder, er gwaethaf adroddiad diweddar y Sefydliad ar gyfer Astudiaethau Cyllid a ragwelwyd yn arswydus y bydd mwy na miliwn o blant mewn tlodi erbyn 2020 o ganlyniad uniongyrchol i bolisïau'r glymblaid, yw nad oedd dim yn Araith y Frenhines a oedd yn ceisio mynd i'r afael â'r felltith honno, sy'n arwydd sicr bod y Llywodraeth hon wedi rhoi'r gorau i'r addewid i ddileu tlodi plant erbyn 2020. Nid oedd unrhyw atebion ar dlodi plant nac unrhyw atebion i Gymru, beth bynnag a ddywed yr Ysgrifennydd Gwladol.

This was a Queen's Speech of a Government totally detached from the everyday concerns of households up and down this country. It provides no solutions for the families and individuals whose living standards are being squeezed, who are being hammered, Angela Burns, by welfare reform, who are facing pressure just to put food on the table and pay for the energy to heat their homes. Instead of action to help hard-up households in Wales, all we get is a grubby measure to restore a clear injustice that will see candidates rejected at the ballot box gain entry to this Assembly's Chamber via the back door.

Roedd hon yn Araith y Frenhines gan Lywodraeth sydd wedi'i datgysylltu'n llwyr oddi wrth bryderon bob dydd aelwydydd ar hyd a lled y wlad hon. Nid yw'n rhoi unrhyw atebion i'r teuluoedd na'r unigolion y mae eu safonau byw yn cael eu gwasgu, sydd o dan y lach, Angela Burns, oherwydd y diwygiadau lles, sy'n wynebu anhawster i roi bwyd ar y bwrdd a thalu am yr ynni i wresogi eu cartrefi. Yn hytrach na gweithredu i helpu cartrefi mewn cyni yng Nghymru, y cyfan a gawn yw mesur gwrthun i adfer anghyfiawnder amlwg a fydd yn gweld ymgeiswyr a wrthodwyd yn y blwch pleidleisio yn cael mynediad i Siambr y Cynulliad hwn drwy'r drws cefn.

There is no doubt that the draft Wales Bill—this loser's charter—will be welcomed by the opposition parties in Wales, which have failed to strengthen their network of candidates and party activists despite nearly a decade and a half of devolution.

Nid oes unrhyw amheuaeth na fydd y Bil Cymru drafft—siarter i'r rhai sydd wedi colli—yn cael ei groesawu gan y gwrthbleidiau yng Nghymru, sydd wedi methu â chryfhau eu rhwydwaith o ymgeiswyr ac ymgyrchwyr plaid er gwaethaf bron ddegawd a hanner o ddatganoli.

16:49 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

16:49 **Lynne Neagle** Bywgraffiad Biography

Go on, then.

O'r gorau.

16:49 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

I was just wondering whether there are any Members on your own benches who also welcome the so-called 'loser's charter'?

Roeddwn yn meddwl tybed a oes unrhyw Aelodau ar eich meinciau eich hun sydd hefyd yn croesawu 'siarter i'r rhai sydd wedi colli' fel y'i gelwir?

16:49 **Lynne Neagle** Bywgraffiad Biography

As you know, we abolished that policy. It will be interesting to see where you end up standing, Eluned Parrott, in the next Assembly elections. I will put some money on it personally—

Fel y gwyddoch, diddymwyd y polisi hwnnw gennym. Bydd yn ddiddorol gweld ym mhle y byddwch yn sefyll, Eluned Parrott, yn etholiadau nesaf y Cynulliad. Byddaf yn rhoi rhywfaint o arian arno'n bersonol—

16:49 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

16:49 **Lynne Neagle** Bywgraffiad Biography

Go on, then.

O'r gorau.

16:49 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Does the Member join me in regretting the failure of the UK Government to stop people from double-jobbing as councillors and Assembly Members?

A yw'r Aelod ymuno â mi i resynu at fethiant Llywodraeth y DU i atal pobl rhag bod yn gynghorwyr ac yn Aelodau'r Cynulliad?

16:49 **Lynne Neagle** Bywgraffiad Biography

Absolutely. It is a job half done, as usual. It smacks of the kind of gerrymandering that we saw from the coalition when it tried to stitch up constituency boundaries. Is it not telling that the Tories are so wedded to Thatcherite ideology that they are pushing forward proposals to impose competition in the water market in the very Queen's Speech that does nothing to sort out the mess that they created with our other privatised utilities, which are delivering huge profits for shareholders without delivering tangible benefits for consumers? I applaud the Welsh Government for so quickly rejecting an approach that would jeopardise our Welsh mutual model for water supply, which is serving Welsh consumers well.

Gwnaf, yn wir. Dim ond hanner y gwaith sydd wedi ei wneud, yn ôl yr arfer. Mae'n arwydd o'r math o gyffindwyllo a welsom gan y glymblaid pan geisiodd chwarae â ffiniau etholaethau. Onid yw'n arwyddocaol bod y Torïaid mor gaeth i ideoleg Thatcheraidd fel eu bod yn cyflwyno cynigion ynglŷn â chystadleuaeth yn y farchnad dŵr yn yr union Araith nad yw'n gwneud dim i unioni'r llanastr a grëwyd ganddynt gyda'n cyfleustodau eraill a breifateiddiwyd, sy'n gwneud elw enfawr i gyfranddalwyr heb gynnig unrhyw fanteision amlwg i ddefnyddwyr? Cymeradwyaf Lywodraeth Cymru am ymwrthod mor ddibetrus â dull gweithredu a fyddai'n peryglu ein model cydfuddiannol yng Nghymru ar gyfer cyflenwi dŵr, sy'n rhoi gwasanaeth da i ddefnyddwyr yng Nghymru.

*Daeth y Diprwy Lywydd i'r Gadair am 4.50 p.m.*

*The Deputy Presiding Officer took the Chair at 4.50 p.m.*

16:50 **Lynne Neagle** Bywgraffiad Biography

To top it off, we are forced to witness another flashback from 20 years ago, which we could, frankly, all do without, and that is the unedifying spectacle of the Tory party again tearing itself apart on Europe because its leadership is as disjointed from its members and activists as it is from the population at large. I will avoid restating all those economic arguments as to why Britain, and Wales in particular, should remain part of the European Union, but does it not just show the recklessness of the Tory party that it is obsessed with leaving the EU at a time when our energy should be focused on preserving a union far closer to home?

Ar ben hynny, rydym yn gorfod gwylio unwaith eto olygfa o 20 mlynedd yn ôl, rhywbeth na fyddai neb yn chwennych ei weld, a dweud y gwir, sef yr olygfa warthus o'r blaid Dorïaidd unwaith eto yn rhwygo ei hun dros Ewrop am fod ei harweinyddiaeth wedi'i datgysylltu cymaint oddi wrth ei haelodau a'i hymgyrchwyr ag y mae wedi'i datgysylltu oddi wrth y boblogaeth yn gyffredinol. Ceisiaf osgoi ailddatgan yr holl ddadleuon economaidd hynny ynghylch pam y dylai Prydain, a Chymru yn benodol, barhau'n rhan o'r Undeb Ewropeaidd, ond onid yw'n dangos dihidrwydd y blaid Dorïaidd fod ganddi obsesiwn â gadael yr UE ar adeg pan ddylem fod yn canolbwyntio ar gadw undeb y Deyrnas Unedig?

Look back at those speeches from the early years of the last Labour Government and what it delivered: Bank of England independence, a national minimum wage, the banning of handguns, the Freedom of Information Act 2000, the abolition of hereditary peers, and devolution for Wales, Scotland and Northern Ireland—

Edrychwch yn ôl ar yr areithiau hynny o flynyddoedd cynnar y Llywodraeth Lafur ddiwethaf a'r hyn a gyflawnodd: annibyniaeth Banc Lloegr, yr isafswm cyflog cenedlaethol, gwahardd drylliau llaw, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, diddymu arglwyddi etifeddol, a datganoli i Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon—

16:51 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Conclude now, please.

Gorffennwch yn awr, os gwelwch yn dda.

16:51 **Lynne Neagle** Bywgraffiad Biography

I did take some interventions.

Derbyniais rai ymyriadau.

16:51 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

I know, and you have been allowed time.

Gwn, ac rydych wedi cael amser ychwanegol.

16:51 **Lynne Neagle** Bywgraffiad Biography

David Cameron once described himself as the heir to Blair, but this Queen's Speech puts the final nail in the coffin of that empty claim—

Dywedodd David Cameron unwaith mai ef yw etifedd Blair, ond llwyddodd Araith y Frenhines eleni roi'r hoelen olaf yn arch yr honiad gwag hwnnw—

16:51 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Thank you. I am keen to call Ann Jones.

Diolch. Rwy'n awyddus i alw ar Ann Jones.

16:51 **Ann Jones** Bywgraffiad Biography

Thank you very much, Deputy Presiding Officer. I am pleased to take a few minutes to contribute to this debate. A lot of what I was going to say has already been covered by my colleagues on these benches, so I want to address my contribution directly to the Secretary of State. I hope that the Secretary of State will pay me the courtesy of listening, as I listened to him. Obviously not. There you go.

Diolch yn fawr iawn, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n falch o gael ychydig funudau i gyfrannu at y ddadl hon. Mae llawer o'r hyn yr oeddwn yn bwriadu ei ddweud eisoes wedi cael ei drafod gan fy nghyd-Aelodau ar y meinciau hyn, felly hoffwn gyfeirio fy nghyfraniad yn uniongyrchol at yr Ysgrifennydd Gwladol. Gobeithio y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol mor garedig â gwrando arnaf, gan i mi wrando arno ef. Ni fydd, mae'n amlwg. Dyna chi.

16:52 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Order. That is no way to speak to a guest who is here for a very specific and important debate. I can assure you that the Secretary of State is listening and he will be called to reply.

Trefn. Nid dyna'r ffordd i siarad â gwestai sydd yma ar gyfer dadl benodol a phwysig iawn. Gallaf eich sicrhau bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn gwrando a bydd yn cael ei alw i ymateb.

16:52 **Ann Jones** Bywgraffiad Biography

Okay, thank you.

O'r gorau, diolch.

The last Labour Government brought in the Government of Wales Act 2006. I know full well the shortcomings of the legislative competence Order process, but that change allowed the first Welsh laws to be made and sought to develop the Assembly so that we could change laws and make good laws for our constituents. So, I think that it is fair that we should be able to ask what the current UK Government's priorities are for Wales. I believe that its objectives are not aimed at strengthening this institution. Rather, the draft Wales Bill is a cynical Bill, aimed at gerrymandering an electoral process and making very minor changes to the electoral cycle. Perhaps the most bewildering proposal, as has already been mentioned, is that which would see candidates who are firmly rejected by voters allowed a back-door entry into this Chamber through the regional list.

Cyflwynodd y Llywodraeth Lafur ddiwethaf Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Rwy'n ymwybodol iawn o ddiffygion y broses gorchmynion cymhwysedd deddfwriaethol, ond drwy'r newid hwnnw caniatawyd i'r deddfau cyntaf gael eu pasio yng Nghymru a cheisiwyd datblygu'r Cynulliad fel y gallem newid cyfreithiau a llunio deddfau da i'n hetholwyr. Felly, credaf ei bod yn deg ein bod yn gallu gofyn beth yw blaenoriaethau Llywodraeth bresennol y DU i Gymru. Ni chredaf fod ei hamcanion wedi'u hanelu at gryfhau'r sefydliad hwn. Yn hytrach, Bil sinigaidd yw'r Bil Cymru drafft, gyda'r nod o gyffindwyllo proses etholiadol a gwneud newidiadau mân iawn i'r cylch etholiadol. Efallai mai'r cynnig mwyaf dryslyd, fel y crybwyllwyd eisoes, yw'r un lle y byddai ymgeiswyr sy'n cael eu gwrthod yn bendant gan bleidleiswyr yn cael mynediad i'r Siambr hon drwy'r drws cefn drwy'r rhestr ranbarthol.

16:53

## Nick Ramsay Bywgraffiad Biography

Thank you for giving way. Are you saying that Joyce Watson AM has come into the Assembly through the back door?

Diolch am ildio. A ydych yn dweud bod Joyce Watson AC wedi cyrraedd y Cynulliad drwy'r drws cefn?

16:53

## Ann Jones Bywgraffiad Biography

No, because Joyce Watson stood on the list and took her seat as a list Member. You know full well what I am talking about; I am talking about what happened in Clwyd West, the Secretary of State's Westminster constituency, where the Labour Member won and then all the other main party candidates who stood against him appeared here as lucky losers. [Interruption.] That was the case in Delyn too, I am told; yes, that is good. It is clear that the Wales Office has no grand plan to further or strengthen devolution. It is much more interested in making small changes to our electoral system, which is hardly the stuff of dreams and high aspirations.

Na, am fod Joyce Watson wedi sefyll ar y rhestr ac wedi cymryd ei sedd fel Aelod rhestr. Rydych yn gwybod yn iawn beth rwyf yn sôn amdano; sôn yr wyf am yr hyn a ddigwyddodd yng Ngorllewin Clwyd, etholaeth yr Ysgrifennydd Gwladol yn San Steffan, lle enillodd yr Aelod Llafur ac yna ymddangosodd ymgeiswyr yr holl brif bleidiau eraill a safodd yn ei erbyn yma fel collwyr lwcus. [Torri ar draws.] Digwyddodd hynny yn Nelyn hefyd, yn ôl yr hyn a ddeallaf, ydy, mae hynny'n dda. Mae'n amlwg nad oes gan Swyddfa Cymru unrhyw gynllun mawr i hyrwyddo na chryfhau datganoli. Yr hyn sydd o ddiddordeb iddi yw gwneud mân newidiadau i'n system etholiadol, a go brin fod hynny yn gwireddu breuddwydion a dyheadau mawr.

16:54

## Peter Black Bywgraffiad Biography

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

16:54

## Ann Jones Bywgraffiad Biography

No, I am sorry, because I want to get on to the main points about what the Secretary of State does not do, or does well.

Na, mae'n ddrwg gennyf, oherwydd rwyf am fynd at y prif bwyntiau ynghylch yr hyn nad yw'r Ysgrifennydd Gwladol yn ei wneud, nac yn ei wneud yn dda.

Secretary of State, your comments over the past few weeks have ranged from the fanciful to the ludicrous. Your comments around the Domestic Fire Safety (Wales) Measure 2011 are particularly dangerous and incorrect. You and your Cabinet colleague Pickles have spoken about the burden of regulation on house builders in Wales. At your political conference—I am pleased that you managed to hold one this year, because it would have looked totally embarrassing to have cancelled two on the trot—you described the sprinklers law as 'generally derided'. Secretary of State, let me tell you: during that process all the Members from your party here never once voted against this law. They see the benefits of this Measure. I only wish that they could convince you of its benefits.

Ysgrifennydd Gwladol, mae eich sylwadau yn ystod yr ychydig wythnosau diwethaf wedi amrywio o sylwadau ffansïol i sylwadau chwerthinllyd. Mae eich sylwadau ynglŷn â Mesur Diogelwch Tân Domestig (Cymru) 2011 yn arbennig o beryglus ac yn anghywir. Rydych chi a'ch cyd-Weinidog yn y Cabinet, Pickles, wedi sôn am y baich rheoleiddio ar adeiladwyr tai yng Nghymru. Yn eich cynhadledd wleidyddol—rwy'n falch ichi lwyddo i gynnal un eleni, oherwydd byddai wedi bod yn embaras llwyr gorfod canslo dau o'r bron—dywedasoch fod y gyfraith ynglŷn â systemau chwistrellu yn destun gwatwar yn gyffredinol. Ysgrifennydd Gwladol, gadewch imi ddweud wrthych: yn ystod y broses honno nid oes yr un Aelod o'ch plaid yma erioed wedi pleidleisio yn erbyn y gyfraith hon. Gwelant fanteision y Mesur hwn. Mae'n drueni na allent eich argyhoeddi chithau o'i fanteision.

16:55 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

I did not vote for it.

Ni phleidleisiais o'i blaid.

16:55 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Nor did I.

Na minnau ychwaith.

16:55 **Ann Jones** Bywgraffiad Biography

No, you did not, because you were not here, but your party did. I know that some Members of your party feel highly embarrassed by the comments made by the Secretary of State.

Na, ni wnaethoch, am nad oeddech yma, ond pleidleisiodd eich plaid o'i blaid. Gwn fod rhai aelodau o'ch plaid yn teimlo cywilydd mawr ynglŷn â'r sylwadau a wnaed gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

I now publicly challenge you, Secretary of State, because I have written to you privately, asking you to meet, and you will not. So, in the Chamber of the Senedd, I publicly challenge you to tell me that those figures are the right figures. I want to know where you have had them from and why you have not had the decency to reply to me so that I can talk to you about the benefits of domestic fire sprinklers.

Rwy'n eich herio'n gyhoeddus yn awr, Ysgrifennydd Gwladol, oherwydd rwyf wedi ysgrifennu atoch yn breifat, yn gofyn am gyfarfod â chi, ac nid ydych yn fodlon gwneud hynny. Felly, yn Siambr y Senedd, rwy'n eich herio yn gyhoeddus ichi ddweud wrthyf mai'r ffigurau hynny yw'r ffigurau cywir. Rwyf am wybod lle y'u cawsoch a pham nad ydych wedi bod cystal ag ymateb imi fel y gallaf drafod manteision systemau chwistrellu yn y cartref gyda chi.

Do you have a power shower in your home? I do not hear builders talking about not putting power showers in, but a power shower will cost the same as a life-saving sprinkler. Are you going to tell me that perhaps I should have a power shower installed in my new home and run and jump into it when there is a fire in my building? I hope that you are not going to say that.

A oes gennych gawod bŵer yn eich cartref? Nid wyf yn clywed adeiladwyr yn sôn am beidio â gosod cawodydd pŵer mewn cartrefi, ond bydd cawod bŵer yn costio'r un fath â system chwistrellu a all achub bywydau. A fyddech yn dweud wrthyf efallai y dylwn osod cawod bŵer yn fy nghartref newydd a neidio i mewn iddi pan fo tân yn fy adeilad? Gobeithio na ddywedwch hynny.

I believe that you have got your job description wrong. Your job is to represent Wales in the UK Government cabinet. You are a former Member of this Assembly and, therefore, you should understand devolution. The devolution settlement allowed this Assembly to unanimously pass the fire sprinkler law. It is not in your gift to interfere, and if you have nothing but untruths and fanciful words to say about sprinklers, you should do the decent thing and keep quiet.

Credaf eich bod wedi cael eich swydd ddisgrifiad yn anghywir. Eich tasg chi yw cynrychioli Cymru yng nghabinet Llywodraeth y DU. Rydych yn gyn-Aelod o'r Cynulliad hwn ac, felly, dylech ddeall datganoli. Drwy'r setliad datganoli y caniatawyd i'r Cynulliad hwn basio'r gyfraith ar systemau chwistrellu rhag tân yn unfrydol. Nid eich lle chi yw ymyrryd, ac os nad oes gennych ddim ond anwireddau a geiriau ffansïol i'w dweud am systemau chwistrellu, dylech wneud y peth iawn ac yn cadw'n dawel.

16:56 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Wales in Britain is in a global race to succeed. We have to change to ensure not just our prosperity, but also our public services on which we depend, and even our way of life. Regrettably, the post-imperialists of the left believe that the world owes them a living as the world leaves them behind. They seek to fix the blame; we seek to fix the problem. Brown, Balls and Miliband broke the economic cycle by increasing borrowing in the good times. As everyone who has tried it knows, if you have high debts and try to borrow more, the lenders will either set punishing terms or say 'no'. The UK coalition Government inherited the biggest peacetime budget deficit in a century—larger even than that of Greece and the largest of any major economy. However, public debt as a percentage of GDP is now higher in the high-debt nations that continued to increase their deficits—the policy that they advocate—until the inevitable bust, bail-out and pain.

Mae Cymru ym Mhrydain mewn ras fyd-eang i lwyddo. Rhaid inni newid er mwyn sicrhau nid yn unig ein ffyniant, ond hefyd ein gwasanaethau cyhoeddus yr ydym yn dibynnu arnynt, a hyd yn oed ein ffordd o fyw. Yn anffodus, mae'r ôl-imperialwyr ar y chwith yn credu y dylai'r byd roi bywoliaeth iddynt wrth i'r byd eu gadael ar ôl. Eu nod yw rhoi'r bai; ein nod ninnau yw datrys y broblem. Torrodd Brown, Balls a Miliband y cylch economaidd drwy fenthyca mwy yn ystod yr amseroedd da. Fel y gŵyr pawb sydd wedi ceisio gwneud hynny, os bydd gennych ddyledion mawr a'ch bod yn ceisio benthyg mwy, bydd y benthycwyr naill ai'n gosod telerau llym neu'n dweud 'na'. Etifeddodd Llywodraeth glymblaid y DU y diffyg cyllidebol mwyaf mewn cyfnod o heddwch ers canrif—hyd yn oed yn fwy na Gwlad Groeg a'r diffyg mwyaf o blith unrhyw economi fawr. Fodd bynnag, mae dyled gyhoeddus fel canran o CMC bellach yn uwch yn y gwledydd a chanddynt ddyledion mawr a barhaodd i gynyddu eu diffygion—y polisi y maent yn dadlau o'i blaid—nes bod methiant anochel, pecyn achub a phoen.

UK Treasury policy has kept us off the economic rocks and established firm foundations for recovery. Defying the doomsayers, UK GDP increased more than expected in the first quarter of 2013. Revised Office of National Statistics growth estimates are now even casting doubt on whether the UK had a double-dip recession last year. The outgoing Bank of England governor has now announced a 'welcome change in the economic outlook' and predicted stronger growth than forecast.

Mae polisi Trysorlys y DU wedi ein cadw rhag y creigiau economaidd ac wedi sefydlu sylfeini cadarn dros adferiad. Er gwaethaf yr holl ddrwg argoelion, cynyddodd CMC y DU fwy na'r disgwyl yn ystod chwarter cyntaf 2013. Mae amcangyfrifon twf diwygiedig y Swyddfa Ystadegau Gwladol hyd yn oed yn awr yn bwrw amheuaeth pa un a gafodd y DU ddirwasgiad dwbl y llynedd. Mae llywodraethwr Banc Lloegr sydd ar fin gadael bellach wedi cyhoeddi newid i'w groesawu yn y rhagolygon economaidd gan ragweld twf cryfach na'r hyn a ragwelwyd.

Contrast this with the situation in France, which, a year ago, elected a socialist President who promised to replace austerity with growth. France is now back in recession, its second in four years. Greece has overturned a constitutional guarantee of civil servant jobs for life, which will lead to huge civil service job cuts. Unemployment is at 7.8% in the UK and 8.2% in Wales, whereas Greece and Spain are suffering unemployment rates over three times higher. Youth unemployment rates in Greece and Spain are reaching 50%, more than twice the rates here. Listen Wales, because these are the policies that they advocate that we follow, and this is what those policies deliver. One in three working-age people in Wales were workless under Welsh and UK Labour Governments prior to the last UK general election, double the UK average, but the number has fallen by 50,000 since the change of UK Government.

Rhaid cyferbynnu hynny â'r sefyllfa yn Ffrainc, a etholodd Lywydd sosialaidd, flwyddyn yn ôl, a addawodd gyflwyno twf yn lle llymder. Mae Ffrainc bellach mewn dirwasgiad unwaith eto, ei ail mewn pedair blynedd. Mae Gwlad Groeg wedi gwrthdroi gwarant gyfansoddiadol o swydd am oes i weision sifil, a fydd yn arwain at dorri niferoedd enfawr o swyddi yn y gwasanaeth sifil. Mae diweithdra yn 7.8% yn y DU ac 8.2% yng Nghymru, tra bod gan Wlad Groeg a Sbaen gyfraddau diweithdra dros dair gwaith yn uwch. Mae cyfraddau diweithdra ymhlith pobl ifanc yng Ngwlad Groeg a Sbaen yn cyrraedd 50%, sy'n fwy na dwywaith y cyfraddau yma. Gwrandewch Gymru, oherwydd dyma'r polisïau y maent yn dadlau y dylem eu dilyn, a dyna'r hyn y mae'r polisïau hynny yn ei gyflawni. Roedd un o bob tri o oedran gweithio yng Nghymru yn ddi-waith o dan Lywodraethau Lafur Cymru a'r DU cyn etholiad cyffredinol diwethaf y DU, ddwywaith yn fwy na chyfartaledd y DU, ond mae'r nifer wedi gostwng 50,000 ers newid Llywodraeth y DU.

16:59 **Kenneth Skates** Bywgraffiad Biography

I thank the Member for giving way. I am glad that he raised the issue of France, because it recently signed into law equal marriage. Do you agree with the French and your Prime Minister David Cameron on this issue or do you agree with your Secretary of State?

Diolch i'r Aelod am ildio. Rwy'n falch iddo grybwyll Ffrainc, gan ei bod yn ddiweddar, wedi deddfu i ganiatáu priodas gyfartal. A ydych yn cytuno â Ffrainc a'ch Prif Weinidog David Cameron ar y mater hwn neu a ydych yn cytuno â'ch Ysgrifennydd Gwladol?

16:59 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

I believe that churches, as the legislation suggests, should have the freedom to opt in, rather than to opt out.

Credaf y dylai eglwysi, fel yr awgryma'r ddeddfwriaeth, gael y rhyddid i ddewis eu heithrio eu hunain, yn hytrach na gorfod gofyn am eithriad.

The Queen's Speech is all about backing people who want to get on in life. The UK spends a higher proportion of its national output on disability benefits than France, Germany, Italy, Spain, the US, Japan or any other Organisation for Economic Co-operation and Development country, apart from Norway or Iceland. This UK Government has already made income tax fairer, as we have heard, and understood the need for economic stimulus developed with the house-building sector rather than in isolation from it, as in Wales. NHBC figures confirm that new home building this year in Wales is lagging behind the UK, and from a lower base. Crime is down by 9% in Wales, and this is all being done by cutting a third of Labour's deficit.

Mae Araith y Frenhines yn ymwneud â chefnogi pobl sydd am ddod ymlaen mewn bywyd. Mae'r DU yn gwario cyfran uwch o'i hallbwn cenedlaethol ar fudd-daliadau anabledd na Ffrainc, yr Almaen, yr Eidal, Sbaen, yr Unol Daleithiau, Japan neu unrhyw wlad arall sy'n rhan o'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygu Economaidd, ar wahân o Norwy neu Wlad yr Iâ. Mae Llywodraeth bresennol y DU eisoes wedi gwneud treth incwm yn decach, fel y clywsom, ac yn deall yr angen am ysgogiad economaidd a ddatblygwyd gyda'r sector adeiladu tai yn hytrach nag ar wahân iddo, fel yng Nghymru. Mae ffigurau'r Cyngor Cenedlaethol Adeiladu Tai yn cadarnhau bod nifer y cartrefi a adeiledir yng Nghymru ar ei hôl hi o gymharu â'r DU, ac o sylfaen is. Mae troseddau wedi gostwng 9% yng Nghymru, ac mae hyn i gyd yn cael ei wneud drwy dorri un rhan o dair o ddiffyg Llafur.

The national insurance contributions Bill will help small businesses and help to create jobs. The Energy Bill will enable consumers, via Ofgem, to get on the best energy tariff and provide clearer and simpler information on Bills. The deregulation Bill will remove burdens on business, civil society, public bodies and individuals to boost growth. It is regrettable that we have not seen comparable action by this Welsh Labour Government.

Bydd y Bil cyfraniadau yswiriant gwladol yn helpu busnesau bach ac yn helpu i greu swyddi. Bydd y Bil Ynni yn galluogi defnyddwyr, drwy Ofgem, i gael y tariff ynni gorau ac yn darparu gwybodaeth gliriach a symlach ar filiau. Bydd y Bil dadreoleiddio yn dileu'r beichiau ar fusnes, cymdeithas sifil, cyrff cyhoeddus ac unigolion er mwyn hybu twf. Mae'n drueni nad ydym wedi gweld camau tebyg gan Lywodraeth Lafur Cymru.

The draft consumer rights Bill will enhance consumer protection. Is Citizens Advice not doing a great job in taking over the previous functions of Consumer Focus? [Assembly Members: 'Yes'.]

Bydd y Bil hawliau defnyddwyr drafft yn gwella diogelwch defnyddwyr. Onid yw Cyngor ar Bopeth yn gwneud gwaith gwych wrth ymgymryd â swyddogaethau blaenorol Llais Defnyddwyr? [Aelodau'r Cynulliad: 'Ydy']

The Care Bill will protect pensioners and carers in England from catastrophic bills, capping care costs and extending the threshold for financial assistance. Age Cymru has called on the Welsh Government to bring forward details of equivalent reforms in Wales at the earliest opportunity, but the Welsh Government has only indicated that it will develop proposals over the next 12 months. When I questioned the First Minister over this last week, he only said that the Welsh Government

Bydd y Bil Gofal yn amddiffyn pensiynwyr a gofalwyr yn Lloegr rhag biliau trychinebus, yn capio costau gofal ac yn ymestyn y trothwy ar gyfer cymorth ariannol. Mae Age Cymru wedi galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno manylion am ddiwygiadau cyfatebol yng Nghymru ar y cyfle cyntaf, ond mae Llywodraeth Cymru ond wedi nodi y bydd yn datblygu cynigion dros y 12 mis nesaf. Pan holais y Prif Weinidog yn ystod yr wythnos diwethaf, dywedodd y bydd Llywodraeth Cymru

'will keep a close eye on the Care Bill in England.'

yn cadw llygad barcud ar y Bil Gofal yn Lloegr.

Once again, Wales is being left behind.

Unwaith eto, mae Cymru yn cael ei gadael ar ei hôl hi.

The Anti-social Behaviour, Crime and Policing Bill will ensure an effective response to anti-social behaviour, empower victims, encourage responsible dog ownership, tackle illegal firearms and protect victims of forced marriage. The Offender Rehabilitation Bill will tackle persistent reoffending by dealing with its causes. Under Labour, approximately three-quarters of prisoners under 25, and two-thirds of adult prisoners were reconvicted within two years of release. This revolving-door system of justice must be addressed. Is it too much to hope that the two socialist parties here will, at last, stop putting their knee-jerk political protests against everything that the UK coalition Government does before the interests of the people of Wales? [Assembly Members: 'Hear, hear'.]

Bydd y Bil Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona yn sicrhau ymateb effeithiol i ymddygiad gwrthgymdeithasol, yn grymuso dioddefwyr, yn annog perchnogaeth gyfrifol o gŵn, yn mynd i'r afael â drylliau anghyfreithlon ac yn diogelu dioddefwyr priodas dan orfod. Bydd y Bil Adsefydlu Troseddwyr yn mynd i'r afael ag aildroseddu mynych drwy ymdrin â'i achosion. O dan Lafur, roedd tua thri chwarter y carcharorion o dan 25 oed, a dwy ran o dair o garcharorion a oedd yn oedolion yn cael eu hailgollfarnu o fewn dwy flynedd o gael eu rhyddhau. Rhaid mynd i'r afael â'r system cyfiawnder hon lle mae pobl yn mynd o'i hamgylch mewn cylchoedd. A yw'n ormod gobeithio y bydd y ddwy blaid sosialaidd yma, o'r diwedd, yn rhoi'r gorau i wneud eu protestiadau gwleidyddol greddfol yn erbyn popeth y mae Llywodraeth glymblaid y DU yn ei wneud ar draul buddiannau pobl Cymru? [Aelodau'r Cynulliad: 'Clywch, clywch']

17:02 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

I invite the Secretary of State for Wales to respond.

Gofynnaf i Ysgrifennydd Gwladol Cymru ymateb.

17:02 **David Jones**

*Ysgrifennydd Gwladol Cymru / The Secretary of State for Wales*

Thank you, Mr Deputy Presiding Officer. I thoroughly enjoyed the debate. For me, it is a return to a time, 10 years ago, when I was a Member of this Assembly, albeit in the far less salubrious surroundings of Tŷ Hywel, just at the back of this impressive Assembly Chamber.

Diolch ichi, Ddirprwy Lywydd. Mwynheais y ddadl yn fawr iawn. I mi, mae'n dychwelyd at gyfnod, 10 mlynedd yn ôl, pan oeddwn yn Aelod o'r Cynulliad hwn, er ei fod o fewn amgylchedd llawer llai moethus Tŷ Hywel, yn union y tu ôl i'r Siambr drawiadol hon.

I was very pleased that all of the principal contributors to the debate—the principal spokespeople for their respective parties—acknowledged that the priority of Government, both here and in Westminster, must be to address the economic crisis that has now been raging since 2007. I was very pleased indeed to hear that, particularly from the Minister for Local Government and Government Business. I was also pleased to see her acknowledge that we are in an internationally significant global race. To that extent, it is good to see that the Welsh Government and the United Kingdom Government are singing from the same hymn sheet. I am sure that she would agree that she and her colleagues in the Welsh Government are anxious to work closely with us to ensure that Wales achieves that degree of economic prosperity that I know that all of us in the Chamber want.

Roeddwn yn falch iawn i bob un o'r prif gyfranwyr i'r ddadl —y prif lefarwyr dros eu priod bleidiau—gydnabod mai blaenoriaeth y Llywodraeth, yma ac yn San Steffan, yw mynd i'r afael â'r argyfwng economaidd sydd bellach wedi bod ar droed ers 2007. Roeddwn yn falch iawn o glywed hynny, yn enwedig gan Weinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth. Roeddwn hefyd yn falch o'i gweld yn cydnabod ein bod mewn ras fyd-eang o bwys rhyngwladol. I'r graddau hynny, mae'n braf gweld bod Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn canu o'r un llyfr emynau. Rwy'n siŵr y byddai'n cytuno ei bod hi a'i chyd-Aelodau yn Llywodraeth Cymru yn awyddus i weithio'n agos gyda ni i sicrhau bod Cymru yn cyrraedd y lefel o ffyniant economaidd y gwn fod pob un ohonom yn y Siambr yn dymuno ei weld.

The leader of Plaid Cymru also acknowledged the importance of the economy. She asked a question, which I was not sure was philosophical or not, which was why I am here. I am here, of course, because section 33 of the Government of Wales Act 2006 requires that I should be here. It is a great pleasure to be here and I look forward to making many more visits in the future.

Cydnabu arweinydd Plaid Cymru hefyd bwysigrwydd yr economi. Gofynnodd gwestiwn, nad wyf yn siŵr a oedd yn un athronyddol ai peidio, sef pam rwyf yma. Rwyf yma, wrth gwrs, oherwydd bod adran 33 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn ei gwneud yn ofynnol imi fod yma. Mae'n bleser mawr cael bod yma ac edrychaf ymlaen at lawer mwy o ymweliadau yn y dyfodol.

I was particularly pleased with one point that she raised, which I would like to touch upon, namely the importance of a prison in north Wales. She is absolutely right; it is a scandal that there is no accommodation for prisoners in the whole of north Wales. The Wales Office is actively working on this, alongside the Ministry of Justice, and I hope that we will see a prison for Welsh prisoners in north Wales in the relatively near future.

Roeddwn yn arbennig o falch am un pwynt a godwyd ganddi, yr hoffwn gyfeirio ato, sef pwysigrwydd carchar yn y gogledd. Mae'n llygad ei lle; mae'n sgandal nad oes lle i garcharorion drwy'r gogledd cyfan. Mae Swyddfa Cymru wrthi'n gweithio ar hyn, ochr yn ochr â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, a gobeithiaf y byddwn yn gweld carchar ar gyfer carcharorion o Gymru yn y gogledd yn y dyfodol cymharol agos.

She mentioned an issue that was mentioned by other speakers, namely the absence of what she called a 'government of Wales' Bill. Well, of course, there is a draft Wales Bill that will be appearing in this session. As she rightly says, that is primarily there to cover certain narrow points relating to the devolution settlement as we have it at the moment. However, let me be absolutely clear: that Bill can be added to, should the recommendations of part 1 of the Silk commission be accepted by the United Kingdom Government. In that regard, I repeat that an announcement will be made in the very near future.

Soniodd am fater a grybwyllwyd gan siaradwyr eraill, sef diffyg yr hyn a alwodd yn Fil 'llywodraeth Cymru'. Wel, wrth gwrs, mae Bil drafft i Gymru a fydd yn ymddangos yn y sesiwn hon. Fel y mae'n ei ddweud, prif nod y Bil yw ymdrin â rhai pwyntiau cul yn ymwneud â'r setliad datganoli sydd gennym ar hyn o bryd. Fodd bynnag, gadewch imi fod yn gwbl glir: mae modd ychwanegu at y Bil, pe bai Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn derbyn argymhellion rhan 1 o gomisiwn Silk. Yn hynny o beth, dywedaf eto y bydd cyhoeddiad yn cael ei wneud yn y dyfodol agos iawn.

The leader of the Liberal Democrats again supported the notion that the economy is at the top of the agenda. I was pleased to see the general welcome for the measures that her colleagues at Westminster—and we—are bringing forward under this Queen's Speech. Although she speculates about what discussions went on in Cabinet, I am afraid that I am unable to divulge that here today, any more than I would expect Danny Alexander to divulge those matters either. She also referred to the issue of borrowing powers, and this was an announcement that Jane Hutt, Danny Alexander and I made back in October. It is important that the Welsh Government should have borrowing powers, and I am glad to say that that announcement confirmed that, subject to there being an appropriate income stream. There may well be further announcements on that in due course.

Cefnogodd arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol unwaith eto y syniad bod yr economi ar frig yr agenda. Roeddwn yn falch o weld y croeso cyffredinol i'r mesurau y mae ei chyd-Aelodau yn San Steffan—a ninnau—yn eu cyflwyno o dan Araith y Frenhines eleni. Er iddi ddyfalu am y trafodaethau a aeth rhagddynt yn y Cabinet, ni allaf ddatgelu hynny yma heddiw, mae arnaf ofn, fwy nag y byddwn yn disgwyl i Danny Alexander ddatgelu'r materion hynny ychwaith. Cyfeiriodd hefyd at bwerau benthyca, ac roedd hyn yn gyhoeddiad a wnaeth Jane Hutt, Danny Alexander a minnau yn ôl ym mis Hydref. Mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru yn cael pwerau benthyca, ac rwy'n falch o ddweud i'r cyhoeddiad hwnnw gadarnhau hynny, ar yr amod bod llif incwm priodol. Mae'n bosibl y bydd cyhoeddiadau pellach ar hynny maes o law.

I was very pleased to receive a supportive speech from my friend Andrew Davies, the leader of the opposition. It was good to see again that he welcomed, in particular, the Pensions Bill. He is absolutely right: it is this coalition Government in Westminster that is delivering decent pensions for pensioners throughout the whole of the United Kingdom, Wales included. He also mentioned the immigration Bill, which is a very important measure. There will be aspects of that that will require the active assistance of the Welsh Government, and I have no doubt that we can rely upon it to assist. It is, of course, absolutely unacceptable that immigrants should come to this country and expect to abuse our public services, and we intend to put a stop to that.

Roeddwn yn falch iawn o gael araith gefnogol gan fy nghyfaill, Andrew Davies, arweinydd yr wrthblaid. Roedd yn braf gweld unwaith eto ei fod yn croesawu'r Bil Pensiynau yn arbennig. Mae'n llygad ei le: y Llywodraeth glymblaid yn San Steffan sy'n darparu pensiynau gweddus i bensiynwyr drwy'r Deyrnas Unedig gyfan, gan gynnwys Cymru. Soniodd hefyd am y Bil mewnfudo, sy'n fesur pwysig iawn. Bydd agweddau ar hynny y bydd angen cymorth gweithredol Llywodraeth Cymru yn eu cylch, ac nid oes gennyf amheuaeth na allwn ddibynnu arni am gymorth. Wrth gwrs, mae'n hollol annerbyniol bod mewnfudwyr yn dod i'r wlad hon ac yn disgwyl camddefnyddio ein gwasanaethau cyhoeddus, ac rydym yn bwriadu rhoi terfyn ar hynny.

I was pleased to see Julie Morgan, whom I last saw across the floor of the House of Commons. She mentioned the provisions in the Anti-social Behaviour, Crime and Policing Bill relating to dogs. I am glad to say that the Westminster Government is working closely with the Welsh Government in this regard. I think that she will also welcome the presence of a senior Welsh police officer, Gareth Pritchard, on the working group that will be studying the whole issue of dog provisions in that Bill. Antoinette Sandbach made a very feisty contribution. She mentioned the Pensions Bill. It is good to see that pensioners can, under this Government, expect a pension of something in the region of £144 per week—a decent pension for all pensioners across Wales.

Roeddwn yn falch o weld Julie Morgan, a'i gwelais ddiwethaf ar draws llawr Tŷ'r Cyffredin. Soniodd am y darpariaethau yn y Bil Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona ynglŷn â chŵn. Rwy'n falch o ddweud bod Llywodraeth San Steffan yn cydweithio'n agos â Llywodraeth Cymru yn hyn o beth. Credaf y bydd hefyd yn croesawu presenoldeb uwch swyddog heddlu o Gymru, Gareth Pritchard, ar y gweithgor a fydd yn astudio'r holl fater sy'n ymwneud â darpariaethau cŵn yn y Bil hwnnw. Gwnaeth Antoinette Sandbach gyfraniad bywiog iawn. Soniodd am y Bil Pensiynau. Mae'n braf gweld y gall pensiynwyr, o dan y Llywodraeth hon, ddisgwyl pensiwn o tua £144 yr wythnos— pensiwn gweddus i bob pensiynwr ledled Cymru.

I enjoyed the contribution from Mr Alun Ffred Jones. I was sorry to see him announce his retirement after his many years of distinguished public service in Wales. He mentioned the over-reliance of the UK economy on the financial services sector. To a certain extent, he is right. However, we must not throw the baby out with the bathwater. The financial services sector makes an important contribution to the economy of this country. I know that the Welsh Government is encouraging it to be established more firmly in Cardiff, and I hope that he would support that.

Mwynheais gyfraniad Mr Alun Ffred Jones. Roedd yn flin gennyf glywed ei fod wedi cyhoeddi y bydd yn ymddeol ar ôl ei flynyddoedd lawer o wasanaeth cyhoeddus nodedig yng Nghymru. Soniodd am orddibyniaeth economi'r DU ar y sector gwasanaethau ariannol. I ryw raddau, mae'n gywir. Fodd bynnag, rhaid inni beidio â thaflu'r llo a chadw'r brych. Mae'r sector gwasanaethau ariannol yn gwneud cyfraniad pwysig i economi'r wlad hon. Gwn fod Llywodraeth Cymru yn ei annog i ymsefydlu'n fwy cadarn yng Nghaerdydd, a gobeithio y byddai'n cefnogi hynny.

Peter Black, again an old friend of mine from my Assembly days, made a very good contribution [Interruption.]when he talked about the importance of the deregulation Bill. There was a very interesting contribution from Mick Antoniw. One thing that I have discovered here is that you have these wonderful computer screens. He made his entire speech with his arms folded. I wondered what that meant, so I looked it up online. It says here that:

Gwnaeth Peter Black, unwaith eto hen ffrind imi o'm dyddiau yn y Cynulliad, gyfraniad da iawn [Torri ar draws.] pan soniodd am bwysigrwydd y Bil dadreoleiddio. Cafwyd cyfraniad diddorol iawn gan Mick Antoniw. Un peth yr wyf wedi ei ddarganfod yma yw bod gennych y sgriniau cyfrifiadurol gwych hyn. Gwnaeth ei araith gyfan gyda'i freichiau wedi'u plygu. Roeddwn yn meddwl tybed beth mae hynny'n ei olygu, felly edrychais ar-lein. Dywed yma:

'As children we learn to protect ourselves by hiding behind barriers like furniture or mother's skirt if we felt "threatened". Gradually, instead of hiding behind objects, we learn to fold our arms tightly across our chests, whenever we feel in danger, uncomfortable or nervous.'

Fel plant rydym yn dysgu i amddiffyn ein hunain drwy guddio y tu ôl i rwystrau megis dodrefn neu sgert mam os teimlwn "dan fygythiad". Yn raddol, yn hytrach na chuddio y tu ôl i wrthrychau, rydym yn dysgu plygu ein breichiau'n dynn ar draws y frest, pryd bynnag y teimlwn mewn perygl, yn anghyfforddus neu'n nerfus.

Clearly, actions speak louder than words.

Yn amlwg, mae gweithredoedd yn fwy huawdl na geiriau.

Nick Ramsay made a very spirited contribution to the debate. Again, he referred to the importance of borrowing powers. I would like to refer specifically to Ann Jones. I know that Ann Jones feels very strongly, and is very sincere, about the issue of sprinklers. I agree fully that this is a devolved competence, and that is something that I respect. All that I can say to her is this: every single house builder I have spoken to in Wales thinks that the sprinkler Measure is a retrograde measure that will damage the house-building industry. Frankly, I think that she ought to understand that there are differences of opinion, and those differences of opinion have to be respected.

Gwnaeth Nick Ramsay gyfraniad llawn asbri i'r ddadl. Unwaith eto, cyfeiriodd at bwysigrwydd pwerau benthyca. Hoffwn gyfeirio'n benodol at Ann Jones. Gwn fod Ann Jones yn teimlo'n gryf iawn, ac yn ddiffuant iawn, ynglŷn â systemau chwistrellu. Cytunaf yn llwyr mai cymhwysedd datganoledig ydyw, ac mae hynny'n rhywbeth yr wyf yn ei barchu. Y cyfan y gallaf ei ddweud wrthi yw hyn: mae pob adeiladwr tai yr wyf wedi siarad â hwy yng Nghymru yn credu bod y Mesur systemau chwistrellu yn gam yn ôl a fydd yn niweidiol i'r diwydiant adeiladu tai. A dweud y gwir, credaf y dylai sylweddoli bod gwahaniaeth barn yn hyn o beth, a bod angen parchu'r gwahaniaeth barn hwnnw.

17:10 **Ann Jones** Bywgraffiad Biography

Will you take an intervention on that point?

A wnewch chi dderbyn ymyriad ar y pwynt hwnnw?

17:10 **David Jones**

*Ysgrifennydd Gwladol Cymru / The Secretary of State for Wales*

No. I have listened to you, and I hope that you have listened to me. [Interruption.]

Na. Rwyf wedi gwrando arnoch chi, a gobeithio eich bod chi wedi gwrando arnaf i. [Torri ar draws.]

17:10 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Ann, please. [Interruption.] Ann, sit down.

Ann, os gwelwch yn dda. [Torri ar draws.] Ann, eisteddwch i lawr.

17:10 **David Jones**

*Ysgrifennydd Gwladol Cymru / The Secretary of State for Wales*

Finally, Mr Deputy Presiding Officer, there was an excellent contribution from Mark Isherwood, who brought the proceedings to an end. It has been a great pleasure to appear here today; I look forward to appearing before the Assembly again, and I wish the Assembly every success in its workings in the future.

Yn olaf, Ddirprwy Lywydd, cafwyd cyfraniad ardderchog gan Mark Isherwood, a ddaeth â'r trafodion i ben. Bu'n bleser mawr ymddangos yma heddiw; edrychaf ymlaen at ymddangos gerbron y Cynulliad unwaith eto, a dymunaf bob llwyddiant i'r Cynulliad yn ei waith yn y dyfodol.

17:10 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

I call on the First Minister to reply to the debate.

Galwaf ar y Prif Weinidog i ymateb i'r ddadl.

17:10 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Thank you, Deputy Presiding Officer.

Diolch ichi, Ddirprwy Lywydd.

It has been a very useful and lively debate this afternoon. Of course, it is important to note what was in the Queen's Speech and what was not in it. I share Leanne Wood's view that this is an incongruous process, in that the Secretary of State comes here. This is not aimed at the Secretary of State and his party; I think that it would be incongruous if it were to be a Labour Secretary of State. It does not happen in Scotland. If the argument is that it gives an opportunity for Assembly Members to scrutinise what is happening at Westminster, well, two hours a year is not a good way of doing it. I do not believe, as the leader of the opposition put it, that it is essential for the union; otherwise it would take place in Scotland as well. However, we are where we are as a result of the Government of Wales Act as it is presently drafted.

Bu'n ddadl ddefnyddiol a bywiog iawn y prynhawn yma. Wrth gwrs, mae'n bwysig nodi'r hyn a oedd yn Araith y Frenhines a'r hyn nad oedd ynddi. Cytunaf â Leanne Wood fod hon yn broses anghydnaws, sef bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn dod yma. Nid yw hyn wedi'i anelu at yr Ysgrifennydd Gwladol na'i blaid; credaf y byddai'n anghydnaws pe bai Ysgrifennydd Gwladol Llafur yn ymddangos gerbron. Nid yw'n digwydd yn yr Alban. Os mai'r ddadl yw ei fod yn rhoi'r cyfle i Aelodau'r Cynulliad graffu ar yr hyn sy'n digwydd yn San Steffan, wel, nid yw dwy awr y flwyddyn yn ffordd dda o wneud hynny. Ni chredaf, fel y dywedodd arweinydd yr wrthblaid, ei bod yn hanfodol i'r undeb; fel arall byddai'n cael ei gynnal yn yr Alban hefyd. Fodd bynnag, dyma'r sefyllfa sydd ohoni o ganlyniad i Ddeddf Llywodraeth Cymru fel y mae wedi'i drafftio ar hyn o bryd.

We have worked together, it is true, with the UK Government, particularly in terms of Wylfa B and the immense opportunities for job creation that exist there, and we will continue to do so. We have worked with UK Government when it comes to electrification, not just of the south Wales main line to Swansea, but also of the south Wales Valleys network in its entirety. One word of caution that I would have to add is that it is absolutely essential that the rolling stock that operates on the Valleys metro is not elderly rolling stock that is sent to Wales from elsewhere; that would be the wrong message. Nor would it be right, for example, for the new high-speed trains coming down the electrified track not to have any catering facilities. These are issues that need to be examined carefully to ensure that we get the maximum benefit from the metro and from the south Wales main line.

Rydym wedi gweithio gyda'i gilydd, mae'n wir, gyda Llywodraeth y DU, yn enwedig o ran Wylfa B a'r cyfleoedd aruthrol sy'n bodoli yno i greu swyddi, a byddwn yn parhau i wneud hynny. Rydym wedi gweithio gyda Llywodraeth y DU o ran trydaneiddio, nid yn unig y brif linell drwy'r de i Abertawe, ond hefyd rhwydwaith cymoedd y de yn ei gyfanrwydd. Un gair o rybudd y byddai'n rhaid i mi ei ychwanegu yw ei bod yn gwbl hanfodol nad yw'r cerbydau sy'n gweithredu ar fetro'r Cymoedd yn hen gerbydau sy'n cael eu hanfon i Gymru o rywle arall; byddai hynny'n cyfleu'r neges anghywir. Ac ni fyddai'n briodol ychwaith, er enghraifft, i drenau cyflym newydd yn dod i lawr y trac wedi'i drydaneiddio beidio â chynnwys unrhyw gyfleusterau arlwyo. Mae'r rhain yn faterion y mae angen eu harchwilio'n ofalus er mwyn sicrhau ein bod yn cael y budd mwyaf o'r metro o brif linell y de.

I listened carefully to what the Secretary of State and others had to say about some of the Bills that are particularly mentioned in the Liberal Democrat amendments. We are not in a position to support them today—not because they do not have merit, potentially, but because the detail is not yet there. It may well be that the national insurance contributions Bill is of great merit, but the detail needs to be there. While it may well be welcome on the part of businesses, of course, increasing VAT was not welcomed by them, and businesses will not thrive until there is a significant upturn in the economy, because they will not have a sufficient customer base to be successful in the future.

Gwrandewais yn ofalus ar yr hyn yr oedd gan yr Ysgrifennydd Gwladol ac eraill i'w ddweud am rai o'r Biliau sy'n cael eu crybwyll yn arbennig yng ngwelliannau'r Democratiaid Rhyddfrydol. Nid ydym mewn sefyllfa i'w cefnogi heddiw nid am nad oes iddynt deilyngdod, o bosibl, ond am nad yw'r manylion ar gael eto. Mae'n ddigon posibl y bydd y Bil cyfraniadau yswiriant gwladol o werth mawr, ond mae angen inni weld y manylion. Er y gall fod yn cael ei groesawu ar ran busnesau, wrth gwrs, nid yw cynyddu TAW i'w groesawu ganddynt, ac ni fydd busnesau yn ffynnu hyd nes bod cynnydd sylweddol yn yr economi, gan na fydd ganddynt sylfaen cwsmeriaid ddigonol i fod yn llwyddiannus yn y dyfodol.

I cannot agree with what the leader of the opposition said when, basically, he implied that things have never been so good in Wales. It is right to say that our construction figures are significantly better in 2012 than those of the UK as a whole, and the same applies for production, and I believe that that is because of the interventions of the Welsh Government showing the way for the rest of the UK.

Ni allaf gytuno â'r hyn a ddywedodd arweinydd yr wrthblaid pan awgrymodd, yn y bôn, fod pethau erioed wedi bod cystal yng Nghymru. Mae'n iawn dweud bod ein ffigurau adeiladu yn sylweddol well yn 2012 na rhai'r DU yn ei chyfanrwydd, ac mae'r un peth yn wir am gynhyrchu, a chredaf fod hynny'n wir oherwydd bod ymyriadau gan Lywodraeth Cymru wedi dangos y ffordd i weddill y DU.

There are still some difficulties that we face as a society. One particular concern of mine is the destruction of legal aid—I cannot put it more highly than that. It will see the end of many family law firms in Wales. Without question, they will not be able to compete for the new contracts; it will be larger companies that will do that. It is inevitable that, as costs are cut, we will see people who are in court for very serious offences being represented by very junior lawyers, taking us to a position in which some of the southern states of America are at the moment. Alternatively, they will represent themselves, and I know from experience that where that happens, trials last three to four times longer. As a result of that, there is no saving in terms of legal aid.

Mae rhai anawsterau sy'n ein hwynebu o hyd fel cymdeithas. Un pryder arbennig i mi yw dinistrio cymorth cyfreithiol—ni allaf ddweud mwy na hynny. Bydd yn gweld diwedd llawer o gwmnïau cyfraith teulu yng Nghymru. Yn ddiau, ni fyddant yn gallu cystadlu am y contractau newydd; cwmnïau mwy a fydd yn gwneud hynny. Mae'n anochel, wrth i gostau gael eu torri, y byddwn yn gweld pobl sydd yn y llys am droseddau difrifol iawn yn cael eu cynrychioli gan gyfreithwyr dibrofiad, gan fynd â ni i sefyllfa a welir mewn rhai o daleithiau deheuol America ar hyn o bryd. Fel arall, byddant yn cynrychioli eu hunain, a gwn o brofiad, lle mae hynny'n digwydd, fod treialon yn para dair neu bedair gwaith yn hirach. O ganlyniad i hynny, nid oes unrhyw arbedion o ran cymorth cyfreithiol.

I listened carefully to what was said by the opposition speakers. I heard Nick Ramsay make a plea not to have childish ranting without any hint of irony with regard to the conduct of some of its own Members, though not him. I listened carefully to Mark Isherwood, as I always do, because he is worth listening to. He accused us on these benches of being post-imperialists of the left. I plead guilty to that. That might mean, of course, that he is an imperialist of the right, and no doubt he is regretting the fact, privately, that there is no provision to repeal the Government of India Act 1935, to send the British Raj back to India. That would be the logical conclusion of the position that he took.

Gwrandewais yn ofalus ar yr hyn a ddywedwyd gan siaradwyr y gwrthbleidiau. Clywais Nick Ramsay yn gwneud ple am roi'r gorau i rafio a morio fel plant heb unrhyw awgrym o eironi mewn perthynas ag ymddygiad rhai o'i aelodau ei hun, ond nid ef. Gwrandewais yn ofalus ar Mark Isherwood, fel yr wyf bob amser yn ei wneud, oherwydd mae'n werth gwrando arno. Gwnaeth ein cyhuddo ar y meinciau hyn o fod yn ôl-imperialwyr y chwith. Rwy'n pledio'n euog i hynny. Gallai hynny olygu, wrth gwrs, ei fod yn imperialwr yr adain dde, ac mae'n debyg ei fod yn edifarhau, yn breifat, nad oes darpariaeth i ddiddymu Deddf Llywodraeth India 1935, er mwyn anfon yr oruchwyliaeth Brydeinig yn ôl i India. Dyna fyddai casgliad rhesymegol y safbwynt a fynegwyd ganddo.

With regard to the deregulation Bill, it sounds fine—they are fine words. However, this Government would not support any Bill that would interfere with or undermine the minimum wage. We would not support any Bill that would seek to reduce the amount of protection that workers receive when they go to work in the morning. Every year, I attend workers' memorial day and every year there are people who have lost members of their family or who have seen members of their family injured through doing nothing more than going to work. That is under the current system. Anything that interferes with that will lead to more injuries and, sadly, more deaths.

O ran y Bil dadreoleiddio, mae'n swnio'n wych—maent yn eiriau teg. Fodd bynnag, ni fyddai'r Llywodraeth hon yn cefnogi unrhyw Fil a fyddai'n amharu ar yr isafswm cyflog neu ei danseilio. Ni fyddem yn cefnogi unrhyw Fil a fyddai'n ceisio lleihau faint o amddiffyniad sydd gan weithwyr pan fyddant yn mynd i'r gwaith yn y bore. Bob blwyddyn, rwy'n mynychu diwrnod coffa'r gweithwyr a phob blwyddyn mae pobl yno sydd wedi colli aelodau o'u teulu neu sydd wedi gweld aelodau o'u teulu yn cael eu hanafu drwy wneud dim mwy na mynd i'r gwaith. A digwydd hynny o dan y system bresennol. Bydd unrhyw beth sy'n amharu ar hynny yn arwain at fwy o anafiadau ac, yn anffodus, fwy o farwolaethau.

I will turn to specific examples in the Queen's Speech and today's debate. One issue that is very current is that of Europe. I found it very strange that a Government's legislative programme was produced to the House of Commons, and that Ministers were allowed to vote not to oppose an amendment that the Government itself opposed. The issue of Europe is important to all of us, not least we in Wales, who benefit so well financially from our membership of the European Union. We will be in the middle of another round of structural programmes from 2014 onwards and we do not know whether the money will be there when the programmes end. That will mean, inevitably, that there may be programmes that are put in place as a result of European money that could not be completed if there were to be a vote—though I do not believe that this will happen—to take the UK out of the EU. That would have a substantial knock-on effect on Welsh finances. I do not believe that it is consistent to argue on the one hand that Wales should remain part of the United Kingdom and yet leave the European Union. The two unions are important to Wales in my view. I do not believe that Wales should disappear off as an island of its own, as was suggested, nor do I believe that the UK should do that either by leaving the European Union.

Trof at enghreifftiau penodol yn Araith y Frenhines ac yn y ddadl heddiw. Un mater sy'n bwnc llosg yw Ewrop. Mae'n rhyfedd iawn, yn fy marn i, i raglen ddeddfwriaethol y Llywodraeth gyflwyno i Dŷ'r Cyffredin, ac i Weinidogion gael caniatâd i bleidleisio i beidio â gwrthwynebu gwelliant yr oedd y Llywodraeth ei hun yn ei wrthwynebu. Mae mater Ewrop yn bwysig i bob un ohonom, yn enwedig inni yng Nghymru, sy'n cael cymaint o fudd ariannol o'n haelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd. Byddwn yng nghanol cylch arall o raglenni strwythurol o 2014 ymlaen, ac ni wyddom a fydd yr arian ar gael pan ddaw'r rhaglenni i ben. Bydd hynny'n golygu, yn anochel, y gall fod rhaglenni sy'n cael eu rhoi ar waith o ganlyniad i arian Ewropeaidd na ellid eu cwblhau pe bai pleidlais—er na chredaf y bydd hyn yn digwydd— i dynnu'r DU allan o'r UE. Byddai hynny'n cael effaith ganlyniadol sylweddol ar gyllid Cymru. Ni chredaf ei bod yn gyson dadlau ar y naill law y dylai Cymru barhau'n rhan o'r Deyrnas Unedig ac eto gadael yr Undeb Ewropeaidd. Mae'r ddau undeb yn bwysig i Gymru yn fy marn i. Ni chredaf y dylai Cymru ddiflannu a mynd yn ynys ar ei phen ei hun, fel yr awgrymwyd, ac ni chredaf y dylai'r DU wneud hynny ychwaith drwy adael yr Undeb Ewropeaidd.

Let us look at some of the legislation where there is some scope for practical co-operation. The Anti-social Behaviour, Crime and Policing Bill is one example of that, as it spans devolved and non-devolved matters. It is an example of the circumstances mentioned in my letter to the Constitutional and Legislative Affairs Committee in 2011. It enables a joined-up approach to a complex set of problems, including the control of dogs. As the Minister said in his written statement, we are committed to ensuring that out-of-control and dangerous dogs are dealt with effectively. We want to see a statutory framework that will make it unlawful for dogs to be dangerously out of control, including on private premises. We also want proper protection for assistance dogs. It is important that those laws are put in place to ensure the protection of the public and to ensure the welfare of animals. That is why we want to see responsible dog ownership that is good for the animals and the public at large.

Gadewch inni edrych ar ychydig o'r ddeddfwriaeth lle mae rhywfaint o gyfle i gydweithredu ymarferol. Mae'r Bil Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona yn un enghraifft o hynny, gan ei fod yn rhychwantu materion datganoledig a rhai nad ydynt wedi'u datganoli. Mae'n enghraifft o'r amgylchiadau a grybwyllir yn fy llythyr at y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn 2011. Mae'n fodd i ymdrin â chyfres gymhleth o broblemau mewn ffordd gydgysylltiedig, gan gynnwys rheoli cŵn. Fel y dywedodd y Gweinidog yn ei ddatganiad ysgrifenedig, rydym wedi ymrwymo i sicrhau yr ymdrinnir yn effeithiol â chŵn sydd allan o reolaeth ac sy'n beryglus. Rydym am weld fframwaith statudol a fydd yn ei gwneud yn anghyfreithlon i gŵn fod allan o reolaeth mewn ffordd beryglus, gan gynnwys ar eiddo preifat. Rydym hefyd am weld diogelwch priodol ar gyfer cŵn cymorth. Mae'n bwysig bod y deddfau hynny'n cael eu rhoi ar waith i sicrhau diogelwch y cyhoedd a sicrhau lles anifeiliaid. Dyna pam rydym am weld perchnogaeth gyfrifol o gŵn sy'n fuddiol i'r anifeiliaid a'r cyhoedd yn gyffredinol.

There is also the water Bill. We are negotiating with the UK Government to bring forward some provisions that will benefit Wales in this Bill. The concern that we have is that there is no issue that is more emotive in Welsh politics and history than water. It should be a matter of principle—and it is a principle that this Government holds—that the control of resources, particularly water, within the borders of Wales should rest with the Welsh Government and, ultimately, with the National Assembly for Wales. It is not right—and I can see the logic of this argument—that we, as a Government, should have residual powers over English towns, as we do at the moment because of the current water border. However, I do not see that that equates with us having to lose control of areas of Wales, or not gain control of water in areas of Wales that are not currently within the control of the Welsh Government. The geographical border should be the border and nothing else.

Ceir y Bil dŵr hefyd. Rydym yn trafod gyda Llywodraeth y DU i gyflwyno rhai darpariaethau a fydd o fudd i Gymru yn y Bil hwn. Y pryder sydd gennym yw nad oes unrhyw fater sy'n fwy emosiynol yng ngwleidyddiaeth a hanes Cymru na dŵr. Dylai fod yn fater o egwyddor—ac mae'n egwyddor a arddelir gan y Llywodraeth hon—fod y gallu i reoli adnoddau, yn enwedig dŵr, o fewn ffiniau Cymru yn nwylo Llywodraeth Cymru ac, yn y pen draw, yn nwylo Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Nid yw'n briodol—a gallaf weld rhesymeg y ddadl hon—ein bod ni, fel Llywodraeth yn meddu ar bwerau gweddilliol dros drefi yn Lloegr, fel sydd gennym ar hyn o bryd oherwydd y ffin dŵr bresennol. Fodd bynnag, ni welaf fod hynny'n golygu bod yn rhaid inni golli rheolaeth dros ardaloedd o Gymru, neu beidio â chael rheolaeth dros ddŵr mewn ardaloedd o Gymru nad ydynt ar hyn o bryd o dan reolaeth Llywodraeth Cymru. Y ffin ddaearyddol ddylai bennu'r ffin a dim byd arall.

I draw Members' attention to the immigration Bill. Even though immigration is not devolved, the Bill's provisions could have significant implications for devolved areas. We do not know exactly what the proposals are yet but we can guess that they will involve restricting access to various services. When it comes to restricting access to the NHS, that is a devolved matter. There may well be some debate over that but it is the view of this Government that that is a devolved matter, clearly. There would need to be agreement if that particular proposal, as part of the Bill, should be taken forward. We will look at the proposals affecting devolved matters very carefully in order to decide whether they should apply here. The same is true of the Care Bill: we have the Social Services and Well-being (Wales) Bill that can act as a vehicle for that and the Deputy Minister has already outlined through a statement what her views are as regards taking forward care provision in Wales. We are ahead of the game when it comes to that particular issue.

Tynnaf sylw'r Aelodau at y Bil mewnfudo. Er nad yw mewnfudo wedi'i ddatganoli, gallai fod i ddarpariaethau'r Bil oblygiadau sylweddol o ran meysydd datganoledig. Ni wyddom yn union beth yw'r cynigion eto ond gallwn ddyfalu y byddant yn golygu cyfyngu ar fynediad i wahanol wasanaethau. O ran cyfyngu ar fynediad i'r GIG, mater datganoledig ydyw. Mae'n ddigon posibl y bydd rhywfaint o ddadlau dros hynny, ond ym marn y Llywodraeth hon, mater sydd wedi'i ddatganoli ydyw, yn amlwg. Byddai angen cael cytundeb pe bai'r cynnig penodol hwnnw, fel rhan o'r Bil, yn cael ei ddatblygu. Byddwn yn edrych ar y cynigion sy'n effeithio ar faterion datganoledig yn ofalus iawn er mwyn penderfynu a ddylent fod yn gymwys yma. Mae'r un peth yn wir am y Bil Gofal: mae gennym y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a all fod yn gyfrwng i hynny ac mae'r Dirprwy Weinidog eisoes wedi amlinellu drwy ddatganiad beth yw ei barn o ran datblygu darpariaeth gofal yng Nghymru. Rydym ar flaen y gad o ran y mater penodol hwnnw.

I will give way to Simon Thomas.

Byddaf yn ildio i Simon Thomas.

17:20 **Simon Thomas** [Bywgraffiad] [Biography]

I am grateful to the First Minister. Specifically on the Care Bill, in England the proposal is to fund that through inheritance tax, yet that is not a devolved issue; it is UK-wide taxation. Have you had any discussions with the Secretary of State and the UK Government about how that resource will be made available in Wales?

Rwy'n ddiolchgar i'r Prif Weinidog. Yn benodol o ran y Bil Gofal, yn Lloegr, y cynnig yw y dylai gael ei ariannu drwy'r dreth etifeddiaeth, ond eto nid yw hynny'n fater sydd wedi'i ddatganoli, treth i'r DU gyfan ydyw. A ydych wedi cael unrhyw drafodaethau gyda'r Ysgrifennydd Gwladol a Llywodraeth y DU ynghylch sut y bydd yr adnodd hwnnw ar gael yng Nghymru?

17:20 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad] [Biography]

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Not as yet, but it clearly would be wrong for a UK-wide tax to be applied solely for a provision in England. That cannot be right in principle.

We then have the draft Wales Bill. We welcome the fact that there is a draft Bill in place, as it means that there is an opportunity to amend it and add provisions before it takes its final form for introduction in Parliament. However, it has to be reiterated that doing nothing is not an option. This Assembly has made its views absolutely clear in terms of the direction it believes Wales should take with regard to part 1 of the Silk commission. It is a view that is shared by the Treasury, and in fairness to the Chief Secretary to the Treasury, he has made his views absolutely clear. It is important also for those of us who believe passionately in Scotland's membership of the UK that we can say to the people of Scotland, 'You do not need independence; devolution can be developed within the framework of the UK'. A substantial package needs to be delivered in order for that argument to be made and bolstered. If it is not delivered, it undermines the argument not just for Wales, but particularly for Scotland.

I listened carefully to the heated debate that took place in terms of the sprinklers legislation. I can only say that it was supported by all parties in this Chamber. It is not possible for the Government to ignore a law that has been passed by the Assembly anymore than it would be right for me to call on a Government Minister in London to ignore a law passed in Parliament; it just cannot be done. We can have different views, of course, with regard to the sprinklers legislation. I understand that, and they have been aired within this Chamber. However, to ignore a law that has been passed is simply impossible.

Ddim hyd yn hyn, ond, yn amlwg, byddai'n amhriodol i dreth i'r DU gyfan gael ei defnyddio ar gyfer darpariaeth yn Lloegr yn unig. Ni all hynny fod yn iawn mewn egwyddor.

Yna, ceir y Bil Cymru drafft. Rydym yn croesawu'r ffaith bod Bil drafft yn ei le, gan ei bod yn golygu bod cyfle i'w ddiwygio ac ychwanegu darpariaethau cyn iddo fod ar ei ffurf derfynol i'w chyflwyno yn y Senedd. Fodd bynnag, rhaid dweud unwaith eto nad yw gwneud dim yn opsiwn. Mae'r Cynulliad hwn wedi mynegi ei farn yn gwbl glir o ran y cyfeiriad y mae'n credu y dylai Cymru ei ddilyn mewn perthynas â rhan 1 o gomisiwn Silk. Mae'n farn a rennir gan y Trysorlys, ac er tegwch i Brif Ysgrifennydd y Trysorlys, mae wedi mynegi ei farn yn gwbl glir. Mae hefyd yn bwysig i'r rhai ohonom sy'n credu'n frwd yn aelodaeth yr Alban o'r DU y gallwn ddweud wrth bobl yr Alban, 'Nid oes angen ichi gael annibyniaeth; gall datganoli gael ei ddatblygu o fewn fframwaith y DU'. Mae angen cyflwyno pecyn sylweddol er mwyn i'r ddadl honno gael ei chyflwyno. Os na fydd yn cael ei gyflwyno, mae'n tanseilio'r ddadl nid yn unig i Gymru, ond i'r Alban yn enwedig.

Gwrandewais yn ofalus ar y ddadl danbaid ynglŷn â'r ddeddfwriaeth ar systemau chwistrellu. Ni allaf ond dweud iddi gael ei chefnogi gan bob plaid yn y Siambr hon. Nid yw'n bosibl i'r Llywodraeth anwybyddu cyfraith sydd wedi cael ei phasio gan y Cynulliad yn yr un modd na fyddai'n briodol imi alw ar un o Weinidogion y Llywodraeth yn Llundain i anwybyddu deddf a basiwyd yn y Senedd; yn syml, ni ellir gwneud hynny. Gallwn arddel safbwyntiau gwahanol, wrth gwrs, o ran y ddeddfwriaeth ar systemau chwistrellu. Deallaf hynny, ac maent wedi cael eu gwyntyllu yn y Siambr hon. Fodd bynnag, yn syml, mae anwybyddu cyfraith sydd wedi cael ei phasio yn amhosibl.

17:22 **Ann Jones** [Bywgraffiad] [Biography]

First Minister, you will know that I have asked you to raise this issue with the Secretary of State. I have publicly challenged the Secretary of State this afternoon to meet me, along with anyone else he wants to bring to that meeting. I am not frightened of the opposition from some of the house builders, but there are house builders in England who are embracing this. If he will not meet me, will you undertake to meet him on my behalf to discuss sprinklers? Perhaps he does not want to meet me, and I do not mind.

Brif Weinidog, fe wyddoch fy mod wedi gofyn ichi godi'r mater hwn gyda'r Ysgrifennydd Gwladol. Rwyf wedi herio'r Ysgrifennydd Gwladol yn gyhoeddus y prynhawn yma i gyfarfod â mi, ynghyd ag unrhyw un arall y mae am iddynt ddod i'r cyfarfod hwnnw. Nid wyf yn ofni'r gwrthwynebiad gan rai o'r adeiladwyr tai, ond mae adeiladwyr tai yn Lloegr sy'n derbyn hyn. Os na fydd yn cyfarfod â mi, a wnewch ymrwymo i gyfarfod ag ef ar fy rhan i drafod systemau chwistrellu? Efallai nad yw am gwrdd â mi, ac nid oes gwahaniaeth gennyf.

17:22 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I am sceptical of the figures produced by one set of builders, particularly, in terms of the sprinklers legislation. As we know, that legislation will save lives. The one thing we have to remember is that we have set in train a consultation process where we see the devolution of stamp duty; we believe that we can put in place a system of stamp duty in Wales that would more than compensate for any extra cost that builders might have to meet as a result of the sprinklers legislation.

Rwy'n amau'r ffigurau a gynhyrchwyd gan un set o adeiladwyr, yn enwedig, o ran y ddeddfwriaeth ar systemau chwistrellu. Fel y gwyddom, bydd y ddeddfwriaeth honno yn achub bywydau. Un peth y mae'n rhaid inni ei gofio yw ein bod wedi dechrau ar broses ymgynghori ynglŷn â datganoli'r dreth stamp; credwn y gallwn sefydlu system o dreth stamp yng Nghymru a fyddai'n fwy na gwneud iawn am unrhyw gost ychwanegol y byddai'n rhaid i adeiladwyr eu hwynebu o bosibl o ganlyniad i'r ddeddfwriaeth ar systemau chwistrellu.

I cannot promise to bring the Secretary of State to you. The devolved powers of the Welsh Government do not yet extend that far, and we have no current plans—I am sure the Secretary of State will be relieved to know—to seek that power under part 2 of the Silk commission. [Interruption.] 'No current plans' is what I said.

Ni allaf addo dod â'r Ysgrifennydd Gwladol i gyfarfod â chi. Nid yw pwerau datganoledig Llywodraeth Cymru yn ymestyn mor bell â hynny eto, ac nid oes gennym unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd—rwy'n siŵr y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn falch o glywed— i ofyn am y pŵer hwnnw o dan ran 2 o gomisiwn Silk. [Torri ar draws.] 'Dim cynlluniau ar hyn o bryd' yw'r hyn a ddywedais.

In terms of what the Bill itself says, it is a matter of principle for us as a Government—and, indeed, this is a principle supported by two other parties in this Chamber, including the Conservative party—that the electoral system of the National Assembly should be determined here in Wales. That is a fundamental issue of democracy. That position has not changed.

O ran yr hyn a ddywed y Bil ei hun, mae'n fater o egwyddor i ni fel Llywodraeth—ac, yn wir, mae hon yn egwyddor a gefnogir gan ddwy blaid arall yn y Siambr hon, gan gynnwys y blaid Geidwadol—y dylai system etholiadol y Cynulliad Cenedlaethol gael ei phenderfynu yma yng Nghymru. Mae hwnnw'n fater sylfaenol o ran democratiaeth. Nid yw'r sefyllfa wedi newid.

In relation to the proposals that have been put forward, we agree with the need for fixed terms. If there is a five-year Parliament there should be a five-year Assembly. That is a sensible way forward. We do not see the need to change the present legislation with regard to dual candidacy. With regard to the ban on Assembly Members being Members of Parliament, if someone became one or the other during the course of serving a term as another kind of representative, would they have to resign there and then, or at the subsequent election? There is little logic, in my view, for saying that there should be a ban on AMs being MPs, but not MSPs, MEPs or councillors—or even peers, for that matter. If there is a logical argument, it is said, for banning dual mandates for AMs and MPs, then it would extend, logically, to all positions that are held in any legislature. I can feel the daggers being thrown at me from the benches opposite, from the one Member of the Upper House who would be affected—although there are others who are elected in other roles who would also be affected. Surely, if it is right for one, it is right for all. That, surely, is the logical position.

O ran y cynigion a gyflwynwyd, cytunwn â'r angen am dymhorau penodol. Os oes tymor Seneddol o bum mlynedd dylai fod tymor Cynulliad o bum mlynedd. Mae'n ffordd synhwyrol ymlaen. Nid ydym yn gweld bod angen newid y ddeddfwriaeth bresennol mewn perthynas ag ymgeisyddiaeth ddeuol. O ran gwahardd Aelodau'r Cynulliad rhag bod yn Aelodau Seneddol, os bydd rhywun yn dod yn un neu'r llall yn ystod tymor etholiadol fel math arall o gynrychiolydd, a fyddai'n rhaid iddynt ymddiswyddo yn y fan a'r lle, neu yn yr etholiad dilynol? Nid oes fawr o resymeg, yn fy marn i, dros ddweud y dylid gwahardd ACau rhag bod yn ASau, ond nid Aelodau Senedd yr Alban, ASEau na chynghorwyr—neu hyd yn oed arglwyddi, o ran hynny. Os oes dadl resymegol, yn ôl y sôn, dros wahardd mandad deuol i ACau ac ASau, yna byddai'n ymestyn, yn rhesymegol, i bob swydd a ddelir mewn unrhyw ddeddfwrfa. Gallaf deimlo'r cyllyll yn cael eu taflu ataf o'r meinciau gyferbyn, a chan un Aelod o'r Tŷ Uchaf y byddai hynny'n effeithio arno—er bod pobl eraill sy'n cael eu hethol mewn rolau eraill y byddai hynny hefyd yn effeithio arnynt. Yn sicr, os yw'n iawn i un, mae'n iawn i bawb. Yn sicr, dyna'r sefyllfa resymegol.

We know that there is much to do to improve the UK's position in the world—we acknowledge that as a Government—and to improve Wales's economy and Wales's public services. We need to make sure that we have the tools for the job, and that involves the implementation of a substantial package of Silk part 1.

Gwyddom fod llawer i'w wneud i wella safle'r DU yn y byd—rydym yn cydnabod hynny fel Llywodraeth—a gwella economi a gwasanaethau cyhoeddus Cymru. Mae angen inni wneud yn siŵr ein bod yn cael yr adnoddau i wneud y gwaith, ac mae hynny'n cynnwys gweithredu pecyn sylweddol o ran 1 Silk.

On the Queen's Speech, it is a legislative programme where we see some merit in some of the Bills; on others, we need more detail, and, on others still, we do not support their fundamental thrust. Where we can work with the UK Government, we will do so. There will be occasions when that is simply not possible because of a difference of opinion. However, as far as we are concerned, our aim in Wales is, quite simply to create a society and an economy based on the principles of fairness, social justice, equality of opportunity and of growth. On that, the Welsh Government will not be found failing.

O ran Araith y Frenhines, mae'n rhaglen ddeddfwriaethol lle y gwelwn rywfaint o werth mewn rhai o'r Biliau; o ran eraill, mae angen inni weld mwy o fanylion, ac, o ran eraill eto, nid ydym yn cefnogi eu byrdwn sylfaenol. Lle y gallwn weithio gyda Llywodraeth y DU, byddwn yn gwneud hynny. Bydd achlysuron pan nad yw hynny'n bosibl oherwydd gwahaniaeth barn. Fodd bynnag, o'n rhan ni, ein nod yng Nghymru, yn syml, yw creu cymdeithas ac economi sy'n seiliedig ar egwyddorion tegwch, cyfiawnder cymdeithasol, cyfle cyfartal a thwf. O ran hynny, ni fydd Llywodraeth Cymru yn methu.

17:26

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

In accordance with Standing Order No. 11.15, the Business Committee decided that any vote necessary would take place at the end of this debate.

Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 11.15, penderfynodd y Pwyllgor Busnes y byddai unrhyw bleidlais angenrheidiol yn digwydd ar ddiwedd y ddadl hon.

The proposal is to agree amendment 1 to NDM5245. Does any Member object? I see that there are objections, therefore we will take recorded votes.

Y cynnig yw y dylid derbyn gwelliant 1 i NDM5245. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf fod gwrthwynebiadau, ac felly byddwn yn cynnal pleidleisiau a gofnodwyd.

Canlyniad y bleidlais ar welliant 1 i gynnig NDM5245.

Result of the vote on amendment 1 to motion NDM5245.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 39, Yn erbyn 18, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 39, Against 18, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 2 i gynnig NDM5245.

Result of the vote on amendment 2 to motion NDM5245.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 27, Yn erbyn 29, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 27, Against 29, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 3 i gynnig NDM5245.

Result of the vote on amendment 3 to motion NDM5245.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 29, Yn erbyn 29, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 29, Against 29. Abstain 0.*

*Gan fod nifer y pleidleisiau yn gyfartal, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 6.20(ii).*

*As there was an equality of votes, the Deputy Presiding Officer used his casting vote in accordance with Standing Order No. 6.20(ii).*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 4 i gynnig NDM5245.

Result of the vote on amendment 4 to motion NDM5245.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 18, Yn erbyn 29, Ymatal 10.*

*Amendment not agreed: For 18, Against 29, Abstain 10.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 5 i gynnig NDM5245.

Result of the vote on amendment 5 to motion NDM5245.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 18, Yn erbyn 29, Ymatal 9.*

*Amendment not agreed: For 18, Against 29, Abstain 9.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 6 i gynnig NDM5245.

Result of the vote on amendment 6 to motion NDM5245.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 18, Yn erbyn 29, Ymatal 10.*

*Amendment not agreed: For 18, Against 29, Abstain 10.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 7 i gynnig NDM5245.

Result of the vote on amendment 7 to motion NDM5245.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 18, Yn erbyn 29, Ymatal 11.*

*Amendment not agreed: For 18, Against 29, Abstain 11.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 8 i gynnig NDM5245.

Result of the vote on amendment 8 to motion NDM5245.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 18, Yn erbyn 40, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 18, Against 40, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 9 i gynnig NDM5245.

Result of the vote on amendment 9 to motion NDM5245.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 58, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 58, Against 0, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 10 i gynnig NDM5245.

Result of the vote on amendment 10 to motion NDM5245.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 18, Yn erbyn 40, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 18, Against 40, Abstain 0.*

Cynnig NDM5245 fel y'i diwygiwyd:

Cynnig NDM5245 as amended:

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

The National Assembly for Wales:

Yn nodi cynnwys rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU 2013/2014.

Notes the content of the UK Government's legislative programme 2013/2014.

Yn gresynu na chafodd Bil Llywodraeth Cymru, sy'n gweithredu argymhellion y Comisiwn Silk ar Ddatganoli yng Nghymru, ei gynnwys yn y rhaglen ddeddfwriaethol.

Regrets that a Government of Wales Bill implementing the recommendations of the Silk Commission on Devolution in Wales was not included in the legislative programme.

Yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth y DU i'r Bil Cymru drafft.

Welcomes the UK Government commitment to the Draft Wales Bill.

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5245 fel y'i diwygiwyd.

Result of the vote on motion NDM5245 as amended.

*Derbyniwyd y cynnig: O blaid 40, Yn erbyn 0, Ymatal 18.*

*Result of the vote on motion NDM5245 as amended.*

## Adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar Fuddsoddi i Arbed

## The Finance Committee's Report on Invest to Save

Cynnig NDM5246 Jocelyn Davies

Motion agreed: For 40, Against 0, Abstain 18.

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Motion NDM5240 Jocelyn Davies

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar Fuddsoddi i Arbed a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Mawrth 2013.

Notes the Finance Committee's report on Invest-to-Save which was laid in the Table Office on 26 March 2013.

17:32 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

I move the motion.

Cynigiaf y cynnig.

Invest to save has been a theme running through the Finance Committee's work for most of this year. It came up repeatedly during our scrutiny of the budget last autumn and, as a result, we decided to take a closer look at the scheme. I would like to thank all of those who supported the inquiry and gave evidence, particularly those who hosted visits from members of the committee.

Mae buddsoddi i arbed wedi bod yn thema sy'n rhedeg drwy waith y Pwyllgor Cyllid am y rhan fwyaf o'r flwyddyn hon. Cododd dro ar ôl tro yn ystod ein gwaith craffu ar y gyllideb yr hydref diwethaf ac, o ganlyniad, gwnaethom benderfynu edrych yn agosach ar y cynllun. Hoffwn ddiolch i bawb a gefnogodd yr ymchwiliad ac a roddodd dystiolaeth, yn enwedig y rhai a gafodd ymweliadau gan aelodau o'r pwyllgor.

Members of the committee visited half a dozen projects across Wales to see, on the ground, the impact that these projects can have. There is no doubt that the concept of spending a little today to save a lot tomorrow is one that appeals to all Members in all parties. Wales's Barnett funding is unlikely to rise sharply in the short term, so making the best of the money that we have must be a priority.

From our inquiry, we have learned that invest to save works. We have heard and seen how services have been transformed and how the savings generated have allowed the initial loans to be repaid and recycled. In fact, the Minister for Finance told us on several occasions that this is the only scheme of its type in the UK. If so, we need to promote it more—not just within Wales, but beyond, too. However, for all of these good points, it is not a panacea, nor is the process perfect, and we make nine recommendations that we believe can make a good scheme even better.

We made a couple of recommendations to ensure that no good project is rejected because it is too small or because it does not fit the scheme. Some of the biggest money-savers have required relatively small investments; for example, the National Botanic Garden of Wales. We believe that projects should be judged on their merit and their potential to save money. Therefore, we have rejected the idea of themed bidding rounds and have called for the minimum threshold to be halved back to £100,000. We also recommend that only projects that promise real, measurable savings should receive such funding and that the Minister should ensure that, if more good bids start rolling in, more money is found to back them.

Invest-to-save projects all go before an assessment panel, known as 'the dragon's den'. We heard examples where bidders had to explain complex ideas to lay people. As a result, we recommend that all of the assessment panels should include at least one person with a high level of expertise, particularly where it applies to projects that may be technical in nature.

Promoting the scheme is an important issue. While the NHS has embraced it enthusiastically, other parts of the public sector have been slower in the uptake. We recommend that the Welsh Government continues to promote the scheme actively, particularly to organisations beyond the NHS.

Finally, Ministers have been clear that invest to save and the regional collaboration funds for local government are separate schemes. We hope that the regional collaboration fund does not just become the invest-to-save funding that you do not pay back. We will be watching how the Minister for Local Government and Government Business takes that forward. In summary, the invest-to-save fund is a made in Wales success story, generating real savings and recycling money in the public sector. We hope that our inquiry and recommendations will make it even better for future rounds.

Ymwelodd aelodau o'r pwyllgor â hanner dwsin o brosiectau ledled Cymru i weld, ar lawr gwlad, yr effaith y gall y prosiectau hyn ei chael. Does dim amheuaeth bod y cysyniad o wario ychydig heddiw er mwyn arbed llawer yfory yn un sy'n apelio at bob Aelod ym mhob plaid. Nid yw cyllid Barnett Cymru yn debygol o gynyddu'n sylweddol yn y tymor byr, felly rhaid rhoi blaenoriaeth i wneud y gorau o'r arian sydd gennym.

Drwy ein hymchwiliad, rydym wedi dysgu bod buddsoddi i arbed yn gweithio. Rydym wedi clywed ac wedi gweld sut y mae gwasanaethau wedi cael eu trawsnewid a sut y mae'r arbedion a wnaed wedi ei gwneud yn bosibl i'r benthyciadau cychwynnol gael eu had-dalu a'u hailgylchu. Yn wir, dywedodd y Gweinidog Cyllid wrthym ar sawl achlysur mai dyma'r unig gynllun o'i fath yn y DU. Os felly, mae angen inni ei hyrwyddo'n fwy—nid dim ond yng Nghymru, ond y tu hwnt, hefyd. Fodd bynnag, er gwaethaf yr holl bwyntiau da hyn, nid yw'n ateb pob problem, ac nid yw'n broses berffaith, a gwnawn naw argymhelliad a all wneud cynllun da hyd yn oed yn well yn ein barn ni.

Gwnaethom un neu ddau argymhelliad i sicrhau na fydd unrhyw brosiect da yn cael ei wrthod am ei fod yn rhy fach neu am nad yw'n cyd-fynd â'r cynllun. Buddsoddiadau cymharol fach sydd wedi bod eu hangen ar rai o'r mentrau a wnaeth yr arbedion mwyaf; er enghraifft, Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru. Credwn y dylai prosiectau gael eu barnu yn ôl eu teilyngdod a'u potensial i arbed arian. Felly, rydym wedi gwrthod y syniad o rowndiau ceisiadau thematig ac wedi galw am haneru'r trothwy isaf yn ôl i £100,000. Argymhellwn hefyd mai dim ond prosiectau sy'n addo arbedion gwirioneddol, mesuradwy a ddylai dderbyn cyllid o'r fath ac y dylai'r Gweinidog sicrhau, pe bai mwy o geisiadau da yn dechrau dod i law, y caiff rhagor o arian ei ganfod i'w cefnogi.

Mae pob prosiect buddsoddi i arbed yn mynd gerbron panel asesu, sef 'ogof y ddraig'. Clywsom am enghreifftiau lle bu'n rhaid i ymgeiswyr esbonio syniadau cymhleth i bobl leyg. O ganlyniad, argymhellwn y dylai pob un o'r paneli asesu gynnwys o leiaf un person sydd â lefel uchel o arbenigedd, yn enwedig yn achos prosiectau a allai fod yn dechnegol eu natur.

Mae hyrwyddo'r cynllun yn fater pwysig. Er bod y GIG wedi'i groesawu'n frwdfrydig, mae rhannau eraill o'r sector cyhoeddus wedi bod yn arafach i'w ddefnyddio. Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru yn parhau i hyrwyddo'r cynllun yn weithredol, yn enwedig i sefydliadau y tu allan i'r GIG.

Yn olaf, mae Gweinidogion wedi bod yn glir bod buddsoddi i arbed a'r cronfeydd cydweithredu rhanbarthol ar gyfer llywodraeth leol yn gynlluniau ar wahân. Gobeithiwn na fydd y gronfa cydweithredu rhanbarthol yn cael ei defnyddio fel arian buddsoddi i arbed nad ydych yn ei dalu yn ôl. Byddwn yn gwylio sut y bydd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth yn symud hynny ymlaen. I grynhoi, mae'r gronfa buddsoddi i arbed yn stori lwyddiant a wnaed yng Nghymru, gan gynhyrchu arbedion gwirioneddol ac ailgylchu arian yn y sector cyhoeddus. Gobeithiwn y bydd ein hymchwiliad a'n hargymhellion yn ei gwneud hyd yn oed yn well ar gyfer rowndiau yn y dyfodol.

17:35 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

First, I want to put on record my appreciation of the way the investigation was carried out and ably chaired by Jocelyn Davies and the willingness of the Minister to engage with us to aid the production of this report. I am heartened by the Minister's comments to Jocelyn Davies, the committee Chair, when she said:

Yn gyntaf, hoffwn gofnodi fy ngwerthfawrogiad o'r ffordd y cafodd yr ymchwiliad ei gynnal a'i gadeirio'n fedrus gan Jocelyn Davies a pharodrwydd y Gweinidog i ymgysylltu â ni er mwyn helpu i gynhyrchu'r adroddiad hwn. Rwyf wedi fy nghalonogi gan sylwadau'r Gweinidog i Jocelyn Davies, Cadeirydd y pwyllgor, pan ddywedodd:

'I welcome this report of your inquiry into the Invest-to-Save Fund, which I consider to be helpful, pertinent and will assist us in our thinking to further improve the way the Fund operates.'

Croesawaf yr adroddiad hwn ar eich ymchwiliad i'r Gronfa Buddsoddi i Arbed, yr wyf yn ystyried ei fod yn ddefnyddiol, yn berthnasol ac a fydd yn ein helpu i feddwl sut y gellir gwella'r ffordd y mae'r Gronfa yn gweithredu ymhellach.

*Daeth Rhodri Glyn Thomas i'r Gadair am 5.35 p.m.*

*Rhodri Glyn Thomas took the Chair at 5.35 p.m.*

**Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

This is a good news story. In Welsh Government terms, a relatively small sum of money, recycled each year, producing real savings—not accountancy savings or cost reallocation, but real savings—for the organisations concerned. As someone who introduced invest to save at the City and County of Swansea Council in the late 1990s, I am pleased to see it is being used at the National Assembly. I was also pleased with the methodology used when we collected evidence, as I understand it—provable fact as opposed to a standard Assembly definition of the views of a series of invited individuals.

Mae hon yn stori newyddion da. Yn nhermau Llywodraeth Cymru, mae'n swm cymharol fach o arian, a gaiff ei ailgylchu bob blwyddyn, sy'n cynhyrchu arbedion gwirioneddol—nid arbedion cyfrifyddu neu ailddyrannu cost, ond arbedion go iawn—i'r sefydliadau dan sylw. Fel rhywun a gyflwynodd buddsoddi i arbed yng Nghyngor Dinas a Sir Abertawe ar ddiwedd y 1990au, rwy'n falch o weld ei fod yn cael ei ddefnyddio yn y Cynulliad Cenedlaethol. Roeddwn hefyd yn hapus â'r fethodoleg a ddefnyddiwyd pan wnaethom gasglu tystiolaeth, fel y deallaf— ffaith brofadwy yn hytrach na diffiniad safonol y Cynulliad o farn cyfres o unigolion dethol.

I intend to discuss some of the projects, which will be unusual in that the Gwent frailty project will not be one of them. Wrexham energy efficiency and carbon reduction: £930,000 invested; £1.25 million in savings since 2009-10. The savings are ongoing. So this is investment that is being spent early on but where the savings will come in over a long period of time. The NHS e-expenses scheme: £186,000 invested; projected savings of £370,000 a year. Bridgend County Borough Council had the 'improving your space' scheme. There is a reason why local authorities in general do not use it, because they, unlike the health service, have reserves; they use invest to save but borrow from within their own council reserves rather than applying for money. However, Bridgend used £1.4 million for investment, which produced recurrent annual savings of £446,000. This was an opportunity to rationalise the estate and save substantial sums of money. Cardiff and Vale University Local Health Board enhanced rapid discharge scheme: £430,000 invested, and £58,000 a year saved, which was considered to be a disappointing return, because it will take about eight years to pay it back. This really is making substantial progress—money spent up front that is benefitting the community, benefitting the organisation and saving money without having any effect on services whatsoever. This is building in efficiencies. One of the things that we often talk about is cuts, but if we can build efficiencies in to the system, which invest to save gives us an opportunity to do, that is the best of all worlds. Merthyr Tydfil County Borough Council spent a £217,000 investment on introducing an e-procurement scheme and is projecting £15 million savings over five years. I think that that is probably exceptionally optimistic, but it will certainly gain back more than the amount of money that it has invested.

Bwriadaf drafod rhai o'r prosiectau, a fydd yn anarferol yn yr ystyr na fydd prosiect eiddilwch Gwent yn un ohonynt. Effeithlonrwydd ynni a lleihau carbon yn Wrecsam: buddsoddiad o £930,000; arbedion o £1.25 miliwn ers 2009-10. Mae'r arbedion yn parhau. Felly mae hwn yn fuddsoddiad sy'n cael ei wario'n gynnar, ond caiff yr arbedion eu gwneud dros gyfnod hir o amser. Cynllun e-dreuliau'r GIG: buddsoddiad o £186,000; rhagwelir arbedion o £370,000 y flwyddyn. Roedd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr y cynllun 'gwella eich lle'. Mae yna reswm pam nad yw awdurdodau lleol yn gyffredinol yn ei ddefnyddio, oherwydd mae ganddynt hwy, yn wahanol i'r gwasanaeth iechyd, gronfeydd wrth gefn; maent yn defnyddio buddsoddi i arbed ond yn benthyg o gronfeydd wrth gefn y cyngor ei hun yn hytrach na gwneud cais am arian. Fodd bynnag, defnyddiodd Pen-y-bont ar Ogwr £1.4 miliwn i'w fuddsoddi, a gynhyrchodd arbedion blynyddol rheolaidd o £446,000. Roedd hwn yn gyfle i resymoli'r ystâd ac arbed symiau sylweddol o arian. Cynllun rhyddhau cyflym estynedig Bwrdd Iechyd Lleol Caerdydd a'r Fro: buddsoddiad o £430,000, ac arbedion o £58,000 y flwyddyn, a ystyriwyd yn siomedig, oherwydd y bydd yn cymryd tua wyth mlynedd i dalu'r arian yn ôl. Mae hyn yn wir yn gwneud cynnydd sylweddol—arian yn cael ei wario ymlaen llaw sydd o fudd i'r gymuned, o fudd i'r sefydliad ac yn arbed arian heb gael unrhyw effaith ar wasanaethau o gwbl. Mae hyn yn arwain at arbedion effeithlonrwydd. Un o'r pethau yr ydym yn siarad amdano'n aml yw toriadau, ond os gallwn ymgorffori arbedion effeithlonrwydd i mewn i'r system, ac mae buddsoddi i arbed yn rhoi cyfle inni wneud hynny, gallwn gael y gorau o'r ddau fyd. Gwariodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful fuddsoddiad o £217,000 ar gyflwyno cynllun e-gaffael ac mae'n rhagweld arbedion o £15 miliwn dros bum mlynedd. Credaf fod hynny'n eithriadol o optimistaidd yn ôl pob tebyg, ond bydd yn sicr yn adennill mwy na'r swm o arian a fuddsoddwyd ganddo.

There are a lot of other worthy projects, some of which have a direct relationship that is more difficult to see. However, it is important that we take this forward and support it. A tremendous amount of work has been done by the Minister, but there has also been work done by the health service, local authorities and others.

Mae yna lawer o brosiectau teilwng eraill, y mae gan rai ohonynt berthynas uniongyrchol sy'n fwy anodd ei gweld. Fodd bynnag, mae'n bwysig ein bod yn bwrw ymlaen â hyn ac yn ei gefnogi. Mae llawer iawn o waith wedi cael ei wneud gan y Gweinidog, ond mae'r gwasanaeth iechyd, awdurdodau lleol ac eraill wedi gwneud gwaith hefyd.

I want to talk now about the National Botanic Garden of Wales. That was a really simple scheme, in the sense that we knew exactly what it was doing. It was putting in solar panels and it was saving a substantial amount of money over a period of time. We knew that it was going to work and the garden knew that it was going to work. Unfortunately, the amount of money that it needed was substantially under the £200,000. That is why, as the Chair, Jocelyn Davies said, that it is really important that no bid is turned down for being too small. For some organisations, like the botanic garden, saving £40,000, £50,000 or £100,000 a year is a substantial amount of money.

Hoffwn siarad yn awr am Ardd Fotaneg Genedlaethol Cymru. Roedd yn gynllun syml iawn, yn yr ystyr ein bod yn gwybod yn union beth yr oedd yn ei wneud. Roedd yn gosod paneli solar ac yn arbed swm sylweddol o arian dros gyfnod o amser. Gwyddem ei fod yn mynd i weithio a gwyddai'r ardd ei fod yn mynd i weithio. Yn anffodus, roedd y swm o arian yr oedd ei angen yn llawer llai na £200,000. Dyna pam, fel y dywedodd y Cadeirydd, Jocelyn Davies, ei bod yn bwysig iawn na chaiff cais ei wrthod am ei fod yn rhy fach. I rai sefydliadau, megis yr ardd fotaneg, mae arbed £40,000, £50,000 neu £100,000 y flwyddyn yn swm sylweddol o arian.

There are many small organisations that can benefit from this. The danger is that, if we go only to big organisations, it is going to be another health fund, which I do not think is really the aim of it. It really is the key to ensure that all organisations can bid for it. Themed bids may deter good projects that do not fit into the theme. People may lack confidence and ask whether it is worth putting a project forward if the fund is all themed, or think that they may have to wait for a couple of years or find another method of funding. It is important that we have a situation where all good projects get supported.

Mae llawer o sefydliadau bach a all elwa o hyn. Y perygl yw, os cyfyngwn ein hunain i sefydliadau mawr yn unig, bydd yn gronfa iechyd arall, ac nid dyna yw ei nod yn fy marn i. Mae wir yn allweddol sicrhau y gall pob sefydliad wneud cais amdano. Efallai y bydd ceisiadau thematig yn darbwyllo prosiectau da nad ydynt yn cyd-fynd â'r thema. Efallai na fydd pobl yn ddigon hyderus ac yn gofyn a yw'n werth cynnig prosiect os yw'r gronfa'n gyfan gwbl thematig, neu'n meddwl y gall fod yn rhaid iddynt aros am ychydig flynyddoedd neu'n dod o hyd i ddull cyllido arall. Mae'n bwysig ein bod mewn sefyllfa lle caiff pob prosiect da ei gefnogi.

The money is being recycled and it is working. The invest-to-save scheme has worked excellently for the people of Wales, and I commend the Minister for bringing it in. I believe that it will continue to work well for the people of Wales, and that it will continue to save money and improve our public services in what, currently, are very difficult times.

Mae'r arian yn cael ei ailgylchu ac mae'n gweithio. Mae'r cynllun buddsoddi i arbed wedi gweithio'n rhagorol i bobl Cymru, a chanmolaf y Gweinidog am ei gyflwyno. Credaf y bydd yn parhau i weithio'n dda i bobl Cymru, ac y bydd yn parhau i arbed arian a gwella ein gwasanaethau cyhoeddus yn ystod y cyfnod anodd iawn rydym yn ei wynebu ar hyn o bryd.

17:40

## Paul Davies Bywgraffiad Biography

I am pleased to be able to contribute to this debate this afternoon. I also thank the Chair of the committee for her leadership on this issue, and the clerk and his team for their efforts throughout this inquiry.

Rwy'n falch o allu cyfrannu at y ddadl hon y prynhawn yma. Diolchaf innau hefyd i Gadeirydd y pwyllgor am ei harweiniad ar y mater hwn, ac i'r clerc a'i dîm am eu hymdrechion trwy gydol yr ymchwiliad hwn.

Invest to save has provided more than £66 million to 56 projects from rounds one to six, so given the impact that this scheme has had on delivering savings for public bodies, it was appropriate for us as a committee to conduct this inquiry.

Mae buddsoddi i arbed wedi darparu mwy na £66 miliwn i 56 o brosiectau o rowndiau un i chwech, felly er mwyn ystyried yr effaith y mae'r cynllun hwn wedi ei chael ar gyflawni arbedion i gyrff cyhoeddus, roedd yn briodol inni fel pwyllgor gynnal yr ymchwiliad hwn.

I accept that the main objective of the scheme is to deliver significant cash-releasing efficiency gains. However, it is important to ensure that funding is spread fairly across projects in Wales. While it is up to public service bodies to apply for funding, it is important that the Welsh Government does all that it can to strategically invest in funds that will deliver for communities the length and breadth of Wales.

Derbyniaf mai prif amcan y cynllun yw sicrhau enillion effeithlonrwydd sy'n rhyddhau arian sylweddol. Fodd bynnag, mae'n bwysig sicrhau bod cyllid yn cael ei ledaenu'n deg ar draws prosiectau yng Nghymru. Er mai mater i gyrff gwasanaethau cyhoeddus yw gwneud cais am gyllid, mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru yn gwneud popeth o fewn ei gallu i fuddsoddi'n strategol mewn cronfeydd a fydd yn darparu ar gyfer cymunedau ar hyd a lled Cymru.

We all accept that there is a need to look at how public services are delivered, and while invest to save has demonstrated some good results and has delivered some very real outcomes, there is always room for improvement. I am, therefore, pleased that the Minister has accepted almost all of the report's recommendations, and that serious consideration is being given to recommendation 9.

Rydym i gyd yn derbyn bod angen edrych ar sut y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu darparu, ac er bod buddsoddi i arbed wedi dangos rhai canlyniadau da ac wedi cyflawni rhai canlyniadau gwirioneddol, mae yna bob amser le i wella. Felly, rwy'n falch bod y Gweinidog wedi derbyn bron pob un o argymhellion yr adroddiad, a bod ystyriaeth ddifrifol yn cael ei rhoi i argymhelliad 9.

In turning to the recommendations, recommendation 2 argues that the thresholds should be returned to £100,000. I have previously raised this issue with the Minister in the Chamber, who has talked about flexibility in relation to smaller projects. I am given to understand that £90,000 has been allocated from the fund to establish collaborative local government farm estate services. This move is very much to be welcomed, as we heard evidence that the £200,000 threshold is a potential barrier to achieving savings in smaller projects. Given that £90,000 has been allocated from the fund, perhaps the Minister, in her response to this debate, would be kind enough to confirm that, even though the threshold will be returned to £100,000, flexibility is already built into the system and that each project will be considered on its own merit, even for projects under £100,000.

Wrth droi at yr argymhellion, mae argymhelliad 2 yn dadlau y dylai'r trothwyon gael eu dychwelyd i £100,000. Rwyf eisoes wedi codi'r mater hwn gyda'r Gweinidog yn y Siambr, sydd wedi siarad am hyblygrwydd mewn perthynas â phrosiectau llai. Rwyf wedi cael ar ddeall bod £90,000 wedi cael ei ddyrannu o'r gronfa i sefydlu gwasanaethau ystadau fferm llywodraeth leol cydweithredol. Mae'r cam hwn i'w groesawu'n fawr, oherwydd clywsom dystiolaeth fod y trothwy o £200,000 yn rhwystr posibl i gyflawni arbedion mewn prosiectau llai. O gofio bod £90,000 wedi cael ei ddyrannu o'r gronfa, efallai y byddai'r Gweinidog, yn ei hymateb i'r ddadl hon, yn ddigon caredig i gadarnhau, er y bydd y trothwy yn cael ei ddychwelyd i £100,000, bod hyblygrwydd eisoes yn rhan o'r system ac y caiff pob prosiect ei ystyried yn ôl ei deilyngdod ei hun, hyd yn oed ar gyfer prosiectau o dan £100,000.

As the Chair of the committee said, the evidence that we received certainly favoured flexibility. Indeed, David Sutherland, head of technology, property and customer services at Bridgend County Borough Council, said that the fund should concentrate on the proportion of savings that it can achieve in relation to a particular project.

Fel y dywedodd Cadeirydd y pwyllgor, roedd y dystiolaeth a dderbyniwyd yn sicr yn ffafrio hyblygrwydd. Yn wir, dywedodd David Sutherland, pennaeth gwasanaethau technoleg, eiddo a chwsmeriaid yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, y dylai'r gronfa ganolbwyntio ar gyfran yr arbedion y gall eu cyflawni mewn perthynas â phrosiect penodol.

I am also pleased that the Welsh Government is taking positive steps to promote the invest-to-save fund and to encourage awareness of it among smaller organisations. Therefore, I wish to draw attention to recommendation 7, which calls on the Welsh Government to promote case studies, encourage institutions to emulate successful schemes and champion invest to save through the public sector leadership group.

Rwyf hefyd yn falch bod Llywodraeth Cymru yn cymryd camau cadarnhaol i hyrwyddo'r gronfa buddsoddi i arbed, ac annog ymwybyddiaeth ohoni ymysg sefydliadau llai. Felly, hoffwn dynnu sylw at argymhelliad 7, sy'n galw ar Lywodraeth Cymru i hyrwyddo astudiaethau achos, annog sefydliadau i efelychu cynlluniau llwyddiannus a hyrwyddo buddsoddi i arbed drwy grŵp arwain y sector cyhoeddus.

We heard a great deal of evidence throughout the inquiry about the success of invest to save, and it was pleasing to see that invest-to-save money has been recycled to fund new projects, as demonstrated in the supplementary budget for 2012-13. I think that all Members would share the view that the Welsh Government should ensure that best practice is shared across potential projects so that they can be successful in applying for funding in future rounds. This view has been shared by the Auditor General for Wales and the National Assembly's Public Accounts Committee. I note that the Minister has taken this on board, and that she and her officials are actively promoting the scheme.

Clywsom lawer iawn o dystiolaeth drwy gydol yr ymchwiliad am lwyddiant buddsoddi i arbed, a braf oedd gweld bod arian buddsoddi i arbed wedi cael ei ailgylchu i ariannu prosiectau newydd, fel y dangoswyd yn y gyllideb atodol ar gyfer 2012-13. Credaf y byddai pob Aelod yn rhannu'r farn y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod arfer gorau yn cael ei rannu ar draws prosiectau posibl fel y gallant wneud ceisiadau llwyddiannus am gyllid mewn rowndiau yn y dyfodol. Rhennir y farn hon gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a Phwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol. Sylwaf fod y Gweinidog wedi cymryd hyn i ystyriaeth a'i bod hi a'i swyddogion yn mynd ati i hyrwyddo'r cynllun.

I also want to look at how effectively projects are managed. The committee recommended that all projects in receipt of invest-to-save funding should receive a visit six to 12 months after the initial award, or when repayments begin. This recommendation follows the case of Neath Port Talbot County Borough Council, where funding was used to introduce lean systems into its children's services. However, problems arose during the second phase of the scheme, and it was abandoned. I accept that this case was very different to the evidence that we received throughout the inquiry, and that there was no evidence to suggest that the invest-to-save scheme contributed to its failure. That said, I am pleased that, when questioned about whether the monitoring was focused on financial repayments at the expense of impact, the Minister said that lessons have been learned as a result of this project and as a result of the evaluation.

Hoffwn hefyd edrych ar ba mor effeithiol y caiff prosiectau eu rheoli. Argymhellodd y pwyllgor y dylai pob prosiect sy'n derbyn arian buddsoddi i arbed gael ymweliad chwech i 12 mis ar ôl y dyfarniad cychwynnol, neu pan fydd yn dechrau ad-dalu. Gwnaed yr argymhelliad hwn yn dilyn achos Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, lle defnyddiwyd arian i gyflwyno systemau darbodus o fewn ei wasanaethau plant. Fodd bynnag, cododd problemau yn ystod ail gam y cynllun, a rhoddwyd y gorau iddo. Derbyniaf fod yr achos hwn yn wahanol iawn i'r dystiolaeth a gawsom drwy gydol yr ymchwiliad, ac nad oedd unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod y cynllun buddsoddi i arbed wedi cyfrannu at ei fethiant. Wedi dweud hynny, rwy'n falch y dywedodd y Gweinidog, pan gafodd ei holi ynghylch a oedd y gwaith monitro yn canolbwyntio ar ad-daliadau ariannol ar draul effaith, fod gwersi wedi cael eu dysgu o ganlyniad i'r prosiect hwn a'r gwerthusiad.

It is important that the Welsh Government effectively monitors not only the financial repayments, but that it seriously monitors the actual impact on service delivery. I also think that the Minister should monitor how the invest-to-save fund works within the Welsh Government's overall efficiency funding. Perhaps she could tell us this afternoon how the fund has worked in conjunction, for example, with the efficiency and innovation board, to save money where possible and to deliver good-quality public services across Wales. Finally, I once again thank the Chair, the clerk and his team for their work on this inquiry. I look forward to hearing more about invest-to-save as these recommendations are implemented.

Mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru yn monitro'n effeithiol, nid yn unig yr ad-daliadau ariannol, ond ei bod yn monitro o ddifrif yr effaith wirioneddol ar y gwasanaethau a ddarperir. Credaf hefyd y dylai'r Gweinidog fonitro sut y mae'r gronfa buddsoddi i arbed yn gweithio o fewn cyllid effeithlonrwydd cyffredinol Llywodraeth Cymru. Efallai y gallai ddweud wrthym y prynhawn yma sut y mae'r gronfa wedi gweithio ar y cyd, er enghraifft, â'r bwrdd effeithlonrwydd ac arloesi, i arbed arian lle bo hynny'n bosibl a darparu gwasanaethau cyhoeddus o ansawdd da ledled Cymru. Yn olaf, diolchaf unwaith eto i'r Cadeirydd, y clerc a'i dîm am eu gwaith ar yr ymchwiliad hwn. Edrychaf ymlaen at glywed mwy am fuddsoddi i arbed wrth i'r argymhellion hyn gael eu rhoi ar waith.

17:45 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Galwaf ar Ken Skates.

I call on Ken Skates.

17:45 **Kenneth Skates** Bywgraffiad Biography

I am grateful to you for allowing me to speak today in this important debate. I begin by thanking the Chair and the committee for their excellent report. What is absolutely clear in the report is that invest-to-save works, not just on a theoretical level, but on a practical level. In this vein, I very much welcome the recent announcement that a further £11 million of improvement projects will be funded to help to transform service delivery.

Rwy'n ddiolchgar ichi am adael imi siarad heddiw yn y ddadl bwysig hon. Hoffwn ddechrau drwy ddiolch i'r Cadeirydd a'r pwyllgor am eu hadroddiad rhagorol. Yr hyn sy'n gwbl glir yn yr adroddiad yw bod buddsoddi i arbed yn gweithio, nid yn unig ar lefel ddamcaniaethol, ond ar lefel ymarferol. Fel y cyfryw, croesawaf yn fawr iawn y cyhoeddiad diweddar y bydd gwerth £11 miliwn ychwanegol o brosiectau gwella yn cael eu hariannu er mwyn helpu i drawsnewid gwasanaethau.

One of the most important local examples of where invest-to-save has worked in north-east Wales is the fantastic work done in helping to reduce energy use and therefore carbon emissions in Wrexham County Borough Council. By using £930,000 of Welsh Government invest-to-save funding, it has helped to deliver a range of projects that have helped to reduce energy consumption. I believe that the result has been that the council has achieved a greater than 30% reduction in its carbon emissions since 2005 and avoided a total estimated cost increase of just under £1.4 million for energy over the same period. Importantly, what has made the project such as success there has been the political and administrative leadership on the council. This strong leadership has meant that the council is now chasing down a 50% carbon reduction target across all council activities by 2016, meaning that invest-to-save has become a cultural change in the organisation and not just an innovative funding scheme. I do believe that without strong leadership and commitment at a strategic level, the impact of invest-to-save to bring real change in our public services will be truncated.

Un o'r enghreifftiau lleol pwysicaf o ble mae buddsoddi i arbed wedi gweithio yn y gogledd-ddwyrain yw'r gwaith gwych a wneir er mwyn helpu i leihau'r defnydd o ynni ac, felly, allyriadau carbon yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Drwy ddefnyddio £930,000 o arian buddsoddi i arbed Llywodraeth Cymru, mae wedi helpu i gyflwyno amrywiaeth o brosiectau sydd wedi helpu i leihau'r defnydd o ynni. Credaf mai'r canlyniad yw bod y cyngor wedi sicrhau gostyngiad o fwy na 30% yn ei allyriadau carbon ers 2005 ac wedi osgoi cynnydd cost amcangyfrifedig o ychydig llai na £1.4 miliwn am ynni dros yr un cyfnod. Yn bwysig, yr hyn sydd wedi sicrhau llwyddiant y prosiect yw arweinyddiaeth wleidyddol a gweinyddol y cyngor. Mae'r arweinyddiaeth gref hon wedi golygu bod y cyngor nawr yn anelu at darged lleihau carbon o 50% ar draws holl weithgareddau'r cyngor erbyn 2016, sy'n golygu bod buddsoddi i arbed wedi dod yn newid diwylliannol yn y sefydliad ac nid yn gynllun ariannu arloesol yn unig. Heb arweinyddiaeth gref ac ymrwymiad ar lefel strategol, credaf y caiff effaith buddsoddi i arbed i gyflwyno newidiadau gwirioneddol yn ein gwasanaethau cyhoeddus ei chwtogi.

As the report demonstrates, there has been only one successful application from higher education institutions to date. So, I look forward to seeing how the Welsh Government can work with the sector to ensure that more bids come forward from both further education and higher education in future years.

Fel y dengys yr adroddiad, dim ond un cais llwyddiannus a gafwyd gan sefydliadau addysg uwch hyd yn hyn. Felly, edrychaf ymlaen at weld sut y gall Llywodraeth Cymru weithio gyda'r sector i sicrhau y daw mwy o geisiadau i law gan y sector addysg bellach ac addysg uwch yn y dyfodol.

I make my final point by highlighting the one area where I feel the invest-to-save principle can make its most important contribution; that area is social care. Having worked with the Deputy Minister for Social Services on the development of the When I am Ready scheme for care leavers, the invest-to-save principle has been in my mind as a much better model that we could adopt to support local authorities and other service deliverers to reshape important areas of social care in times of financial restraint. The latest statistics show that the number of children in care has risen by 6% this year and by 24% in the past five years. Of course, this brings with it significant public service funding pressures in forthcoming years, because of the poorer outcomes associated with young people being in care.

Gwnaf fy mhwynt olaf trwy dynnu sylw at yr un maes lle teimlaf y gall egwyddor buddsoddi i arbed wneud ei gyfraniad pwysicaf, sef maes gofal cymdeithasol. Ar ôl gweithio gyda'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol i ddatblygu cynllun Pan fydda i'n barod ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal, rwyf wedi meddwl am yr egwyddor buddsoddi i arbed fel model llawer gwell y gallem ei fabwysiadu i helpu awdurdodau lleol a darparwyr gwasanaethau eraill i ail-lunio rhannau pwysig o ofal cymdeithasol mewn cyfnod o gyfyngiadau ariannol. Dengys yr ystadegau diweddaraf fod nifer y plant mewn gofal wedi codi 6% eleni a 24% yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Wrth gwrs, bydd hyn yn rhoi pwysau ariannol sylweddol ar wasanaethau cyhoeddus dros y blynyddoedd i ddod, oherwydd y canlyniadau mwy anffafriol sy'n gysylltiedig â phobl ifanc mewn gofal.

The obvious difficulty—again, the report hints at this—is how, if you apply an outcomes-based approach in areas of policy such as this, you can clearly define and quantifiably measure successful outcomes. As a way of providing up-front funding for prevention and early intervention services, I hope that the Welsh Government will push forward with the good early signs of support that it has given on this issue and carry out exploratory work into areas like child and adult social care, where invest-to-save can make a transformative difference.

Yr anhawster amlwg—unwaith eto, mae'r adroddiad yn awgrymu hyn—yw sut, os byddwch yn gweithio ar sail canlyniadau mewn meysydd polisi fel hyn, y gallwch ddiffinio canlyniadau llwyddiannus yn glir a'u mesur mewn ffordd feintiol. Fel ffordd o ddarparu cyllid ymlaen llaw ar gyfer gwasanaethau atal ac ymyrraeth gynnar, gobeithiaf y bydd Llywodraeth Cymru'n bwrw ymlaen â'r arwyddion da cynnar o gefnogaeth y mae wedi'u rhoi ar y mater hwn ac yn gwneud gwaith archwilio i feysydd megis gofal cymdeithasol plant ac oedolion, lle gall buddsoddi i arbed wneud gwahaniaeth trawsnewidiol.

I applaud the Finance Committee's report and look forward to its central themes being taken forward in the next few years.

Cymeradwyaf adroddiad y Pwyllgor Cyllid ac edrychaf ymlaen at weld ei themâu canolog yn cael eu datblygu yn ystod y blynyddoedd nesaf.

17:49

## Ieuan Wyn Jones Bywgraffiad Biography

Rwyf hefyd yn croesawu'r cyfle i gyfrannu at y drafodaeth heddiw ac rwy'n diolch i'r Cadeirydd a staff y pwyllgor am eu gwaith yn llywio'r trafodaethau.

I too welcome this opportunity to contribute to the discussion today and I thank the Chair and the staff of the committee for their work in driving these discussions forward.

Sefydlwyd y gronfa buddsoddi-i-arbed gan y Llywodraeth flaenorol, sef Llywodraeth Cymru'n Un. O bosibl, felly, byddai disgwyl inni fod yn gefnogol i'r egwyddor, er bod record y gronfa erbyn hyn yn un y gallwn ni i gyd ymfalchio ynddo—hyd yn hyn, beth bynnag. Rydym i gyd yn sylweddoli'r pwysau cynyddol sydd ar y sector cyhoeddus a'r trydydd sector yn sgîl yr argyfwng ariannol ac yn gweld yr angen i helpu'r sectorau hynny, felly, i fuddsoddi mewn rhaglenni a chynlluniau a fydd yn creu arbedion.

The invest-to-save fund was established by the previous Government, the One Wales Government. So, perhaps we would be expected to be supportive of the principle, even though the record of the fund is one that we can all be proud of—so far, anyway. We all understand the increasing pressure that is on the public sector and the third sector following the financial crisis and we see the need to assist those sectors, therefore, to invest in projects and schemes that will create savings.

Bu tipyn o drafodaeth ynglŷn â'r bwriad i sicrhau ad-daliad o'r arian. Mae'n bosibl y bydd y Gweinidog yn cofio'r trafodaethau hynny. Roeddwn i yn bersonol o blaid gwneud hynny, yn arbennig o gofio mai dyna oedd y cynllun a wnaethom ei fabwysiadu yn rhaglen adnewyddu'r economi flwyddyn yn ddiweddarach. Serch hynny, rwy'n gwybod nad yw pob corff yn croesawu'r angen i ad-dalu ac mae'n anodd, os nad yn amhosibl, i rai ohonynt wneud hynny. Nid yw'n gynllun ar gyfer pawb a gwelais hynny yn ystod ein hymchwiliad, lle'r oedd rhai mudiadau yn teimlo efallai eu bod wedi mynd at y gronfa anghywir, sef y gronfa buddsoddi i arbed, ac yn hytrach y dylent fod wedi mynd at gronfa arall. Fodd bynnag, ar gyfer y cynlluniau priodol, mae'n gronfa ardderchog.

We had a great deal of discussion on the intention to ensure a repayment of the funding. It is possible that the Minister will remember those discussions. I was personally in favour of that, especially remembering that that was the scheme that we adopted in the economic renewal programme a year later. Despite that, I know that not every organisation welcomes the need to repay and it is difficult, if not impossible, for some of them to do so. It is not a scheme for everyone and I saw that during our inquiry, where some groups felt that they had perhaps gone to the wrong fund, namely the invest-to-save fund, and felt that they should rather have gone to another fund. However, for the appropriate schemes, it is an excellent fund.

Wrth gwrs, mae'r £66 miliwn roedd Paul Davies yn sôn amdano ddim ond yn cynrychioli 5% o arian cyfalaf y Llywodraeth. Y siom, fel rydym wedi clywed yn barod, yw'r ffaith bod canran mor uchel o'r arian wedi mynd at gyrff iechyd—56% o'r arian—a 31% at lywodraeth leol, a bod prinder ceisiadau oddi wrth y sector addysg. Rhaid cofio bod pwysau difrifol ar y gwasanaeth iechyd ac nad oes dim o'i le ar fod y byrddau iechyd yn ceisio arbedion. Fodd bynnag, rwy'n credu ein bod i gyd yn cytuno bellach fod angen i'r Llywodraeth geisio amrediad ehangach o gyrff yn ystod y blynyddoedd nesaf. Dyna pam, fel rydym wedi clywed gan sawl Aelod y prynhawn yma, y bu i'r pwyllgor argymell na ddylid codi'r trothwy i £200,000, ond y dylid mynd yn ôl at £100,000, a chroesawu'r hyblygrwydd rwy'n gobeithio y bydd y Gweinidog yn ei weld fel posibilrwydd o fewn y gronfa. Yn ychwanegol at hynny, byddai codi'r trothwy hwnnw yn rhwystro nifer o gyrff yn ddiangen, megis yr ardd fotaneg—rydym wedi clywed am hynny hefyd.

Of course, the £66 million that Paul Davies talked about only represents 5% of the capital funding spent by the Government. The disappointment, which we have heard about already, is the fact that such a high percentage of the funding has gone to health bodies—56% of the funding—and 31% to local government, and that there is a lack of applications from the education sector. We must remember that there is a great deal of pressure on the health service and that there is nothing wrong with the health boards trying to ensure savings. However, I think that we would all agree that the Government does need to seek a wider range of bodies over the next few years. That is why, as we have heard from several Members this afternoon, the committee recommended that the threshold should not be raised to £200,000, but that it should be returned to £100,000, and we welcomed the flexibility that I hope that the Minister will envisage as being possible within the fund. In addition to that, raising the threshold would create an unnecessary barrier for some bodies, such as the botanical garden—we have heard about that as well.

Gyda chynllun mor arloesol â hwn, mae angen sicrhau monitro cyson a gwerthuso rheolaidd i sicrhau bod y gronfa yn cyrraedd ei hamcanion. Rydym wedi cael yr argraff, er nad yw'n wir am bob corff, fod cyrff yn credu bod y ffaith bod yr arian wedi cael ei dalu yn ôl yn ddigon i ddangos y bu arbedion. Tra bo hynny yn ffactor, mae'r arbedion gwirioneddol yn debygol o fod yn rhai tymor canol neu hir, ac er bod gweithio yn fwy effeithiol yn ffactor, nid yw hynny ohono'i hun chwaith yn ddigon. Hyd y gwelaf i, nid oes modd gwneud gwerthusiad manwl o lwyddiant y gronfa am gyfnod eto. Hynny yw, mae angen rhai blynyddoedd mewn rhai achosion, cyn i arbedion ymddangos mewn rhai cyrff. Mae angen medru dangos bod yr arbedion wedi cael eu cynnal dros amser.

With such an innovative scheme as this one, we need to ensure that there is consistent monitoring and regular evaluation to ensure that the fund achieves its aims. We do get the impression, even though it is not true of all bodies, that they felt that the fact that the funding had been repaid was sufficient to show that there had been savings. While that is a factor, the true savings are likely to be mid or long-term savings, and even though working more effectively is a factor that, in and of itself, is not sufficient. As far as I see it, it will not be possible to make a detailed evaluation of the success of the fund for a few years yet. That is, in some cases we will need to wait a few years before seeing that savings have been achieved in some bodies. We also need to see that those savings are maintained over a period of time.

Ar y cyfan, felly, mae'r gronfa wedi bod yn gymharol lwyddiannus hyd yma, a byddem i gyd, rwy'n siŵr, yn argymell y dylid parhau efo hi, o gofio bod llai o arian yn debyg o ddod i goffrau'r Llywodraeth yn ystod y blynyddoedd nesaf. Felly fy awgrym olaf yw bod eisiau cadw llygad ar ddau beth, sef sicrhau bod amrediad ehangach o gyrff yn cymryd rhan a sicrhau monitro a gwerthuso rheolaidd er mwyn sicrhau bod y gronfa yn cyrraedd yr amcanion cywir.

On the whole, therefore, the fund has been relatively successful so far and I am sure that we would all recommend continuing with it, remembering that less funding is likely to come from Government coffers over the next few years. So, my final suggestion would be that we need to keep an eye on two things, namely ensuring that a wider range of bodies take part and that there is regular monitoring and evaluation in order to ensure that the fund reaches the right objectives.

17:53 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

I am pleased to speak briefly in this debate. This was an excellent report, and I must admit that I thoroughly enjoyed it in a way that you do not always enjoy reports. First, I thank the Chair for her leadership and I am thankful for the help from the clerks. Most of the points have been made by fellow members of the committee and the others who have contributed, so I do not want to repeat them, except to say that it is a popular scheme. We have to try to get it out of just the local authorities and health boards, and get more of it in education. We have to broadcast it more.

Rwy'n falch o siarad yn fyr yn y ddadl hon. Roedd hwn yn adroddiad ardderchog, a rhaid imi gyfaddef fy mod wedi'i fwynhau'n fawr mewn ffordd nad ydych bob amser yn mwynhau adroddiadau. Yn gyntaf, hoffwn ddiolch i'r Cadeirydd am ei harweiniad ac rwy'n ddiolchgar am y cymorth gan y clercod. Mae'r rhan fwyaf o'r pwyntiau wedi'u gwneud gan gyd-aelodau o'r pwyllgor a'r lleill sydd wedi cyfrannu, felly nid wyf am eu hailadrodd, heblaw am ddweud ei fod yn gynllun poblogaidd. Rhaid inni geisio ei ymestyn fel bod mwy ohono ym myd addysg, nid dim ond yr awdurdodau lleol a'r byrddau iechyd. Rhaid inni roi mwy o gyhoeddusrwydd iddo.

I want to talk briefly about my experience of undertaking an individual visit as part of the inquiry. I went to the Welsh analytical prescribing support unit at Llandough hospital. I found this to be a stimulating visit because it showed how good practice could be implemented at the same time as money was being saved. To me, that was the key issue.

Hoffwn sôn ychydig am fy mhrofiad o fynd ar ymweliad unigol fel rhan o'r ymchwiliad. Ymwelais ag uned cefnogi rhagnodi dadansoddol Cymru yn ysbyty Llandochau. Bu hwn yn ymweliad diddorol oherwydd dangosodd sut y gellid rhoi arferion da ar waith ac arbed arian ar yr un pryd. I mi, dyna oedd y mater allweddol.

The project looked at specific prescribing practices across the NHS, looking at over-prescribing and under-prescribing for some drugs. It resulted in a saving of £5.83 million, which was much more than anticipated. It had been anticipated that £4.68 million would be saved, but this was a much higher amount. The project was done by working locally, working closely with the health boards, putting on workshops, giving information and doing surveys. The project also looked at the particular issues related to GPs in terms of prescribing. I think that its success was due to the detailed discussion at the local level. Obviously, there are particular issues facing GPs in terms of prescribing, and these were all addressed.

Edrychodd y prosiect ar arferion rhagnodi penodol ar draws y GIG, gan edrych ar or-ragnodi a than-ragnodi ar gyfer rhai cyffuriau. Arweiniodd at arbed £5.83 miliwn, a oedd yn llawer mwy na'r disgwyl. Rhagwelwyd y byddai £4.68 miliwn yn cael ei arbed, ond roedd hwn yn swm llawer uwch. Cafodd y prosiect ei weithredu drwy weithio'n lleol, gweithio'n agos gyda'r byrddau iechyd, cynnal gweithdai, rhoi gwybodaeth a gwneud arolygon. Edrychodd y prosiect hefyd ar y materion rhagnodi penodol sy'n ymwneud â meddygon teulu. Credaf iddo lwyddo oherwydd y drafodaeth fanwl yn lleol. Yn amlwg, mae materion rhagnodi penodol yn wynebu meddygon teulu, a rhoddwyd sylw i'r rhain i gyd.

Therefore, I thought that that was a really good example of how invest-to-save improved clinical practice, as well as saving money. I felt that there is a huge opportunity to do more of this where we can improve services and practice at the same time as bringing in more money.

Felly, roeddwn yn meddwl bod honno'n enghraifft dda iawn o'r ffordd yr oedd buddsoddi i arbed wedi gwella ymarfer clinigol, yn ogystal ag arbed arian. Roeddwn yn teimlo bod cyfle mawr i wneud mwy o hyn lle y gallwn wella gwasanaethau ac ymarfer gan ryddhau mwy o arian ar yr un pryd.

17:56

## Peter Black Bywgraffiad Biography

I also pass on my thanks to the Chair for the leadership that she showed in producing this report, and of course to the officials who supported us greatly in terms of putting it together.

Hoffwn innau hefyd estyn fy niolch i'r Cadeirydd am yr arweiniad a ddangosodd wrth gynhyrchu'r adroddiad hwn, ac wrth gwrs i'r swyddogion a fu'n gymorth mawr wrth inni ei roi at ei gilydd.

I am pleased that the Minister has accepted the vast majority of the report's recommendations in total or in principle. That is very important and it shows the contribution that the committee can make to improve such a scheme. Some of the issues that came up will certainly help to ensure some clarification in terms of how the scheme is applied in future. I noticed—and I think that this point has already been made by Mike Hedges, and an explanation given—that the poor take-up by local government in respect of this is largely due to the fact—as Mike said—that they have reserves, unlike the health bodies, which seem to be using it more. However, we did think that there was an issue about smaller public sector bodies not accessing this fund as they should be, and that it should be promoted to them to ensure that it was not just monopolised by the health boards and so that other bodies were enabled to make use of it.

Rwy'n falch bod y Gweinidog wedi derbyn y rhan fwyaf o argymhellion yr adroddiad yn eu cyfanrwydd neu mewn egwyddor. Mae hynny'n bwysig iawn ac mae'n dangos y cyfraniad y gall y pwyllgor ei wneud i wella cynllun o'r fath. Bydd rhai o'r materion a gododd yn sicr yn helpu i gael rhywfaint o eglurhad o ran sut y caiff y cynllun ei gymhwyso yn y dyfodol. Sylwais—a chredaf fod y pwynt hwn eisoes wedi'i wneud gan Mike Hedges, ac wedi'i esbonio—mai'r prif reswm pam na chaiff y cynllun ei ddefnyddio fawr gan gyrff llywodraeth leol—fel y dywedodd Mike—yw bod ganddynt gronfeydd wrth gefn, yn wahanol i'r cyrff iechyd, sy'n ymddangos fel pe baent yn ei ddefnyddio'n fwy. Fodd bynnag, roeddem yn credu bod problem yn yr ystyr nad oedd cyrff llai yn y sector cyhoeddus yn cael gafael ar yr arian hwn fel y dylent, ac y dylid ei hyrwyddo iddynt er mwyn sicrhau nad oedd yn cael ei ddefnyddio'n gyfan gwbl gan y byrddau iechyd ac felly bod cyrff eraill yn gallu ei ddefnyddio.

However, there were certainly some very good examples of local authorities making use of this fund. Again, they have been referred to, particularly the one in Wrexham where—as Ken Skates said—leadership is very important, as was the leadership of my colleague, Aled Roberts, who was then leader of that council. It was a particularly effective scheme that not only led to a greener way of producing energy through solar panels, but also reduced bills for tenants thus helping to tackle fuel poverty. Again, there are clear benefits coming out of that scheme. We have also heard of a similar scheme in terms of the gardens in Carmarthenshire, which are also benefiting tremendously from that scheme.

Fodd bynnag, roedd rhai enghreifftiau da iawn o awdurdodau lleol yn gwneud defnydd o'r gronfa hon. Unwaith eto, cyfeiriwyd atynt yn barod, yn enwedig yr un yn Wrecsam lle—fel y dywedodd Ken Skates— roedd arweiniad yn bwysig iawn, fel yr oedd yr arweiniad fy nghyd-aelod, Aled Roberts, arweinydd y cyngor ar y pryd. Roedd yn gynllun arbennig o effeithiol a arweiniodd nid yn unig at ffordd fwy gwyrdd o gynhyrchu ynni drwy baneli solar, ond hefyd at filiau is i denantiaid gan helpu i fynd i'r afael â thlodi tanwydd. Unwaith eto, mae manteision clir yn deillio o'r cynllun hwnnw. Rydym hefyd wedi clywed am gynllun tebyg o ran y gerddi yn Sir Gaerfyrddin, sydd hefyd yn elwa'n fawr o'r cynllun hwnnw.

There were also some pretty poor examples of how the scheme is being used. The report makes reference to the committee's concern about National Resources Wales's general use of this fund. The report states,

Roedd rhai enghreifftiau eithaf gwael hefyd o'r ffordd y mae'r cynllun yn cael ei ddefnyddio. Mae'r adroddiad yn cyfeirio at bryder y pwyllgor am ddefnydd cyffredinol Cyfoeth Naturiol Cymru o'r gronfa hon. Mae'r adroddiad yn nodi,

'it is not clear to us that this was an invest-to-save project.'

'Nid yw'n glir i ni mai prosiect buddsoddi i arbed oedd hwn.'

As someone who has some responsibility for computers in the Commission, when someone comes to me and says, 'I am going to make us save lots of money by investing in a computer project', I always do a double-take and start to ask questions. Experience has shown me that that does not always happen.

Fel rhywun sydd â rhywfaint o gyfrifoldeb am gyfrifiaduron yn y Comisiwn, pan ddaw rhywun ataf a dweud, 'Rwy'n mynd i wneud inni arbed llawer o arian drwy fuddsoddi mewn prosiect cyfrifiadur', rwyf bob amser yn meddwl eilwaith ac yn dechrau gofyn cwestiynau. Mae profiad wedi dangos imi nad yw hynny'n digwydd bob amser.

There is also an interesting case study in the report in relation to the lean systems review of children and young people services in Neath Port Talbot. It received invest-to-save funding of nearly £334,000, which is being re-paid by Neath Port Talbot County Borough Council. I am not clear that there were any savings to Neath Port Talbot council from that, but the implementation of that system is certainly cited in various reviews of the children services in Neath and Port Talbot as a particular cause of some of the problems that they encountered as a result of it. I think that we make the case in the report about how important it is that projects are monitored once that investment is made so that we are clear that we are getting the benefits from those projects that we hoped that we would get when we put the money into them. Again, that underlines the need, when you make the assessment of the project, to ensure that everyone is very clear as to what the actual cash benefits are from that invest-to-save project, that the body concerned will be getting money back, and that that money is clearly demonstrated in the case that is put forward. I think that that was a failing in relation to the assessment of the Neath Port Talbot scheme. Although it was an innovative scheme, it certainly caused a lot of problems.

Mae astudiaeth achos ddiddorol yn yr adroddiad hefyd mewn perthynas â'r adolygiad o systemau darbodus gwasanaethau plant a phobl ifanc yng Nghastell-nedd Port Talbot. Dyfarnwyd bron £334,000 o arian buddsoddi i arbed, sy'n cael ei ad-dalu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot. Nid wyf yn glir a wnaeth Cyngor Castell-nedd Port Talbot unrhyw arbedion yn sgil y system, ond yn sicr mae adolygiadau amrywiol o wasanaethau plant yng Nghastell-nedd a Phort Talbot yn cyfeirio at weithredu'r system honno fel un o achosion penodol y problemau y daethant ar eu traws o ganlyniad i hyn. Rwy'n meddwl ein bod yn dadlau yn yr adroddiad pa mor bwysig yw hi bod prosiectau'n cael eu monitro ar ôl i'r buddsoddiad hwnnw gael ei wneud fel ein bod yn gweld yn glir ein bod yn cael y buddiannau o'r prosiectau hynny yr oeddem wedi gobeithio y byddem yn eu cael pan wnaethom fuddsoddi ynddynt. Unwaith eto, mae hynny'n tanlinellu'r angen, pan fyddwch yn asesu'r prosiect, i sicrhau bod pawb yn gwbl glir ynghylch beth yw buddiannau ariannol gwirioneddol y prosiect buddsoddi i arbed, y bydd y corff dan sylw yn cael arian yn ôl, a bod yr arian hwnnw'n cael ei ddangos yn glir yn yr achos a gyflwynir. Credaf i hynny fod yn fethiant yn yr asesiad o gynllun Castell-nedd Port Talbot. Er ei fod yn gynllun arloesol, mae'n sicr iddo achosi llawer o broblemau.

My final point is in relation to the regional collaboration fund. Again, a number of us were confused as to the purpose of this fund when it was introduced. At one stage, it was being touted as an invest-to-save fund, and clearly it is not. However, there are a number of collaboration projects that are looked upon as invest-to-save projects. We have to have a clear distinction here between whether you are funding collaboration, in which case you need to use the regional collaboration fund, or whether you are funding an invest-to-save project, in which case the invest-to-save fund is the way to go. I would hope that, when the Minister for Local Government and Government Business and the Minister for Finance get together to discuss this report, we can have some clarity about how the two funds are being used. We need to ensure that there is no overlap, as some of us suspected that there was, in how they are being utilised.

Mae fy mhwynt olaf yn ymwneud â'r gronfa cydweithredu ranbarthol. Unwaith eto, roedd nifer ohonom wedi drysu ynghylch diben y gronfa hon pan gafodd ei chyflwyno. Ar un adeg, roedd yn cael ei hybu fel cronfa buddsoddi i arbed, ac yn amlwg nid dyna ydyw. Fodd bynnag, mae yna nifer o brosiectau cydweithredu a gaiff eu hystyried yn brosiectau buddsoddi i arbed. Rhaid inni wahaniaethu'n glir yma rhwng pa un a ydych yn ariannu cydweithredu, ac os felly bydd angen ichi ddefnyddio'r gronfa cydweithredu ranbarthol, neu a ydych yn ariannu prosiect buddsoddi i arbed, ac os felly, y gronfa buddsoddi i arbed yw'r ffordd ymlaen. Byddwn yn gobeithio, pan fydd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth a'r Gweinidog Cyllid yn cyfarfod i drafod yr adroddiad hwn, y gallwn gael rhywfaint o eglurder ynghylch sut y mae'r ddwy gronfa'n cael eu defnyddio. Mae angen inni sicrhau nad oes unrhyw orgyffwrdd, fel yr oedd rhai ohonom yn amau oedd yn digwydd, yn y modd y cânt eu defnyddio.

18:01

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Cyllid / The Minister for Finance*

I welcome this report on the Finance Committee's inquiry into the invest-to-save fund, which I consider helpful and pertinent, as Mike Hedges said. It will assist us in improving our thinking about how the fund operates. I also put on record my appreciation of the hard work of the Finance Committee in collecting evidence and presenting its findings. I also welcome the positive contributions from across the Chamber in the debate this afternoon.

Croesawaf yr adroddiad hwn ar ymchwiliad y Pwyllgor Cyllid i'r gronfa buddsoddi i arbed, yr wyf yn ystyried ei fod yn ddefnyddiol ac yn berthnasol, fel y dywedodd Mike Hedges. Bydd yn ein helpu i wella ein ffordd o feddwl am sut y mae'r gronfa yn gweithredu. Hoffwn hefyd gofnodi fy ngwerthfawrogiad o waith caled y Pwyllgor Cyllid wrth gasglu tystiolaeth a chyflwyno ei ganfyddiadau. Croesawaf hefyd y cyfraniadau cadarnhaol ar draws y Siambr yn y ddadl y prynhawn yma.

Furthering the efficiency and effectiveness of our public services in Wales is a high priority for the Welsh Government, as is the need to make optimum use of the resources that we have available at our disposal. This is about making the best of the money that we have, as the chair of the Finance Committee said in her opening remarks to this debate. The necessity to find different ways to deliver services that are more cost-effective but, at the same time, maintain or improve on quality, has never been so great. The Welsh Government's invest-to-save fund is supporting innovation in public service delivery and helping to bring about real benefits through service transformation. Julie Morgan described that very vividly in relation to the project that she visited at Llandough Hospital. Savings of £5.83 million have been made in the prescribing practices scheme, which has improved clinical practice and saved money, as the Member said. Investments from the fund started in 2010. Seven funding rounds later, over £75 million has been invested and 65 projects supported. I am heartened that the committee's overall conclusion from its inquiry is that invest-to-save is an excellent scheme that improves services to the public and generates real savings for the public purse. I also accept the committee's findings that there are areas where the fund might be developed further to make it even more effective. I am happy to accept its recommendations for improvements.

Mae gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ein gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn flaenoriaeth uchel i Lywodraeth Cymru, yn ogystal â'r angen i wneud y defnydd gorau posibl o'r adnoddau sydd ar gael inni. Mae hyn yn golygu gwneud y gorau o'r arian sydd gennym, fel y dywedodd cadeirydd y Pwyllgor Cyllid yn ei sylwadau agoriadol i'r ddadl hon. Ni fu erioed mwy o angen inni ddod o hyd i ffyrdd gwahanol o ddarparu gwasanaethau sy'n fwy cost-effeithiol ond, ar yr un pryd, gynnal neu wella ansawdd. Mae cronfa buddsoddi i arbed Llywodraeth Cymru yn cefnogi arloesedd wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus a helpu i sicrhau buddiannau gwirioneddol trwy drawsnewid gwasanaethau. Disgrifiodd Julie Morgan hynny'n fyw iawn mewn perthynas â'r prosiect y gwnaeth ymweld ag ef yn Ysbyty Llandochau. Mae arbedion o £5.83 miliwn wedi cael eu gwneud yn y cynllun arferion rhagnodi, sydd wedi gwella arfer clinigol ac wedi arbed arian, fel y dywedodd yr Aelod. Dechreuodd buddsoddiadau o'r gronfa yn 2010. Saith rownd gyllido yn ddiweddarach, mae dros £75 miliwn wedi'i fuddsoddi a 65 o brosiectau wedi'u cefnogi. Mae'n galonogol gweld mai casgliad cyffredinol y pwyllgor o'i ymchwiliad yw bod buddsoddi i arbed yn gynllun ardderchog sy'n gwella gwasanaethau i'r cyhoedd ac yn cynhyrchu arbedion gwirioneddol ar gyfer y pwrs cyhoeddus. Derbyniaf hefyd ganfyddiadau'r pwyllgor bod meysydd lle y gallai'r gronfa gael ei datblygu ymhellach i'w gwneud hyd yn oed yn fwy effeithiol. Rwy'n hapus i dderbyn ei argymhellion ar gyfer gwelliannau.

I would like to draw attention to some of the key points that I have made in response to this important inquiry. The invest-to-save approach clearly works. The provision of short-term transitional funding can help bridge the gap between project implementation and the delivery of financial and longer-term benefits. All bids for invest-to-save need to demonstrate that they will ultimately lead to financial savings. The need to repay invest-to-save funding instils an additional discipline in project delivery. We are seeing a change of mindset and a maturity from project promoters, with greater recognition that the continued provision of non-returnable grant for improvement programmes that generate cash savings is no longer sustainable, and that the future lies with investing to save. The outcomes focus, as Ken Skates described, is part of a new discipline also in preventative spend and service transformation.

Hoffwn dynnu sylw at rai o'r pwyntiau allweddol yr wyf wedi'u gwneud mewn ymateb i'r ymchwiliad pwysig hwn. Mae buddsoddi i arbed yn amlwg yn gweithio. Gall darparu arian trosiannol byrdymor helpu i bontio'r bwlch rhwng gweithredu'r prosiect a chyflwyno buddiannau ariannol a thymor hwy. Mae angen i bob cais am arian buddsoddi i arbed ddangos y byddant yn arwain at arbedion ariannol yn y pen draw. Mae'r angen i ad-dalu arian buddsoddi i arbed yn cyflwyno elfen ychwanegol o ddisgyblaeth wrth weithredu prosiect. Rydym yn gweld newid meddylfryd ac aeddfedrwydd ymhlith hyrwyddwyr prosiectau, gyda mwy o gydnabyddiaeth nad yw bellach yn gynaliadwy i barhau i ddarparu grantiau na chânt eu had-dalu ar gyfer rhaglenni gwella sy'n cynhyrchu arbedion arian parod, ac mai buddsoddi i arbed yw'r ffordd ymlaen ar gyfer y dyfodol. Mae'r pwyslais ar ganlyniadau, fel y disgrifiodd Ken Skates, yn rhan o ddisgyblaeth newydd hefyd ym maes gwariant ataliol a thrawsnewid gwasanaethau.

There has been a 100% take-up of available invest-to-save funding over the past three years. This included £17.6 million arising from repayments, which has been collected and reinvested in-year to support new improvement initiatives. The fund supports those delivering public services in Wales, and it has been—as Members have acknowledged and as the Finance Committee inquiry recognised—extensively used by the NHS. Local government has also made use of it in the ways that have been described—there is the Wrexham scheme in particular. I visited that scheme, and Aled Roberts may have shown me around the combined heat and power project. That is a project that has been taken forward. We will promote the scheme more widely through networks and events that public service bodies attend. We need to make sure that education institutions are further engaged, particularly higher education institutions, as has been identified, and to open up the opportunities to other bodies.

Cafodd yr holl arian buddsoddi i arbed sydd wedi bod ar gael dros y tair blynedd diwethaf ei ddefnyddio. Roedd hyn yn cynnwys £17.6 miliwn a ddaeth o ad-daliadau, sydd wedi cael ei gasglu a'i ail-fuddsoddi yn ystod y flwyddyn i gefnogi mentrau gwella newydd. Mae'r gronfa'n cefnogi'r rhai sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, ac fe'i defnyddiwyd yn helaeth yn y GIG—fel y cydnabu'r Aelodau ac ymchwiliad y Pwyllgor Cyllid. Mae llywodraeth leol hefyd wedi'i defnyddio yn y ffyrdd a ddisgrifiwyd—mae cynllun Wrecsam yn enghraifft benodol. Ymwelais â'r cynllun hwnnw, a chredaf i Aled Roberts o bosibl fy nhywys o amgylch y prosiect gwres a phŵer cyfunedig. Mae hwnnw'n brosiect sydd wedi cael ei ddatblygu. Byddwn yn hyrwyddo'r cynllun yn ehangach drwy rwydweithiau a digwyddiadau y mae cyrff gwasanaethau cyhoeddus yn eu mynychu. Mae angen inni wneud yn siŵr bod sefydliadau addysg yn cael eu cynnwys ymhellach, yn enwedig sefydliadau addysg uwch, fel y nodwyd, ac agor y cyfleoedd i gyrff eraill.

I share the committee's view that the best practice in allocating funding is to continue with the existing approach of supporting the best bids available, irrespective of theme. That was an important part of the scrutiny that is helpful to me as the Minister for Finance. There are initiatives and areas of activity that are proven to bring about improvements. Consequently, I have strengthened the alignment of the fund to the public service leadership group, chaired by the Minister for local government. Funding also targets high-priority initiatives that have been identified by public sector partners. Good examples include the £5.9 million investment to help to establish the national procurement service and support for the public service leadership group's national assets working group work programme, which led, as Paul Davies mentioned, to the £90,000 towards establishing the collaborative local government farm estate shared services. That came about as a result of the national assets working group programme.

Cytunaf â barn y pwyllgor mai'r arfer gorau wrth ddyrannu arian yw parhau â'r dull presennol o gefnogi'r ceisiadau gorau sydd ar gael, waeth beth fo'r thema. Roedd hynny'n rhan bwysig o'r gwaith craffu sy'n ddefnyddiol imi fel y Gweinidog Cyllid. Mae rhai mentrau a meysydd y profwyd eu bod yn sicrhau gwelliannau. O ganlyniad, rwyf wedi atgyfnerthu'r cysylltiad rhwng y gronfa â grŵp arwain y gwasanaeth cyhoeddus, dan gadeiryddiaeth y Gweinidog llywodraeth leol. Mae arian hefyd yn targedu mentrau blaenoriaeth uchel a nodwyd gan bartneriaid yn y sector cyhoeddus. Mae enghreifftiau da yn cynnwys y buddsoddiad o £5.9 miliwn er mwyn helpu i sefydlu'r gwasanaeth caffael cenedlaethol a chymorth ar gyfer gweithgor asedau cenedlaethol grŵp arwain y gwasanaeth cyhoeddus, a arweiniodd, fel y soniodd Paul Davies, at y £90,000 tuag at sefydlu'r gwasanaethau ystadau fferm llywodraeth leol cydweithredol. Digwyddodd hynny o ganlyniad i raglen y gweithgor asedau cenedlaethol.

That leads me to the threshold of the invest-to-save scheme, which has generated much discussion. There is consensus as to its purpose in assisting the targeting of strategic projects that have to be additional and represent good value for money. It can also help to contain the fund's administrative overhead for applicants and the Welsh Government alike. The issues to be addressed concern the limit at which the threshold is set and how the threshold is applied. I have kept this aspect of the fund under close review. Prompted by your inquiry, I recognise that more needs to be done to explain how the threshold is applied and I will address this in revised guidance in readiness for the next funding round. At this time, I will also consider project bids of £100,000 and above from the smaller public sector bodies, such as those sponsored by the Welsh Government, and build flexibility into the system and the guidance, as Paul Davies has advised.

Mae hynny'n fy arwain at drothwy'r cynllun buddsoddi i arbed, sydd wedi ennyn llawer o drafodaeth. Ceir consensws mai ei bwrpas yw helpu i dargedu prosiectau strategol y mae'n rhaid iddynt fod yn rhai ychwanegol a chynrychioli gwerth da am arian. Gall hefyd helpu i reoli gorbenion gweinyddol y gronfa ar gyfer ymgeiswyr a Llywodraeth Cymru fel ei gilydd. Mae'r materion y dylid rhoi sylw iddynt yn ymwneud â therfyn y trothwy a sut y caiff y trothwy ei gymhwyso. Rwyf wedi adolygu'r agwedd hon ar y gronfa'n fanwl. Yn sgil eich ymchwiliad, cydnabyddaf fod angen gwneud mwy i egluro sut y caiff y trothwy ei gymhwyso a byddaf yn ymdrin â hyn mewn canllawiau diwygiedig yn barod ar gyfer y rownd ariannu nesaf. Ar yr adeg hon, byddaf hefyd yn ystyried ceisiadau prosiect o £100,000 ac uwch gan y cyrff llai o fewn y sector cyhoeddus, fel y rhai a noddir gan Lywodraeth Cymru, ac yn cynnwys elfen o hyblygrwydd yn y system a'r canllawiau, fel y mae Paul Davies wedi cynghori.

Learning from the experience of adopting new approaches to public service delivery and capturing and cascading this knowledge is essential. Again, the committee's endorsement of our approach to this through published reports, case studies, and the link to the public service leadership group, is welcome. We have case studies prepared for 19 projects, all of which have been published and circulated via the Welsh Government's website and other channels. We are looking for emerging good practice from projects to be shared across the public sector, and progress on this has been good. Another local authority example is Flintshire County Council's Flintshire Connects project. It sought advice from the invest-to-save-backed One Newport Information Station. [Interruption.] A Conservative authority at the time—Newport, that is—which is now Labour.

Mae dysgu o'r profiad o fabwysiadu dulliau newydd o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus a dal a rhaeadru'r wybodaeth hon yn hanfodol. Unwaith eto, croesewir cymeradwyaeth y pwyllgor i'n dull o weithredu mewn perthynas â hyn drwy adroddiadau cyhoeddedig, astudiaethau achos, a'r cyswllt â grŵp arwain y gwasanaeth cyhoeddus. Mae gennym astudiaethau achos wedi'u paratoi ar gyfer 19 o brosiectau, y mae pob un ohonynt wedi cael eu cyhoeddi a'u dosbarthu ar wefan Llywodraeth Cymru a sianeli eraill. Rydym yn chwilio am arfer da sy'n dod i'r amlwg o brosiectau i'w rannu ar draws y sector cyhoeddus, a gwnaed cynnydd da yn hyn o beth. Enghraifft arall ymhlith awdurdodau lleol yw prosiect Sir y Fflint yn Cysylltu gan Gyngor Sir y Fflint. Gofynnodd am gyngor gan Orsaf Wybodaeth Casnewydd yn Un a gefnogir gan arian buddsoddi i arbed. [Ymyriad.] Awdurdod Ceidwadol ar y pryd—Casnewydd, hynny yw—sydd bellach yn nwylo Llafur.

It is essential that the opportunities presented by this positive engagement are taken up fully by the wider public service. I am going to take this forward by identifying the key points of success in each strand of service change and innovation for national transfer across Wales. It is about learning from the projects, receiving reports, and establishing evaluation arrangements—Ieuan Wyn Jones mentioned evaluation. Of course, this is critical in learning the lessons, which we have done, as Peter Black said, from the Neath Port Talbot project. We also have universities engaging with this—there is a knowledge transfer partnership between the Welsh Government and Swansea University's centre for innovative ageing, which has been developing an impact assessment toolkit to look at the quality and cost of integrated health and social care delivery services for older people. That is for the models of integrated services that are now being funded through invest-to-save across Wales.

Mae'n hanfodol bod y gwasanaeth cyhoeddus ehangach yn manteisio'n llawn ar y cyfleoedd a gyflwynir gan yr ymgysylltu cadarnhaol hwn. Rwy'n mynd i fwrw ymlaen â hyn drwy nodi'r pwyntiau llwyddiant allweddol ym mhob agwedd ar newid gwasanaethau ac arloesi i'w trosglwyddo'n genedlaethol ledled Cymru. Mae'n golygu dysgu o'r prosiectau, derbyn adroddiadau, a sefydlu trefniadau gwerthuso—soniodd Ieuan Wyn Jones am werthuso. Wrth gwrs, mae hyn yn hanfodol er mwyn dysgu gwersi, fel yr ydym wedi'i wneud, fel y dywedodd Peter Black, o brosiect Castell-nedd Port Talbot. Rydym wedi cynnwys prifysgolion yn hyn o beth hefyd—mae yna bartneriaeth trosglwyddo gwybodaeth rhwng Llywodraeth Cymru a chanolfan heneiddio arloesol Prifysgol Abertawe, sydd wedi bod yn datblygu pecyn asesu effaith er mwyn edrych ar ansawdd a chost gwasanaethau darparu iechyd a gofal cymdeithasol integredig ar gyfer pobl hŷn. Mae hynny ar gyfer y modelau o wasanaethau integredig sydd bellach yn cael eu hariannu drwy fuddsoddi i arbed ledled Cymru.

Finally, I would like to say that not only have we recently announced £11 million of new investments, but, today, I am announcing a further investment of £2.5 million, including £1.9 million for a project to provide high-quality services to elderly and frail people in north Wales, the Betsi Cadwaladr enhanced care project. I am also investing in Hywel Dda's digital dictation project, which is also a project that is sponsored by the public service leadership group's national assets working group. There is also Powys County Council's project to develop a funding model to regenerate Brecon town centre, which, again, is a very different project. So, it is an innovative scheme, and it works. It supports public service organisations to meet the challenge of delivering quality services within reducing budgets, and it is a practical example of such support. I welcome the Finance Committee's engagement in scrutiny of this fund.

Yn olaf, hoffwn ddweud ein bod nid yn unig wedi cyhoeddi £11 miliwn o fuddsoddiadau newydd yn ddiweddar, ond, heddiw, rwy'n cyhoeddi buddsoddiad pellach o £2.5 miliwn, gan gynnwys £1.9 miliwn ar gyfer prosiect i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel i henoed a phobl fregus yn y gogledd, sef prosiect gofal uwch Betsi Cadwaladr. Rwyf hefyd yn buddsoddi ym mhrosiect arddweud digidol Hywel Dda, sydd hefyd yn brosiect a noddir gan weithgor asedau cenedlaethol grŵp arwain y gwasanaeth cyhoeddus. Hefyd, mae prosiect Cyngor Sir Powys i ddatblygu model ariannu i adfywio canol tref Aberhonddu, sydd, unwaith eto, yn brosiect gwahanol iawn. Felly, mae'n gynllun arloesol, ac mae'n gweithio. Mae'n helpu sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus i ymateb i'r her o ddarparu gwasanaethau o ansawdd pan fo cyllidebau'n lleihau, ac mae'n enghraifft ymarferol o gymorth o'r fath. Croesawaf waith craffu'r Pwyllgor Cyllid ar y gronfa hon.

18:09

## Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography

Galwaf ar Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, Jocelyn Davies, i ymateb i'r ddadl.

I call on the Chair of the Finance Committee, Jocelyn Davies, to respond to the debate.

18:09

## Jocelyn Davies Bywgraffiad Biography

I thank Members for their contributions to this debate; I think that it was slightly better tempered than the previous debate this afternoon. We got off to a good start with Mike Hedges, who is a very active Member of the committee. This inquiry was of great interest to him. In his contribution, he demonstrated why he had been giving his support for invest-to-save money going back many years. We are very fortunate in our committee in being able to call on his long experience in local government. I thank him for putting on record impressive examples of investing to save. He also offered us a possible explanation as to why local authorities are not taking this fund up—they are able to borrow internally so perhaps do not need to access this. I also thank him for elaborating on the botanic garden project and the need, which is mentioned in our recommendations, for support for smaller projects of less than £200,000, which is the current threshold.

Diolch i'r Aelodau am eu cyfraniadau at y ddadl hon; rwy'n meddwl ei bod ychydig yn llai tanbaid na'r ddadl flaenorol y prynhawn yma. Cawsom ddechrau da gan Mike Hedges, sy'n Aelod gweithgar iawn o'r pwyllgor. Roedd yr ymchwiliad hwn o ddiddordeb mawr iddo. Yn ei gyfraniad, dangosodd pam ei fod wedi cefnogi buddsoddi i arbed ers blynyddoedd lawer. Rydym yn ffodus iawn fel pwyllgor y gallwn alw ar ei brofiad helaeth mewn llywodraeth leol. Diolch iddo am gofnodi ei enghreifftiau trawiadol o fuddsoddi i arbed. Cynigiodd hefyd esboniad posibl ynghylch pam nad yw awdurdodau lleol yn manteisio ar gronfa hon—gallant fenthyg yn fewnol felly efallai nad oes angen iddynt ei defnyddio. Diolchaf iddo hefyd am ymhelaethu ar brosiect yr ardd fotaneg a'r angen, a grybwyllir yn ein hargymhellion, am gymorth ar gyfer prosiectau llai o lai na £200,000, sef y trothwy presennol.

In our report, we mention a number of such projects, apart from that of the botanic garden. There was the introduction of an integrated electronic NHS web expenses system, which, for an investment of £125,000, saved over £400,000 a year. So, you can see the scale of savings that can be obtained even from quite small investments. Wrexham came up in the report again, as Aled Roberts will be delighted to hear—an investment of £106,000 saved £1.2 million over three years on the wraparound care provision. So, there are examples of quite impressive savings as a result of small sums being invested.

Yn ein hadroddiad, rydym yn sôn am nifer o brosiectau o'r fath, ar wahân i brosiect yr ardd fotaneg. Roedd y prosiect i gyflwyno system dreuliau ar-lein electronig integredig y GIG a lwyddodd, gyda buddsoddiad o £125,000, i arbed dros £400,000 y flwyddyn. Felly, gallwch weld maint yr arbedion y gellir eu gwneud o fuddsoddiadau eithaf bach hyd yn oed. Ymddangosodd Wrecsam yn yr adroddiad eto, fel y bydd Aled Roberts yn falch o glywed—arweiniodd buddsoddiad o £106,000 at arbed £1.2 miliwn dros dair blynedd ar y ddarpariaeth gofal cofleidiol. Felly, ceir enghreifftiau o arbedion eithaf trawiadol o ganlyniad i fuddsoddiadau bach.

Paul Davies told us that he wanted to see even more spread across the public sector. He also supported the lower threshold, but wanted flexibility within that and I would agree with him. I think that Paul would acknowledge, though, that the NHS wanted the threshold to be at £200,000, but, as it is the biggest recipient of the fund, I can hardly blame it for that. Paul made a very good point about best practice—it should be shared and we are certainly not getting that message across at the moment in the way that we should. He also told us about the need for monitoring and proper evaluation. The Neath project is probably a good example of why evaluation is needed.

Dywedodd Paul Davies wrthym ei fod eisiau gweld hyd yn oed mwy yn cael ei ledaenu ar draws y sector cyhoeddus. Roedd ef hefyd yn cefnogi'r trothwy is, ond roedd am iddo fod yn hyblyg a byddwn yn cytuno ag ef. Rwy'n credu y byddai Paul yn cydnabod, fodd bynnag, bod y GIG am gael trothwy o £200,000, ond, gan mai'r GIG yw'r corff sy'n cael y mwyaf o'r gronfa, prin y gallaf weld bai arno am hynny. Cododd Paul bwynt da iawn am arfer gorau—dylid ei rannu ac yn sicr nid ydym yn cyfleu'r neges honno ar hyn o bryd fel y dylem. Dywedodd wrthym hefyd am yr angen i fonitro a gwerthuso'n briodol. Mae prosiect Castell-nedd, fwy na thebyg yn enghraifft dda o pam mae angen gwerthuso.

I am glad that Ken Skates made a contribution today, because it is good to see a non-committee member contribute to the debate. You gave us some good examples from north Wales—Wrexham again. The project that you mentioned was not just about invest-to-save, but tackled climate change. It seems that Wrexham is a bit of a repeat offender in accessing this fund, and why not? Your point was about strong leadership. I agree with that, and there are some examples in the report. I also agree with Ken's assessment that it is disappointing that higher education has not made more use of this, because, after all, this is an interest-free loan, so you would think that more organisations would want to access it. In its evidence to us, the National Botanic Garden of Wales told us that it had accidentally stumbled across the scheme. Therefore, perhaps we ought to be focusing upon the promotion of the scheme.

Rwy'n falch bod Ken Skates wedi gwneud cyfraniad heddiw, oherwydd mae'n dda gweld rhywun nad yw'n aelod o'r pwyllgor yn cyfrannu at y ddadl. Gwnaethoch roi rhai enghreifftiau da inni o'r gogledd—Wrecsam unwaith eto. Roedd y prosiect a grybwyllwyd gennych nid yn unig yn ymwneud buddsoddi i arbed, ond yn mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd hefyd. Mae'n ymddangos bod Wrecsam yn dipyn o droseddwr ailadroddus wrth fanteisio ar y gronfa hon, a pham lai? Roedd eich pwynt yn ymwneud ag arweinyddiaeth gref. Cytunaf â hynny, ac mae rhai enghreifftiau yn yr adroddiad. Cytunaf hefyd ag asesiad Ken ei bod yn siomedig nad yw addysg uwch wedi gwneud mwy o ddefnydd o'r gronfa, oherwydd, wedi'r cyfan, mae hwn yn fenthyciad di-log, felly byddech yn meddwl yr hoffai mwy o sefydliadau fanteisio arno. Yn ei thystiolaeth inni, dywedodd Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru wrthym ei bod wedi dod ar draws y cynllun ar hap. Felly, efallai y dylem fod yn canolbwyntio ar hyrwyddo'r cynllun.

Ieuan Wyn Jones reminded us of the importance of this fund's focusing on schemes that genuinely save money. He is quite right that other funds are available for other purposes. Perhaps we ought to pay tribute to Andrew Davies, who created this fund when he was Minister for finance under the One Wales Government; I am sure that he would be delighted that Jane Hutt has continued with it. The reason, of course, why Jane Hutt can continue with it is that repayments are recycled, which is a very good point to make. Ieuan also said that he wanted to see a wider range of bodies accessing this or the potential of the fund will not be realised, and I agree with that.

Atgoffodd Ieuan Wyn Jones ni am bwysigrwydd sicrhau bod y gronfa hon yn canolbwyntio ar gynlluniau sydd wir yn arbed arian. Mae'n hollol gywir bod cronfeydd eraill ar gael at ddibenion eraill. Efallai y dylem dalu teyrnged i Andrew Davies, a greodd y gronfa hon pan oedd yn Weinidog cyllid o dan Lywodraeth Cymru'n Un; rwy'n siŵr y byddai'n falch iawn bod Jane Hutt wedi parhau â hi. Y rheswm, wrth gwrs, pam y gall Jane Hutt barhau â hi yw y caiff ad-daliadau eu hailgylchu, sy'n bwynt da iawn i'w wneud. Dywedodd Ieuan hefyd ei fod am weld ystod ehangach o gyrff yn manteisio ar y gronfa hon neu ni chaiff ei photensial ei gwireddu, a chytunaf â hynny.

Julie Morgan, I am glad that you enjoyed this inquiry. Perhaps our asset management inquiry will not be quite as exciting as this one. We all benefited from your visit to Llandough hospital, because you brought back the news of fabulous savings—£5.83 million was saved by the project, which is very impressive indeed. However, it was not just a matter of the realisation of savings; the improvement to the service was just as important.

Julie Morgan, rwy'n falch eich bod wedi mwynhau'r ymchwiliad hwn. Efallai na fydd ein hymchwiliad rheoli asedau mor gyffrous â'r ymchwiliad hwn. Bu eich ymweliad ag ysbyty Llandochau yn fuddiol i bob un ohonom, oherwydd daethoch yn ôl â'r newyddion am arbedion gwych—llwyddodd y prosiect i arbed £5.83 miliwn, sy'n swm trawiadol iawn yn wir. Fodd bynnag, nid dim ond yr arbedion oedd yn bwysig, roedd y gwelliannau a wnaed i'r gwasanaeth yr un mor bwysig.

I would like to thank Peter Black for thanking our officials. We sometimes forget them, and they did work very hard on this. Peter also mentioned the poor take-up of this fund by local government. Again, it is interest-free, so you wonder why the take-up was poor. We did not really discover that from local authorities, although I acknowledge that Mike Hedges has offered an explanation to us. They do not really find this attractive, and I wonder whether they prefer grants, and are more used to grants than to repaying loans. Perhaps, with the leadership of Wrexham, more of this will happen. Wrexham seems to be getting its fair share of mentions this afternoon in relation to this fund, and we can be pleased about that.

Hoffwn ddiolch i Peter Black am ddiolch i'n swyddogion. Rydym yn eu hanghofio weithiau, a gwnaethant weithio'n galed iawn ar hwn. Soniodd Peter hefyd mai prin y manteisiwyd ar y gronfa hon o fewn llywodraeth leol. Unwaith eto, mae'n ddi-log, felly mae'n gwneud ichi feddwl tybed pam na fanteisiwyd arni'n fwy helaeth. Ni wnaethom ganfod hynny mewn gwirionedd gan awdurdodau lleol, er fy mod yn cydnabod bod Mike Hedges wedi cynnig esboniad inni. Nid ydynt wir yn ystyried ei bod yn ddeniadol, ac felly tybed a oes yn well ganddynt grantiau, a'u bod yn fwy cyfarwydd â grantiau nag ad-dalu benthyciadau. Efallai, gydag arweiniad Wrecsam, y bydd mwy o hyn yn digwydd. Mae Wrecsam fel pe bai'n cael ei chrybwyll gryn dipyn y prynhawn yma mewn perthynas â'r gronfa hon, a gallwn fod yn falch o hynny.

The National Resources Wales body was also mentioned by Peter. Was it an invest-to-save project? I do not think the committee was really convinced that it was, although we acknowledged that the Minister was entitled to do as he pleases. However, we were not convinced that the savings, which have to be demonstrated in order to access funds, will actually be realised. Peter also mentioned Neath and the lean systems approach, and a full evaluation of that did not expect savings to be made for some time. The Neath project was supported and encouraged by several departments and enjoyed financial support, but, of course, that is no guarantee of success.

Crybwyllwyd corff Cyfoeth Naturiol Cymru gan Peter hefyd. Ai prosiect buddsoddi i arbed oedd hwn? Ni chredaf fod y pwyllgor yn gwbl argyhoeddedig mai dyna'r achos, er inni gydnabod bod hawl gan y Gweinidog wneud fel y myn. Fodd bynnag, nid oeddem yn argyhoeddedig y bydd yr arbedion, y mae'n rhaid eu dangos er mwyn cael arian, yn cael eu cyflawni mewn gwirionedd. Cyfeiriodd Peter hefyd at Gastell-nedd a'r prosiect systemau darbodus, ac nid oedd gwerthusiad llawn o'r prosiect hwnnw'n disgwyl y caiff arbedion eu gwneud am gryn amser. Cefnogwyd ac anogwyd prosiect Castell-nedd gan sawl adran a chafodd gefnogaeth ariannol, ond, wrth gwrs, nid yw hynny'n gwarantu llwyddiant.

I thank the Minister for her contribution and her appreciation of our efforts in this. It is nice when we can say that we have looked at something that is really good, but which can be improved. I hope that our recommendations and conclusions prove to be helpful to the Minister and the Government. I am also pleased that she acknowledges that the criticisms that we made, even though they were quite small, were constructive. She acknowledges that the scheme needs to be promoted more widely, and that best practice should be shared. We very much welcome the assistance of the public service leadership group in this respect.

Diolchaf i'r Gweinidog am ei chyfraniad ac am werthfawrogi ein hymdrechion. Braf yw gallu dweud ein bod wedi edrych ar rywbeth sy'n wirioneddol dda, ond y gellir ei wella. Gobeithiaf y bydd ein hargymhellion a'n casgliadau yn ddefnyddiol i'r Gweinidog a'r Llywodraeth. Rwyf hefyd yn falch ei bod yn cydnabod bod y beirniadaethau a roddwyd gennym, er eu bod yn eithaf bach, yn adeiladol. Mae'n cydnabod bod angen i'r cynllun gael ei hyrwyddo'n ehangach, ac y dylid rhannu arfer gorau. Croesawn yn fawr gymorth grŵp arwain y gwasanaeth cyhoeddus yn hyn o beth.

So, to sum up, I thank everyone for their contributions today, and the contributions to the report. We hope that our report adds something to the collective wisdom on investing now to save later.

Felly, i grynhoi, diolchaf i bawb am eu cyfraniadau heddiw, a'r cyfraniadau i'r adroddiad. Gobeithiwn y bydd ein hadroddiad yn ychwanegu rhywbeth at y doethineb cyfunol ar fuddsoddi nawr i arbed yn ddiweddarach.

18:17

## Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography

Y cynnig yw y dylid nodi adroddiad y Pwyllgor Cyllid. A oes unrhyw wrthwynebiad? Gwelaf nad oes gwrthwynebiad, felly derbynnir y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

The proposal is to note the Finance Committee's report. Is there any objection? I see that there are no objections, therefore the motion is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig.*

*Motion agreed.*

*Bethan Jenkins a gododd—*

*Bethan Jenkins rose—*

## Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography

Mae'r cynnig wedi ei dderbyn, Bethan Jenkins. Mae'r pleidleisiau eraill wedi eu cymryd yn gynharach yn ystod y cyfarfod—nid oes cyfnod pleidleisio heddiw.

The motion has been agreed, Bethan Jenkins. The other votes have been taken earlier in the meeting—there is no voting time allocated for today.

18:18

## Dadl Fer: Pa Mor Ddiogel yw Diogel?: Goblygiadau i'r Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 o ystyried Bil Teithio Llesol (Cymru)

## Short Debate: How Safe is Safe?: Implications for the Learner Travel (Wales) Measure 2008 in view of the Active Travel (Wales) Bill

### Suzy Davies Bywgraffiad Biography

Diolch am y siawns i ddod â'r ddadl hon i'r Siambr.

Thank you for the opportunity to bring this debate to the Chamber.

I also thank Members and the Minister for staying today.

Diolchaf hefyd i'r Aelodau a'r Gweinidog am aros heddiw.

The Assembly rightly takes its public health responsibilities seriously. Members have expressed concern about the growth in the number of people with type 2 diabetes and other conditions barely known to previous generations, whose levels of fitness were generally better than our own. It is easy to understand the desire of the Welsh Government to bring forward legislation intended to encourage physical activity as an everyday part of our lives. We will have our chance to debate whether the Active Travel (Wales) Bill as drafted will be effective, but there is no arguing with the intention behind it.

Mae'r Cynulliad, yn briodol, yn cymryd ei gyfrifoldebau o ran iechyd y cyhoedd o ddifrif. Mae Aelodau wedi mynegi pryder o ran y cynnydd yn nifer y bobl â diabetes math 2 a chyflyrau eraill mai prin oedd sôn amdanynt ymhlith cenedlaethau'r gorffennol, yr oedd eu lefelau ffitrwydd yn gyffredinol well na'r oes sydd ohoni. Mae'n hawdd deall awydd Llywodraeth Cymru i gyflwyno deddfwriaeth wedi'i hanelu at annog gweithgarwch corfforol fel rhan o'n bywydau beunyddiol. Cawn gyfle i drafod pa un a fydd Bil Teithio Llesol (Cymru) fel y'i drafftiwyd yn effeithiol, ond ni ellir dadlau â'r bwriad sy'n sail iddo.

The preliminary scrutiny of the Bill has already established one important point: while people might be well-disposed to walk, cycle and travel by non-motorised transport generally, that will not happen unless they feel safe. Despite a number of initiatives and statutory schemes to encourage walking and cycling, only limited progress has been made. The explanatory memorandum to the Active Travel (Wales) Bill identifies that safety concerns, specifically including concerns for personal safety, remain a barrier to walking and cycling. The Bill as it stands makes no reference to safety. Nevertheless, in his evidence to the Constitutional and Legislative Affairs Committee, the Minister for Culture and Sport stated that safety was crucial to the success of the Bill.

Mae'r gwaith craffu cychwynnol mewn perthynas â'r Bil eisoes wedi cadarnhau un pwynt pwysig: er bod pobl o bosibl yn awyddus i gerdded, seiclo a theithio gan ddefnyddio trafnidiaeth di-fodur yn gyffredinol, ni wnânt hynny oni fyddant yn teimlo'n ddiogel. Er gwaethaf nifer o fentrau a chynlluniau statudol i annog cerdded a seiclo, dim ond cynnydd cyfyngedig a wnaed. Mae'r memorandwm esboniadol i'r Bil Teithio Llesol (Cymru) yn nodi bod pryderon diogelwch, gan gynnwys yn benodol bryderon am ddiogelwch personol, yn parhau'n ffactor sy'n atal pobl rhag cerdded a seiclo. Nid yw'r Bil, fel y saif, yn cyfeirio at ddiogelwch o gwbl. Serch hynny, yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, nododd y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon fod diogelwch yn hanfodol i lwyddiant y Bil.

It is already clear that a walking or cycling route identified by a local authority will have to be safe before the Welsh Government will sign it off as compliant with what will become the active travel Act. Whether through adherence to the face of the Bill, secondary legislation or guidance, we know that local authorities will have to demonstrate some sort of minimum standard of safety before they can publish a route as being suitable for walking and cycling. As non-leisure routes, walking and cycling routes to school will be covered by the Active Travel (Wales) Bill. They are currently dealt with by the Learner Travel (Wales) Measure 2008. The requirement for available walking routes to school to be safe is on the face of that Measure, but the means of assessing what is safe is left to guidance produced, or, as it happens in this case, approved, by Welsh Ministers.

Mae eisoes yn glir y bydd yn rhaid i lwybr cerdded neu seiclo a nodir gan awdurdod lleol fod yn ddiogel cyn y bydd Llywodraeth Cymru yn ei gymeradwyo fel llwybr sy'n cydymffurfio â'r Ddeddf teithio llesol arfaethedig. Boed hynny drwy gydymffurfio â'r Bil, is-ddeddfwriaeth neu ganllawiau, gwyddom y bydd yn rhaid i awdurdodau lleol ddangos rhyw fath o safon diogelwch ofynnol cyn y gallant gyhoeddi bod llwybr yn addas ar gyfer cerdded a seiclo. Fel llwybrau di-hamdden, bydd y Bil Teithio Llesol (Cymru) yn berthnasol i lwybrau cerdded a seiclo i'r ysgol. Ar hyn o bryd, ymdrinnir â hwy gan Fesur Cludiant i Ddysgwyr (Cymru) 2008. Mae'r gofyniad i lwybrau cerdded i'r ysgol sydd ar gael fod yn ddiogel yn rhan o'r Mesur hwnnw, ond ymdrinnir â sut y caiff diogelwch ei asesu o fewn y canllawiau a gynhyrchir, neu, fel sy'n wir yn yr achos hwn, caiff ei gymeradwyo gan Weinidogion Cymru.

Welsh Government directed local authorities that, in assessing the safety of a walking route to school, they could rely on guidelines published, I think, in 2002, which they had already been using for some time. Those guidelines were updated only last year, by, what is now, Road Safety Great Britain, under the title 'Assessment of Walked Routes to School', which is a document that has never been scrutinised by this Assembly. For the purposes of this debate, the new guidelines contain no material difference from the previous ones.

Rhoddodd Llywodraeth Cymru gyfarwyddyd i awdurdodau lleol, wrth asesu diogelwch llwybr cerdded i'r ysgol, y gallent ddibynnu ar ganllawiau a gyhoeddwyd, credaf, yn 2002, yr oeddent eisoes wedi bod yn eu defnyddio ers cryn amser. Dim ond y llynedd y diweddarwyd y canllawiau hynny gan Road Safety Great Britain, fel y cyfeirir ato yn awr, yn y ddogfen 'Assessment of Walked Routes to School', sy'n ddogfen nad yw'r Cynulliad hwn erioed wedi craffu arni. At ddibenion y ddadl hon, nid yw'r canllawiau newydd yn wahanol mewn unrhyw ffordd i'r canllawiau blaenorol.

My preliminary argument is that these guidelines are already inadequate for advising councils on how to assess the meaning of 'safe', under section 3(8) of the Learner Travel (Wales) Measure. My main argument is that they cannot be adequate to advise them on the meaning of 'safe' under the Active Travel (Wales) Bill and why it is important to address that now.

Fy nadl ragarweiniol yw bod y canllawiau hyn eisoes yn annigonol ar gyfer cynghori cynghorau ar sut i asesu ystyr 'diogel', o dan adran 3(8) o'r Mesur Cludiant i Ddysgwyr (Cymru). Fy mhrif ddadl yw na allant fod yn ddigonol i'w cynghori ar ystyr 'diogel' o dan y Bil Teithio Llesol (Cymru) a pham ei bod yn bwysig ymdrin â hynny yn awr.

I am happy to give Nick Ramsay and Eluned Parrott the opportunity to contribute to the debate.

Rwy'n fwy na pharod rhoi'r cyfle i Nick Ramsay ac Eluned Parrott gyfrannu at y ddadl.

Under the Learner Travel (Wales) Measure, school children must make their own way to school if they live less than 2 miles away, in the case of primary schools, or less than 3 miles away, in the case of secondary schools. Under section 3, those distances are to be measured by the shortest available route. Also under section 3, a route is considered available if it is safe for a child without a disability or learning difficulty to walk that route alone or if it is safe for such a child to walk the route with an escort, if the age of the child calls for the provision of an escort. In short, to be available, such a route must be safe, and assessing what is safe is done in accordance with the guidelines that I have just mentioned.

O dan y Mesur Cludiant i Ddysgwyr (Cymru), rhaid i blant ysgol wneud eu ffordd eu hunain i'r ysgol os ydynt yn byw llai na dwy filltir i ffwrdd, yn achos ysgolion cynradd, neu lai na thair milltir i ffwrdd, yn achos ysgolion uwchradd. O dan adran 3, dylid mesur y pellteroedd hynny yn ôl y llwybr byrraf sydd ar gael. Hefyd o dan adran 3, ystyrir bod llwybr ar gael os yw'n ddiogel i blentyn heb anabledd neu anhawster dysgu gerdded ar hyd y llwybr hwnnw ar ei ben ei hun neu os yw'n ddiogel i blentyn o'r fath gerdded ar hyd y llwybr gyda hebryngwr, os bydd oedran y plentyn yn golygu bod angen hebryngwr arno. Yn gryno, er mwyn bod llwybr ar gael, rhaid i'r llwybr hwnnw fod yn ddiogel, a chaiff diogelwch ei asesu yn ôl y canllawiau rwyf newydd eu crybwyll.

In 2012, when those guidelines were revised, the RSGB was not even aware of the existence of the Learner Travel (Wales) Measure, despite it having been on the Welsh statute book for over three years. It has confirmed that to me. Those guidelines were refreshed without any consideration for the particular provision for section 3(8) of the Measure, which simply provides that non-school-transport routes need to be safe for a child without a disability or learning difficulty to walk alone, or, if the child is young, with an escort. Instead, the RSGB guidelines state that case law has found that assessments of safety

Yn 2012, pan ddiwygiwyd y canllawiau hynny, nid oedd RSGB hyd yn oed yn ymwybodol o fodolaeth y Mesur Cludiant i Ddysgwyr (Cymru), er gwaethaf y ffaith ei fod wedi bod ar lyfr statudau Cymru ers dros dair blynedd. Cadarnhaodd hynny wrthyf. Adnewyddwyd y canllawiau hynny heb ystyried y ddarpariaeth benodol ar gyfer adran 3(8) o'r Mesur, sy'n darparu'n syml bod angen i lwybrau trafnidiaeth nad ydynt yn ymwneud ag ysgolion fod yn ddiogel i blentyn heb anabledd neu anhawster dysgu gerdded ar ei ben ei hun, neu, os bydd y plentyn yn ifanc, gyda hebryngwr. Yn lle hynny, mae canllawiau'r RSGB yn nodi bod cyfraith achosion wedi canfod bod asesiadau diogelwch

'must look at the relationship between pedestrians and traffic only. Personal safety issues of children travelling alone are not considered. Local authorities are not legally obliged to provide free transport just because parents perceive the route to be unsafe on the grounds of personal safety and security'.

yn gorfod ystyried y gydberthynas rhwng cerddwyr a thraffig yn unig. Nid ystyrir materion diogelwch personol sy'n ymwneud â phlant sy'n teithio ar eu pen eu hunain. Nid oes rhwymedigaeth gyfreithiol ar awdurdodau lleol i ddarparu trafnidiaeth am ddim a hynny dim ond am fod rhieni o'r farn nad yw'r llwybr yn ddiogel ar sail diogelwch personol a diogelwch cyffredinol.

That is a direct quotation from those guidelines.

Mae hwnnw'n ddyfyniad uniongyrchol o'r canllawiau hynny.

I am not concerned about whether a child is entitled to a bus or not. I am concerned that these guidelines permit councils to examine the question of a child's safety purely through the prism of a relationship between pedestrians and traffic. That case law that it refers to goes back to the 1950s and the 1980s. Should we be content for this Assembly's record on child protection to rest on case law that is older than nearly everybody in the Chamber today? These guidelines do not oblige councils to look at whether an available route takes a lone child across rough waste ground, down isolated hidden paths or through underpasses known to be frequented by adults about whom any local authority should be concerned when it comes to a child's safety, yet this was a prospect faced by an 11-year-old schoolboy walking on his own to a secondary school in my region. His parents, the police and his elected representatives are horrified. Everyone, it seems, except the council, who hid behind the RSGB guidelines, worried more about whether it had to provide transport than whether this child would have reached his school in one piece.

Nid wyf yn pryderu o ran pa un a oes gan blentyn yr hawl i fws ai peidio. Pryderu ydwyf fod y canllawiau hyn yn caniatáu i gynghorau ystyried diogelwch plentyn drwy ystyried y gydberthynas rhwng cerddwyr a thraffig yn unig. Mae'r gyfraith achos y cyfeiria ato yn dyddio o'r 1950au a'r 1980au. A ddylem fod yn fodlon bod cofnod y Cynulliad hwn ar ddiogelu plant yn dibynnu ar gyfraith achos sy'n hŷn na bron pawb yn y Siambr heddiw? Nid yw'r canllawiau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau ystyried pa un a yw llwybr sydd ar gael yn cyfeirio plentyn ar ei ben ei hun ar draws tir gwastraff garw, ar hyd llwybrau cudd ac unig neu drwy danffyrdd lle gwyddys bod yno oedolion y dylai unrhyw awdurdod lleol bryderu yn eu cylch, o ran diogelwch plant. Ond dyma a oedd yn wynebu bachgen ysgol 11 oed a oedd yn cerdded ar ei ben ei hun i ysgol uwchradd yn fy ardal i. Mae ei rieni, yr heddlu a'i gynrychiolwyr etholedig wedi arswydo at hyn. Roedd pawb, fe ymddengys, ac eithrio'r cyngor, a guddiodd y tu ôl i ganllawiau'r RSGB, yn pryderu mwy am pa un a oedd yn rhaid iddo ddarparu trafnidiaeth na pha un a fyddai'r plentyn hwn wedi cyrraedd yr ysgol mewn un darn.

Minister, I do not expect you to comment on an individual case, but I ask you to comment on this: a local authority, in assessing the safety of a child's walking route to school, does not have to take any aspect of safety into account, except for traffic implications. The wording on the face of the Measure does not indicate any intention that safety should only be measured by reference to traffic issues. If the RSGB did not even know about the broader requirements of section 3 of the Learner Travel (Wales) Measure when it updated its guidelines, how can you, or we, be sure that those guidelines, based on 60-year-old case law, meet the requirement of a Measure of 2008.

Weinidog, nid wyf yn disgwyl ichi wneud sylwadau ar achos unigol, ond gofynnaf ichi wneud sylwadau ar hyn: nid oes yn rhaid i awdurdod lleol, wrth asesu diogelwch llwybr cerdded plentyn i'r ysgol, ystyried unrhyw agwedd ar ddiogelwch, ac eithrio goblygiadau traffig. Nid yw geiriad y Mesur yn nodi unrhyw fwriad mai dim ond drwy gyfeirio at faterion traffig y dylid mesur diogelwch. Os na wyddai'r RSGB hyd yn oed am ofynion ehangach adran 3 o'r Mesur Cludiant i Ddysgwyr (Cymru) pan ddiweddarodd ei ganllawiau, sut y gallwch chi, neu ni, fod yn siŵr bod y canllawiau hynny, sy'n seiliedig ar gyfraith achos 60 mlwydd oed, yn bodloni gofyniad Mesur 2008.

In any event, the forthcoming Active Travel (Wales) Bill has inevitable implications for the continuing use of these guidelines. It is not acceptable to say that we do not know what the final Bill will look like when it comes to this particular issue, because we already have the Rights of Children and Young Persons (Wales) Measure 2011 to point us firmly in one direction. The Welsh Government and the Assembly are already committed to giving due regard to the United Nations Convention on the Rights of the Child, both in policy and legislation and, before too long, for all activities in this place. Your predecessor accepted this fully when he pledged in Plenary last November that he would put child protection at the heart of safe routes to school.

Beth bynnag, mae gan y Bil Teithio Llesol (Cymru) arfaethedig oblygiadau anochel o ran parhau i ddefnyddio'r canllawiau hyn. Nid yw'n dderbyniol dweud nad ydym yn gwybod ffurf derfynol y Bil o ran y mater hwn, gan fod gennym Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 eisoes i'n tywys yn gadarn i un cyfeiriad. Mae Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad eisoes yn ymrwymedig i roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, o ran polisi a deddfwriaeth a, chyn bo hir, o ran holl weithgareddau'r lle hwn. Derbyniodd eich rhagflaenydd hyn yn llawn pan addawodd mewn Cyfarfod Llawn fis Tachwedd diwethaf y byddai'n sicrhau bod diogelwch plant wrth wraidd llwybrau diogel i'r ysgol.

Minister, in his Active Travel (Wales) Bill consultation response, the Children's Commissioner for Wales made it plain that he did not think that the RSGB guidance even touched the sides when it came to complying with the UNCRC. It does not have to, of course, as the Learner Travel (Wales) Measure predates the 2011 commitment to give it due regard, but the Active Travel (Wales) Bill is different; due regard must be given.

Weinidog, yn ei ymateb i'r ymgynghoriad ar y Bil Teithio Llesol (Cymru), nododd Comisiynydd Plant Cymru yn eglur nad oedd o'r farn bod canllawiau RSGB erioed wedi bod yn ddigonol o ran cydymffurfio â CCUHP. Wrth gwrs, nid oes yn rhaid iddynt, gan fod y Mesur Cludiant i Ddysgwyr (Cymru) yn rhagflaenu ymrwymiad 2011 i roi sylw dyledus iddo, ond mae'r Bil Teithio Llesol (Cymru) yn wahanol; rhaid rhoi sylw dyledus.

The children's rights impact assessment has already been carried out. The children's commissioner, while commending the general quality of it, observed that a key convention issue had been omitted, namely the issue of personal safety. Ideally, it should be on the face of the new Bill that a reasonable level of personal safety should be a material consideration in deciding whether a route can be signed off by Welsh Ministers under the new Bill. At the very least, that needs to be reflected in new fit-for-purpose guidelines. The RSGB guidelines expressly state that personal safety issues of children travelling alone are not considered when assessing the safety of a route, so there is no way that they will satisfy a UNCRC compliance test of safety under the Active Travel (Wales) Bill.

Cynhaliwyd yr asesiad o'r effaith ar hawliau plant eisoes. Nododd y comisiynydd plant, er ei fod yn canmol ei ansawdd cyffredinol, fod mater allweddol wedi'i hepgor mewn perthynas â'r confensiwn, sef diogelwch personol. Yn ddelfrydol, dylai'r Bil newydd nodi y dylai lefel resymol o ddiogelwch personol fod yn ystyriaeth bwysig wrth benderfynu pa un a all Gweinidogion Cymru gymeradwyo llwybr o dan y Bil newydd. Ar y lleiaf, mae angen adlewyrchu hynny o fewn canllawiau newydd addas at y diben. Mae canllawiau RSGB yn datgan yn benodol na chaiff materion diogelwch personol plant sy'n teithio ar eu pen eu hunain eu hystyried wrth asesu diogelwch llwybr, felly nid oes unrhyw ffordd y byddant yn bodloni prawf cydymffurfio â diogelwch CCUHP o dan y Bil Teithio Llesol (Cymru).

Why am I raising this with you now, Minister, when you do not have conduct over this new Bill? Why not just wait? There are two reasons, and the first is the most important reason. Children, now, are being asked to undertake journeys that are not in accordance with their rights under the UNCRC. My inquiries of the Minister for Local Government and Government Business have led me to understand that responsibility for those journeys lies with you, Minister. While local authorities have no obligation to consider the convention, are you as the Minister satisfied when children's rights are being ignored in this way?

Pam y codaf hyn gyda chi yn awr, Weinidog, pan nad oes gennych gyfrifoldeb dros y Bil newydd hwn? Pam ddim aros? Mae dau reswm, a'r cyntaf yw'r pwysicaf. Gofynnir i blant, yn awr, ymgymryd â theithiau nad ydynt yn cydymffurfio â'u hawliau o dan CCUHP. Rwyf ar ddeall, yn dilyn ymholiadau a wnaed gennyf i'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth, mai chi sy'n gyfrifol am y teithiau hyn, Weinidog. Er nad oes unrhyw rwymedigaeth ar awdurdodau lleol i ystyried y confensiwn, a ydych chi fel Gweinidog yn fodlon bod hawliau plant yn cael eu hanwybyddu yn y fath fodd?

Secondly, local authorities, by continuing to rely on the RSGB guidelines, are heading for a huge financial fall once the Active Travel (Wales) Bill becomes law. Under that legislation, they will have to publish their existing safe walking and cycling routes, and they will be submitting their existing safe walking and cycling routes to school to the Welsh Government, confident that these routes are safe because they have relied on Government-approved guidelines to assess what is safe. Despite the expense of preparing all of that evidence, many of them will be turned down, because the active travel Act, whether on the face of the Act, through regulation, or through guidelines, will have to introduce a standard of safety that reflects due regard to the UNCRC.

Yn ail, mae awdurdodau lleol, drwy barhau i ddibynnu ar ganllawiau'r RSGB, yn wynebu gostyngiad ariannol enfawr unwaith y daw'r Bil Teithio Llesol (Cymru) yn gyfraith. O dan y ddeddfwriaeth honno, bydd yn rhaid iddynt gyhoeddi'r llwybrau cerdded a seiclo diogel sy'n bodoli eisoes, a byddant yn cyflwyno'u llwybrau diogel presennol ar gyfer cerdded a seiclo i'r ysgol i Lywodraeth Cymru, gan fod yn hyderus bod y llwybrau hyn yn ddiogel gan eu bod wedi dibynnu ar ganllawiau a gymeradwywyd gan y Llywodraeth i asesu beth sy'n ddiogel. Er gwaethaf cost paratoi'r holl dystiolaeth honno, caiff llawer ohonynt eu gwrthod, gan y bydd yn rhaid i'r Ddeddf teithio llesol, boed fel rhan o'r Ddeddf, drwy reoliadau, neu drwy ganllawiau, gyflwyno safon diogelwch sy'n rhoi sylw dyledus i CCUHP.

If certain routes are suddenly deemed to be unsafe because of this Act, what are the implications for schools denying transport to children under the Learner Travel (Wales) Measure? New statute trumps old case law. Whereas the Learner Travel (Wales) Measure itself might not be incompatible with the new standards of safety that will come in as a result of the Active Travel (Wales) Bill, the direction to follow the RSGB guidelines undoubtedly will be. New statute also trumps old guidelines.

Os bernir yn sydyn nad yw rhai llwybrau penodol yn ddiogel oherwydd y Ddeddf hon, beth yw'r goblygiadau o ran ysgolion yn gwrthod cludiant i blant o dan y Mesur Cludiant i Ddysgwyr (Cymru)? Caiff statud newydd flaenoriaeth dros hen gyfraith achos. Er na fydd y Mesur Cludiant i Ddysgwyr (Cymru) ynddo'i hun o bosibl yn gydnaws â'r safonau diogelwch newydd a gyflwynir o ganlyniad i'r Bil Teithio Llesol (Cymru), yn ddiau, fe fydd y cyfarwyddyd i ddilyn canllawiau'r RSGB. Caiff statud newydd flaenoriaeth dros hen ganllawiau hefyd.

Minister, you have a power under section 6 of the Rights of Children and Young Persons (Wales) Measure 2011 to amend existing legislation to give further and better effect to part 1 of the UNCRC. I do not think that you need to go that far with the Learner Travel (Wales) Measure, but you need to look at the RSGB guidelines. Local authorities need to be aware now that the goalposts will be changing and that their walking routes to school have to take more than traffic into account before they will be fit for purpose under the Active Travel (Wales) Bill. They need to review their existing routes now. That is especially important for plans under the twenty-first century schools programme, which includes new school routes assessed under the old guidelines. Such plans are being approved even now, and this is not the time for expensive mistakes.

Weinidog, mae gennych bŵer o dan adran 6 o Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 i ddiwygio deddfwriaeth sy'n bodoli eisoes i roi mwy o bwys ar ran 1 o CCUHP. Ni chredaf fod angen ichi fynd mor bell â hynny o ran y Mesur Cludiant i Ddysgwyr (Cymru), ond mae angen ichi ystyried canllawiau'r RSGB. Mae angen i awdurdodau lleol fod yn ymwybodol yn awr y bydd y pyst gôl yn newid a bod yn rhaid i'w llwybrau cerdded i'r ysgol roi ystyriaeth i fwy na thraffig er mwyn sicrhau eu bod yn addas at y diben o dan y Bil Teithio Llesol (Cymru). Mae angen iddynt adolygu'r llwybrau sy'n bodoli eisoes nawr. Mae hynny'n arbennig o bwysig ar gyfer cynlluniau o dan y rhaglen ysgolion ar gyfer yr ugeinfed ganrif ar hugain, sy'n cynnwys llwybrau ysgol newydd a gafodd eu hasesu o dan yr hen ganllawiau. Mae cynlluniau o'r fath yn cael eu cymeradwyo hyd yn oed yn awr, ac nid dyma'r amser ar gyfer camgymeriadau drud.

Last November, in Plenary, your predecessor undertook to look at both the Learner Travel (Wales) Measure and the United Nations Convention on the Rights of the Child to see whether the RSGB guidelines took them into account. I hope that you will follow up on that undertaking.

Fis Tachwedd diwethaf, mewn Cyfarfod Llawn, addawodd eich rhagflaenydd y byddai'n edrych ar y Mesur Cludiant i Ddysgwyr (Cymru) a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn i weld a oedd canllawiau'r RSGB yn rhoi ystyriaeth iddynt. Gobeithio y gwnewch gyflawni'r addewid honno.

18:29

## Nick Ramsay Bywgraffiad Biography

I thank Suzy for allowing me to make a brief contribution to this short debate. I am pleased that you have brought this to the Assembly. I wanted to contribute to your debate in terms of your discussion of the Active Travel (Wales) Bill and the impact that has on issues relating to safety. I am the Chair of the Enterprise and Business Committee—and I can see a couple of the members of the committee in the Chamber—and, in terms of the Active Travel (Wales) Bill and the evidence that we have taken, we have had some misgivings about the way that, nowadays, there is a tendency to have guidelines rather than detail on the face of the Bill. This does not apply only to the Active Travel (Wales) Bill, it applies to a number of Bills; it is just that the Active Travel (Wales) Bill has brought this to the fore. This is a case, not for the Minister as such, because she is working within the mechanisms that are there, but for the Assembly, as we need to look more closely at how we legislate and scrutinise legislation. If we are going to have guidelines on the face of a Bill such as the one on active travel, there needs to be a mechanism later on for us to revisit it and make sure that those guidelines are working. You have been asking whether guidelines from the past are fit for purpose. We cannot even decide in committee whether the guidelines that will be in place are fit for purpose, because we will not have them until we have agreed the terms of the Bill.

Diolch Suzy am ganiatáu imi wneud cyfraniad byr i'r ddadl fer hon. Rwy'n falch eich bod wedi codi'r mater yn y Cynulliad. Roeddwn yn awyddus i gyfrannu at eich dadl o ran eich trafodaeth ar y Bil Teithio Llesol (Cymru) a'i effaith ar faterion sy'n ymwneud â diogelwch. Fi yw Cadeirydd y Pwyllgor Menter a Busnes—a gwelaf rai o aelodau'r pwyllgor yn y Siambr—ac, o ran y Bil Teithio Llesol (Cymru) a'r dystiolaeth rydym wedi'i chymryd, mae gennym rai amheuon o ran y ffordd, yn yr oes sydd ohoni, mae tuedd i gyhoeddi canllawiau yn hytrach na chynnwys manylion fel rhan o'r Bil. Nid dim ond i'r Bil Teithio Llesol (Cymru) y mae hyn yn berthnasol, ond hefyd i nifer o Filiau; ond y Bil Teithio Llesol (Cymru) sydd wedi tynnu sylw at y mater. Nid achos i'r Gweinidog mo hwn, fel y cyfryw, gan ei bod yn gweithio o fewn y systemau sydd ar gael iddi, ond i'r Cynulliad, gan fod angen inni edrych yn fwy gofalus ar y ffordd rydym yn deddfu ac yn craffu ar ddeddfwriaeth. Os mai'r bwriad yw cyhoeddi canllawiau fel rhan o Fil fel y bil ar deithio llesol, mae angen rhoi system ar waith yn ddiweddarach er mwyn inni ei ailystyried a sicrhau bod y canllawiau hynny yn gweithio. Rydych wedi bod yn gofyn pa un a yw'r canllawiau o'r gorffennol yn addas at y diben. Ni allwn hyd yn oed benderfynu yn y pwyllgor pa un a yw'r canllawiau a fydd ar waith yn addas at y diben, oherwydd ni fyddant ar gael hyd nes y byddwn wedi cytuno ar delerau'r Bil.

18:30 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

I, too, would like to thank Suzy Davies for bringing this debate today. Obviously, you raise some real concerns that would be difficult issues for us to resolve, first without the guidance for us to scrutinise, and secondly because the issue of safety is both relative and subjective. It is relative because, frankly, nothing is ever completely safe in life. It is subjective because what our parents found acceptable in terms of the way in which we walked to school when we were children, we would not do now as parents ourselves in the modern world. We do not allow our children to play outside as we did ourselves, even though statistics would say that things such as child mortality are lower now than they have ever been in history. There is a balance to be struck. It is going to be something that is a challenge to us as we take forward the scrutiny of that guidance.

Hoffwn innau, hefyd, ddiolch i Suzy Davies am gyflwyno'r ddadl hon heddiw. Yn amlwg, rydych yn codi rhai pryderon gwirioneddol a fyddai'n faterion anodd inni eu datrys, yn gyntaf heb ganllawiau inni graffu arnynt, ac yn ail gan fod diogelwch yn fater cymharol a goddrychol. Mae'n gymharol oherwydd, a dweud y gwir, nid oes unrhyw beth fyth yn gwbl ddiogel mewn bywyd. Mae'n oddrychol gan nad yw'r hyn a oedd yn dderbyniol i'n rhieni o ran y ffordd roeddem yn cerdded i'r ysgol pan oeddem yn blant, yn dderbyniol inni yn awr fel rhieni ein hunain yn y byd modern. Nid ydym yn caniatáu i'n plant chwarae allan fel y gwnaethom ni, er y byddai ystadegau yn datgan bod pethau fel lefelau marwolaeth plant yn is yn awr nag erioed o'r blaen. Mae angen sicrhau cydbwysedd. Bydd y mater hwn yn her inni wrth inni fwrw ati i graffu ar y canllawiau hynny.

18:31 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Galwaf ar Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, Edwina Hart, i ymateb i'r ddadl.

I call on the Minister for Economy, Science and Transport, Edwina Hart, to respond to the debate.

18:31 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

*Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth / The Minister for Economy, Science and Transport*

It is a pleasure to contribute to this short debate today because I take a common-sense view that travel arrangements are not suitable if they are not safe. That is the starting point for the way I intend to deal with these issues within my portfolio. We can all agree in this Chamber that few things are more important than children's safety and safety in general. The provisions of the Active Travel (Wales) Bill supplement existing legislative provisions and recommendations relating to safe walking and cycling routes. When enacted, the Active Travel (Wales) Bill will require local authorities to continuously improve routes for pedestrians, walkers and cyclists; prepare maps identifying current and potential future routes; and require them to consider at the design stage the needs of pedestrians and cyclists when designing new road schemes, including road improvement schemes. These provisions are in addition to existing measures designed to ensure, as far as practicable, the safety of learners who walk or cycle to school.

Mae'n bleser cyfrannu at y ddadl fer hon heddiw gan fy mod o'r farn synhwyrol nad yw trefniadau teithio yn addas onid ydynt yn ddiogel. Dyna'r man cychwyn o ran y ffordd y bwriadaf ymdrin â'r materion hyn o fewn fy mhortffolio. Gall pob un ohonom gytuno yn y Siambr hon nad oes llawer yn bwysicach na diogelwch plant a diogelwch yn gyffredinol. Mae darpariaethau'r Bil Teithio Llesol (Cymru) yn ategu'r darpariaethau deddfwriaethol a'r argymhellion presennol o ran llwybrau cerdded a seiclo diogel. Pan gaiff ei ddeddfu, bydd y Bil Teithio Llesol (Cymru) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wella llwybrau i gerddwyr a beicwyr yn barhaus; i baratoi mapiau sy'n nodi llwybrau presennol a llwybrau posibl ar gyfer y dyfodol; ac yn ei gwneud yn ofynnol iddynt ystyried anghenion cerddwyr a beicwyr ar y cam cynllunio wrth ddylunio cynlluniau ffyrdd newydd, gan gynnwys cynlluniau i wella ffyrdd. Mae'r darpariaethau hyn yn ychwanegol at fesurau sy'n bodoli eisoes a gynlluniwyd i sicrhau, gyhyd ag y bo'n ymarferol, ddiogelwch dysgwyr sy'n cerdded neu'n seiclo i'r ysgol.

The Safety on Learner Transport (Wales) Measure 2011 introduced provisions for the safety of learners in response to several incidents, one which, of course, had a tragic outcome. One provision of the Measure was the requirement that, from 2014, local authorities and school governing bodies ensure that seat belts are fitted in all dedicated home-to-school transport. I am currently exploring whether this should be extended to all daytime learner transport, for example as used on visits to educational sports facilities, to promote further safety. The Learner Travel (Wales) Measure 2008 set out statutory requirements for home-to-school transport. Learner travel operational guidance has been provided to local authorities to help them put in place the provisions of this Measure. Under the Measure, the route is considered to be available and safe if it is safe for a child without a disability or learning difficulty to walk the route alone or with an escort if the child is of an age that calls for such an escort. Should a route not be safe, a child cannot be expected to walk to school. However, as Suzy Davies indicated in her contribution, this was not about the use of school buses; it was about the safety of children being able to walk or cycle to school.

Cyflwynodd Mesur Diogelwch ar Gludiant i Ddysgwyr (Cymru) 2011 ddarpariaethau ar gyfer diogelwch dysgwyr mewn ymateb i sawl digwyddiad, y bu gan un ohonynt, wrth gwrs, ganlyniad trasig. Un o ddarpariaethau'r Mesur oedd y gofyniad i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion, o 2014, sicrhau bod gwregysau diogelwch ar unrhyw gludiant penodedig o'r cartref i'r ysgol. Rwy'n ystyried ar hyn o bryd pa un a ddylid ehangu hyn i bob math o gludiant i ddysgwyr yn ystod y dydd, er enghraifft, y cludiant a ddefnyddir i fynd i gyfleusterau chwaraeon addysgol, er mwyn hyrwyddo diogelwch pellach. Nododd Mesur Cludiant i Ddysgwyr (Cymru) 2008 ofynion statudol ar gyfer cludiant o'r cartref i'r ysgol. Rhoddwyd canllawiau gweithredol ar gludiant i ddysgwyr i awdurdodau lleol i'w helpu i roi darpariaethau'r Mesur hwn ar waith. O dan y Mesur, ystyrir bod y llwybr ar gael ac yn ddiogel os yw'n ddiogel i blentyn heb anabledd neu anhawster dysgu gerdded ar ei hyd ar ei ben ei hun neu gyda hebryngwr os yw'r plentyn o oedran lle mae angen hebryngwr arno. Os na fydd llwybr yn ddiogel, ni ellir disgwyl i blentyn gerdded i'r ysgol. Fodd bynnag, fel y nododd Suzy Davies yn ei chyfraniad, nid oedd a wnelo hyn â defnyddio bysiau ysgol; roedd a wnelo â diogelwch plant sy'n gallu cerdded neu seiclo i'r ysgol.

The learner travel operational guidance recommends that local authorities, when assessing the comparative safety of a route, should carry out an assessment of the risks. Therefore, they will look at canals, rivers, ditches, street lighting, pavements and the speed of traffic across roads. There is also a requirement for the local authority to carry out a risk assessment using the Road Safety GB guidance, which you have spoken eloquently about. I recognise that there are disparities between the Road Safety GB guidance on the assessment of walked routes to school and both the Learner Travel (Wales) Measure 2008 and our learner travel operational guidance 2009. The Road Safety GB guidance does not consider personal safety issues of travelling alone. I can see from Suzy Davies's contribution today that this is a matter that aggrieves her. Instinctively, if anybody in this room is a parent, or in thinking of their constituents, then that is an issue that would concern them. As I have indicated, travel arrangements are a common-sense issue, therefore I have ordered a review of the disparities between the Road Safety GB guidance and the guidance that we issue to operators. This has been undertaken as part of the review of the learner transport operational guidance for local authorities, and it will include learners' views.

Mae'r canllawiau gweithredol ar gludiant i ddysgwyr yn argymell y dylai awdurdodau lleol, wrth asesu diogelwch cymharol llwybr, gynnal asesiad o'r risgiau. Felly, byddant yn ystyried camlesi, afonydd, ffosydd, goleuadau stryd, palmentydd a chyflymder y traffig ar draws ffyrdd. Mae hefyd yn ofynnol i'r awdurdod lleol gynnal asesiad risg gan ddefnyddio canllawiau Road Safety GB, y gwnaethoch sôn amdanynt yn huawdl. Rwy'n cydnabod bod anghysondebau rhwng canllawiau Road Safety GB ar asesu llwybrau cerdded i'r ysgol a Mesur Cludiant i Ddysgwyr (Cymru) 2008 a'n canllawiau gweithredol ar gludiant i ddysgwyr 2009. Nid yw canllawiau Road Safety GB yn ystyried y materion diogelwch personol sy'n gysylltiedig â theithio ar eich pen eich hun. Gwelaf o gyfraniad Suzy Davies heddiw fod y mater hwn yn peri pryder iddi. Yn reddfol, os oes unrhyw un yn yr ystafell hon yn rhiant, neu wrth feddwl am eu hetholwyr, yna mae hwnnw'n fater a fyddai'n peri pryder iddynt. Fel y nodais, mater o synnwyr cyffredin yw trefniadau teithio, felly rwyf wedi gorchymyn adolygiad o'r anghysondebau rhwng canllawiau Road Safety GB a'r canllawiau a gyflwynir gennym i weithredwyr. Fe'i cynhaliwyd fel rhan o'r adolygiad o'r canllawiau gweithredol ar gludiant i ddysgwyr i awdurdodau lleol, a bydd yn cynnwys safbwyntiau dysgwyr.

Another important provision of the Measure is the travel behaviour code, and I think that we all accept that you must behave responsibly when you are travelling, and the Measure places a duty in that regard. However, the safety of a child is not limited to transport. It is important to ensure that a child is safe while travelling, but it can also promote their health and wellbeing. So, it is important that we look at safety in its broadest sense.

Un o ddarpariaethau eraill pwysig y Mesur yw'r cod ymddygiad wrth deithio, a chredaf fod pob un ohonom yn derbyn bod yn rhaid ichi ymddwyn yn gyfrifol wrth deithio, ac mae'r Mesur yn nodi dyletswydd yn hynny o beth. Fodd bynnag, nid yw diogelwch plentyn wedi'i gyfyngu i gludiant. Mae'n bwysig sicrhau bod plentyn yn ddiogel wrth deithio, ond gall hefyd hyrwyddo ei iechyd a'i les. Felly, mae'n bwysig inni ystyried diogelwch yn ei ystyr ehangaf.

I am also currently reviewing the work of developing the risk assessment policy. For example, the Children's Commissioner for Wales in his response to the consultation on the Active Travel (Wales) Bill set out that he would like to see children and young people being asked to express a view on whether or not home-to-school routes are safe. For instance, some of the issues that were not looked at included whether the routes should be lit, and whether social dangers are taken into account. These are issues that have been well articulated in terms of some of the considerations that we should be looking at. It is also important to recognise that you may not feel safe in yourself in doing something, because although it might be very nice to walk along the route at 12 noon in the height of summer, it is totally different when you are walking back at 3.30 p.m. in December in the howling wind and rain along an unlit route. Therefore, I am currently reviewing some of the work on these particular areas, so I am very pleased that this issue was raised with me.

Rwyf wrthi hefyd yn adolygu'r gwaith o ddatblygu'r polisi asesu risg. Er enghraifft, nododd Comisiynydd Plant Cymru yn ei ymateb i'r ymgynghoriad ar y Bil Teithio Llesol (Cymru) y byddai'n hoffi gweld plant a phobl ifanc yn cael cyfle i fynegi barn o ran pa un a yw llwybrau o'r cartref i'r ysgol yn ddiogel. Er enghraifft, roedd rhai o'r materion nas ystyriwyd yn cynnwys pa un a ddylid sicrhau bod goleuadau ar hyd y llwybr, a pha un a gaiff peryglon cymdeithasol eu hystyried. Mae'r rhain yn faterion a fynegwyd yn glir o ran rhai o'r ystyriaethau y dylem fod yn rhoi sylw iddynt. Mae hefyd yn bwysig cydnabod efallai na fyddwch yn teimlo'n ddiogel yn gwneud rhywbeth eich hun, oherwydd er nad yw o bosibl yn braf iawn cerdded ar hyd y llwybr ganol dydd yn ystod yr haf, mae'n gwbl wahanol pan fyddwch yn cerdded adref am 3.30 p.m. ym mis Rhagfyr yn y gwynt a'r glaw ar hyd llwybr heb oleuadau. Felly, rwyf wrthi ar hyn o bryd yn adolygu rhywfaint o'r gwaith ar y meysydd penodol hyn, felly rwy'n falch iawn bod y mater hwn wedi cael ei godi gyda mi.

I hope that I will be in a position to further respond to the discussions in this debate before the summer recess, with regard to the progress that my officials are making to deal with some of the disparities that you raised.

Gobeithio y byddaf mewn sefyllfa i ymateb ymhellach i'r trafodaethau yn y ddadl hon cyn toriad yr haf, o ran y cynnydd y mae fy swyddogion yn ei wneud wrth ymdrin â rhai o'r anghysondebau a godwyd gennych.

18:36

## Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography

Diolch yn fawr, Weinidog. Dyna ddiwedd ein trafodaethau heddiw.

Thank you very much, Minister. That brings today's proceedings to a close.

*Daeth y cyfarfod i ben am 6.36 p.m.*

*The meeting ended at 6.36 p.m.*